

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD		NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR GWAITH		THE EXECUTIVE	
DYDD MAWRTH 20 CHWEFROR 2024 10.00 o'r gloch		TUESDAY 20 FEBRUARY 2024 10.00 am	
CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR		HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN COMMITTEE ROOM 1	
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518	Committee Officer	

AELODAU/MEMBERS

Plaid Cymru/The Party of Wales

Neville Evans, Carwyn E Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **MATERION BRYN ARDYSTIWIYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024.

4 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 9 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

5 **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS CANOL BLWYDDYN 2023/24** (Tudalennau 17 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

6 **DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2024/25** (Tudalennau 35 - 74)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 **FFIOEDD A THALIADAU 2024/25** (Tudalennau 75 - 116)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

8 **CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024-2028** (Tudalennau 117 - 162)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

9 **CARTREFI'R AWDURDOD LLEOL I BOBL HYN - PENNU'R FFI SAFONOL 2024/25** (Tudalennau 163 - 166)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

- 10 **CYNNIG I DROSSLWYDDO DISGYBLION YSGOL CARREGLEFN I YSGOL LLANFECHELL A CAU YSGOL CARREGLEFN** (Tudalennau 167 - 256)
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.
- 11 **CYNLLUN STRATEGOL DIGIDOL CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 257 - 278)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid.
- 12 **CYNLLUN STRATEGOL CYFRANOGIAD TENANTIAID 2024-29** (Tudalennau 279 - 298)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.
- 13 **CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI ASED AU 2024-29** (Tudalennau 299 - 320)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.
- 14 **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN BIOAMRYWIAETH** (Tudalennau 321 - 374)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

Y PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 23 Ionawr, 2024

PRESENNOL:	Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd) (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams.
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Dirprwy Brif Weithredwr Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion Pennaeth Democratiaeth Swyddog Pwyllgor (ATH) Gweddarlledu (CH)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorydd Douglas Fowle (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Aled M. Jones (am ran o'r cyfarfod), Derek Owen, Dylan Rees (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio), Rheolwr Sgriwtini (AGD), Swyddog Sgriwtini (EA).

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni ddaeth yr un datganiad o ddiddordeb i law.

2. MATERION BRYD A ARDYSTIUYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w adrodd.

3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn, i'w cadarnhau –

- 28 Tachwedd 2023
- 12 Rhagfyr 2023

Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol fel rhai cywir –

- 28 Tachwedd, 2023
- 12 Rhagfyr, 2023

4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'w gadarnhau adroddiad y Pennaeth Democratiaeth yn ymgorffori Rhaglen Gwaith Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod o Chwefror i Fedi 2024.

Rhoddodd y Pennaeth Democratiaeth wybod i'r Pwyllgor Gwaith am y sefyllfa bresennol ynghylch newidiadau i'r Blaen Raglen Waith a nodwyd yr isod—

- Eitem 3 (Rheoli'r Trysorlys 2023/24 – adolygiad chwe mis), eitem 4 (Strategaeth Gyfalaf) ac eitem 5 (Ffioedd a Thaliadau 2024/25) yn eitemau newydd i gyfarfod 20 Chwefror 2024 o'r Pwyllgor Gwaith.
- Eitem 10 (Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-25) yn eitem newydd i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 20 Chwefror 2024 gydag eitem 17 cysylltiedig (Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 203/24) yn dod yn benderfyniad dirprwyedig gan yr Aelod Portffolio i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2024.
- Eitem 21 (Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2024-2029) yn eitem newydd i gyfarfod 19 Mawrth 2024 o'r Pwyllgor Gwaith.
- Eitemau 32-36 (Monitro Perfformiad a'r Gyllideb) yn eitemau newydd i gyfarfod mis Medi 2024 o'r Pwyllgor Gwaith.
- Cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Gwaith wedi'i drefnu ar gyfer 29 Chwefror, 2024 i ystyried cynigion terfynol y Gyllideb ddrafft am 2024/25.

Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Chwefror i Fedi 2024 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.

5. CYLLIDEB REFENIW DRAFFT 2024/25

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Gwaith adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori cynigion drafft cychwynnol y Gyllideb Refeniw am 2024/25.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio Cyllid, yr adroddiad, gan ddweud bod setliad dros dro Llywodraeth Cymru yn dangos cynnydd o £169.8m yn lefel gyffredinol y cyllid i Gymru, sy'n cyfateb i gynnydd o 3.1% mewn arian parod. Mae'r setliad drafft wedi arwain at gynnydd o 2.5% i Ynys Môn (0.6% yn is na chyfartaledd Cymru a'r 17eg cynnydd uchaf o'r 22 awdurdod) sydd, ar ôl i'r prif newidiadau cyllidebol gael eu hystyried, yn gadael diffyg ariannu o £14.391m cyn unrhyw newid yn Nhreth y Cyngor. Byddai pontio'r bwlch hwn drwy Dreth y Cyngor yn unig yn golygu codi Treth y Cyngor 30%, sy'n annerbyniol ac afrealistig ym marn y Pwyllgor Gwaith. Mae'r Pwyllgor Gwaith, felly, yn cynnig gwneud iawn am y diffyg trwy gyfuniad o arbedion yn y gyllideb o £4.773m (cyllid i ysgolion 2.5% yn is na chwyddiant, gostyngiadau yn y gweithlu, arbedion eraill yn y gyllideb, yn unol â Thabl 4 ac Atodiad 3 yr adroddiad a defnyddio Premiwm Treth y Cyngor i gefnogi costau gwasanaeth), defnyddio £4.425m o gronfeydd wrth gefn (£1.6m o'r Balansau Cyffredinol a £2.825m o'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd) a chynnydd o 9.78% yn Nhreth y Cyngor ynghyd ag 1.12% ychwanegol i ariannu'r cynnydd yn Ardoll y Gwasanaeth Tân (gan nodi y gallai hyn newid yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf) gan wneud cyfanswm cynnydd o 10.9%. Byddai hyn yn mynd â thâl Band D (ac eithrio praeseptau'r Heddlu a Chynghorau Tref/Cymuned) i £1,592.37, cynnydd o £156.51 neu £3.01 yr wythnos.

Er pwysleisio nad oedd lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn rhywbeth y mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfforddus ag o, cyfeiriodd y Cynghorydd Robin Williams at y cyd-destun ariannol anodd a'r hinsawdd ariannol ansicr sydd wedi gwneud paratoi'r gyllideb refeniw dros dro 2024/25 yn dasg heriol. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor ddarparu cyllideb fantoledig

ac, er gwaethaf y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor, sydd ar lefel debyg i gynnydd dangosol gan awdurdodau eraill, mae Ynys Môn yn parhau i fod yn un o'r awdurdodau sy'n codi'r dreth isaf yng Nghymru, wedi iddo reoli arian yn ddarbodus yn y blynyddoedd blaenorol. Mae hyn wedi cryfhau ei sefyllfa ariannol ac yn ei helpu i ymdrin yn y tymor byr â'r heriau y mae'n eu hwynebu. Os caiff cynigion y Gyllideb ddrafft eu cymeradwyo, byddir yn ymgynghori â'r cyhoedd yn eu cylch am bythefnos.

Manteisiodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar y cyfle i egluro'r broses o osod y gyllideb a'r opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor o ran pennu cyllideb fantoledig, sy'n ofyn cyfreithiol, a thynnodd sylw at y terfynau a'r cyfyngiadau ar y ffynonellau cyllid sydd ar gael i'r Cyngor. Daw'r rhan fwyaf o gyllid y Cyngor gan Lywodraeth Cymru ar ffurf y Grant Cynnal Refeniw, y gall y Cyngor ei wario fel y mae'n dymuno i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau lleol. Caiff y grant ei ddsbarthu yn ôl fformiwla ariannu sy'n seiliedig ar setiau data amrywiol, gan gynnwys poblogaeth, nifer y bobl sy'n derbyn budd-daliadau a disgyblion ysgol ac ati, sy'n pennu faint o gyllid y mae cyngor yn ei dderbyn. Mae cyfran 2024/25 Ynys Môn o'r cyllid wedi cynyddu 2.5%, sy'n sylweddol is na chyfradd chwyddiant. Nid yw, chwaith, yn cwrdd â'r costau uwch o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn y flwyddyn i ddod, o ystyried hefyd y galw cynyddol am wasanaethau megis plant a gofal cymdeithasol a digartrefedd oedolion wrth i fwy o bobl ddefnyddio'r gwasanaethau hynny. Mae llawer o'r costau sy'n wynebu'r Cyngor, gan gynnwys tâl athrawon, tâl staff nad ydynt yn addysgu, pensiynau, ynni, y Cyflog Byw Cenedlaethol, Ardoll y Gwasanaeth Tân ac ati, y tu hwnt i'w reolaeth ac, er bod y gyllideb yn cynnwys ffioedd a thaliadau, mae cyfyngiadau ar faint y gellir cynyddu'r rhain, gyda chap ar rai codiadau mewn ffioedd. Yr unig ffynonellau ariannu eraill sydd ar gael i'r Cyngor yw'r arian sydd ganddo wrth gefn a Threth y Cyngor. Ni all y Cyngor ddechrau cyfrifo'r swm y mae angen iddo'i gynhyrchu o Dreth y Cyngor nes ei fod yn gwybod faint o gyllid y bydd yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, rhywbeth na chafodd ei gyhoeddi tan 20 Rhagfyr, 2023. Fel yn 2023/24, mae cynigion y gyllideb am 2024/25 yn cynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i helpu i gwrdd â'r diffyg cyllid ac ynghyd ag arbedion cyllidebol, gyfyngu ar y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl. Er y bydd y dull hwn yn helpu'r Cyngor i osod cyllideb gytbwys am 2024/25, nid yw'n gynaliadwy yn y tymor hir ac nid yw'n mynd i'r afael â'r mater sylfaenol o ran cyllid digonol i allu darparu gwasanaethau yn unol â chostau a galw. Mae defnyddio arian sydd gan y Cyngor wrth gefn i wneud iawn am y diffyg yn y gyllideb, hefyd, yn gwanhau gwytnwch ariannol y Cyngor a'i allu i ymdrin â heriau ariannol yn y dyfodol, yn enwedig gan fod blwyddyn ariannol 2025/26 yn debygol o fod yr un mor heriol, os nad yn fwy heriol, o ran cost ariannu Llywodraeth Cymru, a'r dewisiadau a'r penderfyniadau y bydd yn rhaid eu gwneud o ganlyniad i hynny er mwyn galluogi'r Cyngor i fantoli ei gyllideb ac osgoi mynd yn fethdalwr.

Rhoddodd y Pennaeth Democratiaeth grynodedd o ymateb y Pwyllgorau Craffu i gynigion dros dro Cyllideb 2024/25 a'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 16 Ionawr 2024. Cadarnhaodd fod y Pwyllgor, yn dilyn trafodaeth, wedi cymeradwyo'r cynigion cyllidebol oedd yn cynnwys cyllideb ddrafft gychwynnol o £184.219m, gostyngiadau yn y gyllideb o £4.773m, defnyddio £4.425m o gronfeydd wrth gefn, cynnydd yn y premiwm ail gartrefi o 75% i 100% a chynnydd o 10.9% yn Nhreth y Cyngor oedd yn cynnwys cynnydd o 1.12% i dalu Ardoll y Gwasanaeth Tân.

Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith fod drafftio Cyllideb 2024/25 wedi bod yn dasg hynod heriol gyda graddfa'r diffyg ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn llawer mwy na'r hyn a brofwyd yn ystod y cyfnod cychwynnol o galedi, gyda phenderfyniadau anodd yn gorfod cael eu gwneud ynghylch lleihau gwasanaethau a Threth y Cyngor. Disgrifiodd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yr heriau a wynebir gan eu meysydd portffolio unigol ac, er bod pwysau yn y maes gofal cymdeithasol oedolion a phlant o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio, galw cynyddol ac anghenion mwy cymhleth yn hysbys i bawb, pwysleisiwyd, hefyd, effaith llai o gyllid, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch cyllid grant ar wasanaethau anstatudol, megis Hamdden a

werthfawrogi gan drigolion Ynys Môn, nid yn unig i chwaraeon ond er budd iechyd a lles. Cyfeiriodd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith at y cynigion fel cynnyrch trafodaeth hir dros fisoedd lawer a phwysleiswyd nad oeddent yn cael eu cyflwyno ar chwarae bach. Ystyrir mai'r cyfuniad o ostyngiadau yn y gyllideb, defnyddio cronfeydd wrth gefn a chynnydd yn Nhreth y Cyngor yw'r ateb mwyaf rhesymol o ran lleihau'r effaith a diogelu gwasanaethau i'r rhai mwyaf bregus. Derbyniodd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy a holwyd y Swyddogion ynghylch y risgiau i'r Cyngor o allu parhau i gynnal perfformiad a rhoi gwasanaethau i'r un lefel ac ansawdd os na chynnyddir cyllidebau yn unol â hynny.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod cynghorau, os nad y sector cyhoeddus ehangach, yn wynebu argyfwng ariannu a phwysleisiodd yr effaith y mae penderfyniadau cyllidebol y Cyngor yn ei chael ar gyrrff eraill yn y sector cyhoeddus, megis y Bwrdd Iechyd a'r Heddlu. Er bod llawer o'r gwasanaethau statudol y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu darparu mewn perthynas â gofal cymdeithasol a digartrefedd plant ac oedolion yn cael eu llywio gan alw, rhaid i'r Cyngor ymateb iddo waeth beth fo'r gyllideb, Mae gwasanaethau eraill yn ataliol eu natur ac yn helpu i leihau'r pwysau ar iechyd a phlisma. Dyma'r gwasanaethau sydd mewn perygl oherwydd toriadau yn y gyllideb neu ostyngiadau mewn cyllid grant, sy'n golygu y bydd y pwysau'n cael eu trosglwyddo i feysydd eraill yn y sector cyhoeddus gyda mwy o bobl yn cyrraedd pwynt argyfwng yn gynt. Mae'r Cyngor yn darparu ystod o wasanaethau anstatudol o ganolfannau hamdden i gyfleusterau cyhoeddus a datblygu economaidd, gwasanaethau sy'n cael effaith ar ansawdd bywyd y mae gan y bobl hynny, nad oes ganddynt ofynion addysg neu ofal cymdeithasol, ddisgwyliadau ohonynt fel Trethdalwyr a chyfranwyr. Er bod yn rhaid rheoli'r risg i'r gwasanaethau hyn yn 2024/25, yr hyn sy'n bwysig yn 2025/26 yw i ba raddau y gall y Cyngor gydymffurfio â gofynion statudol wrth ddarparu ei wasanaethau. Os bydd y bwlch cyllido'n parhau neu'n cynyddu yna bydd angen i Lywodraeth Cymru a rheoleiddwyr ailfeddwl am y trothwyon statudol neu bydd cynghorau'n methu'r rheini gan greu risg i'r boblogaeth hyn a'r rhai sy'n ddibynnol ar wasanaethau'r Cyngor. Mae gostyngiadau yn y gyllideb, hefyd, yn cael effaith ar forâl a lles staff, yn ogystal ag ar safon y ddarpariaeth os bydd nifer y gweithlu'n lleihau. Mae penderfyniadau i gynyddu cyflogau a phensiynau, heb roi cyllid ychwanegol i gynghorau i ariannu'r codiadau hynny, yn golygu bod llai o staff ar gyflogau a phensiynau gwell a thimau llai i ddarparu gwasanaethau.

Penderfynwyd –

- **Cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2024/25 £184.219m.**
- **Cymeradwyo cynnydd arfaethedig o 9.78% yn y Dreth Gyngor, ynghyd â 1.12% i gwrdd ag Ardoll y Gwasanaeth Tân, sef cyfanswm o 10.9% gan olygu bod y gost i eiddo Band D yn £1,592.37.**
- **Cynnig yn ffurfiol bod y premiwm ar ail gartrefi'n codi o 75% i 100%.**
- **Bod £4.425m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd wrth gefn clutnodedig er mwyn cydbwysu cyllideb refeniw 2024/25.**

6. GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL DIBRESWYL YN Y GYMUNED - FFI OEDD A THALIADAU 2024/25

Cyflwynwyd i'w ystyried adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i osod cyfradd ffioedd a thaliadau gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned am 2024/25.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, oedd yn nodi'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig am wasanaethau gofal cymdeithasol

dibreswyl yn y gymuned am flwyddyn ariannol 2024/25, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n arferol adolygu'r taliadau mewn perthynas â gwasanaethau cartref yn flynyddol i gyd-fynd ag adolygiad y Llywodraeth Ganolog o lefelau pensiwn a budd-daliadau.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y cyd-destun ar gyfer pob categori o ffioedd a thaliadau ac esboniodd y rhesymeg dros lefel y ffioedd a gynigiwyd ym mhob achos.

Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol -

- **Codi'r uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cartref.**
- **Y taliadau ar gyfer gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellir yn Nhabl A yr adroddiad:**

Haen 1 – pawb yn talu £75.14 y chwarter
Haen 2 – pawb yn talu 149.63 y chwarter
- **Y taliadau Teleofal blynyddol fel yr amlinellir yn Nhabl B:**

Gwasanaethau a Chynnal a Chadw £140.00
Gwasanaethau'n unig £90.00
Costau gosod unwaith ac am byth £56.00
- **Cyfradd o £15.95 yr awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol**
- **Gweithredu tâl o £17.00 yr awr ar gyfer Micro Ofalwyr.**
- **Cadw'r taliad o £10.00 ar gyfer gweinyddu ceisiadau am Fathodynau Glas a darparu bathodynau newydd fel yr amlinellwyd.**
- **Bod y ffi ar gyfer prynu gwasanaethu gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol yn cynyddu o 6.7% i £44.33 y dydd.**
- **Bod ffioedd Gofal Cartref yn cynyddu o £1.72 yr awr i gydymffurfio â deddfwriaeth newydd.**
- **Taliadau am Brydau mewn Gwasanaethau Dydd fel yr amlinellir yn Nhabl C:**

Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag anableddau dysgu) - £7.65
Byrbryd ganol dydd mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu - £3.25
Lluniaeth arall (te/coffi/teisen) mewn Gwasanaethau Dydd - £1.80

7. FFIOEDD CARTREFI GOFAL Y SECTOR ANNIBYNNOL AM 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i osod y gyfradd ar gyfer ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol am 2024/25, yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyngorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion oedd yn nodi'r ffioedd arfaethedig ar gyfer gofal Preswyl, gofal Preswyl yr Henoed Bregus eu Meddwl, gofal Nyrsio a gofal Nyrsio Henoed Bregus eu Meddwl, am y flwyddyn ariannol 2024/25. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol adolygu ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol yn flynyddol i gyd-fynd â newidiadau'r Llywodraeth Ganolog i lefelau budd-daliadau a phensiynau.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod angen i'r Cyngor, wrth osod lefelau ffioedd i gartrefi gofal y sector annibynnol, ddangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth lawn i gost y ddarpariaeth wrth bennu ffioedd gofal safonol. Gwneir hyn mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd trwy ddefnyddio Methodoleg Ffioedd Ranbarthol yn feincnod. Mae'r model hwn wedi'i ddefnyddio'n feincnod am 2024/25 ac mae'r pecyn cymorth methodoleg ranbarthol wedi'i addasu i gynnwys atodiad marchnad ar gyfer darpariaeth yr Henoed Bregus eu Meddwl eto eleni. Ar hyn o bryd nid oes cadarnhad y bydd pob awdurdod yng Ngogledd Cymru'n defnyddio'r fethodoleg ranbarthol yn sail i osod eu ffioedd am 2024/25. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda chymheiriad y Cyngor yn y rhanbarth i sicrhau bod ffioedd Ynys Môn yn gymaradwy. O ystyried amgylchiadau lleol, argaeledd y ddarpariaeth, pwysau galw yn ogystal â'r fformiwla ranbarthol, mae Ynys Môn yn cynnig cynyddu ei ffioedd 8.8% am 2024/25 i gydnabod y pwysau ariannol a wynebir gan ddarparwyr. Mae hyn yn fwy na'r codiadau chwyddiant a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r fethodoleg ranbarthol ac mae ymhell uwchlaw'r cynnydd o 2.5% yn setliad y Cyngor gan Lywodraeth Cymru. Mae ffioedd arfaethedig Ynys Môn am 2024/25 wedi'u nodi yn Nhabl 2 o'r adroddiad. Os caiff y cynnydd o 8.8% ei gymeradwyo, bydd yn berthnasol i gartrefi sy'n derbyn cyfraddau safonol y Cyngor. Gofynnir i unrhyw un sy'n derbyn ffioedd uwch na'r gyfradd ddangosol ar hyn o bryd rannu gwybodaeth ariannol a byddir yn ystyried codiad ariannol. Bydd yr Awdurdod yn ystyried cyflwyniadau unigol gan ddarparwyr ynghylch ffioedd ac, os gellir dangos nad yw'r ffi a osodwyd yn ddigonol mewn unrhyw achos unigol, bydd yr Awdurdod yn ystyried eithriadau i'r cyfraddau ffioedd, yn unol â'r broses a amlinellir yn yr adroddiad.

Penderfynwyd –

- **Cymeradwyo'r argymhelliad i gynyddu'r lefelau ffioedd fel a ganlyn –**

Gofal Preswyl (Oedolion) - £774.47 yr wythnos

Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) - £865.46 yr wythnos

Gofal Nyrsio (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £851.81 yr wythnos

Gofal Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £1,005.03 yr wythnos

- **Awdurdodi'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Cyllid ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi unigol i edrych are eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sylfaen i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cytuno gyda'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Oedolion, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth(Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion o'r cyllidebau cyfredol.**

8. MODERNEIDDIO A THRAWSNEWID GWASANAETHAU DYDD YN ARDAL CAERGYBI

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i gynnig i foderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau dydd i oedolion ag anabledau dysgu yn ardal Caergybi.

Y rheswm am yr adroddiad oedd er mwyn ymateb i ddyheadau defnyddwyr gwasanaeth a chynnig profiad gwell a mwy amrywiol a gwireddu gweledigaeth y gwasanaethau Oedolion bod cymaint o weithgareddau dydd â phosibl yn cael eu darparu o leoliadau cymunedol, gan roi cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu fynd i weithgareddau prif ffrwd ac integreiddio i fywyd bob dydd a gweithgaredd eu cymunedau. Holwyd defnyddwyr gweithgareddau dydd i ganfod eu barn am weithgareddau a ddarperir o leoliadau cymunedol ym mis Awst a mis Medi 2023 a cheir croestoriad o ymatebion i'r ymarfer yn Atodiad 1 yr adroddiad. Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar ddyfodol gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn yng Nghaergybi rhwng 23 Hydref a 1 Rhagfyr 2023 a cheir crynodeb o'r ymatebion yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, gan ddweud y byddai gwireddu'r weledigaeth hon yn fodd i bobl ag anableddau dysgu ddewis lle a phryd y dymunant fynd am weithgareddau. Disgrifiodd ei ymgysylltiad ei hun â phobl ag anableddau dysgu sydd, ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, wedi dangos eu bod yn glir ynghylch yr hyn y maent yn ei hoffi ac yn ei fwynhau a'r hyn sydd ei eisiau arnynt o ran profiadau, bywyd llawnach, a mwy o reolaeth dros yr hyn y maent yn ei wneud a nhw sy'n llywio'r newidiadau. Cydnabyddir bod gan unigolion anghenion gwahanol ac y bydd angen mwy o gefnogaeth ar rai unigolion nag ar eraill. Bydd y Gwasanaeth yn edrych ar gefnogaeth sy'n ymateb i anghenion unigolion.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod gweithgareddau dydd i bobl ag anableddau dysgu, yn draddodiadol, wedi'u darparu o adeilad dynodedig. Mae gan y Cyngor bedwar safle penodol sy'n darparu gweithgareddau ar gyfer tua 110 o bobl, gan gynnwys Canolfan Ddydd Morswyn yng Nghaergybi. Er bod mynd i'r canolfannau yn ymateb i anghenion nifer o bobl ac yn cadw pobl yn ddiogel, mae'r model yn canolbwyntio ar fynd i leoliad a chyflawni gweithgareddau ffurfiol a all gyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael i unigolion a chyfyngu ar eu rheolaeth bersonol dros eu bywydau eu hunain. Gan mai ar gyfer pobl ag anableddau dysgu'n unig y mae'r canolfannau'n darparu, nid ydynt bob amser yn hyrwyddo'r nod o wella hyder ac annibyniaeth pobl ag anableddau dysgu nac yn rhoi cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu integreiddio i fywyd bob dydd eu cymunedau. Yn ardal Caergybi mae'r Adran wedi edrych ar ddull amgen o ddiwallu anghenion defnyddwyr, lle darperir gweithgareddau dydd o adeiladau/leoliadau cymunedol. Roedd yr ymateb wedi bod yn gadarnhaol fel y tystiwyd gan yr ymatebion o'r ymgysylltu a'r ymgynghoriad ffurfiol. Lle mynegwyd pryder ynghylch cefnogi pobl ag anghenion cymhleth yn y gymuned bydd, y Gwasanaeth yn gweithio gyda'r unigolion hyn i nodi'r ffordd orau o ddiwallu eu hanghenion.

Y cynnig yw rhoi'r gorau i ddefnyddio Canolfan Ddydd Morswyn yng Nghaergybi. Cyn y pandemig roedd y ganolfan yn darparu gweithgareddau ar gyfer tua 20 o unigolion bob dydd. Mewn ymateb i heriau cyfyngiadau cysylltiedig â Covid-19, dechreuodd y Gwasanaeth Oedolion ddefnyddio adeiladau cymunedol yn nhref Caergybi i gynnal gweithgareddau dydd ac mae'r dull hwn wedi bod yn boblogaidd ac wedi arwain at lai o bobl yn mynd i Ganolfan Ddydd Morswyn. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r arbedion ariannol o roi'r gorau i ddefnyddio canolfan Morswyn, sy'n cynnwys £11,500 o arbedion refeniw a £103,000 o gostau cynnal a chadw hanfodol dros y blynnyddoedd nesaf. Nid oes disgwyl gwireddu arbedion yn y gyllideb staffio gan y bydd staff yn trosglwyddo i weithio yn y gymuned neu mewn canolfannau eraill.

Rhoddodd y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, ymateb Sgriwtini i'r cynigion a chyfeiriodd at y materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2024 wrth ystyried y mater. Cadarnhaodd gefnogaeth y Pwyllgor i'r cynigion gyda'r Pwyllgor hefyd yn gofyn i'r Gwasanaethau Oedolion drefnu i aelodau etholedig ymweld â gwasanaethau awdurdodau lleol sy'n cefnogi oedolion ag anableddau dysgu.

Croesawodd y Pwyllgor Gwaith y cynigion yn rhai sy'n galluogi oedolion ag anableddau dysgu i fyw bywyd mwy annibynnol a chyffredin, gyda mwy o gyfleoedd i gymryd rhan a chael eu cynnwys yn eu cymunedau. Dywedodd y Cyngorydd Dafydd Rhys Thomas, ar ôl darllen yr adroddiad a chlywed adroddiad yr Aelod Portffolio dros Wasanaethau Oedolion am ei sgysiau gyda phobl ag anableddau dysgu am eu dyheadau a'u dymuniadau, roedd yn gwbl gefnogol i'r datblygiad fel un a fydd yn agor drysau i brofiadau a chyfleoedd newydd i bobl ag anableddau dysgu a'r staff sy'n eu cefnogi er y bu ganddo amheuan yn y dechrau ynghylch cau Canolfan Ddydd Morswyn, oedd yn yn ei ward. Gan gydnabod bod gweithredu'r cynigion yn broses dros gyfnod o amser, roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn awyddus i sicrhau y rhoddir ar waith fesurau trosiannol a chefnogaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth a hefyd sicrwydd bod y cyfleusterau cymunedol yn ddigonol i ddiwallu anghenion unigol. Cynigiwyd a derbyniwyd adlewyrchu hyn yng ngeiriad y penderfyniad.

Penderfynwyd cymeradwyo argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn –

Integreiddio defnyddwyr i fod yn fwy o ran o'r gymuned ac ymateb i ddyheadau pobl sy'n mynychu gweithgareddau er mwyn darparu allbynnau gwell. Parhau i drawsnewid a moderneiddio'r ffordd o ddarparu Gweithgareddau Dydd gyda'r pwyslais ar ddefnyddio adeiladau cymunedol. Gan fod y defnydd o Morswyn wedi lleihau, dirwyn y gwasanaeth presennol i ben. Datgan yr eiddo yn weddill i anghenion gan wahodd datganiad o ddiddordeb gan adrannau eraill. Os na fydd defnydd, gwaredu'r eiddo a throsglwyddo'r dderbynneb i'r Adran Oedolion. Sicrhau bod mesurau trosiannol i ddefnyddwyr a sicrhau bod addasiad trosiannol o'r gwasanaeth i ddefnyddwyr. Sicrhau hefyd bod adnoddau/ cyfleusterau yn y gymuned yn addas ac yn cwrdd ag anghenion unigolion.

**Y Cyngorydd Llinos Medi
Cadeirydd**

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	20 Chwefror 2024
Pwnc / Testun:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Deilydd(ion) Portffolio:	Y Cyngorydd Llinos Medi
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad:	Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mawrth – Hydref 2024**;

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydy'.

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Amherthnasol.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhwch wybod gyda phwy.	
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantaidd economaidd-gymdeithasol.	
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyddrafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol.

F - Atodiadau:

Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mawrth – Hydref 2024

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2024

Mae'r flaen raglen waith hon yn rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgrwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Tudalen 12
Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae'r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw'r ffaith nad yw penderfyniad wedi'i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 8 Chwefror 2024

Mawrth 2024

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Penderfyniad dirprwyiedig: Mawrth 2024	Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2022/23	Cyng Llinos Medi	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio: 13 Mawrth 2024
Cyfarfod 19 Mawrth 2024	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Llinos Medi	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 3 2023/24	Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol: 12 Mawrth 2024
	Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2024–2054	Cyng Gary Pritchard	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol: 12 Mawrth 2024
	Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach ar gyfer 2022/23	Cyng Robin Williams Cyng Dafydd Roberts	
	Cynllun Strategol Rheoli Asedau Corfforaethol 2024-2029	Cyng Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol: dyddiad i'w gadarnhau Cyngor llawn: dyddiad i'w gadarnhau
	Cynllun Strategol Tacio Tlodi	Cyng Llinos Medi	
	Rhaglen Amlinellol Strategol – Rhaglen Dreigl	Cyng Dafydd Roberts	

Tudalen 13

Ebrill 2024

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 23 Ebrill 2024	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Llinos Medi	
	Asesiad y Farchnad Dai Leol	Cyng Gary Pritchard	

Mai 2024

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod mis Mai 2024 – dyddiad i'w gytuno	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Llinos Medi	

Tudalen 14

Mehefin 2024

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Penderfyniad dirprwyiedig: Mehefin 2024	Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023/24	Cyng Dafydd Roberts	
Cyfarfod mis Mehefin 2024 – dyddiad i'w gytuno	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Llinos Medi	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 4, 2023/24	Cyng Robin Williams	

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwrtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 4, 2023/24	Cyng Robin Williams	
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 4, 2023/24	Cyng Robin Williams	
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 4, 2023/24	Cyng Robin Williams	
	Cynllun Rheoli Ystad Mân-ddaliadau 2024-2034	Cyng Dafydd Rhys Thomas	
	Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau	Cyng Alun Roberts	

Gorffennaf 2024

Tudalen 15

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwrtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod mis Gorffennaf 2024 – dyddiad i'w gytuno	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Llinos Medi	

Medi 2024

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod mis Medi 2024 - dyddiad i'w gytuno	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Llinos Medi	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 1, 2024/25	Cyng Robin Williams	
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2024/25	Cyng Robin Williams	
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 1, 2024/25	Cyng Robin Williams	
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 1, 2024/25	Cyng Robin Williams	

Tudalen 16

Hydref 2024

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod mis Hydref 2024 - dyddiad i'w gytuno	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Llinos Medi	

CYNGOR SIR YNYS MÔN		
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH	
Dyddiad:	20 CHWFROR 2024	
Pwnc:	ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS CANOL BLWYDDYN 2023/24	
Deilydd Portffolio:	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS, DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID	
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	R MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151	
Awdur yr Adroddiad:	CLAIRE KLIMASZEWSKI	
Ffôn:	01248 752133	
E-bost:	claire.klimaszewski@ynysmon.llyw.cymru	
Aelodau Lleol:	Amherthnasol	
A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau		
1. I ystyried cynnwys yr adroddiad ac anfon unrhyw sylwadau ymlaen i'r Cyngor llawn.		
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?		
Adroddiad craffu ac er gwybodaeth yw hwn ac nid yw ystyried opsiynau'n berthnasol.		
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chôd Darbodus CIPFA 2021.		
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa rheoli trysorlys lle mae penderfyniadau ynglŷn â benthyca a buddsoddi wedi cael eu gwneud yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2023.		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Nid oes angen penderfyniad mewn perthynas â'r adroddiad hwn a fydd yn effeithio ar gyllideb y Cyngor.		
DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Dim sylwadau ychwanegol.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Dim sylwadau ychwanegol.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Sgriwtini	Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n craffu ar yr adroddiad hwn ar 8 Chwefror 2024.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol
10	Arall	Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:- <ul style="list-style-type: none"> I dderbyn yr adroddiad ar yr Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli Trysorlys 2023/24, ac i'w argymhell i'r Pwyllgor Gwaith heb sylw.

E – Aseu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae rheoli trysorlys yn allweddol o ran hwyluso cynaliadwyedd ar gyfer anghenion yr Ynys yn yr hir dymor gan fod cynlluniau benthycan cynorthwyo i gyllido gwariant cyfalaf i sicrhau fod asedau ar gael heddiw ac yn y dyfodol. Mae'n rhaid hefyd i gynlluniau trysorlys fod yn fforddiadwy i sicrhau nad yw penderfyniadau Rheoli Trysorlys a wneir yn y tymor byr a'r tymor canol yn creu anfantais i genedlaethau'r dyfodol.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-	Mae'n rhaid i'r strategaeth Rheoli Trysorlys a'r gweithgareddau fod yn fforddiadwy er mwyn lliniaru'r effaith yn y dyfodol. Gallai rhywfaint o wariant cyfalaf a gyllidir gan fenthycan, megis o dan y cynllun Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a chynlluniau buddsoddi i arbed eraill gynorthwyo i leihau costau yn y dyfodol.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhwch wybod gyda phwy:	Yn aml, mae gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn cyllido prosiectau cyfalaf mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis Llywodraeth Cymru. Roedd / mae ysgolion newydd / estyniadau o dan Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael eu cyllido gyda chyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	Ymgynghorir â dinasyddion Môn bob blwyddyn ynglŷn â'r rhaglen gyfalaf flynyddol, ac mae cyfran o'r rhaglen honno'n ddibynnol ar weithgareddau Rheoli Trysorlys. Mae ymgynghori mwy manwl yn digwydd mewn perthynas â rhai prosiectau cyfalaf, megis adeiladu ysgolion newydd / ad-drefnu ysgolion.
5	Nodwch effeithiau posib y penderfyniad hwn ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Bydd asedau newydd sy'n cael eu hadeiladu a'u cyllido trwy fenthycan yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae rhaglenni adnewyddu ac amnewid blynyddol hefyd yn helpu i wella hygyrchedd a chaniatáu amrywiaeth.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.	Gwaith monitro statudol ar weithgareddau Rheoli Trysorlys yw hwn, nid penderfyniad strategol.
7	Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae rhai o'r prosiectau sy'n cael eu cyllido trwy fenthycan cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu a thyfu'r iaith Gymraeg, megis ysgolion cyfrwng Gymraeg sy'n cael eu hadeiladu fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
F – Atodiadau:		
<p>Atodiad A – Adroddiad Rheoli Trysorlys Chwarter 2 2023/24</p> <p>Atodiad B – Dadansoddiad o Fenthyciadau Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) Cyngor Sir Ynys Môn fesul blwyddyn Aeddfedu</p> <p>Atodiad C – Dadansoddiad Economaidd – Link Group</p> <p>Atodiad CH – Dadansoddiad BBGC – Link Group</p>		
FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):		
<ul style="list-style-type: none"> Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24 – Cyngor Sir Ynys Môn 9 Mawrth 2023 https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=127&MId=4049&Ver=4&LLL=1 Adroddiad Rheoli Trysorlys Chwarter 1 2023/24 – Pwyllgor Gwaith 24 Hydref 2023 https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=134&MId=4211&Ver=4&LLL=1 		

1. Cefndir

- 1.1** Mae'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) 2023/24 yn darparu'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau rheoli trysorlys o ddydd i ddydd ac yn y tymor canol. Mae'r DSRhT yn rhan allweddol o brosesau cynllunio strategol y Cyngor i gynorthwyo i nodi beth yw blaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn y dyfodol.
- 1.2** Mae gweithgareddau rheoli trysorlys yn unol â'r DSRhT, yn allweddol ar gyfer gweithredu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023/28, Strategaeth Gyfalaf 2023/24 yn ogystal â sawl cynllun strategol a gweithredol cysylltiedig. Mae gwariant cyfalaf yn hanfodol i sicrhau fod y Cyngor yn meddu ar yr asedau tymor hir, megis swyddfeydd y cyngor, ysgolion, cyfleusterau gofal cymdeithasol, tai Cyngor, isadeiledd TGCh, meddalwedd a chyfarpar, cerbydau ac offer, sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor, ac i gynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023/28. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod asedau cyfredol y Cyngor yn cael eu hadnewyddu, eu hystyngwys neu eu hamnewid yn ôl yr angen a bod asedau newydd, megis ysgolion newydd, yn cael eu hadeiladu er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.
- 1.3** Mae cyllid cyfalaf yn brin, felly mae'r Cyngor yn cyllido rhai prosiectau cyfalaf trwy fenthycia â chefnogaeth, lle mae'r Cyngor yn derbyn cyllid ar gyfer hynny yn y grant cynnal refeniw blynyddol gan Lywodraeth Cymru, neu fenthycia digefnogaeth, sy'n cael ei gyllido'n llawn gan y Cyngor. Fel arfer bydd benthycia'n cael ei wneud trwy fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC). Mae hyn yn rhan allweddol o'r gwaith rheoli trysorlys, a dyna sydd i gyfrif am y cyswllt pwysig â'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2023/24 a rhoi'r rhaglen gyfalaf ar waith.
- 1.4** Mae'r Côt Ymarfer Rheoli Trysorlys 2021, sydd yn ganllaw statudol, yn diffinio rheoli trysorlys fel:

"Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny."

2. Cyflwyniad

- 2.1** Mae rheoli trysorlys yn cynnwys tasgau sy'n sicrhau fod digon o arian parod yng nghyfrif cyffredinol y Cyngor i dalu biliau o ddydd i ddydd, a buddsoddi arian dros ben, yn ychwanegol i'r hyn sydd ei angen yn y cyfrif cyffredinol. Mae'n rhaid i'r buddsoddiadau hyn fod mewn cyfrifon hynod ddiogel, megis banciau yn y DU sydd â statws credyd uchel, fel y diffinnir yn y DSRhT. Mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch ei arian, yn unol â'r Côt, ac mae'n sicrhau fod digon o arian parod ar gael ar unwaith fel y gall y Cyngor dalu cyflenwyr, staff a budd-daliadau ar y dyddiadau talu gofynnol. Yr ystyriaeth olaf yw elw ar fuddsoddiadau, ac mae'r Cyngor yn buddsoddi i dderbyn y gyfradd log uchaf posib o fewn y grŵp o sefydliadau sydd yn ddiogel ac yn cwrdd â'r meini prawf yn y DSRhT 2023/24. Eifen olaf Rheoli Trysorlys yw rheoli portffolio benthyciadau'r Cyngor, i sicrhau nad yw lefel benthycia'r Cyngor yn rhy uchel a bod costau refeniw benthycia yn fforddiadwy.

2.2 Un o swyddogaethau allweddol y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn rhoi syniad o faint y bydd angen i'r Cyngor ei fenthycu, sef, yn ei hanfod, cynllunio llif arian yn y tymor hwy i sicrhau y gall y Cyngor gyflawni ei weithgareddau gwariant cyfalaf. Gall rheoli arian yn y tymor hwy gynnwys trefnu benthyciadau tymor hir neu dymor byr, neu ddefnyddio llif arian dros ben yn y tymor hwy ac, ar adegau, gellir ailstrwythuro unrhyw ddyledion i gwrdd ag amcanion y Cyngor yn gysylltiedig â risg a chostau.

2.3 Mae cyswllt agos rhwng Strategaeth Gyfalaf 2023/24, Rhaglen Gyfalaf 2023/24 ac adroddiadau monitro chwarterol y gyllideb gyfalaf a gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor. Yn unol â deddfwriaeth, gall y Cyngor ond benthycu ar gyfer gwariant cyfalaf, nid costau refeniw, ac eithrio pan fydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyfarwyddeb cyfalafu ar gyfer gwariant refeniw eithriadol penodol, megis cyfalafu ôl-daliadau tâl cyfartal. Mae'r strategaeth gyfalaf, y rhaglen gyfalaf flynyddol a'r DSRhT i gyd yn cefnogi blaenoriaethau allweddol y Cyngor sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2023/28. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r gwaith o fonitro gweithgareddau rheoli trysorlys yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023 i sicrhau cydymffurfiaeth â'r DSRhT.

3. Diweddariad Economaidd

3.1 Mae ymgynghorwyr rheoli trysorlys allanol y Cyngor, Link Group, yn anfon nifer o ddiweddariadau bob wythnos, megis adroddiadau economaidd ac adroddiadau credyd, er mwyn cynorthwyo swyddogion ac Aelodau'r Cyngor i wneud y penderfyniadau gorau ynglŷn â gweithgareddau rheoli trysorlys. Mae Link Group wedi darparu diweddariad economaidd ar gyfer yr ail chwarter, ac mae copi ohono yn Atodiad C. Mae Link Group wedi darparu'r rhagolwg o gyfraddau llog canlynol yn ddiweddar hefyd:-

Tabl 1 – Rhagolwg o Gyfradd Sylfaen Banc Lloegr, chwyddiant a Chyfraddau BBGC, rhwng Ionawr 2024 a Medi 2025.

	15 Ion 2024	Mawrth 2024	Mehefin 2024	Medi 2024	Rhagfyr 2024	Mawrth 2025	Mehefin 2025	Medi 2025
Cyfradd Banc (%)	5.25%	5.25%	5.25%	4.75%	4.25%	3.75%	3.25%	3.00%
Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr – <i>Capital Economics</i>	Rhagfyr - 3.7%	3.8%	2.9%	0.80%	0.70%	0.90%	0.6%	1.2%
Cyfradd blwydd-dal 5 mlynedd BBGC (%)	4.63%	4.50%	4.40%	4.30%	4.20%	4.10%	4.00%	3.80%
Cyfradd blwydd-dal 10 mlynedd BBGC (%)	4.86%	4.70%	4.50%	4.40%	4.30%	4.20%	4.10%	4.00%
Cyfradd blwydd-dal 25 mlynedd BBGC (%)	5.43%	5.20%	5.10%	4.90%	4.80%	4.60%	4.40%	4.30%
Cyfradd blwydd-dal 50 mlynedd BBGC (%)	5.24%	5.00%	4.90%	4.70%	4.60%	4.40%	4.20%	4.10%

- 3.2** Targed chwyddiant Banc Lloegr, a osodwyd gan y Llywodraeth, yw 2%. Dechreuodd chwyddiant godi'n uwch na'r ffigwr hwn ym mis Awst 2021, ac roedd cyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) wedi cyrraedd ei lefel uchaf, sef 11.1%, erbyn mis Hydref 2022 o ganlyniad i effaith ymosodiad Rwsia ar Wcráin, a arweiniodd at gynnydd sylweddol ym mhrisiau ynni a bwyd. Arhosodd chwyddiant yn uchel am fwy o amser na'r disgwyl, ond dechreuodd ostwng ym mis Ebrill 2023, i 8.7%, ac roedd yr MPD wedi gostwng i 7.9% erbyn diwedd y chwarter cyntaf. Parhau i ostwng wnaeth cyfraddau chwyddiant yn ystod yr ail chwarter ac roedd yr MPD yn 6.7% ar 30 Medi 2023.
- 3.3** Ar ddechrau'r pandemig, cafodd y gyfradd sylfaen ei gostwng i'w lefel isaf, sef 0.1%, er mwyn cefnogi'r economi. Ym mis Rhagfyr 2021, cododd Banc Lloegr y gyfradd i 0.25%, ac yna gwelwyd cynnydd o rhwng 0.25% a 0.75% (sef y cynnydd uchaf) yn y gyfradd sylfaen ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC). Ym mis Awst 2023, cododd y MPC y gyfradd sylfaen i 5.25%, ac ni newidiwyd y gyfradd o 5.25% yng nghyfarfod yr MPC ym mis Medi 2023, sef y tro cyntaf i hynny ddigwydd ers Rhagfyr 2021. Pleidleisiodd yr MPC o blaid peidio â newid y gyfradd o 5.25% yn ei gyfarfodydd ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2023 hefyd.
- 3.4** Ym mis Mawrth 2023, roedd DSRhT 2023/24 yn adrodd bod disgwyl i gyfradd sylfaen Banc Lloegr gyrraedd uchafbwynt o 4.5% yn yr haf ac y byddai cyfraddau'n gostwng yn araf yn ystod 2024 a 2025. Yn yr adolygiad rheoli trysorlys ar gyfer chwarter 1, nodwyd nad oedd disgwyl i gyfradd sylfaen Banc Lloegr godi'n uwch na 5.25%. Dengys y dadansoddiad uchod bod y gyfradd o 5.25% wedi aros yr un fath yn ystod pedwar cyfarfod olynol o'r MPC. Er hynny, mae risg y bydd chwyddiant yn codi yn sgil problemau cyflenwi sy'n deillio o'r rhyfel yn Gaza a phroblemau gyda llongau ar y Môr Coch sydd wedi arwain at wrthdaro ehangach. Erbyn hyn, mae mwy o risg y gallai'r gyfradd sylfaen godi eto, mewn ymdrech i reoli chwyddiant.
- 3.5** Mae'r Cyngor yn elwa ar gyfradd sylfaen uwch ar gyfer buddsoddi arian parod sydd dros ben, ac mae hynny wedi cynorthwyo'r Cyngor i ennill dros £1m mewn taliadau llog. Er hynny, mae benthyciadau'n costio mwy i'r Cyngor ers i Fanc Lloegr ddechrau codi cyfraddau llog i geisio rheoli chwyddiant. Mae benthycia allanol yn cael ei ohirio, felly, hyd nes na fydd y balansau arian parod yn ddigonol i barhau i ddefnyddio balansau'r Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf (benthycia mewnol).

4. Sefyllfa Fenthycia'r Cyngor 30 Medi 2023.

- 4.1** Benthyciadau BBGC – Mae benthyciadau allanol y Cyngor gyda'r BBGC yr un fath ag a nodwyd yn y DSRhT ym mis Mawrth 2023, ac eithrio bod £8k o'r prif swm gwreiddiol wedi cael eu had-dalu. Yr angen i osgoi benthycia tra bod cyfraddau llog yn codi sydd i gyfrif am hyn. Yn hytrach, defnyddiwyd balansau arian parod y Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf. Mae hyn yn unol â chyngor Link Group ar fenthycia yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Y gost yn gysylltiedig â hyn yw bod llai o falansau i'w buddsoddi, ond, serch hynny, mae costau benthycia'n uwch na'r enillion ar fuddsoddiadau. I sicrhau fod gan y Cyngor ddigon o arian i dalu ei gredydwyd a chyflogau, mae'n rhaid cadw digon o arian parod mewn cyfrifon galw ar unwaith. Fel arfer, mae'r cyfraddau llog ar y cyfrifon hyn yn llawer is, felly, mae'r Cyngor yn parhau i wneud arbedion rhesymol ar log taladwy wrth ddefnyddio balansau arian parod.
- 4.2** Mae Atodiad B yn cynnwys rhestr lawn o fenthyciadau BBGC sy'n parhau i fod yn ddyledus. Mae'r benthyciad hynaf yn dyddio o 1969, ac mae cyfraddau llog y mwyafrif o'r benthyciadau'n uwch na chyfraddau presennol, er gwaethaf y cynnydd diweddar yn y gyfradd log. Maent wedi cael eu trefnu yn ôl y flwyddyn ariannol pryd mae'n rhaid ad-dalu'r benthyciad. Yn ogystal, mae gwerth presennol y benthyciadau wedi'i gynnwys yn y golofn olaf gan fod gwerth arian yn gostwng dros amser. Mae hyn yn adlewyrchiad mwy realistig o effaith y benthyciadau yn y dyfodol. Cyfanswm y benthyciadau yw £119.564m, ond gwerth y benthyciadau hyn, ar ôl eu gostwng i'w gwerth presennol, yw £47.666m. Amcangyfrifir bod y benthyciad o £15m, sydd i'w ad-dalu yn 2068/2069, yn cyfateb i £3.190m ar brisiau heddiw, gan ddefnyddio'r gyfradd disgownt o 3.5% ar gyfer y sector cyhoeddus.

Tabl 2a- Benthyciadau BBGC sy'n Ddyledus - 30 Medi 2023

Benthyciadau BBGC ar 30 Medi 2023			
	BBGC / BBGC Aeddfedu £'000	BBGC EIP / Blwydd-dal £ '000	Cyfanswm Benthyciadau BBGC ar 30 Medi 2023 £'000
Benthyciad Dyledus	119,400	164	119,564
Hyd cyfartalog (blynyddoedd)	30.82	4.06	35
Cyfradd cyfartalog (%)	4.53	9.42	14

Tabl 2b – Proffil Aeddfedrzydd Benthyciadau BBGC sy'n ddyledus 30 Medi 2023

Nifer o flynyddoedd nes i'r benthyciad aeddfedu	Prifswm £'m	Gwerth Presennol o'r Prifswm £'m
<1	2	2
1 i 3	1	1
4 i 6	4	3
7 i 10	3	3
11 i 14	2	2
15 i 22	23	12
23 i 33	42	15
34 i 50	41	10
	120	48

- 4.3** Benthyciadau Salix – Sefydliad Llywodraeth Cymru yw Salix ac mae'n darparu benthyciadau di-log, ac yn fwy diweddar, grantiau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi'r amgylchedd ac er mwyn cynorthwyo cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru i weithio tuag at gyflawni eu targed sero net erbyn 2030. Roedd y DSRhT 2023 yn dangos fod gan y Cyngor, yn Chwefror 2023, £3.099m o fenthyciadau di-log yn ddyledus i Salix. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi derbyn mwy o fenthyciadau a gymeradwywyd gan Salix gan fod prosiectau sy'n cael eu cyllido gan fenthyciadau Salix wedi datblygu ymhellach. Roedd gan y Cyngor £4.035m o fenthyciadau Salix ar 30 Medi 2023. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu dros gyfnod o 8 neu 10 mlynedd, yn ddibynnol ar y cytundeb, ac mae 2 ad-daliad y flwyddyn yn cael eu gwneud fesul benthyciad. Mae'r benthyciadau hyn wedi cyllido goleuadau stryd LED, goleuadau LED mewn ysgolion a chanolfannau hamdden, yn ogystal â sawl prosiect cynaliadwy arall.

Tabl 3 – Benthyciadau Eraill sy'n Ddyledus ar 30 Medi 2023.

Benthyciadau Eraill ar 30 Medi 2023							
	Benthyciad Salix 1 £'000	Benthyciad Salix 2 £'000	Benthyciad Salix 3 £'000	Benthyciad Salix 4 £'000	Benthyciad Salix 5 £'000	Benthyciad Salix 6 £'000	Cyfanswm £'000
Balans Dyledus	16.5	114.0	349.8	158.4	1,873.7	1,522.9	4,035.3
Dyddiad Ad-dalu	2024/25	2025/26	2027/28	2029/30	2031/32	2035/36	
Cyfradd Llog (%)	-	-	-	-	-	-	-

5. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

- 5.1** Cymeradwywyd y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) ar gyfer 2023/24, sydd yn cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, gan y Cyngor ar 9 Mawrth 2023.
- 5.2** Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau'r elw (enillion) uchaf posibl ar ei fuddsoddiadau sy'n gymesur â lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd, sy'n cyd-fynd â lefel y risg y mae'r Cyngor am ei gymryd.

- 5.3** Parhaodd cyfraddau buddsoddi i gynyddu yn ystod chwarter cyntaf 2023/24, ac mae'r Cyngor wedi elwa trwy fuddsoddi mewn buddsoddiadau diogel cyfnod penodol. Ym mis Awst 2023, cynyddodd Banc Lloegr y gyfradd sylfaenol i 5.25% ac mae wedi aros ar 5.25%. Mae mwy o risg y gallai'r gyfradd sylfaenol gyrraedd ei lefel uchaf y tu hwnt i 5.25% oherwydd y gwrthdaro presennol yn y Dwyrain Canol ac effaith cyflenwadau oherwydd bod llongau'n cael eu targedu yn y Môr Coch.
- 5.4 Teilyngdod i gael Credyd –** Ychydig o newidiadau sydd wedi bod i gyfraddau credyd yn ystod y chwarter dan sylw. Fodd bynnag, mae swyddogion yn parhau i fonitro'r rhain yn ofalus, a mesurau teilyngdod credyd eraill, i sicrhau mai dim ond gwrthbartïon priodol sy'n cael eu hystyried at ddibenion buddsoddi.
- 5.5 Meini Prawf ar gyfer Gwrthbartïon Buddsoddi –** Mae'r meini prawf presennol ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi a gymeradwywyd yn y DSRhT yn bodloni ofynion swyddogaeth rheoli'r trysorlys.
- 5.6 Balans y Buddsoddiadau –** Cyfanswm y buddsoddiadau ar 30 Medi 2023 oedd £45.345m, fel y dangosir yn Nhabl 4 isod. Roedd yr elw ar y buddsoddiadau hyn rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023 yn £1.088m, a disgwylir i gyfanswm y llog y gellir ei dderbyn ar y buddsoddiadau a restrir isod fod yn £1.752m ar gyfer 2023/24. Mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod yn uwch wrth i fuddsoddiadau newydd gael eu gwneud pan fydd y rhain yn aeddfedu. Fodd bynnag, mae'r balansau arian parod yn lleihau wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, felly, ni fydd yn ymarferol adnewyddu pob un o'r buddsoddiadau hyn pan fyddant wedi aeddfedu.

Tabl 4 - Buddsoddiadau a ddelir rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023

Gwrthbarti	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	Cyfradd Llog	Symiau Buddsoddi 1 Ebrill i 30 Medi 2023	Prifswm Buddsoddi ar 30 Medi 2023	Amcangyfrif o'r llog a enillir am y cyfnod	Amcangyfrif o Gyfanswm y Llog ar y buddsoddiadau hyn 2023/24
			%			£	£
NatWest - Cyfrif Galw - amcangyfrif am y cyfnod	01/04/2023	31/03/2024	1.70%	2,844,585	2,844,585	93,176	174,649
Banc yr Alban - Cyfrif Galw National Westminster Bank – Cyfnod Penodol	18/04/2023	31/03/2024	5.14%	7,500,000	7,500,000	156,591	349,341
National Westminster Bank – Cyfnod Penodol	11/01/2023	11/07/2023	4.10%	10,000,000	-	113,452	113,452
National Westminster Bank – Cyfnod Penodol	11/07/2023	11/01/2024	5.88%	10,000,000	10,000,000	130,488	296,416
Santander	10/02/2023	10/05/2023	4.00%	7,500,000	-	32,055	32,055
Santander	10/05/2023	10/11/2023	4.76%	7,500,000	7,500,000	139,866	179,967
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	06/04/2023	06/07/2023	4.17%	5,000,000	-	51,982	51,982
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	06/07/2023	08/01/2024	5.47%	5,000,000	5,000,000	64,441	139,373
Goldman Sachs	22/12/2022	22/06/2023	3.83%	7,500,000	-	64,533	64,533
Goldman Sachs	22/06/2023	22/12/2023	5.52%	7,500,000	7,500,000	113,425	207,567
Cyngor Wakefield	22/08/2023	22/09/2023	5.23%	5,000,000	-	22,210	22,210
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam	25/10/2022	25/04/2023	3.80%	5,000,000	-	12,493	12,493
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam	25/04/2023	25/10/2023	4.30%	5,000,000	5,000,000	93,068	107,795
Cyfanswm					45,344,585	1,087,779	1,751,832

- 5.7** Gosododd y Cyngor gyllideb o £1.036m ac, ar ôl trosglwyddo llog sy'n ddyledus ar falensau ysgolion a'r CRT, fe barheir i amcangyfrifo y rhagorir ar y targed cyllidebol yma yn 2023/24

5.8 Terfynau Awdurdodedig – Gall swyddogion gadarnhau na aethpwyd yn uwch na'r terfynau awdurdedig o fewn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Medi 2023.

6. Dangosydd Darbodus ar gyfer Gwariant Cyfalaf

6.1 Sefyllfa Gyfalaf y Cyngor

Mae Tabl 5 isod yn dangos yr amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r gyllideb gyfalaf yn chwarter 2:-

Tabl 5 – Gwariant Cyfalaf

	Amcangyfrif Gwreiddiol 2023/24	Cyllideb Ddiwygiedig a Gymeradwywyd 2023/24	Cyllideb hyd at 30 Medi 2023	Gwariant hyd at fis Medi 2023	Chwarter 2 Amcangyfrif ar gyfer Cyfanswm Gwariant 2023/24
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cronfa'r Cyngor	24,405	40,030	11,997	10,760	36,431
CRT	13,557	19,988	7,003	7,943	21,878
Cyfanswm	37,962	60,018	19,000	18,703	58,309

6.1.1 Paratowyd y gyllideb wreiddiol ym mis Ionawr 2023 cyn gwybod beth oedd y llithriad o 2022/23. Mae'r gyllideb ddiwygiedig a gymeradwywyd yn cynnwys £13.477m o lithriad o 2022/23, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 27 Mehefin 2023. Cafodd cyllideb gyfalaf ychwanegol o £8.579m ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae £7.044m o'r cynlluniau ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyllido gan grantiau. Mae'r newidiadau yn ystod y flwyddyn yn dangos bod disgwyl i swm benthycy digefnogaeth ostwng £2.797m, er bod disgwyl i fenthycy â chefnogaeth gynyddu £1.661m. Mae benthycy â chefnogaeth yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru yn y Grant Cynnal Refeniw blynyddol.

6.1.2 Y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 yw £60.018m, ac roedd disgwyl i £58.309m o'r swm hwn gael ei wario erbyn 31 Mawrth 2024, fel yr adroddwyd yn yr adroddiad monitro cyfalaf chwarter 2, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 28 Tachwedd 2023. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023, roedd £18.7m o wariant gwirioneddol wedi'i wneud yn erbyn cyllideb a broffiliwyd o £19m, a ddangosodd fod gwariant yn agos iawn at y gyllideb ar 30 Medi 2023.

6.2 Newidiadau o ran Cyllido'r Rhaglen Gyfalaf

6.2.1 Mae rhai newidiadau i'r modd y cyllidir y rhaglen gyfalaf, fel y gwelir yn Tabl 6 isod, oherwydd y newidiadau i'r gyllideb gyfalaf a nodwyd yn 6.1.1 a 6.1.2 uchod.

6.2.2 Mae Tabl 6 isod yn dwyn ynghyd brif elfennau strategol y cynlluniau gwariant cyfalaf (uchod), gan dynnu sylw at ddull cyllido gwreiddiol y rhaglen gyfalaf, a threfniadau cyllido disgwyliedig y gwariant cyfalaf hwn. Mae elfen fenthycy'r tabl yn cynyddu dyled sylfaenol y Cyngor trwy'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), er y bydd hyn yn cael ei ostwng yn rhannol gan daliadau refeniw ar gyfer ad-dalu dyledion (Darpariaeth Refeniw Isaf). Efallai y bydd dyledion sy'n aeddfedu a gofynion trysorlys eraill yn ychwanegu at yr angen benthycy uniongyrchol hwn hefyd. Gallai ffynhonnell y cyllid ar gyfer prosiectau hefyd newid ar ddiwedd y flwyddyn gan fod cyllid yn cael ei ddyrannu yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol i liniaru pwysau cyllido cyfalaf. Mae hyn hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i ymateb i gynigion diweddarach o gyllid grant allanol lle gofynnir i'r Cyngor ddisodli'r cyllid yn y flwyddyn ond i sicrhau bod cyllid yn y flwyddyn nesaf i gyflawni amodau'r grant sy'n cael ei gynnig.

Tabl 6 – Amcangyfrif o Gyllid Gwariant Cyfalaf

Cyllid Cyfalaf	2023/24 Amcangyfrif gwreiddiol £'000	2023/24 Amcangyfrif Diwygiedig £'000
Grantiau Cyfalaf	22,367	35,229
Derbyniadau Cyfalaf	500	443
Cronfeydd wrth gefn	0	4,096
Cyfraniad Refeniw	9,221	11,635
Benthyca â Chefnogaeth	3,077	8,500
Benthyca Digefnogaeth	2,797	38
Benthyciad	0	77
Cyfanswm	37,962	60,018

6.3 Newidiadau i'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), Dyled Allanol a'r Terfyn Gweithredol

6.3.1 Dangosydd Darbodus - Terfynau Dyled Allanol

Mae'r tabl isod yn dangos, ar 30 Medi 2023, fod y Cyngor ymhell o fewn y terfynau dyled a osodwyd gan Ddatganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) 2023/24 a rhagwelir y bydd £50k o fewn yr uchafswm ar fenthyca (terfyn awdurdodedig) a £45k o fewn y terfyn gweithredol ar 31 Mawrth 2024.

Y terfyn awdurdodedig yw'r swm uchaf posibl y caniateir i'r Cyngor ei fenthyca. Gellir newid hyn dim ond os yw'n fforddiadwy a gyda chaniatâd y Cyngor llawn. Dylid ystyried opsiynau eraill yn gyntaf, megis adolygu'r prosiectau a gyllidir drwy fenthyca neu ystyried ffynonellau cyllido eraill. Y terfyn gweithredol yw'r lefel o fenthyca lle mae'n rhaid iddo sbarduno'r adolygiad o opsiynau ar gyfer cyllido prosiectau neu gamau eraill i sicrhau nad eir y tu hwnt i'r terfyn awdurdodedig.

Tabl 7 – Dyled Allanol o'i gymharu â Therfynau Benthyca

Dangosydd Darbodus - Terfynau Dyled Allanol	DSRhT 2023/24 £'000	Swm o fewn Terfynau Dyled DSRhT ar 30 Medi 2023 £'000	Amcangyfrif o'r Sefyllfa Fenthyca 31 Mawrth 2023 £'000	Amcangyfrif Swm o fewn Terfynau Dyled y DSRhT ar 31 Mawrth 2024 £'000
Terfyn Awdurdodedig - benthyca cyffredinol	175,000	51,400	175,000	49,851
Terfyn Gweithredol - benthyca cyffredinol	170,000	46,400	170,000	44,851
Benthyca cyffredinol gwirioneddol 30 Medi 2023	123,600	AMH	125,149	AMH
Rhwymedigaethau hirdymor eraill	5,000	5,000	-	-

6.4. Dangosydd Darbodus - Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)

6.4.1 Mae Tabl 8 isod yn dangos y GCC, sef yr angen sylfaenol i fenthycu er mwyn cyllido gwariant cyfalaf. Mae disgwyl i'r GCC fod £1.451m yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol. Mae hyn yn ymwneud a GCC cronfa'r Cyngor, ac yn ymwneud a llithriad o raglen gyfalaf 2022/23. Mae hyn yn cuddio'r ffaith fod cynnydd o £4.133m yn ymwneud a benthycu digefnogaeth sydd wedi'i ddyrannu i brosiectau sydd wedi llithro i 2023/24 a bod gostyngiad ym menthycu digefnogaeth o £2.759m yn ymwneud a'r rhaglen ysgolion Band B. Yn ogystal, mae llithriad o £0.077m ar brosiect a gyllidir gan fenthyciad Salix. Disgwylir newidiadau wrth i'r DSRhT gael ei baratoi cyn i'r rhaglen gyfalaf ar gyfer y flwyddyn gael ei chwblhau. Gall prosiectau cyfalaf hefyd lithro am amryw o resymau neu deir o hyd i gyllid arall i leihau'r swm benthycu sydd ei angen.

Tabl 8 – Newid yn y Gofynion Cyllido Cyfalaf 2023/24 ar 30 Medi 2023

Dangosydd Darbodus - Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)	2023/24 Amcangyfrif Gwreiddiol £'000	2023/24 Amcangyfrif Diwygiedig £'000
GCC – Cronfa'r Cyngor	111,697	113,148
GCC – CRT	38,286	38,286
Cyfanswm GCC	149,983	151,434
Symudiad net yn GCC	-	1,451

6.4.2 Dadansoddiad o fenthycu

Mae'r tabl uchod yn dangos mai'r GCC diwygiedig a ragwelir ar gyfer 2023/24 yw £151.434m. Mae hyn yn cynnwys £123.600m o fenthycu allanol, yn bennaf gan y BBGC gyda benthyciadau di-log Salix ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni a charbon isel. Y gwahaniaeth rhwng y GCC, sef faint o wariant cyfalaf a gyllidir drwy fenthycu, a'r benthycu allanol / gwirioneddol a wneir, yw'r benthycu mewnol. Dyma lle mae'r Cyngor wedi defnyddio balansau arian parod i gyllido gwariant cyfalaf er mwyn gohirio'r benthycu gwirioneddol cyhyd ag y bo modd, i arbed taliadau llog sy'n daladwy. Mae hyn yn unol â DSRhT 2023/24 a dyma'r dull a argymhellir gan Link Group, ymgynghorwyr rheoli trysorlys y Cyngor, oherwydd effaith yr economi ar gyfraddau llog a giltiau y mae cyfraddau llog BBGC yn seiliedig arnynt. Pan fydd balansau arian parod yn mynd yn rhy isel, bydd y benthyciad hwn yn cael ei allanoli trwy gymryd benthyciadau newydd gan y BBGC. Er mwyn lleihau'r taliadau cyllido cyfalaf, mae'n debygol y byddai benthyciadau tymor byrrach hyd at bum mlynedd yn cael eu trefnu.

Tabl 9 – Proffil benthycu rhwng benthycu allanol a benthycu mewnol (defnyddio balansau arian parod)

	Y sefyllfa bresennol ar 30 Medi 2023 £'000	Amcangyfrif o'r GCC Diwygiedig 31 Mawrth 2024 £'000
Benthycu allanol	123,600	125,154
Benthycu mewnol	27,834	26,280
Rhwymedigaethau hirdymor eraill	-	-
(blwyddyn diwedd y flwyddyn)	151,434	151,434

7. Aildrefnu Dyledion

7.1 Mae'r cyfleoedd i aildrefnu dyledion wedi cynyddu'n sylweddol yn y cyfnod presennol, gan fod enillion gilt, sy'n tanategu cyfraddau BBGC a benthyciadau'r farchnad, wedi codi'n sylweddol. Cwblhawyd ymarfer ym mis Mehefin 2023, a oedd yn dangos y byddai newid benthyciadau presennol am fenthyciadau newydd yn denu disgowntiau ond, oherwydd y cyfraddau llog uwch, byddai'r llog a fyddai'n daladwy hyd nes y byddai'r benthyciadau hynny'n aeddfedu yn llawer iawn uwch ac, felly'n anfforddiadwy gan y byddai'r costau refeniw cyllido cyfalaf yn cynyddu.

8. Cydymffurfio â Therfynau Trysorlys a Darbodus

8.1 Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i bennu a pharhau i adolygu'r terfynau benthycia fforddiadwy. Yn ystod yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2023, mae'r Cyngor wedi gweithredu o fewn y dangosyddion trysorlys a darbodus a nodir yn Natganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2023/24. Dywed y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ni ragwelir unrhyw anawsterau ar gyfer y flwyddyn gyfredol na'r blynyddoedd i ddod o ran cydymffurfio â'r dangosyddion hyn.

8.2 Mae'r holl weithrediadau rheoli trysorlys hefyd wedi'u cynnal yn unol ag Arferion Rheoli Trysorlys y Cyngor.

9. Casgliad

9.1 Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023, mae'r Cyngor wedi mynd ati'n rhagweithiol i adneuo balansau arian dros ben mewn banciau diogel yn y DU ac awdurdodau lleol. Mae'r Cyngor wedi elwa ar y cynnydd yn y gyfradd llog yn ystod y cyfnod gyda £1.088m mewn llog i'w dderbyn ar yr adneuron hyn. Rhagwelir y bydd y llog a amcangyfrifir y gellir ei dderbyn ar gyfer y flwyddyn gyfan ar y buddsoddiadau sy'n weithredol yn ystod y cyfnod yn £1.752m. Mae tri o adneuron wedi'u trefnu ers 30 Medi 2023, a bydd adroddiad arnynt maes o law. Dylid nodi y bydd y CRT, yr ysgolion a'r symiau mae'r Cyngor yn ei ddal ar ran eraill yn derbyn cyfran o'r llog y gellir ei dderbyn yn seiliedig ar eu balansau ar 31 Mawrth 2024 a'r gyfradd llog gyfartalog o'r holl adneuron. Dylid nodi hefyd, bod balansau arian y Cyngor yn lleihau, felly, efallai na fydd y llog a geir yn y dyfodol yn cyrraedd y lefelau yn 2023/24.

9.2 Nid yw'r Cyngor wedi gwneud cais am unrhyw fenthyciadau BBGC yn ystod y cyfnod i leihau llog sy'n daladwy a gohirio'r benthycia a nodwyd ar gyfer cyllido prosiectau cyfalaf penodol hyd nes y bydd angen. Mae'r Cyngor wedi benthycio benthyciadau di-log gan Salix ar gyfer prosiectau cyfalaf effeithlonrwydd ynni / carbon isel.

9.3 I grynhoi, mae safbwynt Rheoli Trysorlys y Cyngor yn parhau'n sefydlog gyda gwell adenillion ar fuddsoddiadau na ragwelwyd a'r holl ddangosyddion darbodus yn parhau o fewn y ffiniau a'r targedau a osodwyd yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24. Nid oes unrhyw fenthycia allanol newydd wedi digwydd wrth i strategaeth y Cyngor barhau i fod i ddefnyddio benthycia mewnol i gyllido gwariant cyfalaf ond wrth i arian wrth gefn gael ei ddefnyddio (cydbwyso'r gyllideb, lleihau balansau ysgolion, defnydd o arian wrth gefn y CRT er mwyn cyllido gwariant cyfalaf) mae lefel yr arian parod sydd ar gael yn lleihau sydd o ganlyniad wedi lleihau'r symiau sydd ar gael i fuddsoddi a'r lefel o fenthycia mewnol y gellir ei gefnogi. Bydd hyn yn gofyn am newid strategaeth yn y dyfodol gan y bydd angen ymgymryd â benthycia allanol ychwanegol.

**MARC JONES
CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU)
A SWYDDOG ADRAN 151**

ATODIAD B

Aeddfedrwydd - Blwyddyn Ariannol	Cyfeirnod Benthyciad BBGC	Prifswm £	Cyfradd Llog %	Gwerth Presennol Prifswm Benthyciad ar 3.5% £
2023/2024	475890	1,000,000	8.5	
	473692	569,200	7.875	
	475927	284,600	8.5	
Cyfanswm 2023/2024		1,853,800		1,853,800
2026/2027	474962	853,800	8.625	
	503948	527,601	3.67	
Cyfanswm 2026/2027		1,381,401		1,245,945
2027/2028	473954	674,502	7	
	493424	1,000,000	5.2	
	503949	490,601	3.73	
Cyfanswm 2027/2028		2,165,103		1,886,762
2028/2029	400773	20,064	9.5	
	503950	262,440	3.8	
Cyfanswm 2028/2029		282,504		237,861
2029/2030	401356	5,903	9.25	
	401772	3,934	9.25	
	402384	5,962	9.375	
	402971	1,156	9.125	
	403625	7,149	9.25	
	406721	12,590	9.25	
	474795	853,800	8.625	
	503951	684,697	3.85	
Cyfanswm 2029/2030		1,575,192		1,281,419
2030/2031	407327	8,981	9.375	
	408828	5,651	9.25	
	409994	7,992	9.75	
	410218	4,879	9.75	
	410734	2,153	9.625	
	410915	8,782	9.75	
	411471	7,912	9.25	
	503952	450,706	3.91	
Cyfanswm 2030/2031		497,055		390,681
2031/2032	475733	1,280,700	8.625	
	503953	660,449	3.96	
Cyfanswm 2031/2032		1,941,149		1,474,131
2032/2033	422775	26,935	9.25	
	423932	33,446	9.5	
	426595	1,252	9.875	
	503954	314,886	4.01	
Cyfanswm 2032/2033		376,518		276,263
2033/2034	503955	636,565	4.05	
Cyfanswm 2033/2034		636,565		451,273
2034/2025	503956	623,834	4.09	
Cyfanswm 2034/2025		623,834		427,292
2035/2036	503957	611,357	4.13	
Cyfanswm 2035/2036		611,357		404,586

Aeddfedrwydd - Blwyddyn Ariannol	Cyfeirnod Benthyciad BBGC	Prifswm £	Cyfradd Llog %	Gwerth Presennol Prifswm Benthyciad ar 3.5% £
2036/2037	503958	599,130	4.16	
Cyfanswm 2036/2037		599,130		383,086
2037/2038	503959	587,147	4.18	
Cyfanswm 2037/2038		587,147		362,729
2038/2039	503960	225,467	4.2	
Cyfanswm 2038/2039		225,467		134,579
2039/2040	493437	5,000,000	4.95	
Cyfanswm 2039/2040		5,000,000		2,883,530
2040/2041	493438	3,500,000	4.95	
Cyfanswm 2040/2041		3,500,000		1,950,213
2042/2043	503961	999,781	4.25	
Cyfanswm 2042/2043		999,781		520,042
2043/2044	503962	1,020,120	4.25	
Cyfanswm 2043 / 2044		1,020,120		512,678
2044/2045	503963	1,009,718	4.25	
Cyfanswm 2044 / 2045		1,009,718		490,290
2045/2046	503964	11,464,215	4.25	
Cyfanswm 2045 / 2046		11,464,215		5,378,444
2050/2051	490892	2,000,000	4.15	
Cyfanswm 2050/2051		2,000,000	4.15	790,024
2052/2053	491677	6,800,000	4.2	
	492220	5,000,000	4.05	
	492698	6,000,000	4.25	
	493722	5,000,000	4.55	
	493723	1,138,400	4.55	
	493906	4,300,000	4.55	
Cyfanswm 2052 / 2053		28,238,400		10,412,858
2054/2055	474612	3,000,000	8.375	
Cyfanswm 2054 / 2055		3,000,000		1,032,691
2055/2056	476679	1,500,000	8	
	476783	2,000,000	7.875	
Cyfanswm 2055 / 2056		3,500,000		1,164,064
2056/2057	478340	2,000,000	7.875	
	479464	3,000,000	7.125	
Cyfanswm 2056 / 2057		5,000,000		1,606,714
2057/2058	479465	3,000,000	7.125	
	479802	3,000,000	6.875	
	480214	2,000,000	6.5	
	480215	512,854	6.5	
Cyfanswm 2057/2058		8,512,854		2,643,037
2059/2060	483423	1,763,308	4.25	
Cyfanswm 2059/2060		1,763,308		511,064
2064/2065	508920	10,000,000	2.24	
Cyfanswm 2064 / 2065		10,000,000		2,357,791
2066/2067	505939	6,200,000	2.2	
Cyfanswm 2066 / 2067		6,200,000		1,412,397
2068/2069	508376	15,000,000	2.49	
Cyfanswm 2068/2069		15,000,000		3,189,889
Cyfanswm		119,564,619		47,666,132

Diweddariad ar yr Economi hyd yma a'r Rhagolygon

- Yn ystod hanner cyntaf 2023/24:-
 - Bu cynnydd pellach o 100bps mewn cyfraddau llog, gan fynd â'r Gyfradd Banc o 4.25% i 5.25% ac, o bosibl, roedd y tynhau ar ei lefel uchaf.
 - Mae giliau tymor byr, canolig a hir yn parhau'n uchel wrth i chwyddiant godi, er mawr syndod.
 - Gostyngiad o 0.5% m/m mewn CMC gwirioneddol ym mis Gorffennaf, yn bennaf oherwydd mwy o streiciau.
 - Bu gostyngiad o ran chwyddiant CPI o 8.7% ym mis Ebrill i 6.7% ym mis Awst, ei gyfradd isaf ers mis Chwefror 2022, ond yr uchaf o hyd yn y G7.
 - Bu gostyngiad o ran chwyddiant craidd CPI i 6.2% ym mis Awst o 7.1% ym mis Ebrill a mis Mai - ar ei uchaf ers 31 mlynedd ar y pryd.
 - Mae amodau'r farchnad lafur wedi arafu, ond does dim tystiolaeth eto ei fod wedi arwain at ostwng twf mewn cyflogau (wrth i dwf 3 mis fesul blwyddyn o enillion cyfartalog godi i 7.8% ym mis Awst, ac eithrio taliadau bonws).
- Mae'r cwmp 0.5% m/m mewn CMC ym mis Gorffennaf yn awgrymu bod twf sylfaenol wedi colli momentwm ers yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd rhywfaint o'r cwmp ym mis Gorffennaf oherwydd bod bron i ddwywaith cymaint o ddiwrnodau gwaith wedi'u colli oherwydd streiciau ym mis Gorffennaf (281,000) nag ym mis Mehefin (160,000). Ond gydag allbwn yn gostwng mewn 10 allan o'r 17 sector, mae'n ymddangos bod awgrym o wendid sylfaenol.
- Yn sgil y gostyngiad yn y Mynegeion Rheolwr Prynu cyfansawdd o 48.6 ym mis Awst i 46.8 ym mis Medi roedd ar ei lefel isaf ers i gyfnodau clo COVID-19 leihau gweithgaredd ym mis Ionawr 2021. O edrych ar y ffigyrau moel, mae'n gyson â'r cynnydd o 0.2% ch/ch mewn CMC gwirioneddol yn y cyfnod rhwng Ebrill a Mehefin, gyda gostyngiad o hyd at 1% yn dilyn yn ail hanner 2023.
- Nid yw'r cynnydd o 0.4% m/m o ran lefelau gwerthiant manwerthu ym mis Awst cystal ag y mae'n edrych gan ei fod yn adlewyrchu'n rhannol y cynnydd mewn gwerthiant ar ôl y tywydd anarferol o wlyb ym mis Gorffennaf. Roedd lefel gwerthiant ym mis Awst 0.2% yn is na'r lefel ym mis Mai, gan awgrymu bod llawer o'r gwytnwch o ran gweithgarwch manwerthu yn hanner cyntaf y flwyddyn wedi lleihau.
- Wrth i effaith gynyddol cyfraddau llog uwch ddwysáu dros y chwe mis nesaf, credwn y bydd yr economi yn parhau i gollu momentwm ac y bydd yn wynebu rhywfaint o ddirwasgiad yn fuan. Mae'r galw mawr am lafur, twf cyflym mewn cyflogau a chymorth ariannol gan y llywodraeth i gyd wedi cefnogi incwm aelwydydd dros y flwyddyn ddiwethaf. A gyda chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) heibio ei lefel uchaf a'r ffaith bod disgwyl iddo ostwng ymhellach, mae'r economi wedi mynd trwy'r argyfwng costau byw heb fynd i ddirwasgiad. Ond er bod y gwaethaf a'r cwmpo mwyaf mewn incwm gwario gwirioneddol aelwydydd y tu cefn i ni, mae'r ffaith bod y llywodraeth yn mynd i roi'r gorau'n raddol i'r pecynnau cymorth ariannol a ddarparwyd yn ystod yr argyfwng ynni yn golygu bod incwm gwirioneddol yn annhebygol o wella'n sylweddol. Bydd cyfraddau llog uwch yn taro'n galed yn fuan hefyd. Rydym yn disgwyl i Fanc Lloegr gadw cyfraddau llog, yn fwy na thebyg, ar y lefel uchaf o 5.25% tan ail hanner 2024. Mae cyfraddau morgais yn debygol o aros yn uwch na 5.0% am tua blwyddyn.
- Er bod y farchnad lafur yn dynn parhaodd i lacio, gyda chyflogaeth yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf yn gostwng o 207,000. Mae'r gostyngiad pellach yn nifer y swyddi gwag o 1.017m ym mis Gorffennaf i 0.989m ym mis Awst yn awgrymu bod y farchnad lafur wedi llacio ychydig ymhellach ers mis Gorffennaf. Dyma'r tro cyntaf iddi ostwng o dan 1m ers Gorffennaf 2021. Ar 3.0% ym mis Gorffennaf, ac yn debygol o fod wedi gostwng i 2.9% ym mis Awst, mae'r gyfradd swyddi gwag yn agosáu at 2.5%, a fyddai'n gyson â thwf cyflog arafach. Yn y cyfamser, mae'r gostyngiad o 48,000 yn y cyflenwad o weithwyr yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf yn gwrthbwysu rhywfaint o'r llacio yn y farchnad lafur. Roedd hynny oherwydd cynnydd o 63,000 mewn anweithgarwch yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf wrth i fwy o bobl adael y farchnad lafur oherwydd salwch tymor hir neu i fynd i mewn i addysg. Mae'r cyflenwad llafur yn dal i fod 0.3% yn is na'i lefel cyn y pandemig ym mis Chwefror 2020.
- Ond nid yw'r arafu yn amodau'r farchnad lafur wedi arwain at ostwng twf mewn cyflogau. Er i gyfradd twf enillion cyfartalog lacio'n sydyn o lefel uwch ddiwygiedig +2.2% ym mis Mehefin i -0.9% ym mis Gorffennaf, roedd llawer o hynny oherwydd nad oedd y taliadau bonws untro i staff y GIG ym mis Mehefin yn cael eu hailadrodd ym mis Gorffennaf. Cododd y gyfradd uchaf 3 mis fesul blwyddyn o 8.4% (wedi newid o 8.2%) i 8.5%, a olygai fod y twf yng nghyflogau'r DU yn parhau i fod yn llawer cyflymach nag yn yr UD ac yn ardal yr Ewro. Ar ben hynny, er bod cyfradd cyflogau yn y sector preifat, a fesurir yn agos gan Fanc Lloegr, wedi gostwng ychydig ym mis Gorffennaf, o 8.2% am 3 mis fesul blwyddyn ym mis Mehefin i 8.1% am 3 mis fesul blwyddyn, mae'n dal ymhell uwchlaw'r hyn a ragwelwyd gan Fanc Lloegr, sef gostyngiad i 6.9% ym mis Medi.

- Bu gostyngiad o ran chwyddiant CPI o 6.8% ym mis Gorffennaf i 6.7% ym mis Awst, y gyfradd isaf ers mis Chwefror 2022. Y syndod cadarnhaol mwyaf oedd y gostyngiad mewn chwyddiant CPI craidd, lle bu gostyngiad o 6.9% i 6.2%. Mae hynny'n gwyrddio'r holl gynnydd ers mis Mawrth ac yn golygu bod y bwll rhwng y DU a manau eraill wedi lleihau (chwyddiant craidd yr UD yw 4.4% ac, yn ardal yr Ewro, mae'n 5.3%). Bu gostyngiad mewn chwyddiant nwyddau craidd o 5.9% i 5.2% ac mae'r llacio pellach mewn chwyddiant prisiau cynhyrchwyr nwyddau craidd, o 2.2% ym mis Gorffennaf i'r lefel isaf mewn 29 mis o 1.5% ym mis Awst, yn awgrymu y bydd yn y pen draw yn gostwng yn agos at sero. Ond y datblygiad mwyaf cadarnhaol oedd y gostyngiad mewn chwyddiant gwasanaethau o 7.4% i 6.8%. Mae hynny hefyd yn gwyrddio'r rhan fwyaf o'r cynnydd ers mis Mawrth ac yn mynd ag ef yn is na'r rhagolwg a gyhoeddwyd gan Fanc Lloegr ddechrau mis Awst, sef 7.2%.
- Yn ei gyfarfod polisi ariannol diweddaraf ar 20 Medi, gadawodd Banc Lloegr gyfraddau llog heb eu newid ar 5.25%. Mae'n ymddangos bod y llacio o ran chwyddiant CPI gwan ym mis Awst, y llacio diweddar yn y farchnad lafur a'r arolygon gweithgarwch pesimistaidd wedi argyhoeddi Banc Lloegr ei fod eisoes wedi codi digon ar y cyfraddau. Mae'r cofnodion yn dangos bod y penderfyniad y bleidlais yn "agos". Pleidleisiodd pum aelod MPC (Bailey, Broadbent, Dhingra, Pill a Ramsden) dros ddim newid a phleidleisiodd y pedwar arall (Cunliffe, Greene, Haskel a Mann) dros godiad o 25bps.
- Fel Fed UDA, mae Banc Lloegr eisiau i'r marchnadoedd gredu yn y naratif uwch am hirach. Nid oedd y datganiad yn dweud bod cyfraddau wedi cyrraedd y lefel uchaf ac unwaith eto dywedodd os oedd tystiolaeth o bwysau chwyddiant mwy parhaus "byddai angen tynhau ymhellach o ran polisi". Dywedodd y Llywodraethwr Bailey, "byddwn yn gwyllo'n agos i weld a oes angen rhagor o gynnydd". Fe wnaeth y Banc hefyd gadw'r canllawiau llym y bydd cyfraddau'n parhau i "gyfyngu'n ddigonol am gyfnod digonol".
- Mae'r naratif hwn yn gwneud synnwyr gan nad yw Banc Lloegr am i'r marchnadoedd benderfynu y bydd uchafswm mewn cyfraddau yn cael ei ddilyn yn fuan gan doriadau mewn cyfraddau llog, a fyddai'n llacio amodau ariannol ac yn tanseilio ei ymdrechion i ddileu chwyddiant. Mae'r iaith hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i Fanc Lloegr ymateb i ddatblygiadau newydd. Gallai cynnydd mewn chwyddiant gwasanaethau, cynnydd arall mewn twf cyflogau a / neu naid arall ym mhrisiau olew ei orfodi i godi cyfraddau yn y cyfarfod nesaf ar 2 Tachwedd, neu hyd yn oed oedi ym mis Tachwedd a chodi cyfraddau ym mis Rhagfyr.
- Bu gostyngiad yn enillion Giltiau 10 mlynedd o uchafbwynt o 4.74% ar 17 Awst i 4.44% ar 29 Medi, yn bennaf gan fod buddsoddwyr wedi ailedrych ar eu disgwyliaidau o ran cyfraddau llog. Ond hyd yn oed ar ôl y gostyngiad diweddar, mae'r cynnydd mewn enillion Giltiau wedi bod yn uwch na'r cynnydd yn y rhan fwyaf o gynnyrch arall llywodraeth y Farchnad Ddatblygedig ers dechrau'r flwyddyn. Wrth edrych ymlaen, unwaith y bydd chwyddiant yn arafu, bydd enillion Giltiau'n lleihau ymhellach. Bydd dirwasgiad (cymharol) dros y ddau chwarter nesaf yn cefnogi'r safbwynt hwn os yw'n helpu i lacio'r farchnad lafur (diweithdra uwch / llai o gynnydd mewn cyflogau).
- Gwanhaodd y bunt o'i lefel uchel o \$1.30 yng nghanol mis Gorffennaf i \$1.21 ddiwedd mis Medi. Yn hanner cyntaf y flwyddyn, fe gododd y bunt yn ôl yn gryf ar ôl llanast Truss yr hydref diwethaf. Roedd y codiad hwnnw'n cael ei yrru i raddau helaeth gan y newid sylweddol yn nisgwyliaidau cyfraddau llog y DU. Fodd bynnag, dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae disgwyliaidau o ran cyfraddau llog wedi gostwng yn sydyn wrth i chwyddiant ddechrau gostwng, wrth i dwf arafu, a galwodd Banc Lloegr ar roi diwedd ar ei gylch o godi cyfraddau.
- Mae'r FTSE 100 wedi codi mwy na 2% ers diwedd mis Awst, o tua 7,440 ar 31 Awst i 7,608 ar 29 Medi. Mae hyn yn wedi cael ei yrru'n bennaf gan brisiau ynni uwch a roddodd hwb i brisiau cwmnïau ynni. Mae nifer cymharol uchel y FTSE 100 o gwmnïau ynni yn helpu i esbonio pam y gwnaeth ecwiti'r DU berfformio'n well nag ecwiti yr UD ac ardal yr Ewro ym mis Medi. Serch hynny, mor ddiweddar â 21 Ebrill roedd y FTSE 100 yn 7,914.

Paratowyd yr atodiad hwn gan Link Group – Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys

Dadansoddiad Cyfraddau BBGC 1 Ebrill 2023 i 30 Medi 2023

Er nad oedd angen benthyciadau BBGC newydd ar y Cyngor yn ystod y cyfnod, mae'r manylion isod yn darparu'r wybodaeth am newidiadau yng nghyfraddau BBGC yng nghydestun cyfraddau llog a giliau cynyddol.

Cyfraddau sicrwydd aeddfedrwydd BBGC (giliau ynghyd â 80bps) am y flwyddyn hyd yma hyd at 29 Medi 2023


Roedd enillion giliau a chyfraddau sicrwydd BBGC yn gyffredinol yn cynyddu trwy gydol hanner cyntaf 2023/24. Ddechrau mis Ebrill, y gyfradd 5 mlynedd oedd y rhan rataf o'r gromlin, sef 4.14%, tra bod y gyfradd 25 mlynedd yn gymharol gostus ar 4.58%.

Ym mis Gorffennaf, gwelwyd cyfraddau tymor byr yn cyrraedd uchafbwynt ar eu mwyaf costus. Cynyddodd y gyfradd 1 flwyddyn i 6.36% a'r gyfradd 5 mlynedd i 5.93%. Er, maes o law, bu gostyngiad yn nisgwyliaidau cyfraddau tymor byr, symudodd y rhai tymor canolig yn uwch trwy Awst a chododd y gyfradd 10 mlynedd yn uwch i 5.51% a'r gyfradd 25 mlynedd i 5.73%. Roedd y gyfradd 50 mlynedd yn 4.27% ar 5 Ebrill ond cododd i 5.45% ar 28 Medi.

Rydym yn rhagweld y bydd y cyfraddau yn gostwng yn ôl dros y ddwy neu dair blynedd nesaf wrth i chwyddiant ostwng. Disgwylir i'r mesur chwyddiant CPI ostwng yn is na 2% yn ail hanner 2024, ac rydym yn rhagweld y bydd cyfraddau 50 mlynedd yn 3.90% erbyn diwedd mis Medi 2025. Fodd bynnag, mae cryn ansicrwydd a fydd y cyfraddau'n gostwng mor bell â hynny oherwydd lefel y giliau yn y farchnad dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.



PWLB Certainty Rate Variations 3.4.23 to 29.9.23



CYFRADDAU BBGC UCHEL / ISEL / CYFARTALOG AR GYFER 01.04.23 – 29.09.23

	Blwyddyn	5 Mlynedd	10 Mlynedd	25 Mlynedd	50 Mlynedd
Isel	4.65%	4.14%	4.20%	4.58%	4.27%
Dyddiad	06/04/2023	06/04/2023	06/04/2023	06/04/2023	05/04/2023
Uchel	6.36%	5.93%	5.51%	5.73%	5.45%
Dyddiad	06/07/2023	07/07/2023	22/08/2023	17/08/2023	28/09/2023
Cyfartaledd	5.62%	5.16%	5.01%	5.29%	5.00%
Wedi ei Daenu	1.17%	1.79%	1.31%	1.15%	1.18%

- Mae'r cyfraddau BBGC cyfredol wedi'u gosod fel elw dros enillion giltiau fel a ganlyn:-
 - Mae **Cyfradd Safonol BBGC** yn gilt ynghyd â 100 pwynt sylfaen (G+100bps)
 - Mae **Cyfradd Sicrwydd BBGC (GF)** yn gilt ynghyd â 80 pwynt sylfaen (G+80bps)
 - Mae **Cyfradd Isadeiledd Lleol BBGC** yn gilt ynghyd â 60 pwynt sylfaen (G+60bps)
 - Mae **Cyfradd Sicrwydd BBGC (CRT)** yn gilt ynghyd â 40 pwynt sylfaen (G+40bps)
- Bydd **Banc Isadeiledd y DU** yn rhoi benthyg i awdurdodau lleol sy'n bodloni meini prawf ei gynllun ar gyfradd a bennir ar hyn o bryd yn gilt ynghyd â 40bps (G+40bps).

Patatowyd yr atodiad hwn gan Link Group – Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	20 CHWEFROR 2024
Pwnc / Testun:	DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2024/25
Deilydd Portffolio:	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS, DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID
Pennaeth Gwasanaeth:	MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	CLAIRE KLIMASZEWSKI
Ffôn:	ClaireKlimaszewski@ynysmon.llyw.cymru
E-bost:	
Aelodau Lleol:	Amherthnasol
A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau	
<ul style="list-style-type: none"> Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) blynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Rheoliadau Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i God Darbodus CIPFA a Chodau Rheoli Trysorlys CIPFA, y cyhoeddwyd y fersiynau diweddaraf ohonynt yn 2021. Mae'r DSRhT hwn yn cydymffurfio â'r gofynion yn y ddau god ac yn nodi'r holl ofynion y mae'n rhaid eu dilyn wrth gynnal gweithgareddau rheoli trysorlys Cyngor Sir Ynys Môn. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod buddsoddiadau'r Cyngor yn ddiogel ac yn ddigon hygyrch fel bod digon o arian parod ar gyfer taliadau o ddydd i ddydd wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae'r DSRhT, fel sy'n ofynnol gan y codau, hefyd yn darparu fframwaith i sicrhau bod lefelau benthyca'r Cyngor yn parhau'n ddarbodus a fforddiadwy. Cyflwynodd Cod Darbodus CIPFA, 2021 (A29) adroddiadau monitro yn amlach ar waith rheoli'r trysorlys. Cyn fersiwn 2021 o'r cod, adolygiad canol blwyddyn o reoli'r trysorlys ac adroddiad monitro alldro diwedd blwyddyn rheoli'r trysorlys oedd y safonau gofynnol. Yn unol â'r Cod Darbodus diwygiedig, mae'r Cyngor bellach yn cynhyrchu adroddiadau chwarterol ar reoli'r trysorlys sy'n arwain at adroddiad alldro rheoli'r trysorlys, ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi gwybodaeth fonitro ar y dangosyddion darbodus sy'n edrych i'r dyfodol ac a nodir yn yr atodiadau yn y DSRhT. Mae'r adroddiadau'n amlygu unrhyw amrywiadau sylweddol o'r dangosyddion cymeradwy ac yn cynnwys rhagolygon ar fenthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Nid oes angen i'r adroddiadau ychwanegol fynd i'r Cyngor llawn, felly, cyflwynir y rhain i'r Pwyllgor Gwaith i'w cymeradwyo. Bydd adroddiadau ar adolygiad canol blwyddyn ac alldro rheoli'r trysorlys yn parhau i gael eu harchwilio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith a'u cymeradwyo gan y Cyngor llawn. <p>Argymhellion</p> <ul style="list-style-type: none"> Ystyried y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2024/25 a gwneud argymhellion neu nodi sylwadau i'w hystyried gan y Cyngor llawn. 	
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?	
Amherthnasol	

C – Pam fo hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydi		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Amherthnasol		
DD – Aseu'r effaith bosib (os yn berthnasol)		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys	Mae rheoli'r trysorlys yn allweddol i hwyluso cynaliadwyedd ar gyfer anghenion tymor hir yr Ynys gan fod cynlluniau benthyca yn helpu i gyllido'r gwariant cyfalaf i sicrhau bod asedau ar gael rŵan ac yn y dyfodol. Rhaid i gynlluniau'r Trysorlys hefyd fod yn fforddiadwy i sicrhau nad yw cenedlaethau'r dyfodol dan anfantais oherwydd penderfyniadau Rheoli'r Trysorlys a wneir yn y tymor byr a'r tymor canolig.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-	Rhaid i strategaeth a gweithgaredd Rheoli'r Trysorlys fod yn fforddiadwy i liniaru'r effaith ar y dyfodol. Gall rhywfaint o wariant cyfalaf a gyllidir gan fenthyca, megis Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a chynlluniau buddsoddi i arbed eraill a gyllidir gan fenthyca, helpu i leihau costau yn y dyfodol.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhwch wybod gyda phwy-	Mae gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys yn aml yn cyllido prosiectau cyfalaf mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis Llywodraeth Cymru. Mae ysgolion / estyniadau newydd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi'u cyllido / yn cael eu cyllido gyda chyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	Ymgynghorir â Dinasyddion Môn bob blwyddyn am y rhaglen gyfalaf flynyddol, y mae rhywfaint ohoni'n dibynnu ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys. Ymgynghorir yn fanylach ar rai prosiectau cyfalaf, megis adeiladu ysgolion newydd / ad-drefnu ysgolion.
5	Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Bydd asedau newydd a gyllidir drwy fenthyca yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae rhaglenni ailwampio ac adnewyddu blynyddol hefyd yn helpu i gynyddu hygyrchedd a galluogi amrywiaeth.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Mae'r DSRhT yn ofynnol bob blwyddyn.
7	Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae rhai o'r prosiectau a gyllidir trwy fenthyca yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr Iaith Gymraeg a chynnydd ynddi, megis yr ysgolion cyfrwng Gymraeg a adeiladwyd yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.


E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tim Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	
2	Cyllid / Swyddog 151(gorfodol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 ydi hwn
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	
10	Arall	<p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • I dderbyn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2024/25, ac i'w argymhell i'r Pwyllgor Gwaith heb sylw.
F - Atodiadau:		
<ol style="list-style-type: none"> 1. Egwyddorion Allweddol Rheoli'r Trysorlys 2. Cefndir economaidd 3. Rhagolygon graddfeudd llog 4. Proffil benthyciadau'n aeddfedu 5. Datganiad Polisi DRI 6. Buddsoddiadau penodol ac amhenodol 7. Meini prawf gwrthbartïon 8. Gwledydd cymeradwy ar gyfer buddsoddiadau 9. Cynllun dirprwyo ar gyfer materion Rheoli Trysorlys a rôl y Swyddog Adran 151 10. Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys 11. Eglurhad o Ddangosyddion Darbodus a Thrysorlys 12. Geirfa o ddangosyddion Darbodus a Rheoli'r Trysorlys, a gwybodaeth amdanynt 		
FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda):		
<ul style="list-style-type: none"> • Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023; • Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys 2022/23, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 26 Hydref 2023; • Adroddiad Alldro Cyfalaf 2022/23, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 27 Mehefin 2023; • Monitro Cyllideb Gyfalaf Chwarter 2 2023/24, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 28 Tachwedd 2023; • Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2023/24, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 8 Chwefror 2024; • Strategaeth Gyfalaf 2024/28 – Pwyllgor Gwaith, 29 Chwefror 2024 		

DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS

STRATEGAETH FUDDSODDI BLYNYDDOL, DATGANIAD POLISI DARPARIAETH REFENIW ISAF A DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS 2024/25

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) 2024/25 yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli'r trysorlys o ddydd i ddydd ac yn y tymor canolig. Mae wedi'i gwblhau mewn perthynas â Chod Darbodus CIPFA 2021 a Chod Trysorlys CIPFA 2021.
- 1.2 Mae'r DSRhT yn rhan allweddol o brosesau cynllunio strategol y Cyngor i helpu i sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei amcanion a'i weledigaeth strategol. Mae cylch strategol y Cyngor isod yn dangos bod Cynllun y Cyngor yn ganolog i waith y Cyngor. Rhaid i holl gynlluniau strategol a gweithredol y Cyngor fod yn gyson â Chynllun y Cyngor i ddarparu'r gwasanaethau a'r blaenoriaethau sydd eu hangen i gyflawni amcanion strategol y Cynllun. Mae'r cylch yn dangos mai Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, ochr yn ochr â'r Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yw'r strategaethau ariannol allweddol i sicrhau bod adnoddau ariannol y Cyngor yn cael eu rheoli yn unol â deddfwriaeth allweddol a gofynion CIPFA a'u bod yn canolbwyntio ar fodloni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cyllid y Cyngor yn targedu'r swyddogaethau a'r gwasanaethau cywir i gyflawni nodau'r Cyngor.



2. CEFNDIR

- 2.1 Mae CIPFA yn diffinio rheoli trysorlys fel:-

“Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny.”

- 2.2** Mae rheoli'r trysorlys yn ymwneud â thasgau sy'n sicrhau bod digon o arian parod yng nghyfrif cyffredinol y Cyngor i dalu biliau o ddydd i ddydd a buddsoddi arian dros ben, dros yr hyn sydd ei angen yn y cyfrif cyffredinol. Rhaid i'r buddsoddiadau hyn fod mewn cyfrifon hynod ddiogel, megis banciau'r DU sydd â statws credyd uchel. Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu diogelwch ei gronfeydd yn unol â'r Cod ac yn sicrhau bod digon o arian parod ar gael ar unwaith fel bod y Cyngor yn gallu talu cyflenwyr, staff a budd-daliadau, ar y dyddiadau talu gofynnol. Yr ystyriaeth olaf yw elw, mae'r Cyngor yn buddsoddi i gael y gyfradd llog uchaf posib o fewn y gronfa o sefydliadau sy'n ddiogel ac yn cwrdd â meini prawf y strategaeth hon. Elfen olaf Rheoli'r Trysorlys yw rheoli portffolio benthyciadau'r Cyngor i sicrhau nad yw costau benthycia'r Cyngor yn rhy uchel a bod costau referniw benthycia yn fforddiadwy.
- 2.3** Mae'r cyfraniad a wna'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys i'r Awdurdod yn hollbwysig, gan bod y cydbwysedd rhwng y gweithgareddau buddsoddi a'r dyledion yn sicrhau hylifedd neu'r gallu i gwrdd ag ymrwymadau gwariant pan fo angen, naill ai ar gyfer referniw dydd i ddydd neu brosiectau cyfalaf mwy. Bydd gweithgareddau'r trysorlys yn gweld y cydbwysedd rhwng y costau llog ar ddyledion a'r incwm buddsoddi sy'n codi o adneuon ariannol yn cael effaith ar y gyllideb sydd ar gael. Gan fod balansau arian parod, fel rheol, yn codi o gronfeydd wrth gefn a balansau, mae'n hanfodol bwysig sicrhau diogelwch digonol ar gyfer y symiau sy'n cael eu buddsoddi oherwydd gall colli'r symiau gwreiddiol a fuddsoddiwyd arwain at ostwng cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor.

3. DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS YNYS MÔN

- 3.1** Yn ogystal â'r polisiâu risg corfforaethol, y gofrestr, y camau gweithredu a'r monitro, mae'r Cyngor yn cymryd ei gyfrifoldeb am stiwardiaeth dda o arian cyhoeddus o ddifri a bydd holl arferion rheoli'r trysorlys yn diogelu arian cyhoeddus. Mae'n amhosib dileu pob risg, ond bydd holl weithgareddau rheoli'r trysorlys yn cael eu rheoli i leihau'r risg y mae cyllid y Cyngor yn agored iddo, fel a ganlyn:-
- 3.1.1** Bydd penderfyniadau buddsoddi bob amser yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y buddsoddiad yn gyntaf. Hylifedd yw'r ail ystyriaeth, gan fod angen i'r Cyngor gael mynediad ar unwaith at ddigon o arian i dalu taliadau o ddydd i ddydd wrth iddynt ddod yn ddyledus. Yn olaf, ni fydd y Cyngor yn ceisio uchafu'r incwm a enillir ar fuddsoddiadau oni bai fod y buddsoddiadau'n hynod ddiogel a bod digon o fynediad ar unwaith i gronfeydd.
- 3.1.2** Dim ond mewn banciau a chymdeithasau adeiladu hynod ddiogel sydd â statws credyd uchel y bydd adneuon banc, neu fuddsoddiadau mewn banciau neu gymdeithasau adeiladu, yn cael eu rhoi, a hynny'n unol â'r meini prawf yn Atodiad 7.
- 3.1.3** Bydd benthyciadau i awdurdodau lleol yn cael eu hystyried ar ôl cwblhau gwiriadau diwydrwydd dyladwy.
- 3.1.4** Caniateir buddsoddiadau mewn cronfeydd marchnad arian cyfradd AAA.
- 3.1.5** Bydd y Cyngor yn anelu at gadw isafswm o £10m mewn cyfrifon mynediad ar unwaith, os oes digon ym malansau'r Cyngor.
- 3.1.6** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau gwerth am arian yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys, yng nghyd-destun gwarchod arian cyhoeddus.
- 3.1.7** Bydd y Cyngor yn benthycia'n fewnol os oes digon o falansau arian parod, er mwyn leihau neu ohirio llog sy'n daladwy, yn enwedig pan fo cyfraddau llog yn codi.
- 3.1.8** Os oes angen benthycia at ddibenion cymwys, dylai unrhyw fenthyciadau ystyried a yw cyfraddau'n debygol o godi neu ostwng yn y tymor canolig. Dylai benthyciadau tymor byr liniaru'r llog sy'n daladwy os yw cyfraddau'n debygol o ostwng yn y tymor byr neu'r tymor canolig, a dylid ystyried benthyciadau tymor hwy os rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn cynyddu yn y tymor canolig i'r tymor hir.

3.1.9 Mae gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau allweddol y Cyngor a bydd yn cyd-fynd â'r Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i sicrhau bod buddsoddiadau'n ddiogel, yn hygyrch ac y gwneir y gorau o'r llog derbyniadwy o fewn buddsoddiadau diogel. Bydd benthycia yn seiliedig ar ofynion Strategaeth Gyfalaf 2024/28 a rhaglenni blynyddol, ond dim ond os yw'n fforddiadwy, gan gymryd i ystyriaeth y sefyllfa ariannol ar y pryd a gwybodaeth yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.

3.1.10 Ni ellir gosod y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar ei ben ei hun, a rhaid ystyried y sefyllfa economaidd gan fod hyn yn effeithio ar gyfraddau llog buddsoddi, cost benthycia a chryfder ariannol gwrthbartïon.

4. CYD-DESTUN ALLANOL

4.1 Mae crynodeb llawn o'r rhagolygon economaidd ar gael yn Atodiad 2. Mae Tabl 1 isod yn dangos rhagolygon cyfradd sylfaenol diweddar Banc Lloegr, chwyddiant a chyfraddau Bwrdd Benthycia Gwaith Cyhoeddus (BBGC) a ddarparwyd gan Link Group.

Tabl 1 – Rhagolwg o Gyfradd Sylfaenol y Banc, Chwyddiant a Chyfraddau BBGC Ionawr 2024 i Medi 2025

	15 Ion 2024	Maw 2024	Meh 2024	Medi 2024	Rhag 2024	Maw 2025	Meh 2025	Medi 2025
Cyfradd Banc (%)	5.25%	5.25%	5.25%	4.75%	4.25%	3.75%	3.25%	3.00%
Chwyddiant CPI – Economeg Cyfalaf	Rhag - 3.7%	3.8%	2.9%	0.80%	0.70%	0.90%	0.6%	1.2%
Cyfradd Blwydd-daliadau BBGC 5 ml (%)	4.63%	4.50%	4.40%	4.30%	4.20%	4.10%	4.00%	3.80%
Cyfradd Blwydd-daliadau BBGC 10 ml (%)	4.86%	4.70%	4.50%	4.40%	4.30%	4.20%	4.10%	4.00%
Cyfradd Blwydd-daliadau BBGC 25 ml (%)	5.43%	5.20%	5.10%	4.90%	4.80%	4.60%	4.40%	4.30%
Cyfradd Blwydd-daliadau BBGC 50 ml (%)	5.24%	5.00%	4.90%	4.70%	4.60%	4.40%	4.20%	4.10%

4.2 Targed chwyddiant Banc Lloegr, a osodwyd gan y Llywodraeth, yw 2%. Dechreuodd chwyddiant gynyddu y tu hwnt i hyn o fis Awst 2021, gyda'r gyfradd CPI yn cyrraedd uchafbwynt o 11.1% ym mis Hydref 2022 oherwydd effaith goresgyniad yr Wcráin, a achosodd gynydd sylweddol mewn prisiau ynni a bwyd. Arhosodd chwyddiant yn uchel am gyfnod hwy na'r disgwyl, ond dechreuodd ostwng ym mis Ebrill 2023 i 8.7%, gyda CPI yn gostwng i 7.9% ar ddiwedd y chwarter cyntaf. Parhaodd cyfraddau chwyddiant i ostwng yn yr ail chwarter, gyda CPI yn 6.7% ar 30 Medi 2023 a 4% ar 31 Rhagfyr 2023.

4.3 Ar ddechrau'r pandemig, gostyngwyd y gyfradd sylfaenol i'w phwynt isaf ar 0.1% i gefnogi'r economi. Ym mis Rhagfyr 2021, cynyddodd Banc Lloegr y gyfradd i 0.25% ac yna cynyddodd y gyfradd sylfaenol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Ariannol (yr MPC) rhwng 0.25% i 0.75% ar ei gynnydd uchaf. Ym mis Awst 2023, cynyddodd yr MPC y gyfradd sylfaenol i 5.25%, ym mis Medi 2023 nid oedd y gyfradd o 5.25% wedi newid ar gyfer cyfarfod cyntaf yr MPC er mis Rhagfyr 2021. Pleidleisiodd yr MPC hefyd dros beidio â newid y 5.25% yn ei gyfarfodydd ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2023. Adroddodd DSRhT 2023/24 ym mis Mawrth 2023 bod disgwyl i gyfradd sylfaenol y banc gyrraedd uchafbwynt o 4.5% yn yr haf ac y byddai'r cyfraddau'n gostwng yn araf yn 2024 a 2025. Yn yr adolygiad o waith rheoli'r trysorlys ar gyfer chwarter 1, amlygwyd y rhagwelid y byddai cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn cyrraedd uchafbwynt o 5.25%. Dengys y dadansoddiad uchod nad yw'r gyfradd o 5.25% wedi newid i bedwar Pwyllgor MPC yn olynol. Fodd bynnag, mae risg o gynnydd mewn chwyddiant oherwydd materion cyflenwad sy'n deillio o'r gwrthdaro yn Gaza a materion llongau yn y Môr Coch, sydd wedi arwain at wrthdaro ehangach. Bellach, mae risg uwch y gallai'r gyfradd sylfaenol gyrraedd ei hanterth ar gyfradd uwch mewn ymdrechion i reoli chwyddiant.

4.4 Mae'r Cyngor yn elwa o gyfradd sylfaenol uwch ar gyfer buddsoddi arian dros ben, sydd wedi helpu'r Cyngor i ennill mwy na £1m mewn llog derbyniadwy. Ond mae benthyciadau i'r Cyngor yn ddrytach ers i Fanc Lloegr ddechrau codi cyfraddau llog i geisio rheoli chwyddiant. Felly, mae benthycia allanol yn cael ei ohirio hyd nes na all balansau arian barhau i gynnal y defnydd o falansau'r Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf (benthycia mewnol).

5. SEFYLLFA FENTHYCA BRESENNOL Y CYNGOR

5.1 Benthycia gan y BBGC – mae benthyciadau allanol y Cyngor gan y BBGC yn aros yr un fath â'r hyn a gyflwynwyd yn y DSRhT ym mis Mawrth 2023, ac eithrio ad-daliad o £8k o'r prifswm ar fenthyciadau blwydd-dal. Mae hyn oherwydd yr angen i osgoi benthycia tra bod cyfraddau llog yn cynyddu. Yn lle hynny, defnyddiwyd balansau arian parod y Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf. Mae hyn yn unol â chyngor Link Group ar fenthycia yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Cost cyfle hyn yw bod llai o falansau i'w buddsoddi. Fodd bynnag, mae costau benthycia'n uwch nag enillion buddsoddi. Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian parod i dalu credydwy'r a chyflogau, rhaid i ddigon o arian parod aros mewn cyfrifon galwadau ar unwaith. Fel arfer, mae'r cyfraddau llog ar y rhain yn llawer is, felly, mae'r Cyngor yn dal i allu gwneud arbedion rhesymol ar y llog taladwy tra'n defnyddio balansau arian parod.

5.2 Yn Atodiad 4 ceir y rhestr lawn o fenthyciadau gan y BBGC a gymerwyd allan ac sy'n dal yn daladwy. Mae'r benthyciad hynaf yn dyddio'n ôl i 1969, ac mae gan y mwyafrif o'r benthyciadau gyfraddau llog uwch na'r cyfraddau presennol, er gwaethaf y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog. Trefnir y rhain erbyn y flwyddyn ariannol y disgwylir i'r benthyciadau gael eu had-dalu.

Tabl 2 - Bwrdd Benthyciadau'r Gwaith Cyhoeddus (BBGC)

Benthyciadau'r BBGC ar 30 Medi 2023			
	BBGC / BBGC Adeg Aeddfedu £'000	EIP y BBGC/ Blwydd- daliadau £	Cyfanswm Benthyciadau'r BBGC ar 31 Rhagfyr 2023 £'000
Benthyciad sy'n weddill (£'000)	119,400	164	119,564
Oes gyfartalog (blynyddoedd)	30.82	4.06	35.00
Cyfradd gyfartalog (%)	4.53	9.42	4.54

5.3 Benthycia gan Salix – sefydliad Llywodraeth Cymru yw Salix sy'n rhoi benthyciadau di-log ac, yn fwy diweddar, grantiau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi'r amgylchedd ac i helpu cyrrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i weithio tuag at gyflawni eu targed sero net erbyn 2030. Dangosodd DSRhT 2023 fod gan y Cyngor, ym mis Chwefror 2023, £3.099m o fenthyciadau di-log heb eu talu i Salix. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi derbyn mwy o'r benthyciadau a gymeradwywyd gan Salix oherwydd y bu mwy o gynnydd gyda'r prosiectau a gyllidwyd gan fenthyciadau gan Salix.

Roedd gan y Cyngor £4.035m o fenthyciadau Salix ar 30 Medi 2023. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu dros gyfnod o 8 neu 10 mlynedd, yn dibynnu ar y cytundeb, gyda dau ad-daliad y flwyddyn, fesul benthyciad. Mae'r benthyciadau hyn wedi cyllido goleuadau stryd LED, goleuadau LED mewn ysgolion a chanolfannau hamdden ac amrywiol brosiectau cynaliadwy eraill.

Tabl 3 – Benthyciadau Salix ar 30 Medi 2023

Benthyciadau Eraill ar 30 Medi 2023							
	Benth. Salix 1	Benth. Salix 2	Benth. Salix 3	Benth. Salix 4	Benth. Salix 5	Benth. Salix 6	CYFANSWM
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Swm sy'n weddill	16.5	114.0	349.8	158.4	1,873.7	1,522.9	4,035.3
Dyddiad Ad-dalu	2024/25	2025/26	2027/28	2029/30	2031/32	2035/36	
% y gyfradd llog	-	-	-	-	-	-	-

6. BALANSAU BUDDSODDI'R CYNGOR AR 31 RHAGFYR 2023

6.1 Cyfanswm balans y buddsoddiadau ar 31 Rhagfyr 2023 oedd £33.227M, fel y dangosir yn Nhabl 4 isod. Yr elw o'r buddsoddiadau hyn rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Rhagfyr 2023 oedd £1.603m a'r disgwyl yw y bydd cyfanswm y llog derbyniadwy ar y buddsoddiadau a restrir isod yn £1.909m ar gyfer 2023/24. Mae'r ffigur hwn yn debygol o fod yn uwch wrth i fuddsoddiadau newydd gael eu gwneud pan fydd y rhain yn aeddfedu. Fodd bynnag, mae balansau arian parod yn lleihau wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, felly, ni fydd hi'n hyfyw i adnewyddu'r holl fuddsoddiadau hyn pan fyddant yn aeddfedu.

Tabl 4 – Buddsoddiadau 1 Ebrill 2023 i 31 Rhagfyr 2023

Gwrthbarti	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	Cyfradd Llog	Symiau Buddsoddi 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2023	Prifswm Buddsoddi 31 Rhagfyr 2023	Amcangyfrif o'r llog enillwyd am y cyfnod	Amcangyfrif Cyfanswm Llog 2023/24 ar y Buddsoddiadau yma
Nat West CallAccount – cyfartalog am y cyfnod	01/04/2023	31/03/2024	1.46%	R	7,536,347	109,414	145,942
Cyfrif Galw Lloyds	18/04/2023	31/03/2024	5.14%	7,500,000	5,691,167	252,417	325,349
Banc National Westminster – tymor sefydlog	11/01/2023	11/07/2023	4.10%	10,000,000	-	113,452	113,452
Banc National Westminster – tymor sefydlog	11/07/2023	11/01/2024	5.88%	10,000,000	10,000,000	278,696	296,416
Santander	10/02/2023	10/05/2023	4.00%	7,500,000	-	32,055	32,055
Santander	10/05/2023	10/11/2023	4.76%	7,500,000	-	179,967	179,967
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	06/04/2023	06/07/2023	4.17%	5,000,000	-	51,982	51,982
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	06/07/2023	08/01/2024	5.47%	5,000,000	5,000,000	133,378	139,373
Goldman Sachs	22/12/2022	22/06/2023	3.83%	7,500,000	-	64,533	64,533
Goldman Sachs	22/06/2023	22/12/2023	5.52%	7,500,000	-	207,567	207,567
Cyngor Wakefield	22/08/2023	22/09/2023	5.23%	5,000,000	-	22,210	22,210
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	25/10/2022	25/04/2023	3.80%	5,000,000	-	12,493	12,493
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	25/04/2023	25/10/2023	4.30%	5,000,000	-	107,795	107,795
Banc National Westminster – tymor sefydlog	11/01/2024	10/03/2024	5.25%	10,000,000	-	-	84,863
Santander	10/11/2023	09/02/2024	5.34%	5,000,000	5,000,000	37,307	66,567
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	08/01/2024	08/04/2024	5.11%	0	-	-	58,100
					33,227,514	1,603,266	1,908,663

7. EFFAITH CYNLLUNIAU'R DYFODOL AR FENTHYCA

7.1 Cyllidir gwariant cyfalaf yn rhannol o fenthyciadau, felly, mae cysylltiad agos rhwng y Strategaeth Gyfalaf a'r strategaeth hon. Mae crynodeb gwariant cyfalaf 2024/25 i 2027/28 yn cyflwyno tri opsiwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae pob un o'r tri senario yn ystyried y gwaith sydd ei angen ar asedau'r Cyngor neu a fydd angen asedau amnewid. Cyflwynir y tri opsiwn fel y senarios lleiaf, posibl ac uchaf, a'r gofyniad uchaf yw'r symiau i ddod â holl asedau'r Cyngor i safon uchel neu ased newydd lle mae angen amnewidiadau. Mae'r gwariant cyfalaf yn y strategaeth hon yn defnyddio'r senario cyntaf – lleiafswm, oherwydd y diffyg cyllid sylweddol ar gyfer 2024/25 ac, o bosibl, ar gyfer y blynyddoedd ar ôl hynny.

7.2 Mae Tabl 5 isod yn dangos gwariant amcangyfrifedig a chyllid ar gyfer y cyfnod 2023 i 2028. O 2025/26 ymlaen, dyma'r buddsoddiad cyfalaf isaf oherwydd materion cyllido sylweddol. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth na fydd unrhyw fenthycia digefnogaeth oherwydd efallai na fydd hyn yn fforddiadwy o ystyried pwysau'r gyllideb refeniw a wynebier gan y Cyngor. Dim ond dyraniad benthycia â chefnogaeth y Cyngor sydd wedi'i gynnwys yn adran cyllido tabl 5.

Tabl 5 – Cyllid a Gwariant Cyfalaf Amcangyfrifedig 2023/24 i 2027/28

	2023/24 £'000	2024/25 £'000	2025/26 £'000	2026/27 £'000	2027/28 £'000
Cronfa'r Cyngor – heb gynnwys Eiddo Buddsoddi	34,380	15,565	5,028	4,876	4,836
CRT	13,362	35,145	29,974	20,831	21,455
Eiddo Buddsoddi	2,780	0	0	0	0
Cyfanswm Gwariant	50,522	50,710	35,002	25,707	26,291
Grantiau Cyfalaf	28,669	15,978	6,205	6,244	6,284
Derbyniadau Cyfalaf	157	25	151	0	0
Arian wrth Gefn a Chyfraniadau	14,089	12,025	10,936	7,454	7,298
Balans a Gyllidwyd gan Fenthyciadau	7,607	22,682	17,710	12,009	12,709
Cyfanswm Cyllido	50,522	50,710	35,002	25,707	26,291

- 7.3 Ffactor pwysig i'w ystyried yw effaith benthycia ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Y GCC yw mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthycia. Nid yw benthycia wedi'i gyfyngu i fenthyciadau allanol gan BBGC gan ei fod, hefyd, yn cynnwys y gallu i ddefnyddio balansau ariannol y Cyngor ei hun (benthycia mewnol) sydd wedi cael eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf. Er bod benthycia mewnol yn arbed costau llog taladwy i'r Cyngor, codir y ddarpariaeth refeniw isaf (DRI) ar sail yr angen sylfaenol i fenthycia (y GCC) nid y benthyciad gwirioneddol.
- 7.4 Bydd gwariant cyfalaf yn cynyddu'r GCC ond dim ond yn ôl y swm nad yw'n cael ei gyllido o grantiau, derbyniadau cyfalaf, arian wrth gefn neu refeniw. Bydd y GCC hefyd yn gostwng yn flynyddol gan swm y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) sy'n cael ei roi yn erbyn refeniw. Mae lefel y GCC yn fesur pwysig er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn ymrwymo ei hun i fenthyciadau na all eu fforddio.
- 7.5 Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o gyllid i ad-dalu dyledion pan ddaw'n ddyledus, rhaid i'r Cyngor sicrhau tâl i'r cyfrif refeniw bob blwyddyn, a'r enw ar y tâl hwn yw'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI). Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo datganiad DRI cyn pob blwyddyn ariannol. Gwelir y polisi ar gyfer 2024/25 yn **Atodiad 5**. Cafodd polisi DIR y Cyngor ei ddiwygio'n sylweddol yn 2018 ac unwaith eto ar gyfer y flwyddyn yn dechrau ar 1 Ebrill 2022. Drwy wneud y tâl DRI bob blwyddyn, mae balansau ariannol y Cyngor yn cael eu hailgyflenwi ac mae hynny, yn ei dro, yn lleihau'r benthyciadau mewnol.
- 7.6 Yn 2018, adolygodd y Cyngor ei bolisi DRI a mabwysiadodd dull Rhandaliadau Cyfartal Oes Ased i gyfrifo ei dâl DRI ar gyfer benthycia gyda chefnogaeth a benthycia digefnogaeth. Mae'r polisi diwygiedig o 1 Ebrill 2022 yn mabwysiadu dull blwydd-dal, gan ddefnyddio dull tebyg i forgais ad-daliad safonol, lle mae swm yr ad-daliad, sy'n gyfuniad o ad-dalu'r benthyciad gwreiddiol a'r llog, yn aros yn gyson. O ganlyniad, mae swm y benthyciad gwreiddiol a ad-delir yn y blynyddoedd cynnar yn isel ac mae'n cynyddu dros amser. Felly, o dan y dull blwydd-dal, mae'r tâl DRI yn isel yn y blynyddoedd cyntaf cyn cynyddu dros amser.

7.7 Gall y Cyngor ddewis talu mwy o DRI mewn unrhyw flwyddyn benodol. Gellir hawlio'r gordaliadau DIR hyn yn ôl (sef gordaliadau sydd, yn achos y Cyngor, yn sicrhau digon o arian parod i ad-dalu benthyciadau) yn y blynyddoedd diweddarach os bydd angen. Hyd at 31 Mawrth 2022, cyfanswm y gordaliadau a wnaed oedd £268k, ac roeddent yn ymwneud yn benodol â benthyciadau Salix lle mae'r DRI a godir ar y cyfrif refeniw wedi'i gyfrifo ar sail oes y benthyciad yn hytrach nag ar oes yr ased a gyllidwyd gan y benthyciad. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian parod i ad-dalu'r benthyciadau pan fydd angen gwneud hynny.

7.8 Dangosir effaith cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'r tâl DRI ar y GCC a lefel y benthycia allanol a mewnol yn Nhabl 6 isod:-

Tabl 6
Gofyniad Cyllido Arian Cyfalaf a Benthycia 2022/23 i 2027/28

	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Amcan	Amcan	Amcan	Amcan	Amcan
Balans agoriadol y GCC	144,112	150,588	171,991	188,238	198,521
Gwariant Cyfalaf	50,522	50,710	35,002	25,707	26,291
Grantiau Cyfalaf Allanol	(28,669)	(15,978)	(6,205)	(6,244)	(6,284)
Derbyniadau Cyfalaf	(157)	(25)	(151)	0	0
Cyfraniadau Refeniw ac Arian wrth Gefn	(14,089)	(12,205)	(10,936)	(7,454)	(7,298)
Darpariaeth Isafswm Refeniw Isaf	(1,131)	(1,279)	(1,463)	(1,726)	(1,933)
Balans Cau'r GCC	150,588	171,991	188,238	198,521	209,297
BENTHYCA ALLANOL					
Balans Agoriadol Benthyciadau Allanol	123,799	121,557	158,593	175,644	185,696
Benthycia i Gyllido Gwariant Cyfalaf	0	22,682	17,710	12,009	12,709
Benthycia i Gyllido Ad-dalu Benthycia	0	0	0	0	0
Benthyciadau yn lle Benthycia Mewnol	0	15,000	0	0	0
Ad-dalu Benthyciadau	(2,242)	(646)	(639)	(1,977)	(2,763)
Balans cau Benthyciadau Allanol	121,557	158,593	175,664	185,696	195,642
Balans Agoriadol Benthyciadau Mewnol	20,342	29,060	13,427	12,603	12,854
Amnewid Benthyciadau Mewnol	0	(15,000)	0	0	0
Cyllido Ad-daliadau Benthycia o Fenthyciadau Allanol	0	0	0	0	0
Ad-daliadau Benthyciadau Allanol	2,242	646	639	1,977	2,763
Benthycia i Gyllido Gwariant Cyfalaf	7,607	0	0	0	0
Darpariaeth Refeniw Isaf	(1,131)	(1,279)	(1,463)	(1,726)	(1,933)
Balans Cau Benthyciadau Mewnol	29,060	13,427	12,603	12,854	13,684
Cyfanswm Benthyciadau	150,617	172,020	188,267	198,550	209,326

8. STRATEGAETH FENTHYCA

8.1 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthyca. Mae hyn yn golygu nad yw'r angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi'i gyllido'n llawn gan ddyledion benthyca gan ddefnyddio arian fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae gweithredu yn y fath fodd yn ddarbodus, gan fod disgwyl i gyfraddau benthyca tymor canolig a thymor hir ddisgyn o'u lefelau presennol unwaith y rhoddid sylw i bryder cyffredinol am chwyddiant trwy bolisi ariannol tynn yn y tymor byr.

Yn erbyn y cefndir hwn a'r risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull darbodus o ran gweithgareddau trysorlys 2024/25. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig i ymateb i amgylchiadau sy'n newid:-

- os teimlir bod risg sylweddol o GWYMP sydyn mewn cyfraddau benthyca, yna bydd benthyciadau'n cael eu gohirio.
- os teimlir bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer uwch mewn cyfraddau benthyca nag a ragwelir ar hyn o bryd, bydd cyllid ar raddfa sefydlog yn cael ei dynnu i lawr tra bod cyfraddau llog yn is nag y rhagwelir iddynt fod yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- Rhagolwg tymor hir Link Group (y tu hwnt i 10 mlynedd) yw 3%. Mae holl gyfraddau sicrwydd y BBGC yn sylweddol uwch na'r gyfradd hon ar hyn o bryd. Felly, gellir cael gwell gwerth o fuddsoddiadau tymor byr nes bod cyfraddau'r banc yn gostwng.

8.2 Benthyca Mewnol yn erbyn Benthyca Allanol

8.2.1 Mae'r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau i allanoli benthyca. Mae angen rhoi ystyriaeth gofalus barhaus i'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau benthyca a chyfraddau buddsoddi er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y ceir lefel briodol o reoli risg er mwyn sicrhau diogelwch ei fuddsoddiadau.

8.2.2 O blaid mewnoli, dros y tymor canol, y disgwyl yw y bydd cyfraddau buddsoddi yn parhau i fod yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hynny'n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthyciadau allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy'n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthyca mewnol). Byddai hynny'n sicrhau'r arbedion tymor byr mwyaf posib.

8.2.3 Fodd bynnag, rhaid pwysu a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthyciadau allanol tymor hir yn 2023/24, yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen, gan fod cyfraddau tymor hir y BBGC yn uwch nawr. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen parhau i adolygu'n rheolaidd oblygiadau benthyciadau mewnol i lif arian a bydd yn cyfyngu ar lefel bosib y benthyciadau mewnol.

8.3 Benthyca Ymlaen Llaw i Gwrdd ag Anghenion

8.3.1 Ni fydd y Cyngor yn benthyca mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, a hynny er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca ymlaen llaw, o fewn amcangyfrifon Gofynion Cyllido Cyfalaf a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am arian a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch cyllid o'r fath.

8.4 Aildrefnu Dyledion

8.4.1 Efallai y byddir yn ystyried aildrefnu benthyciadau cyfredol yn ein portffolio dyledion tra bod cyfraddau ad-dalu dyled yn gynnar yn parhau i fod yn uchel, ond dim ond os oes arian dros ben ar gael i hwyluso unrhyw ad-daliad, neu ailgydbwysu'r portffolio i roi mwy o sicrwydd a ystyrir yn briodol.

8.4.2 Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am yr holl weithgareddau ad-drefnu dyledion yn y cyfarfod nesaf sy'n ymarferol bosib wedi iddo weithredu.

8.5 Benthycia o flaen yr angen

Y BBGC yw prif ffynhonnell benthycia'r Cyngor, gyda rhai benthyciadau gan y sefydliad sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, Salix, ar gyfer cyllido prosiectau effeithlonrwydd ynni a charbon isel. Cyfradd sicrwydd y BBGC yw giltiau ac 80 pwynt sail (0.8%). Gellid ystyried benthycia gan yr isod:-

- Awdurdodau Lleol;
- Asiantaeth UK Municipal Bond – benthyciadau cyfun;
- Cronfeydd Marchnad Arian.

9. PROFFIL DYLEDION

9.1 Yn Atodiad 4, gwelir proffiliau aeddfedu benthyciadau'r Cyngor. Bydd y benthyciadau presennol yn cael eu had-dalu mewn gwahanol flynyddoedd hyd at 2068/69. Mae hyn, hefyd, yn cynnwys gwerth presennol taliadau'r benthyciad i adlewyrchu gwir effaith symiau'r benthyciad yn y dyfodol, drwy ddisgowntio'r prif fenthyciadau gan 3.5%, sef y gyfradd tymor hir a argymhellir i fesur gwerth arian dros amser. Bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau bod y dyddiad ad-dalu'n cael ei drefnu er mwyn gwastatau'r ad-daliadau i'r graddau y mae hynny'n bosibl, ond rhoddir blaenoriaeth i'r gyfradd llog sy'n daladwy pan benderfynir ar y math o fenthyciad (aeddfedrwydd neu flwydd-dal) a chyfnod y benthyciad.

Tabl 7 – Proffil Aeddfedrwydd Benthyciadau BBGC, Ionawr 2024

Nifer o flynyddoedd tan fydd y benthyciad yn Aeddfeddu of Years until Loan Matures	Prifswm £'m	Gwerth Presennol y Prifswm £'m	Cronnus %
<1	1.87	1	1.6
1 i 3	1.44	1	2.8
4 i 6	4.04	3	6.1
7 i 10	3.38	3	9.0
11 i 14	2.42	2	11.0
15 i 22	23.22	12	30.4
23 i 33	41.74	15	65.3
34 i 50	41.48	10	100.0
CYFANSWM	119.58	47	

10. STRATEGAETH FUDDSODDI A'R POLISI TEILYNGDOD CREDYD

10.1 Bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gan gyfeirio at y balans craidd a'r gofynion llif arian a'r rhagolygon o ran cyfraddau llog tymor byr (h.y. graddfeydd ar gyfer buddsoddi am hyd at 12 mis). Fel arfer, mae modd cael enillion uwch drwy fuddsoddi am gyfnodau hwy. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu bydd y gyfradd sail yn parhau ar 5.25% ond bydd yn cychwyn lleihau o Medi 2024. Felly byddai strategaeth fuddsoddi hyblyg yn briodol i fanteisio i'r eithaf ar enillion. Yn yr un modd, er bod angen y rhan fwyaf o falansau arian i reoli cynnydd a gostyngiad mewn llif arian, lle gellir dod o hyd i symiau ariannol y gellid eu buddsoddi am gyfnodau hirach, bydd y gwerth a geir o fuddsoddiadau tymor hir yn cael ei asesu'n ofalus.

10.2 Rheoli Risg

Cyngor Sir Ynys Môn yw un o'r awdurdodau lleol lleiaf yng Nghymru. Mae'n cael yr ail setliad isaf gan Lywodraeth Cymru, gyda Merthyr Tudful yn cael yr isaf. Nid oes gan y Cyngor y balansau cyngor mawr sydd gan rai o'r awdurdodau mwy, er bod yna gynghorau mwy gyda balansau tebyg neu lai. Rheoli risg yw'r brif ystyriaeth ar gyfer holl fuddsoddiadau'r Cyngor.

10.2.1 Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch yn gyntaf, hylifedd y portffolio yn ail ac yna'r elw (enillion). Nod y Cyngor yw ceisio sicrhau cymaint o elw â phosib ar ei fuddsoddiadau sy'n gyson â'r lefel briodol o ddiogelwch a hylifedd, gydag archwaeth risg y Cyngor am fuddsoddiadau risg isel yn unig.

10.2.2 Defnyddir **meini prawf** sylfaenol o ran **statws credyd** (Atodiad 7) er mwyn cynhyrchu rhestr o wrthbartïon sy'n addas iawn i dderbyn credyd. Mae hyn hefyd yn caniatáu arallgyfeirio ac yn osgoi'r risg sy'n gysylltiedig â chanolbwyntio ar un gwrthbarti. Y graddfeydd allweddol a ddefnyddir i fonitro gwrthbartïon yw'r graddfeydd tymor byr a thymor hir.

10.2.3 Gwybodaeth arall: nid statws credyd yn unig fydd yn penderfynu ar ansawdd sefydliad. Mae'n bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus, a hynny ar sail micro a macro ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau'n gweithredu ynddynt.

10.2.4 Gall buddsoddiadau fod yn rhai penodol neu amhenodol (mae Atodiad 7 yn diffinio'r rhain ac yn rhoi rhagor o wybodaeth). Yn unol â'i ofyniad i fuddsoddi mewn buddsoddiadau risg isel, mewn buddsoddiadau penodedig yn unig y bydd y Cyngor yn buddsoddi.

- Mae **buddsoddiadau penodol** yn golygu'r rheini sydd â lefel uchel o ansawdd credyd ac a fydd yn aeddfedu o fewn blwyddyn, neu fod llai na blwyddyn ar ôl cyn aeddfedu petaent, yn wreiddiol, wedi eu dosbarthu'n fuddsoddiadau amhenodol dim ond oherwydd bod y cyfnod aeddfedu'n fwy na blwyddyn.
- **Buddsoddiadau amhenodol** yw'r rheini â lefel is o ansawdd credyd. Gallant fod am gyfnodau sydd dros flwyddyn ac / neu maent yn offerynnau mwy cymhleth y bydd angen i'r Aelodau a'r swyddogion roddi mwy o ystyriaeth iddynt cyn eu hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio.

10.2.5 Bydd cyfyngiadau benthyca (symiau ac aeddfedrwydd) i bob gwrthbarti yn cael eu gosod drwy ddefnyddio'r tabl matrices fel y'i nodir yn adran Teilyngdod Credyd y strategaeth hon.

10.2.6 Bydd y Cyngor hwn yn gosod cyfyngiad ar swm y buddsoddiadau y mae'n eu buddsoddi am fwy na 365 diwrnod (gweler Atodiad 10).

10.2.7 Ni fydd y Cyngor yn buddsoddi mewn gwrthbartïon y tu allan i'r DU oni bai fod y statws credyd yn AAA neu'n uwch ac oni bai bod amgylchiadau eithriadol, megis peryglu teilyngdod credyd buddsoddiadau'r DU. Dim ond gyda gwrthbartïon o wledydd sydd â graddfa **sofraniaeth sylfaenol** penodedig y byddir yn buddsoddi (gweler Atodiad 9).

10.2.8 Mae'r Cyngor hwn wedi penodi **ymgyngorwyr allanol** i roi cyngor arbenigol ynghylch sut i sicrhau'r cydbwysedd priodol gorau rhwng diogelwch, hylifedd ac elw, o gofio archwaeth risg y Cyngor hwn yng nghyd-destun lefel disgwyliedig y balansau ariannol a bod angen hylifedd trwy gydol y flwyddyn.

10.2.9. Bydd yr holl fuddsoddiadau'n cael eu dynodi mewn **sterling**.

10.3 Polisi Teilyngdod Credyd

10.3.1 Y brif egwyddor sy'n rheoli meini prawf buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch ei fuddsoddiadau. Wedi rhoi sylw i'r brif egwyddor hon, bydd y Cyngor yn sicrhau:-

- Bod ganddo hylifedd digonol yn ei fuddsoddiadau. I'r perwyl hwn, bydd yn amlinellu gweithdrefnau ar gyfer penderfynu am ba hyd y byddai'n ddoeth ymrwymo arian. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn berthnasol i ddangosyddion darbodus y Cyngor sy'n ymwneud â'r uchafsymiau y gellir eu buddsoddi.
- Ni fydd yn buddsoddi mewn gwrthbartïon onid oes ganddynt sgôr credyd fel y'i hamlinellir yn Atodiad 7.

10.3.2 Fel haen ddiogelwch ychwanegol i'r meini prawf statws credyd sylfaenol a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor hwn hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth teilyngdod credyd a ddarperir gan Link Group.

10.3.3 Mae gwasanaeth teilyngdod credyd Link yn defnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth na'r graddfeydd sylfaenol yn unig a, thrwy ddefnyddio system sgorio pwysoliad risg, nid yw'n dibynnu'n ormodol ar raddfeydd un asiantaeth yn unig.

- Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Caiff y Cyngor wybod am unrhyw newidiadau i raddfeydd y tair asiantaeth drwy ei ddefnyddio o wasanaeth teilyngdod credyd *Link*. Os bydd cwmp yn y raddfa'n golygu na fydd y gwrthbarti / cynllun buddsoddi'n cwrdd bellach â meini prawf sylfaenol y Cyngor, ni fyddant yn cael eu defnyddio eto ar gyfer buddsoddiadau newydd a bydd hynny'n dod i rym yn syth.

10.3.4 Ni welwyd lefelau sylweddol o raddfeydd credyd tymor byr a hir yn cael eu hisraddio ers yr argyfwng ym mis Mawrth 2020. Ar y cyfan, lle bu newidiadau, roeddent yn gyfyngedig i Ragolygon. Yn yr un modd, wrth osod isafswm ar gyfer graddfeydd dyled sofran, ni fydd y Cyngor yn gosod isafswm graddfa ar gyfer y DU.

10.4 Cyfyngiadau Gwledydd

Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd ond yn defnyddio gwrthbartïon cymeradwy o wledydd, ac eithrio'r DU, â graddfa credyd sofran sydd o leiaf yn AAA yn ôl Graddfeydd Fitch (neu raddfa gyfatebol arall gan asiantaethau eraill os na fydd Fitch yn eu darparu). Fe welir rhestr o'r gwledydd sy'n gymwys trwy ddefnyddio'r meini prawf credyd hyn ar ddyddiad yr adroddiad hwn, yn Atodiad 8. Bydd swyddogion yn ychwanegu gwledydd at y rhestr neu'n eu tynnu oddi arni pe bai'r graddfeydd yn newid yn unol â'r polisi hwn. Yn ymarferol, mae buddsoddiadau'n dueddol o gael eu rhoi ym manciau'r DU am resymau diogelwch. Mae'r rhestr wedi'i chynnwys ar gyfer y digwyddiad annhebygol y bydd angen eithriadol i fuddsoddi mewn gwrthbartïon hynod ddiogel mewn gwledydd eraill. Er enghraifft, os bydd banciau'r DU yn digwydd colli teilyngdod eu credyd ac yn methu meini prawf penodol y Cyngor ar Gwrthbartïon.

11. LLYWODRAETHU A RHEOLI

11.1 Mae'r Cod Darbodus yn adlewyrchu symudiad tuag at awdurdodau lleol yn hunanreoleiddio, ac mae llywodraethu corfforaethol effeithiol yn un o elfennau allweddol gweithrediad llwyddiannus y Cod.

11.2 Mae Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau isod:-

- Rôl ffurfiol ar gyfer y Swyddog Adran 151;
- Gosod a monitro Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys;
- Cynllun dirprwyo a phroses gymeradwyo ffurfiol;
- Adrodd ar faterion Rheoli'r Trysorlys i Aelodau.

11.3 Rôl y Swyddog Adran 151 a'r Aelodau

- 11.3.1** Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am sicrhau bod materion sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys a Chyllido Cyfalaf yn cael eu cymryd i ystyriaeth a'u hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith / Cyngor llawn i'w hystyried, a bod gweithdrefnau'n cael eu sefydlu i fonitro perfformiad.
- 11.3.2** Rhaid i'r Swyddog Adran 151 sicrhau bod dangosyddion darbodus yn cael eu gosod a'u monitro er mwyn dangos y cydymffurfir â'r gofyn deddfwriaethol i sicrhau bod cynlluniau'r Cyngor yn fforddiadwy.
- 11.3.3** Mae Aelodau hefyd yn chwarae rôl bwysig, nid yn unig o ran awdurdodi'r penderfyniadau perthnasol ond hefyd wrth graffu ar brosesau, penderfyniadau a pherfformiad rheoli'r trysorlys. Er mwyn ymgymryd â'r rôl hon, rhaid i'r swyddog cyfrifol, yn unol â Chod Rheoli Trysorlys CIPFA, sicrhau bod Aelodau sydd â chyfrifoldeb am faterion reoli'r trysorlys yn cael hyfforddiant digonol ar y cyfryw faterion. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am sgrwtini. Er mwyn cefnogi rôl sgrwtini aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cafodd aelodau'r Pwyllgor hyfforddiant ar reoli'r trysorlys gan yr ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys ar 14 Medi 2022. Trefnir rhagor o hyfforddiant yn ôl yr angen. Mae anghenion hyfforddiant swyddogion rheoli'r trysorlys yn cael sylw ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- 11.3.4** Mae gan swyddogion y Cyngor sy'n ymwneud â gweithgareddau rheoli'r trysorlys wybodaeth a sgiliau cynhwysfawr ar gyfer rheoli swyddogaeth rheoli'r trysorlys. Mae'r Swyddog Adran 151 yn chwarae rhan allweddol mewn Rheoli'r Trysorlys ac mae'n cymeradwyo neu'n gwrthod unrhyw fuddsoddiadau a gynigir gan y tîm. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu hyfforddiant i gynyddu gwybodaeth a sgiliau'r rhai sy'n gyfrifol am reoli, darparu, llywodraethu a gwneud penderfyniadau.
- 11.3.5** Bydd Arweinydd y Tîm Perfformiad Adnoddau yn cadw cofnod ffurfiol o'r hyfforddiant a dderbynnir gan swyddogion sy'n ganolog i swyddogaeth y Trysorlys. Yn yr un modd, bydd cofnod ffurfiol o hyfforddiant rheoli'r trysorlys / cyllid cyfalaf a gaiff Aelodau hefyd yn cael ei gadw gan Bennaeth y Gwasanaethau Democraataidd.
- 11.3.6** Mae Cynllun Dirprwy Rheoli'r Trysorlys ac esboniad llawnach o rôl y Swyddog Adran 151 i'w gweld yn Atodiad 9.

12. CYNGOR AR REOLI'R TRYSORLYS

- 12.1** Mae'r Cyngor yn defnyddio Link Group, Link Treasury Services Limited yn ymgynghorwyr allanol iddo ar reoli'r trysorlys. Yn unol â rheoliadau caffael, fe wnaeth y Cyngor ailwahodd tendrau i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn gynnar yn 2021, am y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2024 gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd. Link Group, Treasury Solutions enillodd y tendr hwnnw.
- 12.2** Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli'r trysorlys yn aros gyda'r sefydliad bob amser a bydd yn sicrhau na fydd yn dibynnu'n afresymol ar ein darparwyr gwasanaeth allanol. Bydd yr holl benderfyniadau'n cael eu gwneud gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth gan ein hymgyngorwyr trysorlys, ond ni ddibynnir arnyn nhw'n unig. Y Cyngor sy'n parhau i fod â'r cyfrifoldeb terfynol am unrhyw benderfyniadau rheoli'r trysorlys.

13. DANGOSYDDION DARBODUS A THRYSORLYS

- 13.1** Mae Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys a nodir yn Atodiad 10 yn ymwneud â fforddiadwyedd, bod yn ddarbodus ac maent yn gosod cyfyngiadau ar gyfer gwariant cyfalaf, dyledion allanol, y meincnod rhwymedigaethau a strwythur aeddfedu dyledion. Mater i'r Cyngor yw gosod y Dangosyddion Darbodus ac mae'n bwysig ystyried y dangosyddion nid yn unig ar gyfer pob blwyddyn unigol ar wahân ond, hefyd, ystyried perfformiad yn y gorffennol a rhagolygon i'r dyfodol. Ceir eglurhad llawnach o bwrpas pob dangosydd yn Atodiad 10.

14. ADRODD

14.1 Mae angen i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf bum prif adroddiad bob blwyddyn, sy'n cynnwys amrywiaeth o bolisiâu, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol.

- Dangosyddion Darbodus a Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth y Trysorlys – yr adroddiad cyntaf a'r pwysicaf (sef yr adroddiad hwn) yn edrych at y dyfodol ac yn ymwneud â'r isod:-
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (y modd y bydd buddsoddiadau a benthyciadau'n cael eu trefnu), gan gynnwys dangosyddion rheoli'r trysorlys;
- Strategaeth Fuddsoddi (y cyfyngiadau o ran rheoli buddsoddiadau);
- Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) (y modd y mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei roi yn erbyn refeniw dros gyfnod o amser);
- Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys (diffiniad o bolisiâu ac amcanion y swyddogaeth rheoli'r trysorlys); a
- Cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion darbodus cysylltiedig).

14.2 Adroddiadau Chwarterol Rheoli'r Trysorlys – bydd rhain yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd y sefyllfa gyfalaf, diwygio dangosyddion darbodus fel y bydd angen ac yn nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cwrdd â'i hamcanion ynteu oes angen adolygu unrhyw bolisiâu.

14.3 Adroddiad Blynyddol diwedd blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys – dogfen adolygu sy'n edrych yn ôl ac yn rhoi manylion detholiad o ddangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol a gweithgareddau gwirioneddol y trysorlys o'u cymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

14.4 Mae angen craffu digonol ar yr adroddiadau uchod cyn eu hargymell i'r Cyngor. Cyflawnir y rôl hon gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer adroddiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn craffu ar adroddiadau chwarter 1 a chwarter 3 a gyflwynwyd gan Gôd Darbodus 2021.

15. CASGLIAD

15.1 I grynhoi, mae Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2024/25 yn parhau'r strategaeth o ddull ddarbodus o fenthycia, er mwyn cyfyngu'r goblygiadau refeniw, a defnyddio benthyca mewnol pan fo balansau arian parod yn caniatáu. Mae'r strategaeth fuddsoddi'n parhau'r polisi o sicrhau diogelwch ac hylifedd adneuron dros elw.

15.2 Dros oes y strategaeth, rhagwelir byddai balansau arian parod yn lleihau'n sylweddol pe parheir i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gyfrannu i gyllido'r gyllideb refeniw a pharheir i ddefnyddio'r Cyfrif Refeniw Tai i gyllido gwariant cyfalaf. Bydd rhaid ymgymryd a lefel uwch o fenthycia er mwyn cyllido rhaglen gyfalaf y Cyngor, tra'n dal i gynnal balansau arian parod digonol i gyllido rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus

Côd Ymarfer : Rheoli Trysorlys CIPFA yn y Gwasanaethau Cyhoeddus

Egwyddorion allweddol CIPFA ***Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus : Côd Ymarfer (Cyfrol 2021)***, fel y disgrifir yn Adran 4 o'r Côd hwnnw yw:-

Egwyddor Allweddol 1:

Dylai cyrff gwasanaethau cyhoeddus sefydlu amcanion, polisiau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ffurfiol a chynhwysfawr i reoli eu gweithgareddau rheoli trysorlys mewn modd effeithiol.

Egwyddor Allweddol 2:

Dylai eu polisiau a'u harferion ei gwneud yn glir mai rheoli risgiau mewn modd effeithiol yw'r prif amcan yn eu gweithgareddau rheoli trysorlys a bod cyfrifoldeb am y rhain yn disgyn yn ddiamwys ar y sefydliadau eu hunain. Dylai eu harchwaeth risg ffurfio rhan o'u strategaeth flynyddol, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o offerynnau ariannol ar gyfer rheolaeth ddarvoudus o'r risgiau hynny, a dylid sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd y portffolio wrth fuddsoddi arian rheoli trysorlys.

Egwyddor Allweddol 3:

Dylent gydnabod bod ceisio gwerth am arian yn y maes rheoli trysorlys a'r defnydd o fesurau perfformiad addas yn ystyriaethau dilys a phwysig i sefydliadau cyfrifol eu defnyddio i gynorthwyo i gwrdd ag amcanion eu busnes a'u gwasanaethau; ac, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol, dylai eu polisiau a'u harferion rheoli trysorlys adlewyrchu hyn.

Aiff y Côd ymlaen i ddweud bod:-

“Wrth lunio'r argymhellion hyn mae CIPFA yn cydnabod yr anawsterau o ran ymdrechu i reoli risg yn effeithiol, tra'n anelu at sicrhau gwerth am arian ar yr un pryd. Nid yw'r Côd yn ceisio bod yn orbenodol ynghylch sut y dylai'r mater hwn gael ei drin, yn enwedig gan ei fod yn cynnwys amrywiaeth mor eang o sefydliadau. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol, mae nodiadau cyfarwyddo i sectorau penodol yn rhoi cyngor addas. Mae CIPFA yn cydnabod nad oes unrhyw ddau sefydliad yn y gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o fynd i'r afael â'r mater hwn yn union yr un modd, ond mae llwyddiant yn y maes rheoli trysorlys yn debygol o gael ei weld, yn enwedig yn nhermau gwerth am arian, fel arwydd o swyddogaeth rheoli trysorlys sy'n perfformio'n gryf”.

“Barn CIPFA, trwy'r holl wasanaethau cyhoeddus, yw mai'r flaenoriaeth yw diogelu cyfalaf yn hytrach na gwneud yr elw mwyaf. Nid yw osgoi pob risg yn briodol nac yn bosib. Fodd bynnag, mae'n rhaid cael cydbwysedd a chyfrifoldeb llym am arian cyhoeddus.”

Felly, bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r pedwar cymal canlynol fel rhan o'r rheolau sefydlog:-

1. Bydd yr Awdurdod yn creu ac yn cynnal, fel conglfeini ar gyfer rheolaeth effeithiol o'r trysorlys:-

- datganiad ar y polisi rheoli'r trysorlys, sy'n datgan y polisiau, yr amcanion a'r dull o reoli risg yn ei weithgareddau rheoli trysorlys; ac
- arferion rheoli trysorlys addas (ARhT) yn nodi'r modd y bydd yr Awdurdod yn ceisio cyflawni'r polisiau a'r amcanion hynny, ac yn nodi sut y bydd yn trin ac yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Bydd cynnwys y Datganiad Polisi a'r ARhT yn dilyn yr argymhellion a gynhwysir yn Adrannau 6 a 7 o'r Côd, yn amodol yn unig ar newid lle bo angen i adlewyrchu amgylchiadau penodol yr Awdurdod. Ni fydd newidiadau o'r fath yn golygu y bydd yr Awdurdod yn gwyro'n sylweddol oddi wrth egwyddorion allweddol y Côd.

2. Bydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiadau ar bolisiâu, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, yn cynnwys Strategaeth a Chynllun Blynyddol cyn y flwyddyn, adroddiad adolygu canol blwyddyn a hefyd adroddiad blynyddol ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, mewn ffurf sydd wedi ei ragnodi gan yr ARhT.
3. Y Cyngor Sir/Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am weithredu Polisiâu ac Arferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn unol â'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am weithredu a gweinyddu penderfyniadau Rheoli Trysorlys, a bydd yn gweithredu yn unol â Datganiad Polisi'r Awdurdod ar yr ARhT ac os yw'n aelod o CIPFA, yn unol â Safon Arferion Proffesiynol CIPFA ar faterion Rheoli Trysorlys.
4. Mae'r Awdurdod yn enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau y creffir yn effeithiol ar strategaethau a pholisiâu rheoli trysorlys.

ECONOMIC BACKGROUND


- The third quarter of 2023/24 saw:
 - A 0.3% m/m decline in real GDP in October, potentially partly due to unseasonably wet weather, but also due to the ongoing drag from higher interest rates. Growth for the second quarter, ending 30th September, was revised downwards to -0.1% and growth on an annual basis was also revised downwards, to 0.3%;
 - A sharp fall in wage growth, with the headline 3myy rate declining from 8.0% in September to 7.2% in October, although the ONS “experimental” rate of unemployment has remained low at 4.2%;
 - CPI inflation continuing on its downward trajectory, from 8.7% in April to 4.6% in October, then again to 3.9% in November;
 - Core CPI inflation decreasing from April and May’s 31 years’ high of 7.1% to 5.1% in November, the lowest rate since January 2022;
 - The Bank of England holding Bank Rate at 5.25% in November and December;
 - A steady fall in 10-year gilt yields as investors revised their interest rate expectations lower.
- The revision of GDP data in Q2 to a 0.1% q/q fall may mean the mildest of mild recessions has begun. Indeed, real GDP in October fell 0.3% m/m which does suggest that the economy may stagnate again in Q3. The weakness in October may partly be due to the unseasonably wet weather. That said, as the weakness was broad based it may also be the case that the ongoing drag from higher interest rates is more than offsetting any boost from the rise in real wages.
- However, the rise in the flash composite activity Purchasing Managers Index, from 50.7 in November to 51.7 in December, did increase the chances of the economy avoiding a contraction in Q3. The improvement was entirely driven by the increase in the services activity balance from 50.9 to 52.7. (Scores above 50 point to expansion in the economy, although only tepid in this instance.) The press release noted that this was primarily driven by a revival in consumer demand in the technological and financial services sectors. This chimes with the further improvement in the GfK measure of consumer confidence in December, from -24 to -22. The services PMI is now consistent with non-retail services output growing by 0.5% q/q in Q3, but this is in stark contrast to the manufacturing sector where the output balance slumped from 49.2 to 45.9 and, at face value, the output balance is consistent with a 1.5% q/q fall in manufacturing output in Q3.
- The 0.3% m/m fall in retail sales volumes in October means that after contracting by 1.0% q/q (which was downwardly revised from -0.8% q/q) in Q2, retail activity remained weak at the start of Q3. That suggests higher interest rates are taking a bigger toll on real consumer spending.
- Higher interest rates have filtered through the financial channels and weakened the housing market but, overall, it remains surprisingly resilient with the Halifax house price index recently pointing to a 1.7% year on year increase whilst Nationwide’s December data pointed to a -1.8% year on year decrease. However, the full weakness in real consumer spending and real business investment has yet to come as currently it is estimated that around two thirds to a half of the impact of higher interest rates on household interest payments has yet to be felt.
- Overall, we expect real GDP growth to remain subdued throughout 2024 as the drag from higher interest rates is protracted but a fading of the cost-of-living crisis and interest rate cuts in the second half of 2024 will support a recovery in GDP growth in 2025.

- The labour market remains tight by historical standards, but the sharp fall in wage growth seen in October will reinforce the growing belief in markets that interest rates will be cut mid-2024. Wage growth eased in October much faster than the consensus expected. Total earnings fell by 1.6% m/m, which meant the headline 3myy rate eased from 8.0% in September to 7.2% in October. This news will be welcomed by the Bank of England. Indeed, the timelier three-month annualised rate of average earnings growth fell from +2.4% to -1.2%. Excluding bonuses, it fell from 5.3% to 2.0%. Furthermore, one of the Bank's key barometers of inflation persistence, regular private sector pay growth, dropped from 7.9% 3myy to 7.3%, which leaves it comfortably on track to fall to 7.2% by December, as predicted by the Bank in November.
- The fall in wage growth occurred despite labour demand being stronger in October than expected. The three-month change in employment eased only a touch from +52,000 in September to +50,000 in October. But resilient labour demand was offset by a further 63,000 rise in the supply of workers in the three months to October. That meant labour supply exceeded its pre-pandemic level for the first time, and the unemployment rate remained at 4.2% in October. In the three months to November, the number of job vacancies fell for the 17th month in a row, from around 959,000 in October to around 949,000. That has reduced the vacancy to unemployment ratio as demand for labour eases relative to supply, which may support a further easing in wage growth in the coming months.
- CPI inflation fell from 6.7% in September to 4.6% in October, and then again to 3.9% in November. Both these falls were bigger than expected and there are clear signs of easing in domestic inflationary pressures. The fall in core CPI inflation from 5.7% to 5.1% in November was bigger than expected (consensus forecast 5.6%). That's the lowest rate since January 2022. Some of the decline in core inflation was due to the global influence of core goods inflation, which slowed from 4.3% to 3.3%. But some of it was due to services inflation falling from 6.6% to 6.3%. The Bank views the latter as a key barometer of the persistence of inflation and it came in further below the Bank's forecast of 6.9% in its November Monetary Policy Report. This will give the Bank more confidence that services inflation is now on a firmly downward path.
- The Bank of England sprung no surprises with its December monetary policy committee (MPC) meeting, leaving interest rates at 5.25% for the third time in a row and pushing back against the prospect of near-term interest rate cuts. The Bank continued to sound hawkish, with the MPC maintaining its tightening bias saying that "further tightening in monetary policy would be required if there were evidence of more persistent inflationary pressures". And it stuck to the familiar script, saying that policy will be "sufficiently restrictive for sufficiently long" and that "monetary policy is likely to need to be restrictive for an extended period of time". In other words, the message is that the MPC is not yet willing to endorse investors' expectations that rates will be cut as soon as May 2024.
- Looking ahead, our colleagues at Capital Economics forecast that the recent downward trends in CPI and core inflation will stall over the next few months before starting to decline more decisively again in February. That explains why we think the Bank of England won't feel comfortable cutting interest rates until H2 2024.
- The fall in UK market interest rate expectations in December has driven most of the decline in 10-year gilt yields, which have fallen in line with 10-year US Treasury and euro-zone yields. 10-year gilt yields have fallen from 4.68% in October 2023 to around 3.70% in early January, with further declines likely if the falling inflation story is maintained.
- Investors' growing expectations that the Fed will cut interest rates soon has led to an improvement in risk sentiment, which has boosted the pound and other risky assets. In addition, the rise in the pound, from \$1.21 in November to \$1.27 now, has also been supported by the recent relative decline in UK wholesale gas prices.


- The further fall in 10-year real gilt yields in December has supported the recent rise in the FTSE 100. That said, the index remains 5% below its record high in February 2023. This modest rise in equities appears to have been mostly driven by strong performances in the industrials and rate-sensitive technology sectors. But UK equities have continued to underperform US and euro-zone equities. The FTSE 100 has risen by 2.2% in December, while the S&P 500 has risen by 3.8%. This is partly due to lower energy prices, which have been a relatively bigger drag on the FTSE 100, due to the index's high concentration of energy companies.

In the chart below, the rise in gilt yields across the curve in the first half of 2023/24, and therein PWLB rates, is clear to see, prior to the end of year rally based on a mix of supportive domestic and international factors.

PWLB RATES 3.4.23 - 29.12.23



PWLB Certainty Rate Variations 3.4.23 to 29.12.23



HIGH/LOW/AVERAGE PWLB RATES FOR 3.4.23 – 29.12.23

	1 Year	5 Year	10 Year	25 Year	50 Year
Low	4.65%	4.13%	4.20%	4.58%	4.27%
Date	06/04/2023	27/12/2023	06/04/2023	06/04/2023	05/04/2023
High	6.36%	5.93%	5.53%	5.96%	5.74%
Date	06/07/2023	07/07/2023	23/10/2023	23/10/2023	23/10/2023
Average	5.60%	5.09%	5.03%	5.35%	5.08%
Spread	1.71%	1.80%	1.33%	1.38%	1.47%

MPC meetings 2nd November and 14th December 2023

- On 2nd November, the Bank of England’s Monetary Policy Committee (MPC) voted to keep Bank Rate on hold at 5.25%, and on 14th December reiterated that view. Both increases reflected a split vote, the latter by 6 votes to 3, with the minority grouping voting for an increase of 0.25% as concerns about “sticky” inflation remained in place.
- Nonetheless, with UK CPI inflation now at 3.9%, and core inflating beginning to moderate (5.1%), markets are voicing a view that rate cuts should begin in Q1 2024/25, some way ahead of the indications from MPC members. Of course, the data will be the ultimate determinant, so upcoming publications of employment, wages and inflation numbers will be of particular importance, and on-going volatility in Bank Rate expectations and the gilt yield curve can be expected.
- In addition, what happens outside of the UK is also critical to movement in gilt yields. The US FOMC has kept short-term rates in the range of 5.25%-5.50%, whilst the ECB has moved its Deposit rate to a probable peak of 4%. Markets currently expect both central banks to start cutting rates in 2024.



PWLB debt	Current borrowing rate as at 08.01.24 p.m.	Target borrowing rate now (end of Q4 2025)	Target borrowing rate previous (end of Q3 2025)
5 years	4.53%	3.70%	3.80%
10 years	4.67%	3.90%	3.80%
25 years	5.19%	4.20%	4.20%
50 years	4.97%	4.00%	4.00%



Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Group, Treasury Solutions

Rhagolygon Graddfeydd Llog 2024/2025

Interest Rate Forecasts 2024/2025

PWLB rates and forecast shown below have taken into account the 20 basis point certainty rates.

Interest Rate Forecasts								
Bank Rate	Mar-24	Jun-24	Sep-24	Dec-24	Mar-25	Jun-25	Sep-25	Dec-25
Link	5.25%	5.25%	4.75%	4.25%	3.75%	3.25%	3.00%	3.00%
Cap Econ	5.25%	5.00%	4.50%	4.00%	3.50%	3.00%	3.00%	3.00%
5Y PWLB RATE								
Link	4.50%	4.40%	4.30%	4.20%	4.10%	4.00%	3.80%	3.70%
Cap Econ	4.50%	4.30%	4.20%	4.00%	3.90%	3.80%	3.80%	3.70%
10Y PWLB RATE								
Link	4.70%	4.50%	4.40%	4.30%	4.20%	4.10%	4.00%	3.90%
Cap Econ	4.50%	4.40%	4.20%	4.10%	4.10%	4.10%	4.10%	4.10%
25Y PWLB RATE								
Link	5.20%	5.10%	4.90%	4.80%	4.60%	4.40%	4.30%	4.20%
Cap Econ	5.10%	4.80%	4.60%	4.30%	4.40%	4.40%	4.50%	4.60%
50Y PWLB RATE								
Link	5.00%	4.90%	4.70%	4.60%	4.40%	4.20%	4.10%	4.00%
Cap Econ	4.70%	4.60%	4.50%	4.30%	4.30%	4.30%	4.40%	4.40%

Additional notes by Link on this forecast table: -

- Our central forecast for interest rates was previously updated on 7 November and reflected a view that the MPC would be keen to further demonstrate its anti-inflation credentials by keeping Bank Rate at 5.25% until at least H2 2024. We expect rate cuts to start when both the CPI inflation and wage/employment data are supportive of such a move, and when there is a likelihood of the overall economy enduring at least a slowdown or mild recession over the coming months (although most recent GDP releases have surprised with their on-going robustness).
- Naturally, timing on this matter will remain one of fine judgment: cut too soon, and inflationary pressures may well build up further; cut too late and any downturn or recession may be prolonged.
- In the upcoming months, our forecasts will be guided not only by economic data releases and clarifications from the MPC over its monetary policies and the Government over its fiscal policies, but also international factors such as policy development in the US and Europe, the provision of fresh support packages to support the faltering recovery in China as well as the on-going conflict between Russia and Ukraine, and Gaza and Israel.

Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Group

DADANSODDIAD BENTHYCIADAU PWLB YN AEDDFEDU 2024/25 YMLAEN / PWLB LOANS MATURITY ANALYSIS 2024/25 ONWARDS						
	Aeddefedu PWLB Maturity	Blwydd-dal PWLB EIP/ Annuity	Benthyciadau Marchnad/ Market Loans	Amrywiol/ PWLB Variable	Cyfanswm yn Aeddfedu/ Total Maturing	%Yn Aeddfedu o'r Cyfran yn sefyll/ Maturing of Total Outstanding %
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
2024/25	0	18	0	0	18	0.0
2025/26	0	20	0	0	20	0.0
2026/27	1,381	22	0	0	1,403	1.2
2027/28	2,165	24	0	0	2,189	1.9
2028/29	262	26	0	0	288	0.2
2029/30	1,539	21	0	0	1,560	1.3
2030/31	451	15	0	0	466	0.4
2031/32	1,941	9	0	0	1,950	1.7
2032/33	315	7	0	0	322	0.3
2033/34	637	0	0	0	637	0.6
2034/35	624	0	0	0	624	0.5
2035/36	611	0	0	0	611	0.5
2036/37	599	0	0	0	599	0.5
2037/38	587	0	0	0	587	0.5
2038/39	226	0	0	0	226	0.2
2039/40	5,000	0	0	0	5,000	4.2
2040/41	3,500	0	0	0	3,500	3.0
2042/43	1,000	0	0	0	1,000	0.8
2043/44	1,020	0	0	0	1,020	0.9
2044/45	1,010	0	0	0	1,010	0.9
2045/46	11,464	0	0	0	11,464	9.7
2050/51	2,000	0	0	0	2,000	1.7
2052/53	28,238	0	0	0	28,238	24.0
2054/55	3,000	0	0	0	3,000	2.6
2055/56	3,500	0	0	0	3,500	3.0
2056/57	5,000	0	0	0	5,000	4.2
2057/58	8,513	0	0	0	8,513	7.2
2059/60	1,763	0	0	0	1,763	1.5
2064/65	10,000	0	0	0	10,000	8.5
2066/67	6,200	0	0	0	6,200	5.3
2068/69	15,000	0	0	0	15,000	12.7
	117,546	162	0	0	117,708	100.0
Cyfartaledd bywyd (blynyddoedd)/ Average life (years)	31.14	3.42	0.00	0.00	31.10	
Cyfartaledd graddf (%)/ Average rate (%)	4.47	9.42	0.00	0.00	4.47	

**PROFFIL AD-DALU BENTHYCIADAU ERAILL 2024/25 YMLAEN /
OTHER LOANS REPAYMENT PROFILE 2024/25 ONWARDS**

	Benthyciad Salix Loan 1	Benthyciad Salix Loan 2	Benthyciad Salix Loan 3	Benthyciad Salix Loan	Benthyciad Salix Loan 5	Benthyciad Salix Loan 6	Cyfanswm / Total
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
2024/25	8	46	64	26	220	264	628
2025/26	0	45	64	26	220	264	619
2026/27	0	0	64	27	220	264	575
2027/28	0	0	63	27	220	264	574
2028/29	0	0	63	27	220	264	574
2029/30	0	0	0	13	221	265	499
2030/31	0	0	0	0	221	265	486
2031/32	0	0	0	0	221	265	486
2032/33						265	265
2033/24						265	265
2034/35						265	265
2035/36						265	265
Cyfanswm / Total	8	91	318	146	1,763	3,175	5,501

Datganiad Polisi ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) ar gyfer 2024/25

Rhaid i'r Cyngor dalu elfen o wariant cyfalaf y Cyngor a'r CRT sydd wedi cronni bob blwyddyn (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf - GCC) drwy dâl refeniw (y ddarpariaeth refeniw isaf - DRI), er y caniateir iddo hefyd wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol os oes angen (darpariaeth refeniw wirfoddol - VRP).

Yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DRI cyn pob blwyddyn. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi "os cynigir amrywio telerau'r datganiad gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor bryd hynny". Rhoddir nifer o opsiynau i gynghorau, ar yr amod bod darpariaeth ddarbodus. Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad DRI isod, sydd heb newid o bolisi DRI 2023/24:-

O 1 Ebrill 2022, ar gyfer yr holl wariant cyfalaf sydd wedi ei gyllido drwy fenthycâ â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth (CFR), codir DRI drwy ddefnyddio'r dull blwydd-dal oes ased ar sail y gyfradd llog a godir ar y Cyngor ar gyfartaledd ar ei holl fenthyciadau ar ddiwedd pob blwyddyn berthnasol.

Mae'n bosib na fydd taliadau DRI sy'n seiliedig ar ddull blwydd-dal oes ased yn dod i rym tan y flwyddyn y daw'r ased yn weithredol. Gall y Swyddog Adran 151 ohirio'r tâl DRI tan y flwyddyn gyllidol sy'n dilyn y flwyddyn y daw'r ased yn weithredol. Bydd amcangyfrifo oes yr ased, cael ei benderfynu yn y flwyddyn y bydd y DRI yn dechrau ac ni fydd yn newid dros oes yr ased. Y Swyddog Adran 151 fydd yn amcangyfrifo oes yr ased, yn seiliedig ar gyngor a dderbynnir gan y swyddogion perthnasol, gan ystyried y gofynion Statudol a chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r DRI ac oes asedau. Pan fo tir yn cael ei brynu, bydd oed yr ased yn seiliedig ar oes yr ased a roddir ar y tir, sef 50 mlynedd yn rhan fwyaf o achosion, a hynny'n unol â hyd oes adeiladau fel asedau.

Oherwydd nad yw rhai mathau o wariant cyfalaf a wneir gan y Cyngor yn rhai y gellir eu cysylltu ag ased unigol, bydd oes ased yn cael ei hasesu ar sail sydd yn adlewyrchu'n fwyaf rhesymol am ba hyd y rhagwelir y ceir budd o'r gwariant. Hefyd, pa fath bynnag o wariant ydyw, bydd yn cael ei grwpio gyda'i gilydd mewn dull sy'n adlewyrchu natur prif elfen y gwariant ac ni fydd ond yn cael ei rannu mewn achosion lle mae dwy neu ragor o brif elfennau ac iddynt oes economaidd ddefnyddiol sylweddol wahanol i'w gilydd.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol i leihau dyled os ystyrir ei bod yn ddoeth gwneud hynny.

Bydd yr DRI a godir ar y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) am ei gyfran o'r benthyca â chefnogaeth a digefnogaeth, hefyd yn seiliedig ar y dull blwydd-dal oes ased ar sail y gyfradd llog a godir ar y Cyngor ar gyfartaledd ar ei holl fenthyciadau ar ddiwedd pob blwyddyn berthnasol.

Bydd unrhyw ad-daliadau sydd wedi eu cynnwys yn y PFI blynyddol neu brydlesau cyllid yn cael eu gweithredu fel DRI ac yn gyson â'r sail blwydd-dal oes ased dros oes y brydles neu'r cynllun PFI.

Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2010) yn rhoi diffiniad o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol.

Mae paragraff 5.1 y Canllawiau yn dweud bod buddsoddiad yn un penodol os yw'n cwrdd â phob un o'r isod:-

- (a)** bod y buddsoddiad yn cael ei wneud mewn sterling ac mae unrhyw daliadau neu ad-daliadau mewn perthynas â'r buddsoddiad yn daladwy mewn sterling yn unig; a
- (b)** nid yw'r buddsoddiad yn un tymor hir (*); a
- (c)** nad yw gwneud y buddsoddiad yn cael ei ddiffinio'n wariant cyfalaf yn rhinwedd rheoliad 20 (1) (d) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 [OS 3239 fel y'i diwygiwyd]; a
- (d)** gwneir y buddsoddiad gyda chorff neu mewn cynllun buddsoddi o ansawdd credyd uchel (**); neu gydag un o'r cyrff sector cyhoeddus canlynol:
 - (i)** Llywodraeth y Deyrnas Unedig;
 - (ii)** awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr (fel y diffinnir yn adran 23 o Ddeddf 2003) neu gorff tebyg yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon;
 - (iii)** cyngor plwyf neu gymuned.

Mae'r Canllawiau hefyd yn dweud bod unrhyw fuddsoddiad nad yw'n cwrdd â'r diffiniad ym mharagraff 5.1 yn cael ei gyfrif fel buddsoddiad amhenodol.

Yn ystod 2024/25 nid yw'r Cyngor yn bwriadu buddsoddi mewn arian gwledydd tramor, na chyda chyrrff ansawdd credyd isel, nac unrhyw fuddsoddiadau a ddiffinnir fel gwariant cyfalaf gan y ddeddfwriaeth (megis cyfranddaliadau mewn cwmnïau). Bydd buddsoddiadau amhenodol felly yn cael eu cyfyngu i (i) buddsoddiadau tymor hir; a (ii) adneuo'n gyda banciwr y Cyngor i ddibenion gwneud trafodion os yw'n methu a chwrdd â'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y credyd; yn yr achos hwn, caiff balansau eu cyfyngu i'r eithaf lle mae hynny'n bosib.

Mae'r tabl yn Atodiad 7 yn nodi'r meini prawf a'r cyfyngiadau buddsoddi ar gyfer y gwahanol gategoriâu o fuddsoddiadau y bwriedir eu defnyddio yn ystod 2024/25 ac sydd, felly, yn sail ar gyfer y rhestr fenthyca a gymeradwyir.

Bydd raid i'r Cyngor Sir gymeradwyo ymlaen llaw unrhyw newidiadau arfaethedig yn ystod y flwyddyn i gategoriâu o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol a ddefnyddir ac/neu i'r meini prawf graddfeydd credyd / cyfyngiadau buddsoddi.

Meini Prawf Gwrthbartion

Categori	Graddfa Credyd Tymor Byr (Fitch)	Graddfa Credyd Tymor Byr (Moody's)	Graddfa Credyd Tymor Byr (Standard & Poor's)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Fitch)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Moody's)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Standard & Poor's)	Terfyn Arian	Terfyn Amser
Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (sydd heb eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol)	F1+	P-1	A-1+	AAA	Aaa	AAA	£10m	5 mlynedd
	F1+	P-1	A-1+	AA	Aa2	AA	£10m	3 mlynedd
	F1+	P-1	A-1+	AA-	Aa3	AA-	£10m	364 diwrnod
	F1	P-1	A-1	A	A2	A	£7.5m	6 mis
Banciau'r Deyrnas Unedig sydd wedi eu Gwladoli / eu Gwladoli'n Rhannol	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£10m	364 diwrnod
Banc y NatWest (wedi ei Wladoli'n Rhannol)	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£30m	364 diwrnod
Llywodraeth Ganolog y Deyrnas Unedig (waeth beth fo'r raddfa credyd)	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	Dim uchafswm	Dim uchafswm
Awdurdodau Lleol y Deyrnas Unedig **	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£10m	364 diwrnod
Cronfeydd Marchnad Arian	d/b	d/b	d/b	AAA	AAA	AAA	£5m	6 mis

*fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003

Nodiadau ac Eglurhad**(1) Terfyn Arian Parod**

- (i) Mae'r terfynau arian yn berthnasol i'r gwrthbarti unigol ac i'r grŵp cyffredinol y mae'n perthyn iddo. (e.e. ar gyfer y banciau o fewn Grŵp Bancio Lloyds plc (sef Bank of Scotland plc a Lloyds Bank plc) mae'r terfyn buddsoddi yn berthnasol i'r banciau hynny'n unigol a'r grŵp bancio yn ei gyfanrwydd);
- (ii) Y terfyn arian cyffredinol ar gyfer adneuo'n dros 364 o ddyddiau yw £15m.

(2) Terfyn Amser

- (i) I fyny at, a chan gynnwys y cyfnod a nodwyd.

(3) Arian Gwledydd Tramor

- (i) Bydd buddsoddiadau mewn gwledydd tramor wedi eu cyfyngu i'r rheini a chanddynt raddfa credyd sofran AA- (Fitch) neu gyfatebol (o'r asiantaethau y cyfeiriwyd atynt yn adran 4.3 o'r strategaeth hon) - (yn seiliedig ar y cyfenwador lleiaf) a hyd at uchafswm o £10 miliwn fesul gwlad dramor.
- (ii) Ni chaniateir buddsoddi mewn gwledydd nad yw'r raddfa sofran isaf yn AA- neu'n uwch. Ni fydd cyfyngiad gwlad yn berthnasol i fuddsoddiadau yn y Deyrnas Unedig waeth beth fo'r raddfa credyd sofran.
- (iii) Bydd is-gwmnïau o grwpiau banciau tramor fel arfer yn cael eu hasesu yn unol â mamwlad y rhiant-sefydliad. Fodd bynnag, bydd Santander UK plc (is-gwmni Banco Santander yn Sbaen) yn cael ei gyfrif fel banc yn y Deyrnas Unedig oherwydd ei fasnachfreintiau sylweddol yn y Deyrnas Unedig a natur hyd braich y berthynas rhwng y rhiant gwmni a'r is-gwmni.

(4) Graddfa Credyd yn Gostwng

Os bydd graddfa credyd yn gostwng ac yn golygu bod y gwrthbarti yn is na'r meini prawf y mae'n rhaid cwrdd â nhw ar gyfer buddsoddi, rhoddir y gorau i ddefnyddio'r gwrthbarti cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Os bydd y Swyddog Adran 151 yn dymuno parhau i fuddsoddi gyda'r gwrthbarti hwnnw, gofynnir am ganiatâd gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac un aelod arall o ddewis y Cadeirydd a bydd raid i'r ddau ohonynt gymeradwyo. Adroddir ar hynny fel sy'n briodol cyn gynted ag y gellir.

Gwledydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddi [yn gywir fel ar 19 Rhagfyr 2022]

Mae'r rhestr hon yn seiliedig ar y gwledydd hynny sydd â graddfa sofran o AA- neu uwch (rydym yn dangos y raddfa isaf gan Fitch, Moody's a S&P) a hefyd, (ac eithrio - ar adeg ysgrifennu - ar gyfer Hong Kong a Lwcsembwrg) a chanddynt fanciau sy'n gweithredu mewn marchnadoedd sterling sydd â statws credyd gwyrdd neu uwch yng ngwasanaeth teilyngdod credyd Link Asset Services.

Yn seiliedig ar y raddfa isaf sydd ar gael

AAA

- Awstralia
- Denmarc
- Yr Almaen
- Yr Iseldiroedd
- Norwy
- Singapore
- Sweden
- Y Swistir

AA+

- Canada
- Y Ffindir
- U.D.A

AA

- Abu Dhabi (Yr Emiraethau Arabaidd Unedig)

AA-

- Gwlad Belg
- Qatar
- Ffrainc (wedi' hisraddio gan Fitch 2023)
- **Y D.U.**

Cynllun Dirprwyo ar gyfer materion Rheoli Trysorlys

(i) Cyngor Sir

- Cymeradwyo'r Gyllideb;
- Cymeradwyo'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR), Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol a diwygiadau iddynt;
- Cymeradwyo diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd gan y Cyngor;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisiau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys; a
- Gweithredu ar argymhelliad a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a/neu'r Pwyllgor Gwaith.

(ii) Pwyllgor Gwaith

- Ystyried y gyllideb;
- Cymeradwyo rhannu cyfrifoldebau;
- Cymeradwyo dewis o ddarparwyr gwasanaeth allanol a chytuno ar delerau penodi;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisiau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir fel sy'n briodol; a
- Gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

(iii) Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Craffu ar faterion Rheoli Trysorlys, fel sy'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys a Pholisi Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys:-
 - Craffu ar y Datganiad ar y Strategaeth Flynyddol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) Blynyddol, y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
 - Craffu ar gynigion am ddiwygiadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) Blynyddol, y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys ac i'r diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
 - Derbyn a chraffu ar unrhyw gynigion sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys ac sydd angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Sir; a
 - Derbyn a chraffu ar adroddiadau monitro ar bolisiau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol.

Rôl Rheoli Trysorlys y Swyddog Adran 151

Mae rôl y Swyddog Adran 151 (y swyddog cyfrifol) yn

cynnwys:

- argymhell cymalau, polisi/arferion rheoli trysorlys i'w cymeradwyo, gan eu hadolygu'n rheolaidd, a monitro cydymffurfiaeth;
- cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y polisi rheoli trysorlys;
- cyflwyno cyllidebau ac amrywiadau i'r gyllideb;
- derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth reoli;
- adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd adnoddau a sgiliau rheoli trysorlys, a rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol o fewn y swyddogaeth rheoli trysorlys;

- sicrhau digonolrwydd y gwaith archwilio mewnol, a chydgyssylltu ag archwilwyr allanol;
- argymell penodi darparwyr gwasanaeth allanol;
- mae cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu'r penderfyniadau trysorlys, yn cynnwys y penderfyniadau ar fenthycu, buddsoddi ac ariannu, wedi eu dirprwyo i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiadau polisi'r Cyngor ac Arferion Rheoli Trysorlys;
- paratoi strategaeth gyfalaf i gynnwys gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf, buddsoddiadau anariannol a rheoli trysorlys o fewn amserlen tymor hir;
- sicrhau bod y strategaeth gyfalaf yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn y tymor hir a'i bod yn darparu gwerth am arian;
- sicrhau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r holl fuddsoddiadau trysorlys ac anariannol a'u bod yn unol ag archwaeth risg yr Awdurdod;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod y pwerau cyfreithiol priodol i wario ar asedau anariannol a'u cyllido;
- sicrhau cymesuredd yr holl fuddsoddiadau fel nad yw'r Awdurdod yn buddsoddi ar lefel sy'n golygu bod yr Awdurdod yn agored i lefel ormodol o risg o gymharu â'i adnoddau ariannol;
- sicrhau bod proses lywodraethu ddigonol yn ei lle ar gyfer cymeradwyo, monitro a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddsoddiadau anariannol a rhwymedigaethau tymor hir;
- rhoi i Aelodau restr o'r holl fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys, gan gynnwys buddsoddiadau sylweddol mewn is-gwmnïau, mentrau ar y cyd, benthyciadau a gwarantau ariannol;
- sicrhau bod Aelodau'n cael gwybodaeth ddigonol a'u bod yn deall y risgiau y mae'r Awdurdod yn agored iddynt;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod yr arbenigedd digonol, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i wneud yr uchod;
- creu Arferion Rheoli Trysorlys sy'n delio'n benodol â'r modd y bydd buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trin a'u rheoli, gan gynnwys yr isod:-
 - Rheoli risg (ARhT1 a'r atodlenni), gan gynnwys meini prawf buddsoddi a rheoli risg ar gyfer unrhyw bortffolios buddsoddi sylweddol nad ydynt yn ymwneud â'r trysorlys;
 - Mesur a rheoli perfformiad (ARhT2 a'r atodlenni), gan gynnwys methodoleg a meini prawf ar gyfer asesu perfformiad a llwyddiant buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys;
 - Gwneud penderfyniadau, llywodraethu a threfniadaeth (ARhT5 a'r atodlenni), gan gynnwys datganiad ar ofynion llywodraethiant ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys; a threfniadau i sicrhau diwydrwydd dyladwy er mwyn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau;
 - Gwybodaeth reoli ac adrodd (ARhT6 a'r atodlenni), gan gynnwys ble a pha mor aml y cynhyrchir adroddiadau monitro;
 - Hyfforddiant a chymwysterau (ARhT10 a'r atodlenni), gan gynnwys y modd y bydd gwybodaeth a sgiliau perthnasol mewn perthynas â buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trefnu.

**DANGOSYDDION DARBODUS A THRYSORLYS
GOSOD CYLLIDEB 2024/25**

ATODIAD 10

Rhif Dangosydd

Fforddiadwyedd		2022/23 gwirioneddol	2023/24 amcangyfrif	2024/25 cynnig	2025/26 cynnig	2026/27 cynnig
1,2	Amcangyfrif o [neu wir] gymhareb costau dyled i ffrwd referniw net:					
	Cronfa'r Cyngor	3.11%	2.31%	3.12%	3.20%	3.15%
	Cyfrif Refeniw Tai (yn cynnwys setliad)	7.26%	6.10%	10.38%	13.19%	14.72%
	Cyfanswm	3.57%	2.73%	3.89%	4.24%	4.35%

Bod yn ddarbodus

3	Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)	✓	✓	✓	✓	✓
	Ydy dyled allanol gros yn llai na'r GCC am y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw gynnydd am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol?			✓	✓	✓

Gwariant cyfalaf


		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
4,5	Amcangyfrif o [neu wir] wariant cyfalaf					
	Cronfa'r Cyngor	29,510	32,330	15,565	5,028	4,836
	Cyfrif Refeniw Tai	11,180	18,192	35,145	29,974	26,291
	Cyfanswm	40,690	50,522	50,710	35,002	31,127
6,7	Amcangyfrif o'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf, neu'r gwir Ofyniad Cyllido Cyfalaf					
	Cronfa'r Cyngor	105,825	112,483	116,485	117,598	118,670
	Cyfrif Refeniw Tai	38,287	38,105	55,506	70,640	79,851
	Cyfanswm	144,112	150,588	171,991	188,238	198,521

Dyled Allanol

		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
8	Terfyn Awdurdodedig					
	: Benthycu Cyffredinol	175,000	175,000	205,664	215,696	225,642
	: Rhwymedigaethau tymor hir eraill	5,000	5,000	10,000	10,000	10,000
	: Cyfanswm	180,000	180,000	215,664	225,696	235,642

Tudalen 67

9	Terfyn gweithredol					
	: Benthycu cyffredinol	170,000	170,000	200,664	210,696	220,642
	: Rhwymedigaethau tymor hir eraill	5,000	5,000	10,000	10,000	10,000
	: Cyfanswm	175,000	175,000	210,664	220,696	230,642
10	Dyled Allanol Awirioneddol	125,348				
Rheoli'r Trysorlys		2022/23	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27
		gwirioneddol	amcangyfrif	cynnig	cynnig	cynnig
11	Y terfyn ar gyfer cyfanswm y prif symiau a fuddsoddir am gyfnodau o fwy na 364 diwrnod (bydd unrhyw fuddsoddiadau tymor hir a ddygir ymlaen o flynyddoedd blaenorol yn cael eu cynnwys yn y terfyn ar gyfer pob blwyddyn)	15,000	15,000	15,000	15,000	15,000
			2024/25	2024/25		
			Terfyn	Terfyn isaf		
			uchaf			
12	Y terfynau uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedrwydd benthyciadau ar gyfraddau sefydlog					
	• dan 12 mis		20%	0%		
	• 12 months ac o fewn 24 mis		20%	0%		
	• 24 months ac o fewn 5 mlynedd		50%	0%		
	• 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd		75%	0%		
	• 10 mlynedd a thrososdd		100%	0%		
			Dim newid	Dim newid		
13	Meincnod Rhwymedigaethau (gweler y siart isod)					



Gwybodaeth am Ddangosyddion Darbodus a Thrysorlys**DANGOSYDDION DARBODUS****A) Fforddiadwyedd****1 a 2 Cymhareb y costau cyllido i'r ffrwd referniw net**

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad o ran cost cyfalaf (costau benthyca a chostau rhwymedigaethau tymor hir eraill net o'r incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd referniw net.

Mae'r amcangyfrifon ynghylch costau cyllido yn cynnwys ymrwymadau cyfredol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

(B) Bod yn Ddarbodus**3 Dyled Gros a'r GCC**

Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled gros, heblaw yn y tymor byr, yn mynd yn uwch na'r GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon am unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2024/25 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Mae hyn yn rhoi peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca buan cyfyngedig yn y dyfodol, ond yn sicrhau na fyddir yn benthyca i ddibenion referniw.

C) Gwariant Cyfalaf

Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yw'r gyrwyr allweddol o ran gweithgareddau rheoli trysorlys. Adlewyrchir allbwn y cynlluniau gwariant cyfalaf yn y dangosyddion darbodus, sydd wedi'u dylunio i gynorthwyo aelodau i gael trosolwg o'r sefyllfa gyfalaf a chadarnhau cynlluniau gwariant cyfalaf.

Mae'n darparu crynodeb o wariant cyfalaf y Cyngor. Mae'n adlewyrchu materion y cytunwyd arnynt eisoes a chynlluniau arfaethedig ar gyfer cyfnodau ariannol yn y dyfodol.

Bydd lefel cyllido gwariant o'r fath yn dylanwadu ar y newid yn y dangosydd ar gyfer Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor.

4 a 5 Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf

Dyma'r Gwariant Cyfalaf a ragamcenerir o 2022/23 hyd at 2025/26 ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024/25.

6 a 7 Anghenion Benthyca'r Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)

Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol gweddilliol nad ydyw hyd yma wedi cael ei dalu amdano o adnoddau referniw neu gyfalaf. Yn sylfaenol, mesur ydyw o anghenion benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf nad ydyw wedi talu amdano ar unwaith o ffynhonnell referniw neu gyfalaf, yn cynyddu lefel y GCC.

Nid yw'r GCC yn cynyddu i lefel amhenodol, oherwydd mae'r ddarpariaeth Referniw isaf (DRI) yn dâl referniw blynyddol statudol sydd, yn gyffredinol, yn gostwng yr angen benthyca yn unol ag oes pob ased ac felly mae'n dâl ar y defnydd economaidd o asedau cyfalaf wrth iddynt gael eu defnyddio.

Mae'r GCC yn cynnwys unrhyw ymrwymadau tymor hir eraill (e.e. cynlluniau PFI, prydesau ariannol). Er bod y rhain yn cynyddu'r GCC ac o'r herwydd, yn cynyddu angen y Cyngor i fenthycu, mae'r mathau hyn o gynlluniau'n cynnwys cyfleuster benthycu ac o'r herwydd, nid oes raid i'r Cyngor fenthycu ar wahân ar gyfer y cynllun

CH) Dyled Allanol

- 8. Y terfyn a awdurdodir ar gyfer dyled allanol.** Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn rheoli'r uchafswm benthycu. Gwaherddir dyledion allanol y tu hwnt i'r terfyn hwn ac mae angen i'r Cyngor llawn osod neu ddiwygio'r terfyn. Mae'n adlewyrchu'r lefel o ddyled allanol y gellid, er nad yw hynny'n beth a ddeisyfir, ei fforddio yn y tymor byr ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r terfyn statudol y penderfynir arno dan adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai'r cyfan o gynlluniau'r holl Gyngorau, neu gynlluniau Cyngor penodol, er nad ydyw hyd yma wedi defnyddio'r pŵer hwnnw.

Dywed y Swyddog Adran 151 bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd darbodus hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n rhagweld anawsterau yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth yr ymrwymadau cyfredol, y cynlluniau presennol, a'r cynigion sydd yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

- 9. Y ffin weithredol.** Ffin yw hon na fyddir fel arfer yn disgwyl i ddyled allanol fynd yn uwch na hi. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n ffigwr tebyg i GCC ond gall fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r ddyled wirioneddol a'r gallu i gyllido tanfenthycu trwy ddefnyddio adnoddau arian parod eraill.
- 10. Gwir ddyled allanol.** Mae'n rhaid i'r Cyngor ddatgelu'r balans cau ar gyfer gwir fenthycu gros mewn perthynas â'r cyfnod ariannol sydd newydd ddod i ben, ynghyd â lefel ymrwymadau tymor hir eraill, ac felly, gwir lefel cyfanredol dyledion allanol ar ddyddiad y Fantolen.

DANGOSYDDION TRYSORLYS

- 11. Terfynau ar gyfer Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Tymor Hir.** Mae'r Dangosydd hwn yn ceisio cynorthwyo i reoli risg hylifedd. Dylid gosod y terfynau gyda golwg ar anghenion hylifedd y Cyngor a hefyd lleihau'r angen posib i orfod gadael y buddsoddiad yn gynnar er mwyn adennill arian. Mae'r dangosydd yn ymwneud â buddsoddiadau'r Cyngor i ddibenion rheoli trysorlys yn unig.
- 12. Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor osod terfynau gros ar aeddfedrwydd ar gyfer y cyfnodau a ddangosir ac mae'n ymwneud â benthyciadau ar gyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiadwy. Y rheswm yw ceisio rheoli'r posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu symiau mawr sydd angen eu hailgyllido.
- 13. Meincnod Rhwymedigaethau.** Y dangosydd darbodus newydd ar gyfer 2024/25 yw'r Meincnod Rhwymedigaethau. Mae'n rhaid i'r Cyngor amcangyfrif a mesur y meincnod rhwymedigaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a'r ddwy flynedd ddilynol. Mae'r Meincnod Rhwymedigaethau'n cynnwys pedair rhan:-
 - 1. Dyledion benthyciadau cyfredol sy'n ddyledus:** benthyciadau cyfredol y Cyngor sydd yn parhau i fod yn ddyledus yn y dyfodol.
 - 2. GCC Benthyciadau:** mae hwn yn cael ei gyfrifo yn unol â'r diffiniad o GCC benthyciadau yn y Côd Darbodus ac mae amcangyfrifon i'r dyfodol yn seiliedig ar fenthycu darbodus a gymeradwywyd a DIR a gynlluniwyd.

3. **Gofyniad benthyca net:** Bydd hyn yn dangos dyledion benthyciadau gros y Cyngor wedi tynnu buddsoddiadau rheoli trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, wedi'i amcangyfrif i'r dyfodol ac yn seiliedig ar y benthyca darbodus a gymeradwywyd, DIR a gynlluniwyd ac unrhyw lif arian sylweddol arall a ragwelir.
4. **Meincnod Rhwymedigaethau** (neu ofyniad benthyca gros): mae hwn yn gyfartal i'r gofyniad benthyca net ynghyd â'r lwfans hylifedd tymor byr.

Geirfa**GWARIANT CYFALAF**

Gwariant ar brynu ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased presennol nad yw'n gyfredol, yn hytrach na dim ond cynnal gwerth yr ased. Mae enghreifftiau'n cynnwys: adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, gwaith adnewyddu sylweddol ar gartref gofal.

CYLLIDO CYFALAF

Arian sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf, gan gynnwys benthycu, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf y mae modd eu defnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd refeniw wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

GOFYNIAD CYLLIDO CYFALAF

Y cyfanswm gwariant cyfalaf hanesyddol sydd heb ei dalu'n barod naill ai o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n adlewyrchiad o angen sylfaenol y Cyngor i fenthycu.

RHAGLEN GYFALAF

Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu gweithredu dros gyfnod penodol o amser.

DERBYNIADAU CYFALAF

Yr elw o waredu tir neu asedau eraill nad ydynt yn gyfredol. Gellir defnyddio cyfran o'r derbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

CIPFA

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â darpariaeth tai y Cyngor.

LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR

Defnyddir y dull cyfradd llog gwirioneddol i fesur beth yw gwerth ased ariannol neu rwymedigaeth a fesurir yn ôl y gost llai amorteiddiad cronedig, ac i neilltuo incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd llog wirioneddol yw honno sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau yr amcangyfrifir y'u derbynnir yn y dyfodol dros oes ddisgwyliedig yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd llog wirioneddol yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor. Yn achos asedau a rhwymedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog gwirioneddol yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronus.

DARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI)

Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

DYLED NET

Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

BWRDD BENTHYCIADAU GWAITH CYHOEDDUS (BBGC)

Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthyca arnynt ei hun.

GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)

Gwariant y gellir ei ohirio'n briodol (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran ei natur) ond nad yw'n arwain at ased diriaethol, na'n parhau i fod yn gysylltiedig â hi. Mae enghreifftiau o daliadau gohiriedig yn cynnwys grantiau o natur gyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

GRANT CYNNAL REFENIW

Grant a delir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau, ac sy'n cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

BENTHYCA Â CHEFNOGAETH

Mae'r Cyngor yn benthycu arian i gyllido rhan o'i raglen gyfalaf. Cydnabyddir y benthyciad gan Lywodraeth Ganolog wrth gyfrifo ei fformiwla gyllido ar gyfer y Cyngor.

BENTHYCA DROS DRO

Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

BENTHYCA DIGEFNOGAETH

Gall y Cyngor fenthyca arian ychwanegol i'r benthycu a gefnogir gan y Llywodraeth, a hynny er mwyn cyllido ei wariant cyfalaf cyn belled â'i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer hwn gan Gôd Darbodus CIPFA, sef Côt y mae'r Cyngor yn llwyr gydymffurfio ag ef.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	20 CHWEFROR 2024
Pwnc:	FFIOEDD A THALIADAU 2024/25
Aelod(au) Portffolio:	CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – AELOD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD CWSMER
Pennaeth Gwasanaeth:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad; Ffôn: E-bost:	BETHAN OWEN – RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG (01248) 752663 BethanOwen2@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Amherthnasol
A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau	
<p>ARGYMHELLION A RHESYMAU</p> <p>Fel rhan o'r broses o osod y gyllideb, bydd holl ffioedd a thaliadau'r Cyngor yn cael eu hadolygu.</p> <p>Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod amcan fod yr holl ffioedd a thaliadau yn cynyddu 5% ar gyfartaledd ar draws pob gwasanaeth unigol. Mae hyn wedi galluogi Penaethiaid Gwasanaeth i gynyddu ffioedd unigol o fwy neu lai na 5% ond, yn gyffredinol, mae'r cynnydd ar draws y gwasanaeth yn cyd-fynd â chynnydd o 5%.</p> <p>Mae'r holl ffioedd statudol wedi eu cynyddu yn ôl y swm a osodir gan y corff cymeradwyo, lle mae'r cynnydd wedi ei gyhoeddi. Lle nad yw'r taliad diwygiedig yn hysbys, dangosir y ffi fel 'i'w gadarnhau' a bydd yn cael ei ddiweddarau unwaith y bydd gwybodaeth am y ffi newydd yn cael ei dderbyn.</p> <p>Mae'r cynnydd mewn ffioedd Gofal Cymdeithasol yn cael eu hadrodd arnynt i'r Pwyllgor Gwaith fel eitemau agenda ar wahân.</p> <p>ARGYMHELLIAD</p> <p>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2024/25, fel a amlinellir yn y llyfryn isod.</p>	
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?	
<p>Ystyriodd Gwasanaethau unigol wahanol lefelau o ffioedd er mwyn cyflawni'r gofyniad o gynnydd o 5% yn y lefel gyffredinol o ffioedd anstatudol ar gyfer y gwasanaeth.</p>	
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?	
<p>Y Pwyllgor Gwaith sydd ag awdurdod wedi'i ddirprwyo ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â ffioedd a thaliadau.</p>	
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?	
Ydi	
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?	
Ydi	

DD – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Defnyddir yr adroddiad ynghyd ag adroddiadau eraill i bennu'r gyllideb flynyddol. Wrth bennu'r gyllideb flynyddol, bydd yr effaith ar anghenion hirdymor yr Ynys yn cael ei hasesu.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?	Mae'r cynnydd mewn ffioedd a thaliadau wedi'i uwchraddio i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau wrth ddarparu'r gwasanaethau.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:	Amherthnasol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses pennu cyllideb 2024/25, ac ymgynghorir â hwy ar gyllidebau'r dyfodol.
5	Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg.	Mae'r penderfyniad yn uwchraddio ffioedd a thaliadau yn flynyddol ac nid yw'n newid polisi mewn unrhyw faes. Mae taliadau'n berthnasol i holl ddefnyddwyr gwasanaethau Ynys Môn ac nid ydynt yn targedu nac yn eithrio grwpiau gwarchoddedig yn benodol rhag y cynnydd mewn ffioedd a thaliadau.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.	Amherthnasol
7	Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg.	Amherthnasol
E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tim Arweinyddiaeth (gorfodol)	Mae'r adroddiad wedi ei ystyried gan yr TA yn ei gyfarfod ar 30 Ionawr ac mae'r sylwadau wedi eu hymgorffori i mewn i'r adroddiad.
2	Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	Amherthnasol
7	Sgriwtini	Amherthnasol
8	Aelodau Lleol	Amherthnasol
9	Unrhyw gyrrff allanol / arall	Amherthnasol
F – Atodiadau:		
Atodiad A – Rhestr Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2024/25		
FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Cyllideb Refeniw 2024/25 (i'w mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 7 Mawrth 2024).		



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Ffioedd a Thaliadau

Ebrill 2024

CYNNWYS

Gwasanaethau Cymdeithasol

Gofal Cymdeithasol Oedolion

Gwasanaethau Tai

Tai

Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc

Addysg

Llyfrgelloedd a Diwylliant

Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

Gwarchod y Cyhoedd

Cynllunio

Canolfan Fusnes Môn

Hamdden

Cyrchfan

Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

Priffyrdd

Rheoli Gwastraff

Neuadd y Farchnad Caergybi

Busnes y Cyngor

Cyfreithiol

Nodiadau

1. Cyfnod Perthnasol

1.1 Mae'r holl ffioedd a thaliadau o'r dyddiad penodedig (yn gynhwysol) oni bai y nodir fel arall.

2. TAW

2.1 Mae'r holl ffioedd a thaliadau yn cynnwys TAW (TAW yn amodol i newid), oni bai y nodir fel arall.

2.2 Allwedd i Ddangosyddion TAW

- S** - TAW i'w dalu ar y Gyfradd Safonol (20%, amodol i newid)
- Z** - Cyfradd sero
- E** - Eithriwyd o TAW
- O/S** - Tu allan i gwmpas TAW / Ddim yn fusnes
- D/B** - Amherthnasol

2.3 Gall statws TAW fod yn ddarostyngedig i newid yn ystod y flwyddyn.

2.4 Nid yw taliadau rhwng gwasanaethau Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys TAW.

Gofal Cymdeithasol Oedolion

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Gofal Preswyl yng Nghartrefi'r Awdurdod ar gyfer Pobl Hyn		
Tâl safonol (ar gyfer preswylwyr sydd hefo'r modd ariannol i dalu'r gost lawn)	£927.77 yr wythnos	O/S
Gofal Cartref		
Uchafswm Tâl Wythnosol sy'n berthnasol wrth godi tâl dibreswyl (mae'r uchafswm ffi yn cael ei osod gan Llywodraeth Cymru)	£100.00 ¹	O/S
Prydau yng Ngwasanaethau Dydd		
(Yn berthnasol i'r holl brydau a lluniaeth a ddarperir ym mhob lleoliad Gwasanaeth Dydd)		
Prydau yng Ngwasanaethau Dydd ar gyfer oedolion (ac eithrio pobl hefo anabledau dysgu)	£7.65	O/S (S yw prydau a ddarparwyd i bersonau ddim wedi derbyn asesiad Gwasanaethau Cymdeithasol)
Byrbryd canol dydd yng Ngwasanaethau Dydd ar gyfer pobl hefo anabledau dysgu	£3.25	
Lluniaeth arall (te/coffi/teisen) yng Ngwasanaethau Dydd	£1.80	
Gwasanaethau Teleofal		
Haen 1 – Offer Digidol, Gwasanaeth a Cynnal a Chadw (uned, pendant a larwm mwg)	£75.14 y chwarter £5.78 yr wythnos	Os darparwyd fel rhan o becyn gofal – O/S Os darparwyd i'r anabl – Z Os darparwyd i'r henoed ddim fel rhan o becyn gofal, neu i drydydd barti (e.e. Cymdeithasau Tai) – S
Haen 2 – Offer Digidol, Gwasanaeth a Cynnal a Chadw (uned, pendant a larwm mwg)	£149.63 y chwarter £11.51 yr wythnos	
Gwasanaeth a Cynnal a Chadw (blynyddol)	£140.00	
Gwasanaethau'n unig (blynyddol)	£90.00	
Costau Gosod unwaith ac am byth (blynyddol)	£56.00	
Cyfradd Taliadau Uniongyrchol fesul awr	£15.95	
Bathodynau Glas (sefydliadol ac amnewid (colli/dwyn))	£10.00	

¹ £100 ar hyn o bryd, ond mi fydd yn newid yn unol ag unrhyw newid i'r uchafswm a osodir gan Llywodraeth Cymru.

Tai

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Ffioedd Troi Tai'n Gartrefi		
Hyd at £50,000	£345.00	O/S
Dros £50,000	£445.00	O/S
Cynllun Benthyciad i Wella Cartrefi	£500.00	O/S
Rhenti Garejys	£10.02	Amrywiol
Ffioedd*		
1 Llofft – Tŷ/Byngalo	£101.47	Amrywiol
2 Llofft – Tŷ/Byngalo	£112.74	
3 Llofft – Tŷ/Byngalo	£124.04	
4 Llofft – Tŷ/Byngalo	£135.28	
5+ Llofft – Tŷ/Byngalo	£146.55	
1 Llofft – Fflat	£91.80	
2 Llofft – Fflat	£102.01	
3 Llofft – Fflat	£112.21	
4+ Llofft – Fflat	£122.40	
Fflat un ystafell	£81.60	
Cais i ofyn am orfodi gorchymyn	£255.00	
Ffi Llys	£355.00	
Warant	£130.00	
Ail-gyhoeddi Gwarant	No charge	
Taliadau Gwasanaeth mewn Anheddau*		
Glanhau ardaloedd cymunedol	£3.52 - £5.99	O/S os mewn perthynas â phrydles tŷ Cyngor, ac E am brydlesau arall
Cynnal a chadw lifftiau	£0.12 - £0.73	
Erialau mewn ardaloedd cymunedol	£0.21	
Gwresogi a goleuadau mewn ardaloedd cymunedol	£1.27	
Larymau tân ac offer tân	£0.81	
Systemau mynediad	£0.31	
Taliadau Carthffosiaeth	£4.11	
Cynnal a chadw tiroedd (Eiddo domestig)	£5.75 (6 monthly charge)	
Cynnal a chadw tiroedd (Eiddo gwarchod)	£0.15 - £3.23	
Ffi rheoli	15% of service charge	

* Lle'n berthnasol, mae'r ffioedd ar sail 52 wythnos yn hytrach na 51 wythnos a nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol

Addysg

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Prydau Ysgol:		
Disgyblion a staff goruchwylio:		
Ysgolion cynradd	Dim Tâl	O/S
Ysgolion uwchradd	£2.80	O/S
Staff ac ymwelwyr eraill:		
Ysgolion cynradd	£4.30	S
Ysgolion Uwchradd	£3.60	S
Gofal cyn y Clwb Brecwast		
30 munud o ofal cyn y clwb brecwast	£1.50 y plentyn	E
Bysus Ysgol:		
Dros 16 Oed	Dim tâl	O/S
Dan 3 milltir		O/S
Allan o'r dalgylch		O/S
Ffi Bws Coleg		
Taliadau Eraill		
Llungopïau	£0.18 y ddalen	S
Cae Bob Tywydd Millbank		
Aelodau		
Ffi Gêm	£42.00	E

Llyfrgelloedd a Diwylliant

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Amgueddfeydd a Diwylliant		
Oriel Môn		
Comisiwn ar werthiant	35%	Amrywiol
Llogi Ystafelloedd Prif Oriol Gelf neu Galeri Oriol Kyffin Williams (nosweithiau yn unig 6 - 11 yh)		
Yr Awr (isafswm o 2 awr)	£88.00 yr awr	E
Noson lawn (6 - 11 yh)	£475.00	E
Ystafell Tunncliffe:		
Yr Awr (uchafswm 3 awr)	£22.00	E
Hanner Diwrnod (3.5 awr)	£68.00	E
Diwrnod Llawn (7 awr)	£126.00	E
Gyda'r nos (6 – 11 yh) isafswm o 2 awr	£48.00	E
Noson Lawn (6 - 11 yh)	£210.00	E
Copïau Digidol (anfonwyd drwy e-bost / trosglwyddo ffeil)		
Delwedd Cyntaf	£5.00 y ddelwedd	S
Delweddau Dilynol	£3.00 y ddelwedd	S
Ymchwil		
Gwasanaeth Ymchwil a Thâl (isafswm o 1 awr i bob cais)	£30.00 yr awr	S
Ffilmio yn Oriol Môn a safleoedd (Pris ar Gais)		
Yr Awr – (uchafswm o 3 awr)	£45.00	S
Hanner Diwrnod - (3.5 awr)	£145.00	S
Diwrnod Llawn	£280.00	S
Atgynhyrchu Delweddau – Llyfrau a Chyfnodolion		
Atgynhyrchu mewn llyfrau a chyfnodolion (yn cynnwys defnydd addysgol)	£32.00	S
Atgynhyrchu mewn arddangosfeydd (anfasnachol)	£50.40	S
Atgynhyrchu ar gyfer defnydd masnachol e.e. marchnata	£140.00	S
Atgynhyrchu Delweddau – Darlledu ac Ar-lein (analog, digidol, ffrydio ar y we yn cynnwys cyhoeddusrwydd)		
Cymraeg / Rhanbarthol, hyd at 10 mlynedd	£80.00	S
Cymraeg / Rhanbarthol am byth	£150.00	S
Darlledu Prydeinig, hyd at 10 mlynedd	£100.00	S
Darlledu Prydeinig am byth	£180.00	S
Atgynhyrchu Byd-eang, hyd at 10 mlynedd	£120.00	S
Atgynhyrchu Byd-eang, am byth	£220.00	S
Defnydd ar y we – delweddau llonydd ar wefan (dim ffrydio)	£50.00	S
Postio a Phacio		
Codir tâl yn unol â gwasanaethau dosbarthu ar adeg cyflwyno.		
Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Gwybodaeth		
Taliadau am ddychweliadau fideo / DVD (fesul eitem) hwyr		
Fesul wythnos, neu ran o wythnos - Gwasanaeth Premiwm (uchafswm o £30.00)	£3.90	O/S
Fesul wythnos, neu ran o wythnos – Gwasanaeth Arferol (uchafswm o £15.00)	£2.80	O/S

Ceisiadau (fesul eitem)		
Plant (dan 16)	Dim tâl	O/S
Oedolion – Mewn stoc yng Nghymru (yn cynnwys LINC)	Dim tâl	O/S
Cais – dim ar gael yng Nghymru	£16.00	O/S
Llogi CDs / DVDs (fesul eitem)		
CDs	£2.00 y CD dros 3 wythnos	O/S
DVD Premiwm – (DVDs a ychwanegwyd i stoc o fewn 1 flwyddyn)	£3.70 y DVD yr wythnos	O/S
DVDs hŷn a DVDs plant	£2.70 y DVD yr wythnos	O/S
Cerdyn Aelodaeth Coll		
Plant	£1.65	O/S
Oedolion	£2.75	O/S
Taliadau am eitemau a gollwyd/difrodwyd		
Llyfrau plant – Cymraeg	Yr LMS newydd yn codi pris manwerthu llawn yn awtomatig. Cytundeb Awdurdodau Llyfrgelloedd Gogledd Cymru.	O/S
Llyfrau oedolion – Cymraeg		O/S
Ffuglen – plant		O/S
Ffeithiol – plant		O/S
Ffuglen – oedolion (clawr papur)		O/S
Ffeithiol – oedolion (clawr papur)		O/S
Ffuglen – oedolion (clawr caled)		O/S
Ffeithiol – oedolion (clawr caled)		O/S
Llyfrau llafar – oedolion		O/S
Llyfrau llafar – plant		O/S
DVD – Oedolion		O/S
DVD – Plant		O/S
CD - cerddoriaeth		O/S
Cost weinyddol ar eitemau hwyr iawn yr anfonebwyd amdanynt		£6.80 fesul anfoneb
Eitemau wedi eu tynnu allan o stoc – tâl isaf		
Ffuglen Clawr Papur – oedolion (Saesneg)	£1.00 yr un neu £4.00 am 5	S
Ffuglen Clawr Caled – oedolion (Saesneg)	£1.50 yr un neu £2.00 am 2	S
Ffeithiol Clawr Caled – oedolion (Cymraeg a Saesneg)	£2.00 yr un neu £3.00 am 2	S
Ffeithiol Clawr Papur – oedolion (Cymraeg a Saesneg)	£1.20 yr un neu £2.00 am 2	S
Llyfrau cyfeirio	prisiau unigol	S
Ffuglen Cymraeg – oedolion	£0.80 yr un neu £3.60 am 5	S
Llyfrau Plant (pob iaith)	£1.00 yr un neu £3.50 am 5	S
Defnyddio Offer Cyfrifiadurol		
Ymwelwyr heb Gerdyn Llyfrgell o'r Deyrnas Unedig	£3.70 am bob ½ awr	O/S
Llungopïau / Argraffu o Gyfrifiadur a Disgiau		
A4 du a gwyn	£0.20 y ddalen	O/S
A4 du a gwyn – 10+ copi (os cânt eu hargraffu ar unwaith mewn un sesiwn)	£0.15 y ddalen	O/S
A3 du a gwyn	£0.30 y ddalen	O/S
A3 du a gwyn – 10+ copi (os cânt eu hargraffu ar unwaith mewn un sesiwn)	£0.25 y ddalen	O/S
A4 lliw	£0.85 y ddalen	O/S
A4 lliw – 10+ copi (os cânt eu hargraffu ar unwaith mewn un sesiwn)	£0.60 y ddalen	O/S
A3 lliw	£1.60 y ddalen	O/S
A3 lliw – 10+ copi (os cânt eu hargraffu ar unwaith mewn un sesiwn)	£1.30 y ddalen	O/S

Gosod Ystafelloedd		
Sesiwn 2 awr - yn ystod yr wythnos	£32.00	E
Sesiwn 2 awr gyda thâl mynediad/codi arian - yn ystod yr wythnos	£44.00	E
Cost ar gyfer pob hanner awr atodol - yn ystod yr wythnos	£8.50	E
Sesiwn 2 awr - Dydd Sadwrn	£52.00	E
Sesiwn 2 awr gyda thâl mynediad/codi arian - Dydd Sadwrn	£56.00	E
Cost ar gyfer pob hanner awr atodol - Dydd Sadwrn	£16.00	E
Llogi cyfleusterau cyfrifiadur (yn cynnwys llogi ystafell)		
Sesiwn 2 awr - Yn ystod yr wythnos yn ystod y dydd	£48.00	S
Sesiwn 2 awr - Gyda'r nos a dydd Sadwrn	£60.00	S
SYLWER - Gellir trafod prisiau ar gyfer llogi cyfleusterau cyfrifiadurol tymor hir a sesiynau trwy'r dydd		
Comisiwn ar Werthiant Arddangosfeydd	30% o werthiant	S
Hysbysebu Masnachol – Poster		
Ffi am 4 wythnos	£6.60	S
Neuadd y Farchnad : Ystafell Gyfarfod y Llyfrgell		
Yn ystod oriau agor		
Sesiwn 2 awr	£28.00	S
Sesiwn 2 awr gyda thâl mynediad / codi arian -	£42.00	S
Cost pob hanner awr ychwanegol -	£10.00	S
Tu allan i oriau agor		
Sesiwn 2 awr – yn ystod yr wythnos	£50.00	S
Sesiwn 2 awr gyda thâl mynediad / codi arian - yn ystod yr wythnos	£60.00	S
Cost pob hanner awr ychwanegol - yn ystod yr wythnos	£16.00	S
Sesiwn 2 awr – dydd Sadwrn	£55.00	S
Sesiwn 2 awr gyda thâl mynediad / codi arian - dydd Sadwrn	£65.00	S
Cost pob hanner awr ychwanegol - dydd Sadwrn	£18.00	S
Archifau Môn		
Postio		
Bydd yr holl eitemau a anfonir trwy'r post ar gyfradd llythyr mawr ail ddsbarth (os gofynnir am ddsbarth cyntaf neu ddsbarthiad a gofnodwyd, codir tâl yn unol â hynny)		
Llungopïau / Argraffu o gyfrifiadur ar bapur plaen		
A4 du a gwyn	£0.15 y ddalen	S
A4 du a gwyn – 10+ copi (os cânt eu hargraffu ar unwaith / mewn un sesiwn)	£0.10 y ddalen	S
A3 du a gwyn	£0.30 y ddalen	S
A3 du a gwyn – 10+ copi (os cânt eu hargraffu ar unwaith / mewn un sesiwn)	£0.20 y ddalen	S
A4 lliw	£0.80 y ddalen	S
A4 lliw – 10+ copi (os cânt eu hargraffu ar unwaith / mewn un sesiwn)	£0.50 y ddalen	S
A3 lliw	£1.60 y ddalen	S
A3 lliw – 10+ copi (os cânt eu hargraffu ar unwaith / mewn un sesiwn)	£1.20 y ddalen	S
Copïau wedi sganio / ffotograff ar bapur llun mat/sglein (sganiau newydd a delweddau digidol sy'n bodoli eisoes)		
A4 mat / sglein	£5.00 y ddalen	S
A3 mat / sglein	£8.00 y ddalen	S
Copïau digidol - dros e-bost / trosglwyddo ffeil		
Delwedd gyntaf	£5.00	S
Delweddau dilynol	£3.00 y delwedd	S
Caniatâd ffotograffig ar gyfer defnyddio yn yr ystafell ymchwil		
1 diwrnod	£7.50	S
3 diwrnod	£20.00	S
1 mis	£35.00	S
6 mis	£69.00	S
Atgynhyrchu delweddau, llyfrau, teledu ac ar-lein		
Atgynhyrchiadau mewn llyfrau a chyfnodolion	£32.00	S
Darllediad Cymru / rhanbarthol (ar analog, digidol, ffrydio gwe gan gynnwys cyhoeddusrwydd) - hyd at 10 mlynedd	£80.00	S
Darllediad Cymru / rhanbarthol (ar analog, digidol, ffrydio gwe gan gynnwys cyhoeddusrwydd) – am byth	£150.00	S

Darllediad Prydeinig (ar analog, digidol, ffrydio gwe gan gynnwys cyhoeddusrwydd) - hyd at 10 mlynedd	£100.00	S
Darllediad Prydeinig (ar analog, digidol, ffrydio gwe gan gynnwys cyhoeddusrwydd) – am byth	£180.00	S
Atgynhyrchu byd eang (ar analog, digidol, ffrydio gwe gan gynnwys cyhoeddusrwydd) - hyd at 10 mlynedd	£120.00	S
Atgynhyrchu byd eang (ar analog, digidol, ffrydio gwe gan gynnwys cyhoeddusrwydd) – am byth	£220.00	S
Defnyddio ar y we - delweddau statig ar y wefan (dim ffrydio)	£50.00	S
Ymchwil		
Chwilio am wybodaeth gyflym - (llai na 15 munud o ymchwil) yn ddi-dâl, os yn hirach na hyn, bydd costau'n cael eu codi fel isod, bydd y tâl hwn yn berthnasol i geisiadau dro ar ôl tro am chwiliadau cyflym ar yr un pwnc / testun gan yr un cwsmer.		
Gwasanaeth ymchwil â thâl (isafswm 1 awr fesul cais)	£30.00 yr awr	S
Trawsgrifio/cyfieithu		
Trawsgrifio/cyfieithu dogfen (isafswm 30 munud)	£30.00 yr awr	S
Llythyr swyddogol		
Llythyr swyddogol / llythyr ardystiad	£9.00	S
Ffilmio ar yr Eiddo		
Yr Awr (uchafswm o 3 awr)	£35.00 yr awr	S
Fesul Hanner Diwrnod (3.5 awr)	£100.00	S
Fesul Diwrnod Llawn (7 awr)	£180.00	S
Llogi Ystafell Dewi O. Jones		
Yr Awr (uchafswm o 3 awr)	£20.00	E
Fesul Hanner Diwrnod (3.5 awr)	£65.00	E
Fesul Diwrnod Llawn (7 awr)	£120.00	E

Gwarchod y Cyhoedd

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Trwyddedau / Caniatâd / Cofrestriadau Iechyd Amgylcheddol		
Rheoleiddio / Lles Anifeiliaid		
Sefydliadau marchogaeth	£162.00 plws ffi milfeddyg	O/S S
Sefydliadau bridio cŵn	£201.00 plws ffi milfeddyg	O/S S
Sefydliadau lletya anifeiliaid sefydliadau	£201.00 plws ffi milfeddyg	O/S S
Anifeiliaid yn perfformio	£252.00	O/S
Siopau anifeiliaid anwes	£201.00 plws ffi milfeddyg	O/S S
Trwydded sw	£375.00 plws ffi milfeddyg	O/S S
Anifeiliaid gwyllt peryglus	£375.00 plws ffi milfeddyg	O/S S
Rheoli cŵn (cenel ar yr Ynys)	Ffi statudol: £25.00 plws Ffi casglu: £107.40 plws tâl cenel (i'w gadarnhau)	O/S S
Rheoli cŵn (cenel oddi ar yr Ynys)	Ffi statudol: £25.00 plws Ffi casglu o Cenel Mona: £57.24 plws tâl cenel (i'w gadarnhau)	O/S S
Cofrestru ci - tab cofrestru metel	£7.00	O/S
Tacsis		
Trwydded gweithredwr (trwydded 5 mlynedd)	£568.00	O/S
Trwydded cerbyd (newydd ac adnewyddu)	£243.00	O/S
Trwydded gyrrwr (trwydded 5 blynedd) (heb gynnwys costau gwiriadau DVLA) (newydd ac adnewyddu)	£361.00	O/S
Ffi trosglwyddo	£52.00	O/S
Ffi prawf	£63.00	O/S
Ffi ail brawf	£63.00	O/S
Ffi ail brawf o fewn 24 awr (mân ddiffygion)	£32.00	O/S
Platiau trwydded cerbyd (newydd)	£75.00	O/S
Platiau adnewyddu	£50.00	O/S
Amnewid platiau	£32.00	O/S
Amnewid braced platiau	£32.00	O/S
Amnewid bathodyn gyrrwr	£23.00	O/S
Ffi ail-eistedd gwybodaeth	£29.00	O/S
Ffi gwiriad DBS	£40.00	O/S
Ffioedd Cofrestriad Sifil		
Ffi trefnu priodas a phartneriaeth sifil - Swyddfa Gofrestru	£46.00	O/S
Ffi trefnu seremonïau capel o flaen llaw	£50.00	O/S
Ffi trefnu priodas a phartneriaeth sifil - Eiddo Cymeradwy	£150.00	O/S
Priodas Capel	£86.00	O/S
Rhybudd Priodas	£35.00	O/S
Rhybudd Priodas - yn destun cyfeiriad gan y Swyddfa Gartref	£47.00	O/S

Rhybudd Priodas Caeth i'r Tŷ fesul cwpwl	£117.00	O/S
Rhybudd Priodas Caeth i'r Tŷ gyda Chofrestrydd Arolygol a Chofrestrydd	£165.00	O/S
Priodas – Lleihad mewn Amser Aros fesul person	£60.00	O/S
Priodas – Trawsnewid Swyddfa Gofrestru	£45.00	O/S
Priodas – Trwydded Gyffredinol	£15.00	O/S
Priodas – Datganiad 2 Gam Swyddfa Gofrestru	£27.00	O/S
Priodas – Llofnodi Datganiad mewn Capel	£91.00	O/S
Priodas – Ystyriaeth gan Gofrestrydd Arolygol o ysgariad a gafwyd y tu allan i Ynysoedd Prydain	£50.00	O/S
Priodas – Ystyriaeth gan y Cofrestrydd Cyffredinol o ysgariad a gafwyd y tu allan i Ynysoedd Prydain	£75.00	O/S
Ffi archebu o flaen llaw, 12–24 mis, nad yw'n ad-daladwy	£75.00	O/S
Ffi archebu o flaen llaw, 25-36 mis, nad yw'n ad-daladwy	£100.00	O/S
Seremonïau Neuadd y Dref - Caergybi		
Seremonïau Neuadd y Dref – Caergybi (Llun – Iau)	£260.00	O/S
Seremonïau Neuadd y Dref – Caergybi (Gwener – Sadwrn)	£300.00	O/S
Seremonïau Ystafell Bryn Cefni – Llangefni		
Yn ystod yr wythnos (Llun – Iau)	£260.00	O/S
Dydd Gwener / Dydd Sadwrn	£280.00	O/S
Dydd Sul / Gŵyl y Banc	£380.00	O/S
Priodas yn cael ei ddilyn gan Enwi Baban	£144.00 plws ffi priodas	S
Priodas mewn gwesty		
Yn ystod yr wythnos (Llun – Iau)	£450.00	O/S
Dydd Gwener / Dydd Sadwrn	£500.00	O/S
Dydd Sul / Gŵyl y Banc	£600.00	O/S
Priodas yn cael ei ddilyn gan Enwi Baban	£144.00 plws ffi priodas	S
Ystafell Bryn Cefni ac eiddo cymeradwy - oriau estynedig		
Yn ystod yr wythnos (Llun – Iau) 6 - 8pm	£150.00	O/S
Yn ystod yr wythnos (Llun – Iau) 8pm – 12am	£285.00	O/S
Dydd Gwener / Dydd Sadwrn 6 - 8pm	£205.00	O/S
Dydd Gwener / Dydd Sadwrn 8pm – 12am	£330.00	O/S
Dydd Sul ac Oriau Estynedig Gŵyl y Banc		
Dydd Sul / Gŵyl y Banc 6 - 8pm	£280.00	O/S
Dydd Sul / Gŵyl y Banc 8pm - 12am	£395.00	O/S
Trwyddedu eiddo ar gyfer seremonïau sifil	£1,575.00	O/S
Ystafell atodol mewn eiddo cymeradwy	£240.00	O/S
Ymarfer priodas	£70.00	O/S
Adran 171 - "high lift", "scissor lift" neu HIAB ar y briffordd mewn un lleoliad am fwy nag un awr (dim ffi am lai nag un awr yn yr un lleoliad)	£63.00	O/S
Adran 171 – craen ar y briffordd	£357.00	O/S
Adran 50 o'r Ddeddf Priffyrdd 1680		
Adran 50 presennol (offer ar y briffordd)	£473.00	O/S
Adran 50 newydd	£578.00	O/S
Ymchwiliad Adran 50 o gloddfa fesul 200metr o hyd	£294.00	O/S
Trwydded Adran 50 ar gyfer anheddau newydd – 6 eiddo neu fwy (fesul annedd)	£357.00	O/S
Cau'r Ffordd		
Cau'r ffordd	£3,050.00	O/S
Cau'r ffordd yn dilyn argyfwng	£3,050.00	O/S
Ffioedd Gorchymyn Cyfyngu Dros Dro ar gyfer Gwaith		
Gorchymyn Traffig Dros Dro i wneud neu ddiwygio Aros cyfyngedig	£830.00	O/S
Gorchymyn Traffig Dros Dro i gyfyngu ar barcio	£830.00	O/S
Gorchymyn Traffig Dros Dro i wneud neu ddiwygio Un ffordd	£830.00	O/S
Gorchymyn Traffig Dros Dro i wneud neu ddiwygio terfyn cyflymder	£830.00	O/S
Gorchymyn Traffig Dros Dro i greu neu ddiwygio clirffordd	£830.00	O/S
Gorchymyn Traffig Dros Dro i wneud neu ddiwygio cyfyngiad pwysau	£830.00	O/S
Gorchymyn Traffig Dros Dro i wneud neu ddiwygio cyfyngiad uchder	£830.00	O/S
Amrywiol		
Goriadau wedi eu colli lawr gyli	£58.00	O/S
Ceisiadau meinciau a gwely blodau gan Gynghorau Cymuned	Dim tâl	D/B
Digwyddiadau ar y Briffordd		
Gorchymynion Rheoleiddio Traffig ar gyfer yr Anabl	Gwir Gost	O/S
Marciau Amddiffyn Mynediad	£95.00	O/S
Adnewyddu Marciau Amddiffyn Mynediad	Gwir Gost	
Goddefeb Parcio	£21.00	O/S
Cais Arwydd Twristiaeth	£60.00	S
Dylunio a Gosod Arwydd Twristiaeth	Gwir Gost + Ffioedd	S
Ffioedd Gorchymyn Gwaharddiad Dros Dro		
Gorchymyn gwahardd cerbydau ar gyfer digwyddiad (cau lôn, tua 6 digwyddiad y flwyddyn)	£830.00	O/S
Gorchymyn diwygio traffic ar gyfer digwyddiad (aros cyfyngedig, un ffordd, a.y.b., tua 6 digwyddiad y flwyddyn)	£830.00	O/S
Arwydd Twristiaeth	Dim tâl	D/B
Digwyddiadau graddfa fechan gymunedol neu elusennol	Dim tâl	D/B
Rheolaeth Datblygu		
Chwiliad sylfaenol mewn un lleoliad	£82.00	S
Chwiliad sylfaenol mewn hyd at 5 lleoliad	£170.00	S
Chwiliadau Tref Manylach	£334.00	S
Chwiliadau Ardal Manylach	£680.00	S
Cais ar gyfer datblygiadau mawr (yr awr)	£86.00	S
Cytundebau Adran 38/278 – isafswm tâl o £2,500	9% o gostau gwaith	S
Meysydd Parcio		
Ceir		
1 awr	£1.00	S
2 awr	£1.50	S
4 awr	£3.00	S
Hyd at 12 awr	£4.00	S
Ceir - Arfordirol		
1 awr	£1.00	S
2 awr	£3.00	S
4 awr	£7.00	S
12 awr	£12.00	S

Trelar	£20.00	S
Parcio a Rhannu Llanfairpwll		
1 diwrnod	£1.00	S
2 ddiwrnod	£2.00	S
3 diwrnod	£3.00	S
4 diwrnod	£4.00	S
5 diwrnod	£5.00	S
6 diwrnod	£6.00	S
7 diwrnod	£7.00	S
Stanley Crescent, Caergybi		
12 awr	£1.20	S
2 ddiwrnod	£2.00	S
3 diwrnod	£3.00	S
4 diwrnod	£4.00	S
5 diwrnod	£5.00	S
6 diwrnod	£6.00	S
7 diwrnod	£7.00	S
Tocyn Tymor Parcio		
12 mis cerbyd sengl	£180.00	S
6 mis cerbyd sengl	£125.00	S
12 mis cerbyd sengl gyda threlar	£210.00	S
6 mis cerbyd sengl gyda threlar	£260.00	S
Prisiau Meysydd Parcio Arall		
Meddiant maes parcio (compownd bach, 4-6 bae)	£80.00 i £100.00 yr wythnos	S
Meddiant maes parcio (compownd mawr)	Hyd at £250.00	S
NODER: Nodwch, os gwelwch yn dda, bydd gwasanaethau sydd angen mewnbwn gan y Gwasanaethau Cyfreithiol yn denu costau ychwanegol amrywiol.		

Rheoli Gwastraff

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Bin olwynion du 240 litr newydd neu amnewid ar gyfer gwastraff gweddilliol (tâl danfon a gweinyddu yn unig, nid gwerthu biniau olwynion du). Ni fydd tâl ar gyfer eiddo sydd newydd eu hadeiladu am eu bin olwynion du cyntaf	£41.00	S
Bin olwynion du 140 litr newydd neu amnewid ar gyfer gwastraff gweddilliol (tâl danfon a gweinyddu yn unig, nid gwerthu biniau olwynion du). Ni fydd tâl ar gyfer eiddo sydd newydd eu hadeiladu am eu bin olwynion du cyntaf	£24.00	S
Casglu gwastraff swmpus 'A' (hyd at 4 eitem fesul casgliad)	£46.00	O/S
Casgliad Gwastraff Gardd Gwyrdd (bin olwynion gwyrdd)	£38.00	S
Taliadau casglu/gwaredu sbwriel masnach	Gwir gyfradd gyfredol a godir gan contractwr casglu gwastraff y Cyngor a thâl gweinyddol o 20%	S
Holl Ffioedd Eraill		
e.e.: <ul style="list-style-type: none"> • Gadael troli siopa a bagiau • Cael gwared ar fagiau sbwriel • Llogi biniau olwynion ar gyfer digwyddiadau a drefnwyd • Cyfleusterau cyhoeddus - agor atodol 	Costau atodol sy'n codi a thâl gweinyddol 20%	Amrywiol

Eiddo

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Llogi Ystafell Gyfarfod Neuadd y Farchnad Caergybi (yn cynnwys TAW)		
Ystafell Thomas (capasiti seddi 24 / 50 arddull theatr)		Yn destun TAW lle bo'n briodol h.y.
Cost yr awr	£39.00	
Cost fesul hanner diwrnod	£84.00	
Cost fesul diwrnod llawn	£136.50	S – i gleientiaid allanol Dim TAW ar logi mewnol
Ystafell Edwards (capasiti seddi 20 / 42 arddull theatr)		
Cost yr awr	£35.00	
Cost fesul hanner diwrnod	£78.00	
Cost fesul diwrnod llawn	£130.50	

DRAFT

Cyfreithiol

Gwasanaeth	Ffi/Tâl	TAW
Taliadau Tir Lleol		
Chwilio (CON29R)	£168.00	S
Ffi Parsel Ychwanegol (CON29R)	£13.50	S
Ffurflen LLC1	£6.00	O/S
Ffurflen LLC1 arlein	£4.00	O/S
Ffi Parsel Ychwanegol (LLC1)	£1.00	O/S
Con 29O (ac eithrio cwestiwn 22)	£18.00	S
Con 29O: Cwestiwn 22 (tir comin)	£23.00	S
Ffioedd Cyfreithiol Dewisol		
Rhwymedigaethau cynllunio (cytundebau adran 106)		
Annedd fforddiadwy sengl hunan adeiladu	£678.50	O/S
Bydd yr holl drefniadau eraill (ar gyfer 3 awr o waith, cyfradd fesul awr berthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliwyd dros 3 awr, gweler y cyfraddau isod)	£1,018.00	O/S
Gweithredoedd rhyddhau syml	£324.00	O/S
Gwerthu tir neu Ganiatáu prydlasau		
Os na phenodir cyfreithiwr, gan barti arall (ar gyfer 3 awr o waith, cyfradd fesul awr berthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliwyd dros 3 awr, gweler y cyfraddau isod)	£734.50	S
Os penodir cyfreithiwr, gan barti arall (ar gyfer 6 awr o waith, cyfradd fesul awr berthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliwyd dros 6 awr, gweler y cyfraddau isod)	£1,468.50	S
Grantiau o brydlesi (i gynnwys amrywiadau, aseiniadau a datganiadau) Pan mae eiddo wedi ei optio i mewn i'r dreth, y TAW a godir yw'r graddfa safonol. Pan nad ydyw wedi optio i mewn i'r dreth, mae'r TAW y tu allan i'r sgôp.	Gwir amser a dreuliwyd ar raddfa'r awr berthnasol*	S
Cytundebau adran 38 a 278 (Deddf Priffyrdd)	£1,018.00	O/S
Gorchmynion rheoleiddio traffig, os ceir cais gan drydydd parti (ar gyfer 4.5 awr o waith, cyfradd fesul awr berthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliwyd dros 4.5 awr, gweler y cyfraddau isod)	£614.00	O/S
Cofrestr Tir Comin – ffioedd isod wedi eu nodi HEB TAW a bydd angen ei ychwanegu lle'n berthnasol		
Cywiro camgymeriad arall dan Adran 19(2)(b)	£384.50	Gweler nodyn
Diweddaru enwau a chyfeiriadau dan Adran 19 (2)(d)	£64.50	Gweler nodyn
Cydgrynhoi dilysiad dan Adran 19 (2)(e)	£64.50	Gweler nodyn
Ceisiadau dan Atodiad 2, paragraffau 6 i 9 cynhwysol (adeiladau a gofrestrir fel tir comin neu grin tref a phentref neu dir a gofrestrwyd yn anghywir fel tir comin neu grin tref neu bentref)	£2,484.50	Gweler nodyn
Sylwer: Mae Treth Ar Werth yn daladwy ar rhai ffioedd sy'n ymwneud â thrafodion eiddo. Lle mae'r eiddo wedi ei gofrestru ar gyfer TAW. Nid yw'r ffioedd uchod yn cynnwys TAW a bydd angen ychwanegu'r gyfradd TAW priodol lle'n berthnasol.		
*Cyfraddau fesul awr priodol		
Pennaeth Swyddogaeth, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol neu Gyfreithiwr	£204.50	Codir TAW yn gyson â'r ymholiad mae'n ymwneud â hi
Unrhyw staff eraill sy'n ennill ffi	£123.00	
SYLWER - bydd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth neu Reolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, yn ôl ei ddoethineb, y pŵer i hepgor y ffi mewn rhai achosion o galedi ariannol profedig.		

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	20 Chwefror 2024
Pwnc / Testun:	Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 – 2028
Deilydd (ion) Portffolio:	Cynghorydd Llinos Medi
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad:	Ffreuer Owen, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg 01248 752520 ffreuerowen@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A –Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Argymhelliad: Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymhell i'r Cyngor Sir y dylid cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft y Cyngor ar gyfer 2024-2028 ac awdurdodi swyddogion, mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio, i gwblhau a chyhoeddi'r Cynllun erbyn 31 Mawrth 2024.

Rheswm: Mae'r sail statudol ar gyfer datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) drafft hwn wedi'i chynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae Deddf 2010 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar gyfrif cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r canlynol ym mhob agwedd o'u gwaith:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon
- Hyrwyddo cyfle cyfartal
- meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau

Mae'r Ddeddf yn diogelu'r nodweddion canlynol, a elwir hefyd yn 'grwpiau gwarchoddedig':

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Newid rhyw
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil

Mae hefyd yn anelu at leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

A –Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Mae Rheoliadau 2011 yn cynnwys dyletswyddau penodol i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys gofyniad i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb a chynlluniau cydraddoldeb strategol o leiaf unwaith bob pedair blynedd. Daw'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol, sy'n cwmpasu 2020-2024, i ben ar 31 Mawrth 2024, ac erbyn hynny bydd rhaid cyhoeddi Cynllun newydd ar gyfer 2024-2028.

Mae'r CCS drafft hwn ar gyfer 2024-2028 yn adeiladu ar ein cynlluniau blaenorol ac yn cynnwys yr amcanion cydraddoldeb hirdymor canlynol ar gyfer cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb ar Ynys Môn yn ogystal ag yn ein sefydliad. Maent yn fras yn seiliedig ar 'feysydd bywyd' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer monitro cydraddoldeb ac yn cyd-fynd ag amcanion cydraddoldeb cyffredin partneriaid sector cyhoeddus Gogledd Cymru ar gyfer y rhanbarth:

1. **Addysg:** Cymryd camau i fynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol a chefnogi lles disgyblion ysgol
2. **Y gweithle:** Cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr cyfle cyfartal a lleihau bylchau cyflog
3. **Safonau byw:** Cymryd camau i wella safonau byw grwpiau gwarchoddedig
4. **Iechyd, lles a gofal cymdeithasol:** Cymryd camau i wella iechyd, lles a gofal cymdeithasol
5. **Diogelwch personol:** Cymryd camau i ddiogelu grwpiau gwarchoddedig
6. **Cymryd rhan:** Cynyddu cyfleoedd ac annog amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau
7. **Anfantais economaidd-gymdeithasol:** Cymryd camau i fynd i'r afael ag anfantais
8. **Arferion gwaith:** Gwellu ein harferion mewnol i sicrhau tegwch i bawb

Mae hefyd yn nodi:

- ein prif flaenoriaethau cydraddoldeb ar gyfer y pedair blynedd nesaf, wedi'u dylanwadu gan ganfyddiadau Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023: A yw Cymru'n Decach? sef adroddiad bum mlynedd diweddaraf y Comisiwn ar gyflwr y genedl, yn ogystal ag ymchwil ac ymgynghori lleol
- ein trefniadau ar gyfer monitro cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb
- sut mae'r cynllun hwn yn cyfrannu at weledigaeth ehangach ein Cynllun y Cyngor o greu Ynys Môn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.

Er mwyn sicrhau bod y CCS hwn yn cael ei wireddu, byddwn yn canolbwyntio ar gynlluniau gweithredu blynyddol a byddwn yn adrodd ar gynnydd yn ein hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol. Rhoddir sylw arbennig dros gyfnod y cynllun hwn i godi ymwybyddiaeth a datblygu ein harferion er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn hyrwyddo cydraddoldeb.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill am y rheswm a nodir isod.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gan fod y CCS yn rhan o'r fframwaith polisi, bydd gofyn i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion i'r Cyngor llawn mewn perthynas â'r cynllun hwn.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r CCS yn gyhoeddiad allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ar gyfer 2023 i 2028, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023. Mae ein hamcanion cydraddoldeb drafft 1, 3 a 4 yn arbennig o berthnasol gan eu bod yn cyd-fynd â thri amcan strategol Cynllun y Cyngor:

- Addysg: Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Gofal Cymdeithasol a Lles: Darparu'r cymorth cywir ar yr adeg cywir
- Tai: Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw yn rhywle yn gartref

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol.

Dd – Aseu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae disgwyliad cadarn i awdurdodau lleol gyfrannu at hyrwyddo cydraddoldeb yng Nghymru. Mae dyletswyddau cydraddoldeb penodol, fel datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn, yn adeiladu ar ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i 'greu Cymru fwy cyfartal', drwy wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y genedl.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Gan nad oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â gweithredu'r SEP, ni nodwyd unrhyw gostau/dibyniaethau i'r dyfodol. Mae mabwysiadu amcanion cydraddoldeb rhanbarthol a rennir yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cydweithio, rhannu adnoddau ac osgoi dyblygu.
3	A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod i bwy.	Ers dros ddegawd mae NWPSEN (sy'n cynnwys holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru a sefydliadau sector cyhoeddus eraill) wedi cydweithio i ddatblygu a chytuno set o amcanion a rennir ar gyfer y rhanbarth. Cynhaliwyd yr adolygiad NWPSEN diweddaraf yn haf 2023 ac roedd hyn yn cynnwys ymarferiad ymgynghori cyhoeddus.

Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol):		
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan y penderfyniad? Esboniwch sut, os gwelwch yn dda.	<p>Datblygwyd y cynllun mewn ymgynghoriad agos â'n Tîm Rheoli Corfforaethol a'i lywio gan wybodaeth swyddogion sy'n gweithio'n agos gyda grwpiau nodwedd gwarchoddedig.</p> <p>Gwahoddwyd pobl Ynys Môn hefyd i gymryd rhan yn ein hymarferiad ymgynghori NWPSEN yn ystod haf 2023.</p> <p>Dylanwadwyd hefyd ar y cynllun gan ymgysylltu'n uniongyrchol â rhai grwpiau gwarchoddedig gan gynnwys ein Fforwm Ieuenctid a defnyddwyd darpariaeth gofal dydd.</p>
5	Sylwch ar unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	<p>Pwrpas y CCS yw ein helpu i gyflawni tri nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol i roi sylw dyledus i'r angen i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf • Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn • meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig. <p>Yn ogystal â'r amcanion a'r blaenoriaethau yn y CCS, byddwn yn datblygu egwyddorion cyfle cyfartal i bobl o bob cefndir ac amgylchiadau yn ein holl gynlluniau a gweithdrefnau.</p>
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	<p>Bydd y CCS yn helpu i wella anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu cartrefi fforddiadwy a hygyrch o safon i'r rhai mewn angen • Sicrhau bod preswylwyr yn gwybod at ble i droi am gymorth • Sicrhau bod ein penderfyniadau yn ystyriol o anghenion ein preswylwyr mwyaf difreintiedig

Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol):		
7	Sylwch ar unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	O dan amcan cydraddoldeb 4, rydym wedi dewis blaenoriaethu darparu gofal cymdeithasol i'n preswylwyr mwyaf bregus yn eu dewis iaith. Byddwn yn gwneud hyn drwy barhau i weithredu'r fframwaith Mwy na Geiriau ar gyfer darparu gofal cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfeirio.

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arwain (TA) (gorfodol)	Mae'r Prif Weithredwr, y TA a'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi trafod, siapio a dylanwadu ar y broses o ddatblygu'r CCS o'r cychwyn cyntaf. Cyflwynwyd y CCS drafft i gyfarfod o'r Tîm Arweinyddiaeth ar 30 Ionawr 2024. Ni wnaed unrhyw newidiadau sylweddol i gynnwys yr adroddiad.
2	Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)	Nododd y swyddog fod rhai o'r rhaglenni y cyfeirir atynt yn y cynllun, yn enwedig mewn perthynas â chymorth tai, yn dibynnu ar gyllid grant Llywodraeth Cymru. Nodwyd y gallai cymorth grant gael ei effeithio gan doriadau i gyllid y sector cyhoeddus yn y dyfodol.
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Fel (1) uchod.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Mae adrannau penodol o'r CCS yn ymwneud â materion cyflogaeth.
5	Eiddo	Amherthnasol.
6	Technoleg Gwybodaeth (TGCh)	Amherthnasol.
7	Caffael	Amherthnasol.
8	Sgriwtini	Cyflwynwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol arfaethedig ar gyfer 2024-2028 gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 6 Chwefror, 2024. Nodwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth: <ol style="list-style-type: none"> 1. Nodwyd bod y cynllun strategol drafft yn cynnwys wyth amcan cydraddoldeb a gofynnodd y Pwyllgor Sgriwtini i ba raddau mae hynny'n rhy uchelgeisiol, o gofio'r hinsawdd economaidd sydd ohono 2. Gofynnwyd ynghylch rôl y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn y broses o fonitro cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb newydd

E – Gyda phwy yr ymgynhgoroch?	Beth oedd eu sylwadau?
	<p>3. Bu i'r Aelodau holi ynglŷn â sut y bwriedir mynd i'r afael â bylchau data am ein cymunedau a'n staff.</p> <p>4. Gwelwyd y Pwyllgor hefyd yn gofyn ynglŷn â'r cynlluniau dros y 4 blynedd nesaf i godi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y Cyngor.</p> <p>Wedi ystyried yr holl ddogfennaeth gerbron a'r esboniadau gan y Deilydd Portfflio a'r swyddogion ar y materion a godwyd, fe benderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio argymhell y Cynllun Cydraddoldeb Strategol: 2024-2028 i'r Pwyllgor Gwaith i'w fabwysiadu.</p> <p>Pwynt Gweithredu Ychwanegol: Ystyried y priodoldeb o addasu teitl Amcan Cydraddoldeb 2 (Gwaith) er mwyn cynnig clirdeb ynghylch rôl y Cyngor fel cyflogwr.</p>
9	Aelodau Lleol
	Ddim yn berthnasol

F - Atodiadau:
Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft y Cyngor ar gyfer 2024 – 2028

Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

Ynys Môn

THE ISLE OF

Anglesey

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

Tudalen 123



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg
This publication is also available in English

www.ynysmon.llyw.cymru

Dyma gynllun cydraddoldeb strategol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2024 i 2028. Gallwch ddod o hyd iddo ar ein gwefan, yn cynnwys mewn arddull testun plaen a hawdd i'w ddeall.

www.ynysmon.llyw.cymru

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni.

Tîm Polisi a'r Gymraeg
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

Ffôn: 01248 75 25 50

E-bost: Cydraddoldeb@ynysmon.llyw.cymru

Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd cysylltu'n Gymraeg yn arwain at oedi.

Cyflwyniad: Trosolwg o'n cynllun

Tudalen 125



Dyma gynllun cydraddoldeb strategol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2024 i 2028. Ynddo fe gewch adrannau cryno yn esbonio:

- Sut mae'r cynllun hwn yn cyfrannu at weledigaeth Cynllun y Cyngor o greu Ynys Môn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.
- Ein hwyth amcan cydraddoldeb hirdymor ar gyfer creu Ynys Môn decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb yn ein cymunedau, yn ogystal ag yn ein sefydliad.
- Ein prif flaenoriaethau cydraddoldeb ar gyfer y pedair blynedd nesaf a ddylanwadwyd gan ganfyddiadau A yw Cymru'n Decach?, adroddiad pum mlynedd diweddaraf y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn ogystal gwybodaeth leol.
- Ein trefniadau ar gyfer monitro cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb.

Mae dogfennau cysylltiedig yn amlinellu'r gyfraith sy'n sail i'r cynllun hwn a sut y datblygwyd y cynllun. Cewch hefyd ddadansoddiad o'r data cydraddoldeb allweddol am ein poblogaeth o'r cyfrifiad diweddaraf.

Rhagair

Tudalen 126



Cynghorydd Llinos Medi
Arweinydd y Cyngor



Dylan Williams
Prif Weithredwr

Croeso i'n cynllun cydraddoldeb strategol ar gyfer 2024 i 2028. Mae'r cyhoeddiad pwysig hwn yn adeiladu ar ein cynlluniau blaenorol, yn cydfynd â Chynllun y Cyngor, ac yn gosod ein huchelgais i greu cymdeithas decach i bobl Ynys Môn. Cyfranna at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i greu Cymru sy'n fwy cyfartal.

Mae creu Ynys Môn lle gall pobl ffynnu yn golygu cydnabod a gwneud popeth o fewn ein gallu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Nid tasg hawdd mo hon, yn enwedig mewn cyfnod o bwysau cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus. Fel pob awdurdod lleol, rydym yn wynebu dyfodol ansicr sy'n peryglu ein hymdrechion. Mae'r galw am ein gwasanaethau yn tyfu yn union fel y mae pris eu darparu yn cynyddu'n sylweddol.

Nid yw hyn yn golygu ein bod yn llai ymrwymedig i wella cydraddoldeb a chefnogi rhai sy'n wynebu anfantais. Fel cyflogwr a darparwr gwasanaeth, byddwn yn gweithio i ddileu gwahaniaethu annheg ac anghyfreithlon yn ein holl bolisiau, gweithdrefnau ac arferion.

Byddwn yn talu sylw arbennig dros y pedair blynedd nesaf i godi ymwybyddiaeth a datblygu ein gwybodaeth er mwyn bod yn gyngor sy'n dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth. Trwy ei sefydlu fel egwyddor cyffredinol yng Nghynllun y Cyngor, ein nod yw sicrhau nad mater ar wahân yw cydraddoldeb.

Cynllun y Cyngor 2023-2028

Ein gweledigaeth yw:

‘Creu Ynys Môn sy’n iach a
llewyrchus lle gall pobl
ffynnu’

Tudalen 127



[Cynllun y Cyngor 2023 to 2028 \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru)

Mae gan ein cynllun cydraddoldeb strategol gysylltiad agos â Chynllun y Cyngor a'i weledigaeth. Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; llunio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda thrigolion, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe prif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.



Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith



Gofal
Cymdeithasol a
lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir.



Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.



Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.



Newid
Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Ein gwerthoedd a'n hegwyddorion

Tudalen 128

Mae gwerthoedd craidd y sefydliad yn sylfaen i Gynllun y Cyngor 2023-28, ac maent yn cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain ein gweledigaeth, cynlluniau strategol a'n gwasanaethau.

Mae'r egwyddorion cyffredinol canlynol hefyd yn sail i'r cynllun:

- Datblygu cynaliadwy
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Atal a diogelu
- Ymrwymiad ac atebolrwydd
- Gonestrwydd
- Hyrwyddo'r Cyngor a'r ynys

Gwerthoedd



Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.



Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.



Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.



Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys


Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Cyngor a'r Ynys.

Y cylch strategol

Mae'r cylch strategol yn nodi'r cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.

Tudalen 129
Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol yn gyhoeddiad allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r weledigaeth strategol.

Ei bwrpas yw esbonio sut rydym yn bwriadu cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb ar Ynys Môn tra'n gweithio tuag at gyflawni gweledigaeth Cynllun y Cyngor.



Ein hamcanion cydraddoldeb 2024-2028

Tudalen 130

1. **Addysg:** Cymryd camau i fynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol a chefnogi lles disgyblion ysgol
2. **Y gweithle:** Cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr cyfle cyfartal a lleihau bylchau cyflog
3. **Safonau byw:** Cymryd camau i wella safonau byw grwpiau gwarchoddedig
4. **Iechyd a Gofal Cymdeithasol:** Cymryd camau i wella iechyd, lles a gofal cymdeithasol
5. **Diogelwch personol:** Cymryd camau i ddiogelu grwpiau gwarchoddedig
6. **Cymryd rhan:** Cynyddu cyfleoedd ac annog amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau
7. **Anfantais economaidd-gymdeithasol:** Cymryd camau i fynd i'r afael ag anfantais
8. **Arferion gwaith:** Gwella ein harferion mewnol i sicrhau tegwch i bawb

Amcan cydraddoldeb 1: Addysg

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mynd i'r afael â bylchau mewn cyflawniad addysgol rhwng gwahanol grwpiau gwarchoddedig
- Cynnal a chefnogi lles disgyblion ysgol
- Sicrhau bod newydd-ddyfodiaid yn cael eu croesawu a'u hintegreiddio i'n hysgolion

Tudalen 131



Pam fod hyn yn bwysig?

Gwyddom o adroddiad pum mlynedd diweddaraf y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, A yw Cymru'n Decach?, fod rhywfaint o welliant wedi bod mewn bylchau cyrhaeddiad addysgol. Ond yn ôl y data diweddaraf ar gyfer Gogledd Cymru, does fawr o newid wedi bod yn y bwlch rhwng disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim sef y rheiny sydd ddim.

Rydym hefyd yn gwybod o ymchwil y comisiwn, a'n gwaith gyda staff addysgu, bod y pandemig COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl a lles pobl ifanc.

Mae ein hysgolion yn croesawu mwy o newydd-ddyfodiaid o dramor trwy wahanol gynlluniau sefydlu ffoaduriaid. Mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cefnogi i integreiddio'r disgyblion hyn tra'n parchu anghenion diwylliannol a chrefyddol.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Trwy barhau â'n cynlluniau i leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim o dan gymhwyster prawf modd a'r rhai sydd ddim
- Trwy gydweithio ag ysgolion i atal bwlio a datblygu eu gallu i gofnodi ac adrodd achosion
- Trwy gymryd camau i leihau cyfraddau gwahardd a chynyddu presenoldeb disgyblion o grwpiau gwarchoddedig

Erbyn 2028:


Byddwn wedi cymryd camau i fynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad a chefnogi lles pobl ifanc mewn ysgolion.

Amcan cydraddoldeb 2: Y gweithle

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Adnabod a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o fewn prosesau recriwtio, cadw, hyfforddi a dyrchafu
- Adnabod bylchau cyflog rhwng pobl â gwahanol nodweddion gwarchoddedig
- Gwella ein dealltwriaeth o anghenion ein cydweithwyr

Tudalen 132



Pam fod hyn yn bwysig?

Fel cyflogwr mwyaf Ynys Môn rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfle a thriniaeth gyfartal. Rydym yn ymdrechu'n barhaus i gryfhau amrywiaeth ein gweithlu a chreu diwylliant cynhwysol sy'n dathlu gwahaniaeth a cyfleoedd i bawb lwyddo.

Er ein bod yn talu cyflog cyfartal i ferched a dynion, mae'r bwlch cyflog cyfartalog yn parhau (fel mewn awdurdodau lleol eraill). Mae hwn yn fater yr ydym ni, yn ogystal â Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, eisiau mynd i'r afael ag o.

I weithredu, rhaid i ni gael gwybodaeth gywir am ein staff i adnabod gwahaniaethau rhwng grwpiau. Fodd bynnag, mae casglu digon o ddata yn anodd gan ein bod yn dibynnu ar gydweithwyr i roi'r wybodaeth hon i ni'n wirfoddol.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Trwy barhau i adrodd ar y bwlch cyflog rhwng dynion a merched a datblygu ein gallu i adrodd ar fylchau rhwng grwpiau gwarchoddedig eraill
- Trwy annog a gwneud hi'n haws i weithwyr rannu eu gwybodaeth bersonol efo ni
- Trwy ddatblygu ein dealltwriaeth am gymhwysedd grwpiau gwarchoddedig i weithio drwy hyfforddiant ac ymwybyddiaeth

Erbyn 2028:

Bydd gennym well dealltwriaeth o'n gweithlu trwy ddata cydraddoldeb a byddwn wedi cymryd camau i fynd i'r afael â bylchau cyflog.

Amcan cydraddoldeb 3: Safonau byw

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Darparu cartrefi o safon sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch i'r rhai mewn angen
- Cynnal gwasanaethau lleol lle'n bosib
- Sicrhau bod trigolion yn gwybod lle i droi am gymorth

Tudalen 133



Pam fod hyn yn bwysig?

Sicrhau bod gan bawb ar Ynys Môn yr hawl i alw yn rhywle yn gartref yw un o'n prif amcanion strategol. Mae'n arbennig o berthnasol i drigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig gan eu bod yn fwy tebygol o ddibynnu arnom am help.

Mae plant sy'n derbyn gofal, ffoaduriaid a'r rhai sydd angen cymorth i fyw'n annibynnol yn rhai o'r grwpiau sy'n dibynnu arnom am gymorth tai. Fel landlord cymdeithasol mwyaf Ynys Môn, rydym wedi ymrwymo i ddarparu cartrefi addas i'r rhai mewn angen.

Rydym hefyd yn gwybod bod gwasanaethau lleol fel trafndiaeth yn cael effaith uniongyrchol ar annibyniaeth a safon byw pobl. Mewn cyfnod o doriadau cynyddol i wasanaethau, mae'n rhaid i ni arloesi er mwyn sicrhau nad yw grwpiau gwarchodedig dan anfantais.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Trwy gynyddu nifer yr eiddo fforddiadwy a hygyrch
- Trwy barhau i ddarparu cefnogaeth cynhwysiant ariannol a hawliau lles i wneud y mwyaf o gyllid a gwytnwch ariannol aelwydydd
- Trwy weithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector i gynnal gwasanaethau lleol a chyfeirio pobl at asiantaethau a all eu helpu

Erbyn 2028:

Byddwn wedi darparu mwy o gartrefi hygyrch a fforddiadwy i'r rhai mewn angen a byddwn wedi cymryd camau i ddiogelu gwasanaethau cymorth.

Amcan cydraddoldeb 4: Iechyd, lles a gofal cymdeithasol

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Creu'r amodau i unigolion wella eu hiechyd a'u lles
- Sicrhau bod gan y rhai sy'n perthyn i grwpiau gwarchoddedig fynediad at raglenni sy'n canolbwyntio ar eu hanghenion penodol

Darparu gofal cymdeithasol i'n trigolion mwyaf bregus yn eu dewis iaith



Pam fod hyn yn bwysig?

Mae ein poblogaeth yn heneiddio. Yn ôl y data diweddaraf o'r cyfrifiad, mae 26.5% o'n trigolion dros 65 oed, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 21.3%. Drwy ein statws fel cymuned oed gyfeillgar, rydym wedi ymrwymo i wneud Ynys Môn yn lle da i heneiddio.

Gwyddwn fod cadw'n actif yn helpu'n iechyd corfforol a meddyliol. Mae rhaglenni fel y cynllun atgyfeirio ymarfer corff cenedlaethol, Demetia Actif Môn, sesiynau MonActif 60+ ac Insport ar gyfer oedolion a phobl ifanc anabl yn cynnig cyfleoedd ymarfer corff o safon dan oruchwyliaeth yn ein cymunedau.

Er nad yw'n nodwedd warchoddedig, rydym yn cydnabod effaith gadarnhaol darparu gwasanaethau iechyd a gofal yn newis iaith ein trigolion mwyaf bregus.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Trwy gynnal ein statws fel aelod o rwydwaith byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd o gymunedau oed gyfeillgar
- Trwy barhau i gynnig rhaglenni ymarfer corff o ansawdd sy'n canolbwyntio ar anghenion grwpiau gwarchoddedig fel rhan o wasanaeth MônActif
- Trwy weithredu'r fframwaith Mwy na Geiriau ar gyfer darparu gofal cymdeithasol yn Gymraeg a chyfeirio at wasanaethau cymorth iaith eraill

Erbyn 2028:

Bydd gan ein trigolion gyfleoedd i wella eu hiechyd a'u lles a bydd y rhai sydd angen ein cymorth yn derbyn gofal cymdeithasol sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion.

Amcan cydraddoldeb 5: Diogelwch personol

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb, aflonyddu a chefnogaeth i adrodd achosion
- Cynnal perthynas dda rhwng trigolion, newydd-ddyfodiaid ac ymwelwyr, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg

Sicrhau bod ein staff a'n haelodau etholedig yn ymwybodol o'u dyletswyddau diogelu ac yn gweithredu arnynt



Pam fod hyn yn bwysig?

Mae cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac aflonyddu ac annog ein trigolion i adrodd am achosion wedi bod yn flaenoriaethau i ni ers peth amser.

Ond, yn ôl A yw Cymru'n Decach? Mae nifer y troseddau casineb yn parhau i gynyddu. Er gwaethaf cynnydd mewn troseddau hiliol a chrefyddol, mae cyfran y troseddau sy'n arwain at gyhuddiad wedi gostwng.

Mae cydweithwyr hefyd wedi tynnu sylw at duedd leol bryderus o densiwn rhwng ein poblogaeth breswyl a'r rhai sy'n ymweld neu'n newydd i'r ardal.

Rhaid i ni felly barhau â'n hymdrechion i wneud cynnydd yn erbyn yr amcan hwn fel bod preswylwyr ac ymwelwyr sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn teimlo'n ddiogel yn ein cymunedau.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Trwy barhau i weithio gyda'n partner, Heddlu Gogledd Cymru, i gynnal diogelwch personol ar lawr gwlad
- Trwy gefnogi ymgyrchoedd cydlyniant cymunedol rhanbarthol a chymorth i dioddefwyr
- Trwy gynnal ein statws fel cyngor sy'n wybodus am drawma a pharhau i godi ymwybyddiaeth drwy hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r gweithlu

Erbyn 2028:

Bydd gan ein cydweithwyr, waeth beth fo'u rolau, well dealltwriaeth o droseddau casineb ac aflonyddu a'u cyfrifoldeb i weithredu.

Amcan cydraddoldeb 6: Cymryd rhan

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Gwella ein dulliau o gysylltu â thrigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig
- Sicrhau bod gwybodaeth a chyfle cyfartal i rannu barn ar gael i'n holl drigolion
- Cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amrywiaeth mewn cynrychiolaeth wleidyddol ac wrth wneud penderfyniadau

Tudalen 136



Pam fod hyn yn bwysig?

Mae anghenion pobl Ynys Môn wrth wraidd popeth a wnawn. Er mwyn cwrdd â'r anghenion hynny'n llawn, rhaid i ni wrando ar ein trigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.

Gwyddom fod bylchau yn ein gwybodaeth a bod yn rhaid i ni wneud mwy i sicrhau bod lleisiau grwpiau gwarchoddedig yn llywio ein penderfyniadau. Mae ymgysylltu'n ystyrlon ag unigolion a'u cynrychiolwyr yn hanfodol er mwyn i bobl deimlo'n hyderus i siarad â ni.

Mae rhai cysylltiadau cryf eisoes yn bodoli trwy rwydweithiau fel ein Cyngor a'n Fforwm Pobl Hŷn, Fforwm Ieuenctid, cynghreiriau cymunedol a chynghorau ysgol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni wneud mwy i greu perthynas â grwpiau gwarchoddedig eraill.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Trwy gyfarfod a gwranddo ar drigolion sy'n perthyn i grwpiau gwarchoddedig
- Trwy barhau i weithio gyda'n partneriaid yn y trydydd sector i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori yn unol â'n Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus
- Trwy barhau i gydweithio â'n partneriaid rhanbarthol drwy Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru i wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i ni

Erbyn 2028:

Bydd gennym well dealltwriaeth o'n trigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig trwy siarad ag unigolion, grwpiau a'u cynrychiolwyr.

Amcan cydraddoldeb 7: Anfantais economaidd–gymdeithasol

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Sicrhau bod ein penderfyniadau yn ystyried anghenion ein trigolion mwyaf difreintiedig
- Gweithio gyda'n partneriaid yn y trydydd sector i gefnogi ein haelwydydd mwyaf bregus
- Creu'r amodau i ddatblygu economi'r ynys ymhellach a chreu cyfleoedd gwaith cynhwysol

Tudalen 137



Pam fod hyn yn bwysig?

Mae cyfraddau tlodi yn parhau i fod yn uchel yng Nghymru ac mae rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yma ar Ynys Môn. Mae dros chwarter ein plant yn byw mewn tlodi.

Mae ein cymunedau'n newid gyda mwy o bobl ifanc a rhai o oedran gweithio yn symud i ffwrdd am swyddi ac addysg. Mae'r rhai sy'n symud yma i fyw yn tueddu i fod yn hŷn ac yn fwy dibynnol ar ein cefnogaeth. Caiff y newidiadau hyn effaith ar lefelau iechyd, cyfraddau cyflog a chyrhaeddiad addysgol o fewn ein poblogaeth breswyl.

Rydym wedi gwneud cynnydd da yn ein dealltwriaeth o'r heriau ers cyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn 2021. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i ddatblygu ein dulliau o asesu effaith ein penderfyniadau ar y rhai sy'n wynebu anfantais.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Trwy weithredu ein strategaeth trechu tlodi a pharhau i gefnogi aelwydydd wrth weithio ochr yn ochr ag asiantaethau gwrthdlodi lleol
- Trwy wella'r wybodaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein cymunedau sy'n sail i'n hasesiadau effaith
- Trwy barhau i hwyluso creu cyfleoedd swyddi newydd fel rhan o'n rhaglenni datblygu economaidd

Erbyn 2028:


Bydd gennym ddealltwriaeth well o'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein cymunedau i lywio ein harferion gwneud penderfyniadau yn well.

Amcan cydraddoldeb 8: Arferion gweithio

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Cynyddu dealltwriaeth ein staff a'n haelodau etholedig o faterion cydraddoldeb trwy fwy o hyfforddiant
- Adolygu ein gweithdrefnau a'r harferion hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Gwella ein trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd

Tudalen 138



Pam fod hyn yn bwysig?

Er mwyn rhoi sylw dyledus i gydraddoldeb a darparu'n gwasanaethau'n effeithiol, rhaid i ni gyd – yn swyddogion ac yn aelodau etholedig – fod yn ymwybodol o'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol.

O'n sgysiau â chydweithwyr, mae'n ymddangos nad yw pawb yn deall yn iawn yr angen i flaenoriaethu ystyriaethau cydraddoldeb na'n sicr sut i wneud hynny'n gywir.

Wrth i arferion gwaith newid, mae'n bwysig bod ein cydweithwyr yn cael eu cefnogi i greu diwylliant gwaith iach sy'n parchu cydraddoldeb.

Yn ogystal â deall ei berthnasedd, rhaid i ni hefyd gymryd perchnogaeth dros hyrwyddo cydraddoldeb trwy ein trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd.


Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Trwy ddatblygu rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb o safon sy'n berthnasol ac yn addas
- Trwy sicrhau bod adnoddau cymorth ar ein mewnrwyd yn cael eu cadw'n berthnasol ac yn gyfredol
- Trwy argymhell defnydd priodol o eirfa, iaith ac ymddygiad
- Trwy sefydlu grŵp hyrwyddo cydraddoldeb newydd

Erbyn 2028:

Bydd gan ein cydweithwyr, waeth beth yw eu rolau, well dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb a'u cyfrifoldebau o dan y ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus.

Llywodraethu ac atebolrwydd



Er bod y cynllun hwn yn adeiladu ar rai blaenorol, croesawn y cyfle i ailystyried ein trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd. Ein bwriad yw sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o'n gwaith ar draws y sefydliad ac nad yw'n eistedd fel prosiect ar wahân.

Er mwyn sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei wireddu, byddwn yn sefydlu trefniadau cadarn sy'n canolbwyntio ar gynlluniau gweithredu blynyddol. Byddwn hefyd yn sefydlu grŵp cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant newydd. Nod y grŵp fydd darparu cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth i gynnal ein dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus a chyflawni ein hamcanion.

Byddwn yn adrodd i'n Tîm Rheoli Corfforaethol a'n Pwyllgor Sgrïwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Bydd ein trefniadau yn sicrhau eglurder, atebolrwydd, cydlyniant a'r strwythur i fonitro cynnydd yn effeithiol. Bydd ein hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol yn rhoi gwybod i chi am gynnydd.



Atodiad 1: Sail gyfreithiol

1. Pam fod angen cynllun cydraddoldeb strategol arnom?

Mae'r sail statudol ar gyfer datblygu'r cynllun hwn wedi'i chynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyffredinol ar gyrrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r canlynol ym mhob agwedd o'u gwaith:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon
- Hyrwyddo cyfle cyfartal
- Meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau

Mae Rheoliadau 2011 yn cynnwys dyletswyddau penodol i helpu cyrrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys gofyniad i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb a chynlluniau cydraddoldeb strategol o leiaf unwaith bob pedair blynedd.

Gosoda'r llywodraeth ddisgwyliadau cadarn ar awdurdodau lleol i gyfrannu tuag wella cydraddoldeb yng Nghymru. Adeilada'r dyletswyddau penodol ar ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ' greu Cymru fwy cyfartal' drwy wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y genedl. Ystyriwn bod ein cynllun cydraddoldeb strategol yn cyfrannu at wireddu sawl un o gynlluniau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Cynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru

2. Pwy sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ymwneud â sicrhau tegwch i bawb. Diogela'r nodweddion canlynol, a elwir hefyd yn 'grwpiau gwarchoddedig':

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth



Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

- Hil
- Crefydd neu gred, yn cynnwys diffyg crefydd
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil

Nod arall y Ddeddf yw lleihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

3. Ar gyfer pwy mae'r cynllun hwn?

Cynllun ar gyfer Ynys Môn gyfan yw hwn. Mae pob aelod o'n poblogaeth yn perthyn i o leiaf un o'r grwpiau gwarchoddedig uchod. Felly, mae gweithio tuag at greu Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus i bawb yn golygu cydnabod bod llawer o bethau'n achosi anghydraddoldeb a gwneud popeth o fewn ein gallu i fynd i'r afael â nhw.

Bydd rhai agweddau o'n gwaith yn ymdrin yn agosach â rhai grwpiau gwarchoddedig, fel addysg, tai a gwasanaethau cymdeithasol. Gall pobl gael eu heithrio oherwydd bod ganddynt incwm isel, eu bod wedi'u hynysu'n gymdeithasol, yn byw mewn tai gwael neu oherwydd eu hiechyd. Mae ffoaduriaid a mudwyr, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu hefyd yn debygol o wynebu rhwystrau ychwanegol wrth gael mynediad at wasanaethau a chyrraedd eu llawn potensial.

Mae ein gwaith dydd i ddydd yn dangos bod meithrin cysylltiadau da rhwng ein poblogaeth breswyl a'r rhai sy'n newydd i'r ardal neu'n ymweld â hi yn arbennig o berthnasol i ni. Er nad yw'n nodwedd warchoddedig, teimlwn fod cyfrifoldeb arnom i ddefnyddio ein dylanwad i liniaru tensiynau rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg yn yr un modd ag y byddem yn ceisio lleddfu gwrthdaro rhwng grwpiau eraill.

Rydym hefyd yn ystyried y cynllun hwn fel cyfle i werthuso ein harferion fel cyflogwr. Yn ystod 2024 i 2028 byddwn yn talu cryn sylw i godi ymwybyddiaeth, gwella ein gwybodaeth a sicrhau bod ein diwylliant gwaith yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth er budd ein gweithwyr a'n haelodau etholedig.

Byddwn yn sefydlu grŵp cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant newydd fydd yn cynnwys swyddogion allweddol y mae eu gwaith yn dod â nhw i gysylltiad â grwpiau gwarchoddedig ar Ynys Môn. Bydd eu gwybodaeth a'u profiadau yn llywio ein cyfeiriad strategol i gynnal ein dyletswydd cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus a chyflawni ein hamcanion cydraddoldeb.



Atodiad 2: Cyd-destun

1. Ein cymunedau

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu a gwella ein dulliau o gasglu gwybodaeth berthnasol yn barhaus er mwyn gwella ein dealltwriaeth o faint, natur a chymhlethdod pob grŵp gwarchoddedig ar Ynys Môn. Er y gallai'r proffil ardal sy'n cyd-fynd â'r cynllun hwn awgrymu nad yw ein cymunedau mor amrywiol ag mewn rhannau eraill o'r wlad, nid yw hyn yn golygu nad yw pobl Ynys Môn yn wynebu anfantais.

Mae ein poblogaeth yn heneiddio, ac mae effeithiau anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael eu teimlo'n mewn sawl ardal. Mae demograffeg ein cymunedau'n newid gyda phobl iau yn gadael ar drywydd addysg a gwaith a phobl hŷn yn symud yma yn chwilio am ansawdd bywyd gwell. Rydym hefyd yn croesawu nifer cynyddol o newydd-ddyfodiaid o dramor trwy wahanol gynlluniau ailsefydlu ffoaduriaid.

Gwyddom fod bylchau data yn parhau, a bod angen gwneud mwy i adnabod ac ymgysylltu'n ystyrion â nifer o'n grwpiau gwarchoddedig. (Yn enwedig y rhai sy'n rhannu nodweddion ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred a chyfeiriadedd rhywiol.) Byddwn yn gwneud hyn drwy gydweithio â rhwydweithiau presennol, fel ein Cyngor a'n Fforwm Pobl Hŷn a'n Fforwm Ieuenctid, yn ogystal â chreu cysylltiadau newydd trwy bartneriaid trydydd sector fel Medrwn Môn. Rydym yn esbonio ein bwriadau yn fanylach o dan amcan cydraddoldeb 6: Cyfranogiad.

2. Ein Cyngor

Cynrychiolir trigolion Ynys Môn gan 35 o aelodau etholedig (a elwir hefyd yn gynghorwyr). Prif gorff gwneud penderfyniadau'r Cyngor yw Pwyllgor Gwaith o naw aelod, dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Cyngor. Mae'r Arweinydd hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am gynrychioli materion cydraddoldeb ar y Pwyllgor Gwaith. Mae pencampwr amrywiaeth hefyd yn cael ei benodi o blith yr aelodau.

Mae penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn cael eu hystyried gan ddau bwyllgor craffu. Cewch hyd i fwy o wybodaeth am drefniadau gwleidyddol y Cyngor, yn ogystal â manylion ein pwyllgorau a dyddiadau cyfarfodydd, ar ein gwefan.

Mae tîm arweinyddiaeth y Cyngor yn cynnwys ein prif weithredwr, dirprwy brif weithredwr a phedwar cyfarwyddwr sydd â chyfrifoldeb am:

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

- Adnoddau
- Addysg, sgiliau a phobl ifanc
- Busnes y Cyngor
- Gwasanaethau cymdeithasol (gan gynnwys gwasanaethau plant)

Mae'r tîm rheoli corfforaethol yn cynnwys yr uchod yn ogystal â phum pennaeth gwasanaeth gyda chyfrifoldeb am:

- Adnoddau dynol a thrawsnewid corfforaethol
- Gwasanaethau oedolion
- Gwasanaethau priffyrdd, gwastraff ac eiddo
- Gwasanaethau tai
- Rheoleiddio a datblygu economaidd

3. Ein staff

Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfle cyfartal a thriniaeth gyfartal i'n holl weithwyr. Mae gennym bolisi clir o dalu cyflogeion yn gyfartal am yr un gwaith neu waith cyfatebol. Caiff rolau swyddi a graddau cyflog eu gwerthuso gennym yn ôl yr angen i sicrhau strwythur teg. Gweithredwn ddull 'cyflogwr o ddewis' i ddenu, cadw ac ysgogi gweithwyr medrus addas fel y gall y Cyngor berfformio hyd eithaf ei allu tra'n darparu gwasanaethau.

Cyhoeddem y data cydraddoldeb sydd gennym am y gweithlu yn ein hadroddiadau blynyddol. Fodd bynnag, mae casglu digon o ddata yn anodd gan ein bod yn dibynnu ar gydweithwyr i ddarparu'r wybodaeth hon i ni'n wirfoddol. Rydym yn esbonio ein bwriadau i wella'r wybodaeth hon yn fanylach o dan amcan cydraddoldeb 2: Gwaith.

4. Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

Yn unol â'n dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus, mae'n rhaid i ni asesu effaith debygol ein polisiau a'n harferion. Gellir cyflawni hyn drwy ddadansoddiad trylwyr o dystiolaeth cydraddoldeb ac ymgysylltu â chymunedau, unigolion ac arbenigwyr. Mae hyn yn ein helpu i ddeall sut y gallai ein polisiau a'n harferion effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig, ac a oes angen cymryd camau i ddileu neu leihau unrhyw effeithiau negyddol lle bo hynny'n bosibl.

Ein nod yw sicrhau bod adnabod a lleihau effeithiau negyddol a hyrwyddo cydraddoldeb yn dod yn rhan o'n gwaith beunyddiol. Rhaid i gynghorwyr a swyddogion sydd â chyfrifoldebau gwneud penderfyniadau ddeall yr effaith debygol cyn gwneud unrhyw

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

benderfyniadau. Am y rheswm hwn, mae adroddiadau eglurhaol ein prif bwyllgorau – pwyllgorau craffu a'r Pwyllgor Gwaith – yn cyfeirio at unrhyw effaith bosibl ar rai grwpiau o fewn ein cymunedau.

Mae templedi a chanllawiau ar gael ar ein mewnwyd ac mae'r Tîm Polisi a'r Gymraeg hefyd wrth law i gynnig cyngor. Mae hyfforddiant rheolaidd hefyd ar gael ar gyfer unrhyw aelod o staff sy'n teimlo bod angen arweiniad pellach arnynt.

Rydym yn bwriadu adolygu a gwella cynnwys ein tudalennau cydraddoldeb ein mewnwyd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod adnoddau ar gael yn rhwydd mewn un lle i gefnogi swyddogion sy'n cynnal asesiadau effaith. Rydym wedi cynnwys y weithred hon o dan amcan cydraddoldeb 8: Arferion gwaith mewnol.

Atodiad 3: Datblygu'r cynllun

1. Sut wnaethom ddatblygu ein cynllun?

Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol ar gyfer 2024 i 2028 yn adeiladu ar ein cynllun blaenorol ac yn cysylltu'n agos â'n Cynllun Cyngor newydd ar gyfer 2023 i 2028. Fe'i siapir gan wybodaeth am ein cymunedau o ddata cydraddoldeb diweddaraf y cyfrifiad, yn ogystal ag ymchwil leol a rhanbarthol a gynhaliwyd gennym ni a Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSSEN). Mae hefyd yn tynnu ar ganfyddiadau A yw Cymru'n Decach?, adroddiad cyflwr y genedl pum mlynedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae cydweithio â'n hadrannau gwasanaeth wedi bod yn allweddol. Datblygwyd y cynllun mewn ymgynghoriad agos â'n Tîm Rheoli Corfforaethol ac fe'i lywiwyd gan wybodaeth swyddogion sy'n gweithio'n agos gyda grwpiau gwarchodedig yn lleol.

Rydym hefyd wedi ceisio clywed gan sefydliadau ac unigolion sy'n cynrychioli'r grwpiau hyn. Ymgysylltom yn uniongyrchol â'n Fforwm Ieuentid a defnyddwyr darpariaethau gofal dydd Mencap Môn, Boston Centre Stage, Tyddyn Môn a Blaen y Coed.

Mae cyfarfod a chlywed gan bobl yn allweddol i'n galluogi i ddod yn sefydliad gwirioneddol gynhwysol. Rydym yn cydnabod bod ymgysylltu ac ymgynghori ystyrion yn broses barhaus a bod angen i ni wneud mwy i glywed yn uniongyrchol gan ein grwpiau gwarchodedig. Ymdrechwn yn ystod cyfnod y cynllun hwn i gryfhau ein rhwydweithiau cymunedol yn ogystal â chysylltiadau o fewn ein sefydliad.

Dyma grynodedb o ffynonellau gwybodaeth benodol a ystyriwyd gennym wrth ddatblygu'r cynllun:

- Canfyddiadau proses ymgysylltu ac ymgynghori gynhwysfawr a gynhaliwyd yn 2022 i ddatblygu blaenoriaethau strategol Cynllun y Cyngor 2023-2028
- Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru: Adroddiad data a thystiolaeth (Ebrill 2023) a gomisiynwyd gan NWPSSEN
- Adborth o'r ymgynghoriad ar ein hamcanion rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru a gynhaliwyd gan NWPSSEN (Medi 2023)
- Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru'n Decach? (Tachwedd 2023)



2. Sut wnaethom ddatblygu ein hamcanion cydraddoldeb?

Fel gyda'n cynlluniau blaenorol, mae ein hamcanion cydraddoldeb yn seiliedig ar y 'parthau' a ddefnyddir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i fonitro cynnydd mewn cydraddoldeb ym Mhrydain. Ers dros ddegawd mae NWPSSEN (sy'n cynnwys holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru a sefydliadau sector cyhoeddus eraill) wedi cydweithio i ddatblygu a chytuno ar set o amcanion cyffredin ar gyfer y rhanbarth, yn seiliedig ar y meysydd bywyd allweddol hyn.

Daeth ymchwil ac ymgynghori diweddar gan NWPSSEN i'r casgliad bod yr amcanion lefel uchaf gwreiddiol yn parhau'n berthnasol. Cadarnhaodd yr adolygiad diweddaraf yn haf 2023 – oedd yn cynnwys ymarfer ymgynghori cyhoeddus – fod cefnogaeth eang i'n hamcanion rhanbarthol ar y cyd.

Mae amcanion cydraddoldeb 1, 3 a 4 yn arbennig o berthnasol gan eu bod yn cyd-fynd â thri amcan strategol ein Cynllun Cyngor ar gyfer 2023 i 2028:

- Addysg: Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Gofal cymdeithasol a lles: Darparu'r cymorth cywir ar yr adeg cywir
- Tai: Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n cartref

Mae amcan cydraddoldeb 7 yn deillio o ddyletswydd benodol i Gymru i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol yn yr un modd â'r nodweddion a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dewiswyd amcan cydraddoldeb 8 gan ei fod yn rhoi hyblygrwydd inni ddatblygu ein harferion gwaith mewnol er mwyn sicrhau tegwch i bawb.

Mae cysylltiad agos rhwng nifer o'r amcanion â chynlluniau strategol eraill gan gynnwys:

- Cynllun strategol trechu tlodi
- Strategaeth dai
- Strategaeth rhaglen cymorth tai
- Strategaeth cyfranogiad cyhoeddus
- Strategaeth cyfranogiad tenantiaid

Rydym yn cydnabod bod rhai amcanion yn fwy perthnasol i rai grwpiau gwarchoddedig. Fodd bynnag, drwy ein cynlluniau gweithredu blynyddol, byddwn yn sicrhau bod pob grŵp gwarchoddedig yn cael sylw dyledus yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

Gwyddom fod cael wyth amcan cydraddoldeb yn uchelgeisiol, yn enwedig o ystyried y sefyllfa ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae cydweithio agos â'n partneriaid rhanbarthol yn gryfder cyson i ni. Mae gweithio gyda'n gilydd tuag at



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

amcanion cydraddoldeb ar y cyd yn ein galluogi i wneud defnydd effeithiol o adnoddau ac arbenigedd ac osgoi dyblygu.

Ynys Môn: Proffil ardal Cyfrifiad 2021

1. Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â nodweddion pobl ac aelwydydd ar Ynys Môn. Daw'r ffigurau o gyfrifiad 2021. Cafodd ei baratoi i gefnogi cynllun cydraddoldeb strategol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2024 i 2028.

Mae'n cynnwys ystadegau ar wahanol bynciau sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb a statws economaidd-gymdeithasol a ryddhawyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol hyd at fis Rhagfyr 2023.

2. Cynnwys

- Demograffeg
- Ethnigrwydd, hunaniaeth, crefydd ac iaith
- Gwaith a theithio
- Tai
- Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd
- Addysg
- Iechyd

3. Demograffeg

Gwybodaeth: Rhyw

	cyfrif	%
Holl breswylwyr arferol	68,878	100.0
Benyw	35,219	51.1
Gwryw	33,659	48.9

Disgrifiad: Dyma'r rhyw a gofnodwyd gan y person wnaeth gwblhau'r cyfrifiad. Yr opsiynau oedd 'benyw' a 'gwryw'.

Cymhariaeth â 2011: Cymaradwy iawn

Gwybodaeth: Oedran

	cyfrif	%
Yr holl breswylwyr arferol	68,878	100.0
4 mlwydd oed ac iau	3,209	4.7
Rhwng 5 a 9 oed	3,861	5.6
Rhwng 10 a 15 oed	4,659	6.8
Rhwng 16 a 19 oed	2,716	3.9
Rhwng 20 a 24 oed	3,055	4.4
Rhwng 25 a 34 oed	7,003	10.2
Rhwng 35 a 49 oed	10,963	15.9
rhwng 50 a 64 oed	15,202	22.1
Rhwng 65 a 74 oed	9,794	14.2
Rhwng 75 ac 84 oed	6,237	9.1
85 mlwydd oed a throsodd	2,176	3.2

Disgrifiad: Oedran person ar ddiwrnod y cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, yng Nghymru a Lloegr.

Cymhariaeth â 2011: Cymaradwy iawn

Gwybodaeth: Statws partneriaeth gyfreithiol

	cyfrif	%
Pob preswilydd arferol 16 oed a throsodd	57,147	100.0
Erioed wedi priodi na chofrestru partneriaeth sifil	18,849	33.0
Yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig	26,596	46.5
Priod	26,478	46.3
Mewn partneriaeth gofrestredig	118	0.2
Wedi gwahanu, ond yn dal i fod yn briod yn gyfreithiol neu mewn partneriaeth sifil	1,066	1.9
Ysgariad neu bartneriaeth sifil wedi'i diddymu	5,957	10.4
Gweddw neu bartner partneriaeth sifil sydd wedi goroesi	4,679	8.2

Disgrifiad: Yn dosbarthu person yn ôl ei statws priodasol cyfreithiol neu bartneriaeth sifil gofrestredig ar ddiwrnod y cyfrifiad, 21 Mawrth 2021. Mae'r un peth â 'statws priodasol' amrywiol yng nghyfrifiad 2011 ond wedi'i ddiweddarau ar gyfer Cyfrifiad 2021 i adlewyrchu'r Ddeddf Partneriaeth Sifil ddiwygiedig ddaeth i rym yn 2019.

Yng nghanlyniadau Cyfrifiad 2021, mae 'sengl' yn cyfeirio at rywun sydd erioed wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig.

Gwybodaeth ansawdd: Nid oes amcangyfrifon ar wahân ar gael ar gyfer partneriaethau o'r un ac o wahanol ryw ar gyfer y categorïau statws priodasol 'wedi gwahanu', 'ysgaru/diddymu' a 'phartneriaid gweddw/goroesi'. Mae hyn oherwydd bod sicrwydd ansawdd yn dangos bod y ffigurau ar gyfer rhai o'r categorïau yn annibynadwy.

Cymhariaeth â 2011: Cymharu'n fras. Ychwanegwyd y categorïau statws priodas sifil o'r un rhyw a phartneriaeth sifil gwahanol ryw a ddaeth i rym yn 2011. Felly, mae categorïau o'r un ac o wahanol ryw yn perthyn i'r rhai sydd mewn partneriaeth sifil. Fodd bynnag, mae'r categorïau o'r un ac o wahanol ryw ar gyfer statws partneriaeth gyfreithiol y tu allan i bartneriaeth (pobl sydd naill ai wedi gwahanu, yn weddw, partner sy'n goroesi, wedi ysgaru neu eu partneriaeth wedi'u diddymu'n gyfreithiol) wedi'u cyfuno oherwydd materion ansawdd data.

Gwybodaeth: Math o breswylfa

	cyfrif	%
Holl breswylwyr arferol	68,878	100.0
Yn byw mewn cartref	68,184	99.0
Yn byw mewn sefydliad cymunedol	694	1.0

Disgrifiad: Os yw person yn byw mewn cartref neu sefydliad cymunedol. Cofnodwyd bod pobl a gwblhaodd yr holiadur aelwyd arferol yn byw mewn cartref. Gofynnwyd i'r rhai a gwblhaodd holiadur unigol a oeddent yn byw mewn cartref neu sefydliad cymunedol.

Cymhariaeth â 2011: Cymaradwy iawn

Gwybodaeth: Cyfansoddiad aelwyd

	cyfrif	%
Holl breswylwyr arferol	68,878	100.0
Aelwyd un person	10,189	33.1
Aelwyd deulu sengl	19,438	63.1
Mathau eraill o aelwydydd	1,196	3.9

Disgrifiad: Aelwydydd yn ôl y berthynas rhwng aelodau. Mae aelwydydd un teulu yn cael eu dosbarthu yn ôl:

- nifer y plant dibynnol
- math o deulu (priod, partneriaeth sifil neu deulu cwpl sy'n cyd-fyw, neu deulu unig riant)

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

Caiff aelwydydd eraill cael eu dosbarthu yn ôl:

- nifer y bobl
- nifer y plant dibynnol
- a yw'r aelwyd yn cynnwys myfyrwyr yn unig neu ddim ond pobl 66 oed a throsodd

Gwybodaeth ansawdd: Mae ystyriaethau ansawdd yn bodoli ynghylch cysondeb data'r cyfrifiad ar gyfansoddiad cartrefi a theulu a statws partneriaeth gyfreithiol, a newidiadau yn y diffiniad o 'fathau eraill o aelwydydd' ers 2011.

Cymhariaeth â 2011: Cymharu'n fras. Mae hyn yn codi o'r newidyn sy'n deillio o statws partneriaeth gyfreithiol. Gwnaed newidiadau i adlewyrchu y gall pobl bellach briodi rhywun o'r un rhyw a gall pobl o wahanol ryw fod mewn partneriaeth sifil.

4. Ethnigrwydd, hunaniaeth, crefydd ac iaith

Gwybodaeth: Ethnigrwydd

	cyfrif	%
Holl breswylwyr arferol	68,878	100.0
Cymry Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd	430	0.6
Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribiaidd neu Affricanaidd	104	0.2
Grwpiau ethnig cymysg neu lluosog	598	0.9
Gwyn	67,587	98.1
Grŵp ethnig arall	160	0.2

Disgrifiad: Y grŵp ethnig y mae'r person sy'n cwblhau'r cyfrifiad yn teimlo ei fod yn perthyn iddo. Gallai hyn fod yn seiliedig ar eu diwylliant, cefndir teuluol, hunaniaeth neu ymddangosiad corfforol. Gallai ymatebwyr ddewis un allan o 19 ateb posib, gan gynnwys opsiynau ymateb ysgrifenedig.

Cymhariaeth â 2011: Cymharu'n fras. Mae'r cwestiwn hwn yn un goddrychol ac yn gofyn i ymatebwyr hunan-adnabod pa grŵp ethnig maent yn teimlo eu bod yn perthyn iddo. Gall y ffordd y mae person yn dewis adnabod ei hun newid dros amser.

Cynhwyswyd categori Roma wrth ymyl y blwch ticio Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig o fewn y categori Gwyn. Ychwanegwyd hefyd opsiwn ysgrifennu i mewn ar gyfer y rhai sy'n dewis Affrica o fewn y Categori Du, Du Prydeinig, Du Cymreig neu Caribiaidd. Golyga hyn y gellid cofnodi cefndir ethnig mwy penodol.

Gwybodaeth: Hunaniaeth genedlaethol

	cyfrif	%
Holl breswylwyr arferol	68,878	100.0
Hunaniaeth Brydeinig yn unig	12,594	18.3
Hunaniaeth Saesneg yn unig	8,794	12.8
Hunaniaeth Saesneg a Prydeinig yn unig	1,541	2.2
Hunaniaeth Gymreig yn unig	38,301	55.6
Hunaniaeth Gymreig a Saesneg yn unig	3,847	5.6
Unrhyw gyfuniad arall o hunaniaethau'r Deyrnas Unedig yn unig	1,916	2.8
Hunaniaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn unig	1,225	1.8
Hunaniaeth y Deyrnas Unedig a hunaniaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig	660	1.0

Disgrifiad: Mae hunaniaeth genedlaethol rhywun yn asesiad personol o'i hunaniaeth ei hun. Gallai fod yn wlad neu wledydd lle maent yn teimlo eu bod yn perthyn neu'n ystyried yn gartref. Nid yw'n dibynnu ar grŵp ethnig na dinasyddiaeth.

Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un hunaniaeth genedlaethol.

Gwybodaeth am ansawdd: Gall y cynnydd ers Cyfrifiad 2011 mewn pobl sy'n nodi eu bod yn 'Brydeinwyr' a chwymp mewn pobl sy'n nodi eu bod yn 'Saesneg' adlewyrchu'n rhannol wir newidiadau mewn hunanganfyddiad. Mae hefyd yn debygol o adlewyrchu bod 'Prydeinig' wedi disodli 'Saesneg' fel yr opsiwn ateb cyntaf a restrir ar yr holiadur yn Lloegr.

Cymhariaeth â 2011: Cymharu'n fras. Yn gyffredinol, gellir cymharu'r newidyn deilliadol hwn â'r un newidyn a ddefnyddir yng Nghyfrifiad 2011, ond mae rhai materion ansawdd yn y data.

Gwybodaeth: Crefydd

	cyfrif	%
Holl breswylwyr arferol	68,878	100.0
Dim crefydd	28,066	40.7
Cristion	35,485	51.5
Bwdhaidd	154	0.2
Hindŵaidd	62	0.1
Iddewig	30	0.0
Mwslim	328	0.5
Sikh	30	0.0
Crefydd arall	278	0.4
Heb ei ateb	4,446	6.5

Diffiniad: Y grefydd y mae pobl yn ei chysylltu neu'n uniaethu â hi (eu cysylltiad crefyddol), p'un a ydynt yn arfer neu â ffydd yn y grefydd. Roedd y cwestiwn hwn yn wirfoddol. Mae'n cynnwys pobl a nododd un o'r wyth ateb posib, gan gynnwys 'dim crefydd', ochr yn ochr â'r rhai wnaeth ddewis peidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Cymhariaeth â 2011: Cymharu'n fras. Yn gyffredinol, gellir cymharu'r newidyn deilliadol hwn â'r un newidyn a ddefnyddir yng Nghyfrifiad 2011, ond mae rhai materion ansawdd yn y data.

Gwybodaeth: Gwlad geni

	cyfrif	%
Holl breswylwyr arferol	68,878	100.0
Ewrop	67,864	98.5
Ewrop: Y Deyrnas Unedig	66,584	96.7
Ewrop: Ewrop Arall: Gwledydd yr UE	338	0.5
Ewrop: Ewrop Arall (ac eithrio Iwerddon)	942	1.4
Affrica	257	0.4
Y Dwyrain Canol ac Asia	480	0.37
America a'r Caribî	190	0.3
Antarctica ac Oceania	88	0.1
Arall	0	0.0

Disgrifiad: Y wlad lle cafodd person ei eni. I bobl heb eu geni yn un o bedair rhan y DU, roedd opsiwn i ddewis 'rhywle arall'. Gofynnwyd i bobl a ddewisodd 'rwywle arall' ysgrifennu enw cyfredol eu gwlad enedigol.

Cymhariaeth â 2011: Cymharu'n fras. Newidiwyd rhai categorïau i'w cysoni â dosbarthiadau gwlad a ddefnyddir mewn ystadegau cenedlaethol eraill.

Gwybodaeth: Cyfnod preswyllo yn y DU

	cyfrif	%
Holl breswylwyr arferol	68,878	100.0
Ganwyd yn y Deyrnas Unedig	66,583	96.7
10 mlynedd neu fwy	1,727	2.5
5 mlynedd neu fwy, ond llai na 10 mlynedd	246	0.4
2 flynedd neu fwy, ond llai na 5 mlynedd	190	0.3
Llai na 2 flynedd	131	0.2

Disgrifiad: Mae'r cyfnod preswyllo yn y DU yn deillio o'r dyddiad fwyaf diweddar y daeth person i fyw yn y DU. Nid yw'n cynnwys dychwelyd o wyliau neu arhosiad byr y tu allan i'r DU.

Mae'r cyfnod preswyllo yn berthnasol i breswylwyr arferol na chawsant eu geni yn y DU yn unig. Nid yw'n cynnwys preswylwyr arferol a anwyd yn y DU sydd wedi nychwelyd ar ôl ymfudo – mae'r rhain yn cael eu cofnodi yn y categori 'ganwyd yn y DU'.

Cymhariaeth â 2011: Cymaradwy iawn

Gwybodaeth: Iaith yr aelwyd

	cyfrif	%
Pob aelwyd	30,822	100.0
Mae'r Gymraeg neu'r Saesneg yn brif iaith i bob oedolyn	30,459	98.8
Mae'r Gymraeg neu'r Saesneg yn brif iaith i o leiaf un oedolyn	186	0.6
Mae'r Gymraeg neu'r Saesneg yn brif iaith i o leiaf un person rhwng 3 a 15 mlwydd oed, ond nid i'r oedolion	29	0.1
Nid yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn brif iaith i unrhyw aelod o'r aelwyd	148	0.5

Disgrifiad: Yn dosbarthu aelwydydd yn ôl y cyfuniad o oedolion a phlant (3 i 15 oed) o fewn aelwyd sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg fel eu prif iaith.

Cymhariaeth â 2011: Cymaradwy iawn

5. Gwaith a theithio

Gwybodaeth: Gweithgaredd economaidd

	cyfrif	%
Pob preswlydd arferol dros 16 mlwydd oed	57,148	100.0
Yn economaidd weithredol (ac eithrio myfyrwyr llawn amser)	30,023	52.5
Mewn cyflogaeth	28,540	49.9
Di-waith	1,483	2.6
Yn economaidd weithgar ac yn fyfyrwr llawn amser	842	1.5
Mewn cyflogaeth	663	1.2
Di-waith	179	0.3
Economaidd anweithgar	26,283	46.0
Ymddeol	17,457	30.5
Myfyrwr	2,279	4.0
Gofalu am gartref neu deulu	2,344	4.1
Yn sâl neu'n anabl hirdymor	2,714	4.7
Arall	1,489	2.6

Disgrifiad: Mae pobl dros 16 mlwydd oed yn economaidd weithredol os, rhwng 15 Mawrth a 21 Mawrth, roeddent:

- Mewn cyflogaeth (yn weithiwr neu hunangyflogedig)
- Yn ddi-waith, ond yn chwilio am waith ac ar gael i ddechrau o fewn pythefnos
- Yn ddi-waith, ond yn aros i ddechrau swydd a gynigiwyd ac a dderbyniwyd

Mae'n fesur a oedd person yn cyfrannu'n weithredol i'r farchnad lafur yn ystod y cyfnod hwn ai peidio. Ystyrir pobl yn economaidd anweithgar os oeddent dros 16 mlwydd oed ac yn ddi-waith rhwng 15 Mawrth a 21 Mawrth ac heb fod yn chwilio am waith rhwng 22 Chwefror a 21 Mawrth 2021 neu ddim ar gael i ddechrau gweithio o fewn pythefnos.

Mae diffiniad y cyfrifiad yn wahanol i ddiffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol yn arolwg y llafurlu, felly ni ellir cymharu amcangyfrifon yn uniongyrchol.

Mae'r dosbarthiad hwn yn gwahanu myfyrwyr llawn a rhan amser pan fyddant yn gyflogedig neu'n ddi-waith. Argymhellir crynhoi'r rhain gyda'i gilydd i edrych ar bawb sydd mewn cyflogaeth neu'n ddi-waith, neu i ddefnyddio'r dosbarthiad marchnad lafur pedwar categori, os am edrych ar y rhai sydd â statws marchnad lafur penodol.

Gwybodaeth am ansawdd: Gan fod Cyfrifiad 2021 yn ystod cyfnod unigryw o newid cyflym, cymerwch ofal wrth ddefnyddio data'r Farchnad Lafur at ddibenion cynllunio.

Cymhariaeth â 2011: Cymharu'n n fras. Roedd peth o'r geiriad ar holiadur Cyfrifiad 2021 yn newidiadau ac fe gafodd yr opsiynau y gallai pobl ddewis ohonynt eu dileu.

Gwybodaeth: Oriau gweithio

	cyfrif	%
Pob preswlydd arferol 16 oed a throsodd mewn gwaith yn yr wythnos cyn y cyfrifiad	29,202	100.0
Rhan-amser	9,257	31.7
15 awr neu lai o waith	2,716	9.3
16-30 awr o waith	6,541	22.4
Llawn amser	19,945	68.3
31-48 awr yn gweithio	16,493	56.5
49 awr neu fwy o waith	3,452	11.8

Disgrifiad: Mae nifer yr oriau a weithiwyd yr wythnos cyn y cyfrifiad yn cynnwys goramser â thâl a di-dâl. Mae hyn yn cynnwys prif swydd unrhyw un 16 oed a throsodd.

Gwybodaeth am ansawdd: Gan fod Cyfrifiad 2021 yn ystod cyfnod unigryw o newid cyflym, cymerwch ofal wrth ddefnyddio'r data hwn at ddibenion cynllunio.

Cymhariaeth â 2011: Cymaradwy iawn

Gwybodaeth: galwedigaeth

	cyfrif	%
Pob preswlydd arferol 16 oed a throsodd mewn gwaith yr wythnos cyn y cyfrifiad	29,202	100.0
Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion	3,167	10.8
Galwedigaethau proffesiynol	4,716	16.1
Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiol	3,179	10.9
Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol	2,482	8.5
Galwedigaethau crefftau medrus	4,547	15.6
Galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill	3,638	12.5
Galwedigaethau gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid	2,522	8.6
Gweithwyr prosesau, peiriannau a pheiriant	2,065	7.1
Galwedigaethau elfennol	2,886	9.9

Disgrifiad: Dosbarthu yr hyn y mae pobl 16 oed a throsodd yn ei wneud fel eu prif swydd. Mae eu teitl swydd neu fanylion y gweithgareddau a wnânt yn eu swydd ac unrhyw gyfrifoldebau goruchwyllo neu reoli yn ffurfio'r dosbarthiad hwn. Defnyddir yr wybodaeth hon i godio ymatebion i alwedigaeth gan ddefnyddio Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC) 2020.

Gwybodaeth am ansawdd: Gan fod Cyfrifiad 2021 yn ystod cyfnod unigryw o newid cyflym, cymerwch ofal wrth ddefnyddio'r data hwn at ddibenion cynllunio.

Cymhariaeth â 2011: Anghymaradwy. Newidiwyd y dosbarthiad ar gyfer Cyfrifiad 2021 a chyfuno'r categorïau a oedd ar gael yn flaenorol yng nghyfrifiad Cyfrifiad 2011.

6. Tai

Gwybodaeth: Daliadaeth

	cyfrif	%
Pob aelwyd	30,824	100.0
Mewn perchnogaeth: Yn berchen yn llwyr	13,756	44.6
Yn berchen trwy forgais neu ran-berchnogaeth	7,351	23.8
Rhent cymdeithasol	4,820	15.6
Rhentu preifat neu'n byw yn ddi-rent	4,897	15.9

Disgrifiad: P'un a yw aelwyd yn berchen ar neu'n rhentu'r llety y mae'n byw ynddo.

Gall llety sy'n eiddo i berchennog fod:

- Ym mherchnogaeth lwyr yr aelwyd, lle mae'r aelwyd yn berchen ar yr holl eiddo
- Gyda morgais neu fenthyciad
- Yn berchen yn rhannol trwy gynllun rhan-berchnogaeth

Gall llety rhent fod yn:

- rhentu preifat, er enghraifft, drwy landlord preifat neu asiant gosod tai
- Rhent cymdeithasol drwy gyngor lleol neu gymdeithas dai

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar gyfer cartrefi heb unrhyw breswylwyr arferol.

Gwybodaeth am ansawdd: Mae tystiolaeth bod pobl yn nodi'n anghywir eu math o landlord fel 'Cyngor neu awdurdod lleol' neu 'gymdeithas dai'. Dylech ychwanegu'r ddau gategori hyn at ei gilydd wrth ddadansoddi data sy'n defnyddio'r newidyn hwn.

Cymhariaeth â 2011: Cymaradwy iawn

7. Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd

Gwybodaeth: Cyfeiriadedd rhywiol

	cyfrif	%
Pob preswlydd arferol 16 oed a throsodd	57,149	100.0
Strêt neu heterorywiol	51,430	90.0
Hoyw neu lesbiaid	620	1.1
Deurywiol	470	1.8
Pansexual	25	0.0
Asexual	23	0.0
Hoyw	4	0.0
Pob cyfeiriadedd rhywiol arall	24	0.0
Heb ei ateb	4,552	8.0

Disgrifiad: Dosbarthu pobl yn ôl yr ymatebion i'r cwestiwn cyfeiriadedd rhywiol. Roedd y cwestiwn hwn yn un gwirfoddol a gofynnwyd i bobl 16 oed a hŷn yn unig.

Cymhariaeth â 2011: Anghymaradwy. Mae'r newidyn hwn yn newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021 ac nid oes cymhariaeth â Chyfrifiad 2011.

Gwybodaeth: Hunaniaeth rhywedd

	cyfrif	%
Pob preswlydd arferol 16 oed a throsodd	57,149	100.0
Hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r rhyw a gofrestrwyd adeg genedigaeth	53,217	93.1
Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i ryw a gofrestrwyd adeg genedigaeth ond ni roddir hunaniaeth benodol	66	0.1
Dynes traws	34	0.1
Dyn traws	31	0.1
Anneuaidd	16	0.0
Pob hunaniaeth rhywedd arall	16	0.0
Heb ei ateb	3,767	6.6

Disgrifiad: Yn dosbarthu pobl yn ôl yr ymatebion i'r cwestiwn hunaniaeth rhywedd. Roedd y cwestiwn hwn yn un gwirfoddol a gofynnwyd i bobl 16 oed a hŷn yn unig.

Cymhariaeth 2011: Anghymeradwy. Mae'r newidyn hwn yn newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021 ac nid oes cymhariaeth â Chyfrifiad 2011.

8. Addysg

Gwybodaeth: Y lefel uchaf o gymhwyster

	cyfrif	%
Pob preswlydd arferol 16 oed a throsodd	57,149	100.0
Dim cymwysterau	10,270	18.0
Lefel 1 a chymwysterau lefel mynediad	4,828	8.4
Cymwysterau Lefel 2	8,455	14.8
Prentisiaeth	3,752	6.6
Cymwysterau Lefel 3	9,930	17.4
Cymwysterau Lefel 4 neu uwch	18,445	32.3
Cymwysterau eraill	1,467	2.6

Disgrifiad: Mae'r lefel uchaf o gymhwyster yn deillio o'r cwestiwn sy'n gofyn i bobl nodi'r holl gymwysterau sydd ganddynt, neu eu cymhwyster cyfatebol agosaf. Gall hyn gynnwys cymwysterau tramor lle cawsant eu paru â'r cymwysterau cyfatebol agosaf yn y DU.

Y mathau o gymwysterau sydd wedi'u cynnwys ym mhob lefel yw:

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

- Cymwysterau Lefel 1 a lefel mynediad: 1 i 4 TGAU gradd A* i C, unrhyw TGAU ar raddau eraill, Lefel O neu CSE (unrhyw raddau), 1 Lefel UG, NVQ lefel 1, GNVQ Sylfaen, Sgiliau Sylfaenol neu Hanfodol
- Cymwysterau Lefel 2: 5 TGAU neu fwy (A* i C neu 9 i 4), Lefel O (pasys), CSEs (gradd 1), Ardystiad Ysgolion, 1 Lefel A, 2 i 3 Lefel AS, VCEs, Diploma Canolradd neu Uwch, Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru, NVQ lefel 2, GNVQ Canolradd, Crefft City & Guilds, Diploma Cyntaf neu Gyffredinol BTEC, Diploma RSA
- Cymwysterau Lefel 3: 2 neu fwy o Lefel A neu VCEs, 4 lefel UG neu fwy, Tystysgrif Ysgolion Uwch, Dilyniant neu Ddiploma Uwch, Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru, NVQ lefel 3; GNVQ Uwch, Crefft Uwch City & Guilds, ONC, OND, BTEC Cenedlaethol, Diploma Uwch RSA
- Cymwysterau Lefel 4 neu uwch: gradd (BA, BSc), gradd uwch (MA, PhD, pgce), NVQ Lefel 4 i 5, HNC, HND, RSA Higher Diploma, BTEC Lefel Uwch, cymwysterau proffesiynol (er enghraifft addysgu, nyrsio, cyfrifeg)
- Cymwysterau eraill: cymwysterau galwedigaethol neu gymwysterau cysylltiedig â gwaith, cymwysterau eraill a gyflawnir yng Nghymru neu Loegr, cymwysterau a gyflawnir y tu allan i Gymru neu Loegr (sy'n cyfateb heb ei nodi neu heb ei nodi.)

Gwybodaeth am ansawdd: Mae ystyriaethau ansawdd am gymwysterau addysg uwch, gan gynnwys y rhai ar Lefel 4+, ymatebion gan bobl hŷn ac ymfudwyr rhyngwladol, a chymharoldeb â data Cyfrifiad 2011.

Cymhariaeth â 2011: Cymharu'n fras. Mae'r categorïau ar gyfer y newidyn hwn yr un fath â'r rhai yng Nghyfrifiad 2011. Fodd bynnag, yng Nghyfrifiad 2021 cafodd y cwestiwn ei ddiwygio a'i rannu'n grŵp o wahanol gymwysterau. Mae hyn yn golygu na ellir cymharu'r ffordd yr atebodd pobl y cwestiwn yng Nghyfrifiad 2021 yn llawn â'r atebion o Gyfrifiad 2011. Er enghraifft, efallai y bydd rhai pobl sydd â chymhwyster hŷn neu di-DU wrth ateb y cwestiwn yng Nghyfrifiad 2021 wedi dewis lefel cymhwyster uwch nag a wnaethant yng Nghyfrifiad 2011, er bod ganddynt yr un cymwysterau.

Gwybodaeth: Plant ysgol a myfyrwyr llawn amser

	cyfrif	%
Pob preswlydd arferol 5 oed a throsodd	65,667	100.0
Myfyriwr	11,540	17.6
Ddim yn fyfyrwr	54,127	82.4

9. Iechyd

Gwybodaeth: Iechyd cyffredinol

	cyfrif	%
Holl breswylwyr arferol	68,878	100.0
lechyd da iawn	32,788	47.6
lechyd da	21,937	31.8
lechyd teg	10,216	14.8
lechyd gwael	3,059	4.4
lechyd gwael iawn	878	1.3

Disgrifiad: Asesiad person o gyflwr cyffredinol ei iechyd o dda iawn i ddrwg iawn. Nid yw'r asesiad hwn yn seiliedig ar iechyd unigolyn dros unrhyw gyfnod penodol.

Cymhariaeth â 2011: Cymharu'n dda.

Gwybodaeth: Problemau iechyd neu anabledd hirdymor

	cyfrif	%
Yr holl breswylwyr arferol	68,878	100.0
Anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi eu cyfyngu	6,502	9.4
Anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi ei cyfyngu ychydig	7,743	11.2
Ddim yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor, ond he gyfyngu ar weithgareddau o ddydd i ddydd	4,399	6.4
Ddim yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Dim cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol hir dymor	50,232	72.9

Disgrifiad: Ystyrir bod pobl a asesodd bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu gan gyflyrau neu salwch corfforol neu feddyliol tymor hir yn anabl. Mae'r diffiniad hwn o berson anabl yn bodloni'r safon wedi'i chysoni ar gyfer mesur anabledd ac mae'n unol â Deddf Cydraddoldeb (2010).

Cymhariaeth â 2011: Cymharu'n fras. Rhannwyd y cwestiwn yn ymwneud â'r newidyn hwn yn ddwy ran ar gyfer Cyfrifiad 2021. Yng Nghyfrifiad 2021 gofynnwyd i bobl sy'n llenwi'r holiadur a oes ganddynt unrhyw gyflyrau neu salwch iechyd corfforol neu feddyliol. Yng Nghyfrifiad 2011, gofynnwyd i bobl a oedd ganddynt broblem iechyd neu anabledd. Dilewyd opsiwn i gynnwys gwybodaeth am broblemau sy'n gysylltiedig â henaint.

Gwybodaeth: Darparu gofal di-dâl

	cyfrif	%
Pob preswilydd arferol 5 oed a throsodd	65,667	100.0
Ddim yn darparu unrhyw ofal di-dâl	58,921	89.7
Darparu 19 awr neu lai o ofal di-dâl yr wythnos	3,025	4.6
Darparu 20 i 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos	1,373	2.1
Darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos	2,348	3.6

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i'r:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	20 Chwefror 2024
Pwnc:	Cartrefi'r Awdurdod Lleol i Bobl Hŷn - Pennu'r Ffi Safonol 2024/25
Deilydd (iaid) Portffolio:	Y Cynghorydd Alun Roberts
Rheolwr Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Arwel Wyn Owen, Rheolwr Gwasanaethau Oedolion
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	Carwyn Edwards, Rheolwr Cyllid 01248 752699 CarwynEdwards@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Yr holl Aelodau
A –Argymhelliad/ion a rheswm/rhesymau	
<p>Mae angen i'r Awdurdod Lleol bennu lefel ei Ffi Safonol ar gyfer cartrefi gofal yr awdurdod lleol ar gyfer y flwyddyn Ebrill 2024 – Mawrth 2025.</p> <p>Mewn blynyddoedd blaenorol, cyfunwyd cost holl gartrefi'r Cyngor (ac eithrio Garreglwyd, a ystyrir yn ddarpariaeth gwasanaeth arbenigol) gyda'i gilydd i gyfrifo ffi safonol gyfartalog ar gyfer y cartrefi yn unol â'r Canllawiau Cenedlaethol.</p> <p>Yn 2023/24, cyfrifwyd y Ffi Safonol yn £863.30 yr wythnos, yn seiliedig ar gyfraddau defnydd o 94% ar draws y 4 cartref preswyl mewnol (ac eithrio Garreglwyd).</p> <p>Gan fod Plas Crigyll bellach yn ddarpariaeth EMI yn bennaf, rydym wedi dewis peidio â chynnwys y cartref hwn yn ein cyfrifiadau wrth bennu'r ffi ar gyfer 2024/25. Cyfrifwyd y ffi ar gyfer 2024/25 drwy gyfuno costau rhedeg y tri Chartref Preswyl (Brwynog, Haulfre a Phlas Mona).</p> <p>Dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r ffi safonol gyda ffioedd awdurdodau eraill oherwydd, er gwaethaf canllawiau, efallai nad yw awdurdodau eraill wedi cyfrifo'r ffi ar yr un sail.</p> <p>Mae'r tabl canlynol yn cyfrifo amcangyfrif o'r gost fesul arhosiad wythnosol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025, yn seiliedig ar lefelau defnydd a chostau rhedeg 2023/24 o 2023/24 ynghyd â chynnydd chwyddiant.</p>	
Nifer y Gwelyau sydd ar Gael	77
Amcangyfrif o'r Cyfraddau Defnydd yn seiliedig ar ddata 2023/24	93.00%
Amcangyfrif o Nifer yr Wythnosau yn seiliedig ar ddata 2023/24	3,734

	Costau Rhedeg a Ragwelir 2024/25 £	Ffi Safonol 2024/25 £	Ffi Safonol 2023/24 £
Amcangyfrif o Gostau Rhedeg ar gyfer 2024/25, yn seiliedig ar gostau rhedeg 2023/24 + chwyddiant	3,109,622	832.80	767.49
Ychwanegu - Tâl dibrisiant	199,963	53.55	54.56
- Gwasanaethau Cymorth	154,653	41.42	41.25
CYFANSWM	3,464,238	927.77	863.30
Cynnydd o'i gymharu â'r ffi safonol yn 2023/24	7.47%		£64.47

Yn seiliedig ar y tabl uchod, yr amcangyfrif mai'r gost fesul arhosiad wythnosol am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 yw £927.77

Mae'r gost a amcangyfrifir fesul arhosiad wythnosol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 yn uwch o'i gymharu â'r gost a amcangyfrifir ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024. Mae hyn o ganlyniad i gynnydd mewn chwyddiant a gostyngiad mewn cyfraddau defnydd.

Argymhelliad

A1 - Argymhellir codi cost lawn y gwasanaeth, sef **£927.77** yr wythnos.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Wrth osod y ffi safonol dilynir dull a bennir lle na chaniateir ystyried opsiynau. Mae'n bosibl i'r Pwyllgor Gwaith bennu ffi sy'n wahanol i'r Ffi Safonol. Mae codi llai na'r ffi safonol yn golygu y bydd y Cyngor yn sybsideiddio cost gofal cleientiaid y nodwyd bod ganddynt y modd ariannol i dalu am gost lawn eu gofal. O ganlyniad, mae'r opsiwn wedi'i ddiystyru.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol ag Adran 22 Deddf Cymorth Gwladol 1948, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol bennu'r Ffi Safonol ar gyfer eu cartrefi.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r penderfyniad hwn yn gyson â'r Polisi Cenedlaethol fel yr amlinellir yn adran C uchod.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Bydd pennu'r ffi ond yn effeithio ar nifer fach o gleientiaid sy'n talu am gost lawn eu gofal. Ni fydd y penderfyniad hwn yn cael fawr o effaith ar anghenion hirdymor yr Ynys.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Mae'r penderfyniad yn dileu'r cymhorthdal y mae'r Cyngor yn ei ddarparu i'r cleientiaid hynny y nodwyd bod ganddynt y modd i dalu am gost lawn eu gofal.
3	A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, dywedwch gyda phwy	Amherthnasol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth baratoi'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan y penderfyniad? Esboniwch sut.	Amherthnasol
5	Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Amherthnasol
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Byddai'r penderfyniad yn effeithio ar y cleientiaid sydd wedi cael eu hasesu fel rhai sydd â'r modd i dalu am gost lawn eu gofal. Nid yw'r rhain yn grŵp sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.
7	Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Dim effaith ar y Gymraeg.
Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (mandadol)	
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (mandadol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	Amherthnasol
9	Unrhyw gyrff allanol / arall / eraill	Amherthnasol
F - Atodiadau:		
Dim		
FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Dim		

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Y Pwyllgor Gwaith
Dyddiad	20 Chwefror 2024
Pwnc:	PAPUR CYNNIG – TREFNIADAETH YSGOLION Cynnig i: “Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn”.
Aelod Portffolio:	Cynghorydd Dafydd Roberts Deilydd Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Marc B Hughes Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	Arwyn Hughes ArwynHughes3@ynysmon.gov.wales Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol)
Aelodau Lleol:	Cynghorydd Jackie Lewis Cynghorydd Llinos Medi Cynghorydd Llio Angharad Owen

A – Argymhellion a rhesymau:

Mae'r papur cynnig hwn yn cyflwyno canlyniadau'r gwaith a wnaed i edrych ar ystod o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Carreglefn, sydd â'r gost uchaf fesul disgybl o holl ysgolion cynradd Ynys Môn ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, ac sydd â 80% o leoedd dros ben ym mis Ionawr 2024.

Mae'r papur cynnig hwn wedi'i baratoi gan ystyried y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig (011/2018).

Gan fod llai na 10 disgybl cofrestredig yn Ysgol Carreglefn ar ddyddiad Cyfrifiad Ionawr 2024 (16-1-24), mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn caniatáu awdurdodau lleol i ymgymryd â phroses fyrrach i gau ysgol yn swyddogol. Yr unig beth sy'n rhaid ei wneud yw cyhoeddi hysbysiad i gau (Rhybudd Statudol) - byddai'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor.

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn:

1. Cymeradwyo'r cynnig, sef “Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn”.
2. Awdurdodi swyddogion i symud i ran nesaf y broses sy'n cael ei nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a chyhoeddi Rhybudd Statudol am gyfnod o 28 diwrnod (pan fydd Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi, bydd gan randdeiliaid 28 diwrnod i wrthwynebu'n statudol i'r cynnig).
3. Awdurdodi swyddogion i ymgymryd ag ymatebion i'r wrthwynebiadau (os oes gwrthwynebiadau) gan lunio Adroddiad Gwrthwynebu i bwrpas ystyriaeth bellach gan y Pwyllgor Gwaith.
4. Caniatáu swyddogion i gynnal trafodaeth gyda'r gymuned i roi cyfle i sicrhau hyfywedd hirdymor adeilad presennol yr ysgol fel adnodd cymunedol pe bai angen.

A – Argymhellion a rhesymau:

O'i wireddu, byddai disgwyl i'r cynnig wireddu'r buddion a ganlyn:

- Gellid dileu lleoedd dros ben yn Ysgol Carreglefn, a lleihau lleoedd dros ben yn Ysgol Llanfechell.
- Gallai'r amrywiad mewn cost fesul disgybl ar draws holl ysgolion Ynys Môn leihau'n sylweddol.
- Gallai'r gost fesul disgybl yn Ysgol Llanfechell leihau, ac amcangyfrifir ei fod yn agos iawn at gyfartaledd Ynys Môn ar gyfer ysgolion cynradd.
- Amcangyfrifir y bydd y cynnig yn cyflawni arbediad referniw o £126k y flwyddyn.
- Byddai disgwyl i allyriadau carbon ostwng 12.6 tCO₂e.
- Gellid dyrannu canran uwch o'r Gyllideb Ysgolion Ddirprwyedig ar addysgu, gyda llai o adnoddau'n cael eu dyrannu tuag at gynnal a rhedeg adeiladau.
- Gellid lleihau costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o £317,350. Gallai fod llai o adeiladau i'r Awdurdod eu cynnal a'u cadw yn y blynyddoedd i ddod, a allai gyfrannu at well rheolaeth strategol o'r ystâd ysgolion yn y dyfodol.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Cafodd nifer o opsiynau eu hystyried fel rhan o'r Papur Cynnig.

Mae'r Papur Cynnig yn adnabod 4 opsiwn amgen rhesymol i gau, sydd wedi eu hystyried mewn manylder. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Y cynnig - Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn.
2. Un ysgol aml-safle (2 safle – safle presennol Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell).
3. Ffedereiddio Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell.
4. Adolygu'r ddarpariaeth ysgol a'r gwasanaeth yn Ysgol Carreglefn, gan edrych ar enghreifftiau megis:
 - Clystyru, cydweithio rhwng Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell, h.y., dod ag ysgolion at ei gilydd i wneud gwell defnydd o adnoddau, cronni arbenigedd a chaniatáu i ysgolion archwilio ffyrdd o wneud pethau'n fwy effeithiol ac effeithlon.
 - Defnyddio'r ysgolion fel hybiau cymunedol i gynnwys/cefnogi gwasanaethau cymunedol, e.e., iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu i deuluoedd ac oedolion, addysg gymunedol, chwaraeon, hamdden, gweithgaredd cymdeithasol.
 - Cydleoli gwasanaethau lleol o fewn ysgolion.

Mae'r Papur Cynnig yn amlinellu cyfleoedd a heriau ar gyfer yr opsiynau amgen rhesymol hyn.

Mae 6 opsiwn pellach wedi eu hystyried, fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cael eu hystyried i fod yn rhesymol. Mae'r rhesymau am hyn wedi eu nodi yn y Papur Cynnig.

Gan fod y cynnig yn ymdrin â'r posibilrwydd o gau ysgol wledig (sef Ysgol Carreglefn), mae'r Cyngor wedi dilyn gofynion mwy manwl i lunio'r cynnig cau ysgol wledig. Mae hyn wedi ei wneud drwy asesu'r effaith y byddai'r cynnig a'r opsiynau amgen rhesymol yn ei chael ar:

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

- Ansawdd a safonau addysg
- Y Gymuned
- Trefniadau teithio i ddisgyblion

Mae swyddogion y Cyngor o'r farn mai'r cynnig "Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn" yw'r opsiwn sy'n ymateb i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Carreglefn orau.

Os yw'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r Awdurdod yn ymrwymo i:

- Weithio gyda chymuned Carreglefn i roi cyfle i sicrhau hyfywedd hirdymor adeilad presennol yr ysgol fel adnodd cymunedol pe bai angen.
- Darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion, gan nad yw'r ffordd rhwng Carreglefn a Llanfechell yn addas i ddysgwyr o'r oedran hwnnw ei defnyddio gerdded i ac o'r ysgol.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Y Pwyllgor Gwaith sydd yn gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion.

Ch – A yw'r polisi hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydy – mae'n gyson â'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith yng Ngorffennaf 2023. Bydd hefyd yn cyfrannu tuag at y 'Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025'.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Nid oes costau cyfalaf yn gysylltiedig â'r cynnig hwn.

Mae disgwyl i'r cynnig greu arbediad refeniw o tua £126k y flwyddyn drwy'r fformiwla datganoli cyllideb ysgolion.

Gallai fod costau trosiannol tymor byr. Mae'r rhain wedi eu hamcangyfrif isod:

2024/25 - £35,000
2025/26 - £4,000
2026/27 - £4,000
2027/28 - £4,000

Dd – Aesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae'r cynnig yn debygol o gynyddu nifer y disgyblion yn Ysgol Llanfechell. Gall hyn arwain at fwy o gyllid i'r ysgol, a byddai hyn
---	---	--

Dd – Aseu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
		<p>yn gwneud yr ysgol yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir.</p> <p>Mae niferoedd Ysgol Carreglefn wedi gostwng. Byddai hyn wedi lleihau'r cyllid i'r ysgol weithredu, yn ei gwneud yn anoddach i'r ysgol osod cyllideb gytbwys. Mae'r cynnig hefyd yn arwain at well rheolaeth strategol o'r stad ysgolion. Gan fod llai o adeiladau ysgolion i'w cynnal, gall bod mwy o gyllideb i gynnal y rhai fydd yn parhau, a byddai'n ei gwneud yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir.</p>
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?-	<p>Bydd y cynnig yn helpu diogelu dyfodol addysg yn yr ardal trwy wella cynaliadwyedd a chydnerthedd.</p> <p>Bydd y cynnig yn arwain at arbedion referniw o tua £126k y flwyddyn.</p> <p>Bydd y cynnig yn lleihau costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ysgolion o £317,350.</p>
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:	<p>Mae cydweithio a gwybodaeth gan Estyn, GwE, cynghorau cymuned ac ysgolion wedi llunio rhan o'r cynnig hwn.</p> <p>Bydd y rhanddeiliaid canlynol yn cael eu hysbysu pan fydd y Rhybydd Statudol yn cael ei gyhoeddi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhieni • Cyrff llywodraethu Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell • Staff Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell • Aelodau Etholedig Lleol • Aelod Seneddol Lleol • Aelod Cynulliad Lleol • Aelod Cynulliad Rhanbarthol • GwE • Estyn • Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd • Awdurdod lleol cyfagos • Cynghorau cymuned lleol • Undebau llafur athrawon sy'n cynrychioli Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell • Cylch Meithrin Llanfechell • Uwch swyddogion addysg Cyngor Sir Ynys Môn

Dd – Aseu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
		<ul style="list-style-type: none"> • Prif Swyddog Ieuencid Cyngor Sir Ynys Môn • Partïon eraill sydd â diddordeb <p>Bydd yr uchod i gyd (yn ogystal ag unrhyw randdeiliaid eraill) yn cael cyfle i wneud gwrthwynebiad statudol os ydynt yn dymuno, o fewn 28 diwrnod o'r Cyngor yn cyhoeddi'r Rhybudd Statudol.</p> <p>Bydd y Cyngor yn ystyried ac yn ymateb i unrhyw wrthwynebiad statudol ar ffurf Adroddiad Gwrthwynebu cyn gwneud penderfyniad terfynol naill ai i gymeradwyo, gwrthod neu addasu'r cynnig.</p>
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut:-	Cyflwynir papur cynnig i Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn i geisio penderfyniad i gyhoeddi Rhybudd Statudol ar y cynnig hwn, yn unol â'r broses a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. O ddyddiad cyhoeddi'r Rhybudd Statudol, bydd gan rhanddeiliaid 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynnig (cyfeirir at y cyfnod hwn fel cyfnod gwrthwynebu). Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ynghyd ag ymateb Y Cyngor iddynt, cyn i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu i unai cymeradwyo, gwrthod neu addasu'r cynnig
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Gweler Atodiad 1 – Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymuned a'r Iaith Gymraeg.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	<p>Mae Ysgol Carreglefn wedi'i hadnabod fel ysgol wledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'n bosib felly y gall y cynnig gael mwy o effaith ar unigolion oherwydd amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd.</p> <p>Bydd y Cyngor yn ceisio lliniaru'r risg hwn drwy weithio â'r gymuned i roi cyfle i sicrhau dyfodol hirdymor adeilad Ysgol Carreglefn fel adnodd cymunedol os bydd angen.</p>
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Gweler Atodiad 1 – Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymuned a'r Iaith Gymraeg.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Wedi'i gynnwys o fewn y ddogfen.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Wedi'i gynnwys o fewn y ddogfen.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Wedi'i gynnwys o fewn y ddogfen.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Dylid ymdrin ag unrhyw fater adnoddau dynol sy'n codi o'r argymhellion yn unol â phrosesau ymgynghori ac AD eraill cydnabyddedig.
5	Eiddo	Wedi'i gynnwys o fewn y ddogfen.
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Ddim yn berthnasol ar gyfer y cynnig hwn.
7	Caffael	Nid oes unrhyw weithgareddau'n ymwneud â chaffael yn gysylltiedig â'r cynnig hwn.
8	Sgriwtini	I'w drafod yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 13 Chwefror 2024 a bydd eu sylwadau'n cael eu cyfleu ar lafar i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2024.
9	Aelodau Lleol	

F - Atodiadau: (ABS/ABA)

Papur Cynnig

Atodiad 1: Asesiad Effaith

Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018

PAPUR CYNNIG
TREFNIADAETH YSGOLION

Y cynnig:

“Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn”.

Chwefror 2024

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Mae copïau caled o’r adroddiad hwn ar gael ar gais drwy anfon e-bost at ysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru

Cynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL	3
1. CEFNDIR A CHYFLWYNIAD	5
2. Y CYNNIG	6
3. Y PRIF YRWYR AR GYFER NEWID	7
4. Y PRIF YRWYR AR GYFER YSGOL CARREGLEFN AC YSGOL LLANFEHELL	9
6. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL I'R CYNNIG AR GYFER YSGOL CARREGLEFN AC YSGOL LLANFEHELL	26
7. Y RHAGDYBIAETH YN ERBYN CAU YSGOL GARREGLEFN	36
8. EFFAITH ARIANNOL OS GWEITHREDIR Y CYNNIG	39
9. CASGLIAD	40

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r papur hwn yn cyflwyno canlyniadau'r gwaith a wnaed i edrych ar ystod o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Carreglefn, sydd â'r gost uchaf fesul disgybl o holl ysgolion cynradd Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, ac sydd â 80% o leoedd dros ben fis Ionawr 2024.

Mae'r papur cynnig hwn wedi'i baratoi gan ystyried y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig (011/2018) ([cod-trefniadaeth-ysgolion-fersiwn-diwygiedig.pdf \(llyw.cymru\)](#)). Bydd yn cael ei ddefnyddio i geisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i fwrw ymlaen â'r broses drwy gyhoeddi rhybydd statudol i gau ysgol Carreglefn.

Mae'r prif yrwyr newid yn cynnwys:

Safonau – Darparu'r addysg orau i bobl ifanc yn yr hinsawdd ariannol yr ydym ynddi fel y gall addysg ffynnu yn dilyn Covid-19 ac ymateb i anghenion dinasyddion Ynys Môn yn y dyfodol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth – Cynyddu capasiti er mwyn datblygu arweinyddiaeth effeithiol yn ein hysgolion ac i gynllunio olyniaeth.

Adeiladau ac Adnoddau – Sicrhau adeiladau ac amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel ac addas at y diben.

Niferoedd Disgyblion / Lleoedd Dros Ben – Darparu addysg sy'n cyfateb i ofynion poblogaeth yr ynys. Lleihau lleoedd dros ben er mwyn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.

Ariannol – Sicrhau y gall ysgolion weithredu'n effeithiol o fewn y gyllideb sydd ar gael. Anelu at leihau'r ystod gwariant fesul disgybl, gan sicrhau mwy o gyfle cyfartal ar draws ysgolion.

Lles, Gofal ac Iechyd – Gwella mynediad er mwyn sicrhau lles, gofal ac iechyd yn ein hysgolion.

Cwricwlwm i Gymru – Sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau a'r gallu i yrru Cwricwlwm i Gymru yn ei flaen yn llwyddiannus.

Yr Iaith Gymraeg – Cynnig darpariaeth cyfrwng Gymraeg a dwyieithog i'n holl ddysgwyr.

Defnydd Cymunedol – Ehangu'r defnydd o adeiladau a chyfleusterau ysgol gan rieni, y gymuned a thrigolion hŷn.

Datgarboneiddio – Sicrhau bod ein hysgolion yn gynaliadwy ac yn cyfrannu at agenda Sero Net y Cyngor.

Byddai angen mynd i'r afael â'r meini prawf hyn.

Mae'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Carreglefn (Adran 5) wedi'u rhestru isod.

- Ysgol Carreglefn sydd â'r gost uchaf fesul disgybl o holl ysgolion cynradd Cymru sef £17,200 y disgybl, sydd dros dair gwaith yn uwch na'r gost fesul disgybl ar gyfartaledd ar gyfer Ynys Môn sef £5,240.
- Mae gan Ysgol Carreglefn 80% o leoedd dros ben, gyda dim ond 9 disgybl yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, gyda 4 ohonynt ym mlwyddyn 6
- Mae'r rhagolygon yr ysgol yn rhagweld y bydd 5 neu lai o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol o fis Medi 2024 ymlaen.
- Mae Ysgol Carreglefn wedi cael anhawster penodi pennaeth, ac ar hyn o bryd mae'n rhannu pennaeth gydag ysgol arall. Dim ond am 2 ddiwrnod yr wythnos y mae'r pennaeth ar safle'r ysgol. Mae'r dirprwy yn arwain yr ysgol am y 3 diwrnod arall o'r wythnos.
- Ysgol Carreglefn sydd â'r allyriadau carbon ail uchaf fesul disgybl o holl ysgolion cynradd Ynys Môn, sef 1,167kgCO₂e y disgybl, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd o 217kgCO₂e y disgybl.
- Mae cost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol o £317,350 yn Ysgol Carreglefn.
- Addysgir holl ddisgyblion Ysgol Carreglefn mewn un dosbarth, gyda disgyblion 4-11 oed yn cael eu haddysgu gyda'i gilydd. Gall hyn fod yn heriol o ran bodloni anghenion disgyblion o wahanol oeddrannau.

Mae opsiynau amgen rhesymol ar gyfer Ysgol Carreglefn wedi'u hystyried a'u dadansoddi yn erbyn y prif yrwyr newid (Adran 6). Mae pob dewis arall rhesymol hefyd wedi ei asesu mewn perthynas â'r effaith tebygol ar safonau, y gymuned a threfniadau teithio i ddisgyblion, gan fod Ysgol Carreglefn wedi'i rhestru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) fel ysgol wledig.

Mae ystyried y opsiynau amgen rhesymol wedi arwain y Cyngor i gyflwyno'r cynnig canlynol ar gyfer dyfodol Ysgol Carreglefn :

“Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn”

A phe byddai'r Pwyllgor Gwaith yn cytuno, byddai'n symud ymlaen i gyhoeddi rhybydd statudol ar gynnig o'r fath yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Byddai dalgylch Ysgol Llanfechell yn cael ei ymestyn i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Carreglefn.

O'i wireddu, byddai disgwyl i'r cynnig wireddu'r buddion a ganlyn (Adran 5):

- Gellid dileu lleoedd dros ben yn Ysgol Carreglefn, a lleihau lleoedd dros ben yn Ysgol Llanfechell.
- Gallai'r amrywiad mewn cost fesul disgybl ar draws holl ysgolion Ynys Môn leihau'n sylweddol.
- Gallai'r gost fesul disgybl yn Ysgol Llanfechell leihau, ac amcangyfrifir ei fod yn agos iawn at gyfartaledd Ynys Môn ar gyfer ysgolion cynradd.
- Amcangyfrifir y bydd y cynnig yn cyflawni arbediad refeniw o £126k y flwyddyn
- Byddai disgwyl i allyriadau carbon ostwng 12.6 tCO₂e
- Gellid dyrannu canran uwch o'r Gyllideb Ysgolion Ddirprwyedig ar addysgu, gyda llai o adnoddau'n cael eu dyrannu tuag at gynnal a rhedeg adeiladau
- Gellid gostwng costau Cynnal a Chadw Cyfredol a Rhagamcannol o £317,350. Gallai fod llai o adeiladau i'r awdurdod eu cynnal a'u cadw yn y blynyddoedd i ddod, a allai gyfrannu at well rheolaeth strategol o'r ystâd ysgolion yn y dyfodol.

Mae dadansoddiad o effaith debygol y cynnig ar safonau, y gymuned a threfniadau teithio ar gyfer disgyblion yn gadarnhaol ar y cyfan. Ategir hyn gan ymrwymiad yr Awdurdod i'r canlynol:

- darparu cludiant i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion, gan nad yw'r ffordd rhwng Carreglefn a Llanfechell yn addas i ddysgwyr o'r oedran hwnnw gerdded i ac o'r ysgol,
- gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn fel adnodd cymunedol pe bai angen.

Mae dadansoddiad o effaith debygol y cynnig yn erbyn y gyrrwyr allweddol ar gyfer newid hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan, fel yr amlygir yn Adran 6.1.

Mae Asesiad Effaith hefyd wedi'i baratoi, sy'n asesu effaith y cynnig ar Gydraddoldeb, y Gymraeg ac ar y Gymuned, yn ogystal â sut mae'r cynnig yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hon yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddarau'n rheolaidd wrth i ni symud ymlaen â'r cynnig.

Byddai gan Ysgol Llanfechell gapasiti digonol ar gyfer disgyblion o Ysgol Carreglefn (gweler adran 5.7 am ragor o fanylion). **Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai Ysgol Carreglefn yn cau ym mis Awst 2024, a disgyblion Ysgol Carreglefn yn trosglwyddo i Ysgol Llanfechell ym mis Medi 2024.**

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn parhau i adolygu perfformiad Ysgol Llanfechell, a gall ailymweld â'r ysgol yn y dyfodol, os bydd angen.

1. CEFNDIR A CHYFLWYNIAD

Mae'r papur hwn yn cyflwyno canlyniadau'r gwaith a wnaed i edrych ar ystod o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Carreglefn, sydd â'r gost uchaf fesul disgybl o holl ysgolion cynradd Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, ac sydd â 80% o leoedd dros ben fis Ionawr 2024 (CYBLD).

Mae'r papur cynnig hwn wedi'i ysgrifennu yn unol â disgwyliadau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig (011/2018).

Gan bod llai na 10 disgybl cofrestredig yn Ysgol Carreglefn ar ddyddiad CYBLD 2024 (16-1-24), mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn caniatáu Awdurdodau Lleol i ymgymryd a proses fyrrach i gau ysgol yn swyddogol. Yr unig beth sydd rhaid ei wneud ydi cyhoeddi hysbysiad i gau - byddai'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor.

Mae'r Papur Cynnig hwn felly yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, gan ofyn am ei benderfyniad i fwrw ymlaen i gyhoeddi rhybydd statudol ar y cynnig.

1.1 Darpariaeth addysg yn ardal Carreglefn

Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar geisio canfod datrysiad ar gyfer dyfodol Addysg o fewn ardal Carreglefn, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Carreglefn.

1.2 Cyn cyrraedd y cynnig (Adran 2) isod, mae'r Cyngor wedi ystyried y canlynol:

- Y gyrwyr allweddol ar gyfer newid (Adran 3)
- Y gyrwyr allweddol ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell (Adran 4)
- Yr heriau allweddol a wynebwr gan Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell (Adran 5)
- Opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell
- Y rhagdybiaeth yn erbyn cau Ysgol Carreglefn (Adran 7).

2. Y CYNNIG

Y cynnig yw:

“Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn.”

Byddai dalgylch Ysgol Llanfechell yn cael ei ymestyn i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Carreglefn. Ysgol Llanfechell yw'r ysgol agosaf i Ysgol Carreglefn, wedi ei lleoli 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn

Mae digon o le yn Ysgol Llanfechell ar gyfer disgyblion Ysgol Carreglefn.

Nodir y manylion ar gyfer Ysgol Llanfechell isod:

Manylion arfaethedig Ysgol Llanfechell	
Ystod oedran	3-11 oed
Lleoedd Disgyblion	106 (4-11 oed)
Rhif derbyn	15
Lleoedd Meithrin	13
Lleoliad	Lleoliad Presennol: Ffordd Y Mynydd, Llanfechell
Categori	Cymunedol
Categori Iaith	Cyfrwng Cymraeg
Cyfleusterau arfaethedig	Cyfleuster Ysgol Gynradd ar gyfer 106 o ddisgyblion (4-11 oed)
Cost y Prosiect a Ragwelir	Ni ragwelir unrhyw gost cyfalaf ychwanegol

Byddai disgwyl i Ysgol Llanfechell gynnal y ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â chlybiau (fel y disgrifir yn adran 7). Yng nghyd-destun gweithgareddau allgyrsiol, anogir pob disgybl, beth bynnag fo'i gefndir, i gymryd rhan gyda'r disgwyliad ar yr ysgol i wneud trefniadau addas i alluogi disgyblion llai breintiedig i gymryd rhan. Byddai'r trefniadau hyn yn cynnwys, ond ni fyddent yn gyfyngedig i, glybiau a gynhelir yn ystod yr awr ginio, trefniadau gyda rhieni ar gyfer casglu a chludo a darparu cludiant ar ôl ysgol.

Mae Ysgol Llanfechell yn darparu darpariaeth cyn ysgol ar hyn o bryd. Mae darpariaeth Feithrin (Cylch Meithrin) yn Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin ar safle'r ysgol, ond yn annibynnol yn ariannol a Ysgol Llanfechell. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig.

Byddai'r cyfleusterau yn Ysgol Llanfechell yn parhau i fod ar gael at ddefnydd y gymuned. Byddai'r Cyngor yn dymuno gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol yng Ngharreglefn er mwyn rhoi cyfle i sicrhau hyfywedd hirdymor adeilad yr ysgol fel y gellir cynnal y ddarpariaeth gymunedol. Gellid cynnal unrhyw weithgareddau lle byddai'r niferoedd dan sylw yn fwy na chapasiti Ysgol Carreglefn yn Ysgol Llanfechell.

Nid oes disgwyl i'r cynnig roi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol dan anfantais, ac ni ddisgwylir iddo effeithio'n andwyol ar gyrhaeddiad addysgol plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd.

3. Y PRIF YRWYR AR GYFER NEWID

Nodir isod y gyrywyr allweddol perthnasol ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell:

1. Safonau

Darparu'r addysg orau i bobl ifanc yn yr hinsawdd ariannol yr ydym ynnddi fel y gall addysg ffynnu yn dilyn Covid-19 ac ymateb i anghenion dinasyddion Ynys Môn yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod am sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer dysgwyr drwy sicrhau bod y system yn addas ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. Bydd yr Awdurdod yn edrych ar greu'r amodau fel bod penaethiaid, athrawon a disgyblion yn llwyddo.

2. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Cynyddu'r capasiti i ddatblygu arweinyddiaeth effeithiol yn ein hysgolion ac i gynllunio olyniaeth. Mae'r cyngor yn ymdrechu i gael ysgolion sydd ag arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys llywodraethwyr. Mae angen i ysgolion cynradd fod o faint addas a bod â phennaeth nad yw'n addysgu am ganran sylweddol o'r amser. Byddai hyn yn rhoi'r amser angenrheidiol i'r pennaeth ymgymryd â swyddogaethau arweinyddiaeth allweddol o fewn yr ysgol neu'r ffederasiwn, gan gynnig profiadau arweinyddiaeth i aelodau staff a chyfrannu at gynllunio olyniaeth.

3. Adeiladau Ysgolion ac Adnoddau

Mae Ynys Môn wedi ymrwymo i sicrhau fod pob adeilad ysgol yn cwrdd â disgwyliadau'r 21ain ganrif, yn addas i'r diben, yn y lleoliad cywir, yn cwrdd ag anghenion dysgwyr ac yn adnodd i'r gymuned.

4. Niferoedd Disgyblion / Lleoedd Dros Ben

Darparu addysg sy'n cyfateb i ofynion poblogaeth yr ynys. Lleihau lleoedd dros ben er mwyn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.

5. Ariannol

Sicrhau y gall ysgolion weithredu'n effeithiol o fewn y gyllideb sydd ar gael. Anelu at leihau'r ystod gwariant fesul disgybl, gan sicrhau mwy o gyfle cyfartal ar draws ysgolion.

6. Lles, Gofal ac Iechyd

Gwella mynediad er mwyn sicrhau lles, gofal ac iechyd yn ein hysgolion. Sicrhau bod gan ysgolion amgylcheddau diogel ar gyfer dysgwyr a staff, sydd hefyd yn hyrwyddo parch ac amrywiaeth. Mae ysgolion sydd wedi'u cynllunio'n dda ac sydd wedi datblygu tiroedd yn feddylgar yn cyfoethogi cyfleoedd i ddysgu a chwarae. Mae cysylltiad a chyswllt â natur yn creu emosiynau mwy cadarnhaol a theimladau o fywiogrwydd, a llai o emosiynau negyddol; mae hefyd yn cynnig rhyddhad rhag blinder meddwl, a'r gallu i ganolbwyntio am gyfnod hirach.

7. Cwricwlwm i Gymru

Sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau i yrru'r cwricwlwm newydd yn ei flaen yn llwyddiannus, er mwyn bodloni'r pedwar prif ddiben o ddatblygu:

- a. Dysgwyr uchelgeisiol, galluog
- b. Cyfranwyr mentrus, creadigol
- c. Dinasyddion egwyddorol, gwybodus
- ch. Unigolion iach, hyderus

8. Yr Iaith Gymraeg

Cynnal a gwella darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Y nod yw datblygu gallu disgyblion fel dysgwyr dwyieithog erbyn diwedd addysg ffurfiol

9. Defnydd cymunedol

Mae'r Cyngor yn awyddus i wneud y defnydd gorau o adnoddau ac isadeiledd i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau. Mae hyn yn golygu cael asedau hyblyg fel bod modd i'r gymuned (gan gynnwys plant, oedolion a phobl hŷn) ddefnyddio'r ased a'r adnoddau. Bydd hyn yn cefnogi gwytnwch cymunedau ac yn helpu i liniaru effaith tlodi.

10. Datgarboneiddio

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn wasanaeth carbon sero net erbyn 2030. Rhan allweddol o'r daith i gyflawni carbon sero net fydd adolygu defnydd a pherfformiad holl asedau'r Cyngor, gan sicrhau'r ôl troed carbon lleiaf posibl tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau.

11. Materion Cyffredinol

Mae'r asesiad hefyd wedi cynnwys materion cyffredinol er enghraifft effaith y llif traffig ac ati.

Trafodir y gyrwyr hyn yn fanylach isod. (Adrannau 4.1 - 4.11)

Mae'r canlynol (Adran 4) yn cymhwyso'r gyrwyr allweddol perthnasol ar gyfer newid ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell (gan mai hon yw'r ysgol agosaf at Ysgol Carreglefn).

4. Y PRIF YRWYR AR GYFER YSGOL CARREGLEFN AC YSGOL LLANFEHELL

4.1 Safonau

4.1.1 Arolygiadau Estyn

Adroddir Estyn ar ansawdd a safonau addysg. Dangosir gwybodaeth o'r arolygiadau Estyn diweddaraf isod:

Ysgol	Carreglefn*
Dyddiad yr arolygiad	Hydref 2015
Crynodeb	
Perfformiad Presennol yr Ysgol	Digonol
Rhagolygon Gwelliant yr Ysgol	Anfoddhaol
Prif Ganfyddiadau	
Safonau	Digonol
Lles	Da
Profiadau Dysgu	Anfoddhaol
Addysgu	Digonol
Gofal, cymorth ac arweiniad	Digonol
Amgylchedd Dysgu	Da
Arweinyddiaeth	Anfoddhaol
Gwella Ansawdd	Anfoddhaol
Gweithio mewn Partneriaeth	Digonol
Mae rhagor o wybodaeth ar gael isod	

Ysgol	Llanfechell**
Dyddiad yr arolygiad	Chwefror 2020
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a dysgu	Digonol ac Angen Gwelliant
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Digonol ac Angen Gwelliant
Mae rhagor o wybodaeth ar gael isod	

Graddau Estyn – ar ddyddiad monitro Ysgol Carreglefn

Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae'r cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Graddau Estyn – ar ddyddiad monitro Ysgol Llanfechell

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant brys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

***NODER** – Dychwelodd Estyn i gynnal ymweliad monitro (Carreglefn) yn Rhagfyr 2017 a nododd yr adroddiad: "Bernir bod Ysgol Gymuned Carreglefn wedi gwneud digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd fis Hydref 2015". Mae'r ysgol wedi ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen mesurau arbennig.

****NODER** – Dychwelodd Estyn i gynnal ymweliad monitro (Llanfechell) yn Rhagfyr 2021 a nododd yr adroddiad: “Bernir bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad Adran 28. Mae'r ysgol wedi ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu hadolygu gan Estyn. Ni fydd ymweliadau monitro pellach gan Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn”.

Mae'r Awdurdod eisiau sicrhau bod holl blant Ynys Môn yn cyrraedd eu llawn botensial ac yn cael y profiadau gorau posib.

Byddai'n rhaid i unrhyw foderneiddio / ad-drefnu ysgolion o leiaf gynnal yr agweddau da a nodir gan Estyn a hefyd fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a amlinellir yn eu hadroddiadau.

Disgwylir y byddai angen i'r strwythur ysgol diwygiedig gyflwyno'r cwricwlwm llawn.

Cydnabyddir bod adroddiadau Estyn ar gyfer Ysgol Carreglefn wedi dyddio, ac y gall perfformiad fod wedi newid ers dyddiad yr adroddiadau hyn.

Mae adroddiad Estyn ar Ysgol Llanfechell yn dangos y dylai trosglwyddo disgyblion yno (pe bai Ysgol Carreglefn yn cau) gyflawni deilliannau a chynnig darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Carreglefn. Byddai disgyblion yn trosglwyddo i ysgol fwy sy'n darparu gwell cyfleoedd i rannu arbenigedd ac adnoddau staff, ac yn cynnig ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol. Gellir dod o hyd i adroddiadau llawn ac ymweliadau monitro Estyn drwy'r dolenni canlynol:

[Adroddiad arolygu Ysgol Carreglefn 2015 \(llyw.cymru\)](#)

[Adroddiad Dilynol Ysgol Carreglefn \(llyw.cymru\)](#)

[Adroddiad arolygu Ysgol Gymuned Llanfechell 2020 \(llyw.cymru\)](#)

[Canlyniad adolygiad gan Estyn Ysgol Gymuned Llanfechell 2021 \(llyw.cymru\)](#)

Mae'r prif gasgliadau y gellir eu tynnu o'r gymhariaeth uchod wedi'u rhestru isod.

- Ar adeg yr arolygiadau diweddaraf gallwn ddod i'r casgliad bod gwahaniaeth yn y safonau a gyflawnwyd yn Ysgol Llanfechell – aseswyd Ysgol Llanfechell yn 'dda', tra aseswyd Ysgol Carreglefn yn ddigonol.
- Barnwyd bod Gofal, cymorth ac arweiniad yn well yn Ysgol Llanfechell (da), nag yn Ysgol Carreglefn (Digonol)
- Aseswyd y barnau ar gyfer lles yn 'dda' yn y ddwy ysgol.

Nid oedd unrhyw amrywiad sylweddol rhwng ysgolion yn erbyn y penawdau 'Addysgu a Dysgu' neu 'Arweinyddiaeth a Rheolaeth'.

Rhaid nodi mai yn 2015 y cynhaliwyd arolygiad llawn diwethaf Estyn o Ysgol Carreglefn. Mae'r perfformiad yn debygol o fod wedi newid yn y cyfnod hwn.

4.2 Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r tabl isod yn nodi ymrwymiad addysgu penodol y Pennaeth yn y ddwy ysgol ym mis Medi 2023.

Ysgol	Carreglefn	Llanfechell
Ymrwymiad Addysgu Penodol y Pennaeth %	70%*	50%

*Fis Ionawr 2024, mae Ysgol Carreglefn yn rhannu pennaeth gydag ysgol arall, oherwydd anawsterau recriwtio. Dim ond am 2 diwrnod yr wythnos y mae'r pennaeth yn Ysgol Carreglefn. Mae'r dirprwy yn arwain yr ysgol am y 3 diwrnod arall o'r wythnos. Mae gan y pennaeth ymrwymiad addysgu penodol am hanner diwrnod yr wythnos yn Ysgol Carreglefn, gan ganiatáu diwrnod a hanner yr wythnos yn unig fel amser digyswllt.

Mae gan bennaeth Ysgol Llanfechell ymrwymiad addysgu penodol o 50%.

Mae angen digon o gapasiti ar benaethiaid, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, o ran amser i ganiatáu iddynt ganolbwyntio ar wella ysgolion a chyrhaeddiad disgyblion. Mae'r angen i gydbwysu ymrwymiad addysgu penodol gyda'r gofynion arweinyddiaeth cyffredinol o ddydd i ddydd yn her wirioneddol. Mae mynd i'r afael â llwyth gwaith staff yn flaenoriaeth allweddol a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cenhadaeth Ein Cenedl.

4.3 Adeiladau Ysgolion

Mae'r tabl isod yn manylu ar y sefyllfa bresennol o ran graddfa cyflwr yr ysgolion (2023), y gwariant presennol a'r gwariant rhagamcannol yn y dyfodol ar gyfer codi'r cyflwr i lefel addas (nid i ddisgwyliadau Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu) a p'un a ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â hygyrchedd disgyblion anabl.

Ysgol	Carreglefn	Llanfechell
Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol (2023)	£317,350	£532,950
Adeilad yr Ysgol – Arwynebedd Llawr	340 m ²	834 m ²
Arwynebedd Safle'r Ysgol	3,120 m ²	9,985 m ²
Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol (2023) Fesul m ² (Yn seiliedig ar arwynebedd llawr yr adeilad)	£933 / m ²	£639/ m ²
Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol (2023) Fesul m ² (Yn seiliedig ar arwynebedd safle'r ysgol)	£102 /m ²	£53/ m ²
Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol (2023) Fesul disgybl (yn seiliedig ar niferoedd disgyblion lonawr 2024)	£35,261 y disgybl	£7,402 y disgybl
Gradd Cyflwr*	B	B
Nifer yr ystafelloedd dosbarth symudol ar y safle	0	0
Cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010	Yn rhannol	Yn rhannol
Digon o le ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm	Oes	Oes
Addasrwydd ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm**	B	B

*Mae Llywodraeth Cymru yn categorio **cyflwr** adeiladau ysgolion ar raddfa A-D.

A	<i>Fel Newydd</i>
B	<i>Yn weithredol ddiogel, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig.</i>
C	<i>Gweithredol ond angen atgyweirio neu amnewid gweithredol ond mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig.</i>
D	<i>Risg difrifol o fethiant.</i>

** Mae Llywodraeth Cymru yn categorio **addasrwydd** adeiladau ysgolion ar raddfa A-D.

A	<i>Cyfleusterau da sy'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol.</i>
B	<i>Bodddhaol, yn perfformio yn ôl y bwriad, ond nid yw'n cefnogi cyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd.</i>
C	<i>Gwael. Dulliau addysgu'n cael eu llesteirio/effaith andwyol ar drefn yr ysgol.</i>
D	<i>Drwg. Mae'r adeiladau'n llesteirio gallu'r staff i gyflwyno'r cwricwlwm yn ddifrifol.</i>

Y gwariant wedi'i gyfuno ar gynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yn Ysgol Carreglefn a Ysgol Llanfechell yw £850,300. Nid yw'r un o'r ysgolion yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd i blant anabl. Ar hyn o bryd, nid oes yr un o'r ysgolion mewn sefyllfa i ddarparu amgylcheddau dysgu addas i blant chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r tabl uchod yn dangos bod yr adeiladau a'r ystafelloedd yn Ysgol Llanfechell o leiaf yn cyfateb i'r hyn a geir yn Ysgol Carreglefn.

4.4 Lleoedd mewn ysgolion


Mae manylion y niferoedd disgyblion presennol ar y gofrestr, a niferoedd disgyblion ar gyfer y pum cyfrifiad ysgol ddiwethaf (lonawr) a rhagamcanion disgyblion y dyfodol hyd at 2028 i'w gweld isod.

Ysgol	Capasiti – heb gynnwys meithrin	Nifer y disgyblion lonawr 2020	Nifer y disgyblion lonawr 2021	Nifer y disgyblion lonawr 2022	Nifer y disgyblion lonawr 2023	Nifer y disgyblion lonawr 2024	% y lleoedd dros ben lonawr 2024
Carreglefn 3-11	46	15	12	10	10	9*	80%
Llanfechell 3-11	106	62	66	74	77	72	32%

*NODER – O'r 9 disgybl sy'n mynychu Ysgol Carreglefn, mae 4 ohonynt ym mlwyddyn 6.

Yn Ionawr 2024, roedd 9 disgybl ar y gofrestr yn Ysgol Carreglefn, gyda 8 yn bresennol ar ddyddiad CYBLD


Yn Ionawr 2024, roedd 72 disgybl ar y gofrestr yn Ysgol Llanfechell (heb gynnwys Meithrin), gyda 65 yn bresennol ar ddyddiad CYBLD.



Rhagolygon pum mlynedd

Mae'r ffigurau a ddangosir yn y tabl isod yn seiliedig ar ragolygon y penaethiaid ym mis Medi 2023:

Ysgol	Capasiti – heb gynnwys meithrin	Nifer y disgyblion Medi 2023	Rhagamcan Medi 2024	Rhagamcan Medi 2025	Rhagamcan Medi 2026	Rhagamcan Medi 2027	Rhagamcan Medi 2028
Carreglefn 3-11	46	9	5	4	4	5	4
Llanfechell 3-11	106	73	74	65	63	59	55





Mae'r manylion a nodir uchod yn dangos bod lleoedd dros ben sylweddol yn Ysgol Carreglefn (80%) ac Ysgol Llanfechell (32%), a rhagwelir y bydd niferoedd disgyblion Ysgol Carreglefn yn disgyn i 5 neu'n is ym mhob blwyddyn o 2024 ymlaen. Rhagwelir hefyd y bydd niferoedd disgyblion yn gostwng yn gyson yn Ysgol Llanfechell. Rhagwelir y gallai Ysgol Llanfechell fod â 48% o leoedd dros ben erbyn 2028. Gallai'r rhagolwg uchod hefyd gynnwys disgyblion sy'n dod o'r tu allan i ddalgyrch yr ysgol.

Disgyblion sy'n teithio o du allan i'r dalgyrch

Disgwylir i'r Awdurdod gynllunio darpariaeth ysgol o amgylch nifer y disgyblion yn y dalgyrch. Mae symudiad disgyblion o'r tu allan i'r dalgyrch yn gwneud cynllunio darpariaeth ysgol yn anodd. Mae'r ffigurau isod yn dangos bod canran uchel o blant yn mynychu o'r tu allan i ddalgyrch Ysgol Carreglefn.

Ysgol	% y disgyblion o du allan i'r dalgyrch fis Gorffennaf 2023
Ysgol Carreglefn	36% (4/11)
Ysgol Llanfechell	27% (23/86)






Byddai angen i'r ddarpariaeth ysgol ddiwygiedig yn yr ardal sicrhau bod digon o leoedd ysgol ar gael i gwrdd â niferoedd presennol yr ysgolion a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol a bod y system ysgolion yn yr ardal yn gost-effeithlon ac yn effeithiol h.y., yr ysgolion yn llawn, a nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau unigol yn agos i 30, tra'n cyfyngu ar nifer y carfannau o fewn unrhyw ddsbarth penodol.

4.5 Ariannol

Mae'r tabl isod yn dangos y gost fesul disgybl mewn ysgolion unigol:

Ysgol	Carreglefn	Llanfechell	Cyfartaledd Cynradd Ynys Môn
Cost fesul Disgybl (2023/24)	£17,200	£5,524	£5,240
Sefyllfa Balansau Ysgolion ar 31ain Mawrth 2023	Arian dros ben cyfwerth â 12% o gyllideb yr ysgol	Arian dros ben cyfwerth â 10% o gyllideb yr ysgol	Arian dros ben cyfwerth â 12% o gyllideb yr ysgol



- Mae'r tabl a'r siart uchod yn dangos bod amrywiad o £11,676 y disgybl rhwng y ddwy ysgol gynradd, gyda'r ddwy ysgol yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd Ynys Môn. Ysgol Carreglefn sydd â'r gost fesul disgybl uchaf o holl ysgolion cynradd Cymru. Mae'r gwahaniaeth mewn gwariant fesul disgybl yn y sector cynradd yn destun pryder ac nid yw'n gynaliadwy i'r dyfodol.
- Gellid dadlau bod yr ysgolion llai yn derbyn yr hyn sy'n gyfartal â chyllid ychwanegol fel ffurf o warchodaeth, er mwyn cynnal isafswm lefelau staffio (er enghraifft, i sicrhau cyllid ar gyfer lleiafswm o 1.5 o staff addysgu ar gyfer ysgolion sydd â 15 neu lai o ddisgyblion, neu 2 staff addysgu ar gyfer ysgolion sydd â rhwng 16 a 41 o ddisgyblion) a bod yr ysgolion mwyaf ar eu colled o ganlyniad. Yn 2023/24 derbyniodd Ysgol Carreglefn arian gwarchodaeth trwy'r fformiwla ariannu ysgolion - i gynnal isafswm lefelau staffio.
- Cynyddodd y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i Ysgol Carreglefn yn 2023/24 drwy'r fformiwla ariannu ysgolion gyllideb Ysgol Carreglefn 37% neu £46,828, o'i gymharu â'r hyn a fyddai wedi'i ddyrannu heb y warchodaeth hon. Dyma un rheswm pam fod y gost fesul disgybl yn uchel iawn yn Ysgol Carreglefn. Nid yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir, gan nad yw'n gwneud defnydd effeithlon o'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig, tra'n sicrhau bod adnoddau cyfyngedig yn cael eu dosbarthu'n gyfartal.

4.6 Lles, Gofal ac Iechyd

Mae cysylltiad cryf rhwng adeiladau / amgylcheddau ysgol a Lles, Gofal ac Iechyd. Gall amgylchedd ysgol sydd wedi'i ddylunio'n dda wella iechyd corfforol a meddyliol plant, yn ogystal â gwella lles staff a gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae tiroedd ysgol sydd wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u datblygu'n feddylgar yn cyfoethogi'r cyfleoedd i ddyddysgu a chwarae. Mae cysylltiad a chyswllt â natur yn creu emosiynau mwy cadarnhaol a theimladau o fywiogrwydd, a llai o emosiynau negyddol; mae hefyd yn cynnig rhyddhad rhag blinder meddwl, a'r gallu i ganolbwyntio am gyfnod hirach.

Mae'r tabl yn adran 4.3 yn amlygu bod y ddwy ysgol wedi'u categorioeddio i fod yng Ngradd Cyflwr B - Yn weithredol ddiogel ac yn dangos dim ond mân ddirywiad. Ar hyn o bryd, nid yw'r naill na'r llall o'r ysgolion mewn sefyllfa i ddarparu amgylcheddau dysgu addas i blant chwarae yn yr awyr agored.

4.7 Cwricwlwm i Gymru

Mae gan Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell ofod allanol addas cyfyngedig i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i'r tymor hir, fodd bynnag mae gofod allanol mwy addas yn Ysgol Llanfechell nag yn Ysgol Carreglefn i gyflwyno'r cwricwlwm.

Mae mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth, trwy gydweithio â chyfoedion o'r un oed mewn ysgol fwy.

4.8 Yr Iaith Gymraeg

Mae'r ddwy ysgol yn rhai cyfrwng Gymraeg, a byddai unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol yn parhau i fod yn gyfrwng Gymraeg.

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Mae Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell yn ysgolion cyfrwng Gymraeg, gyda'r ddwy yng nghategori 3 o ran categori iaith (lle mae'r Gymraeg yn brif iaith i'r ysgol, mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf, a bydd pob disgybl yn cael ei gefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg tu fewn a thu allan i'r dosbarth). Felly ni fyddai unrhyw newid yn y categori iaith os bydd y cynnig yn caeu ei wireddu.

Fis Ionawr 2023 (CYBLD), dim ond 10% o ddisgyblion Ysgol Carreglefn sy'n siarad Gymraeg gartref, tra bod 48% o ddisgyblion Llanfechell yn siarad Gymraeg gartref.

Ni fyddai gwireddu'r cynnig yn effeithio'n andwyol ar y duedd bresennol o welliant yn erbyn Deilliannau 1, 2, 5 a 6 (holl amcanion CSGA sy'n ymwneud â disgyblion oed ysgol gynradd) o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 yr Awdurdod, sef:

Deiliant 1: Mwy o blant meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Deiliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Deiliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.

Deiliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Fforwm Iaith Gymraeg y Cyngor yn monitro cynnydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdod bob chwarter.

Gan fod y ddwy ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, nid oes disgwyl i'r cynnig gael effaith andwyol ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

4.9 Defnydd cymunedol

Mae Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn ysgolion cymunedol, a byddai unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol yn parhau i fod yn ysgolion cymunedol.

4.10 Datgarboneiddio

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i fod yn wasanaeth carbon sero net net erbyn 2030.

Rhan allweddol o'r daith i gyflawni carbon sero net fydd adolygu defnydd a pherfformiad holl asedau'r Cyngor, gan sicrhau'r ôl troed carbon lleiaf posibl tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau. Ysgolion cynradd yw'r cynhyrchwyr carbon mwyaf o holl adeiladau'r Cyngor, gydag ysgolion uwchradd yr ail uchaf.

	Ysgol Carreglefn	Ysgol Llanfechell
Tunelli o Garbon Deuocsid Cyfwerth (tCO ₂ e)	14	20

Mae amrywiad mawr mewn allyriadau carbon fesul disgybl, fel y gwelir isod:

	Ysgol Carreglefn	Ysgol Llanfechell	Cyfartaledd Ynys Môn (Cynradd)
kg o Garbon Deuocsid Cyfwerth (kgCO ₂ e) fesul disgybl	1,167	233	217

Mae'r tabl uchod yn dangos bod y carbon deuocsid cyfwerth fesul disgybl yn Ysgol Carreglefn yn sylweddol uwch nag yn Ysgol Llanfechell, a chyfartaledd Ynys Môn ar gyfer ysgolion cynradd.

4.11 Materion Cyffredinol

Ystyrir bod y mynediad i Ysgol Carreglefn yn wael. Lleolir Ysgol Carreglefn ar ffordd ddienw, 0.8 milltir oddi ar Ffordd Brynddu. Mae'r ffordd ddienw yn ffordd un lôn, lle nad yw 2 gerbyd yn gallu pasio ei gilydd mewn manau. Mae gan Ffordd Brynddu 2 lôn mewn manau, ac un lôn mewn manau. Mae rhannau o Ffordd Brynddu lle gall 2 gerbyd basio'i gilydd, a rhannau lle na all 2 gerbyd basio'i gilydd. Lleolir Ysgol Carreglefn 3.3 o'r A5025, neu 4.0 milltir o'r B5111.

Mae mynediad digonol i Ysgol Llanfechell. Lleolir Ysgol Llanfechell ar Ffordd y Mynydd. Mae Ffordd y Mynydd yn ffordd 2 lôn mewn manau, ac un lôn mewn manau. Mae rhannau o Ffordd y Mynydd lle gall 2 gerbyd basio'i gilydd, a rhannau lle na all 2 gerbyd basio'i gilydd. Lleolir Ysgol Llanfechell 0.3 o Ffordd Brynddu ac 1.6 milltir o'r A5025.

4.12 Casgliadau o'r gyrwyr allweddol ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell

- Mae amrywiad sylweddol yn y gost fesul disgybl rhwng y ddwy ysgol (Ysgol Carreglefn £17,200, Ysgol Llanfechell £5,524). Mae'r ddwy uwchlaw'r Cyfartaledd ar gyfer Ysgolion Cynradd Môn o £5,240. Y gost fesul disgybl yng Ngharreglefn yw'r uchaf yng Nghymru (Cynradd) ar gyfer 2023/24. Dylai unrhyw gynnig fynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl, a dylai wneud y ddarpariaeth yn fwy cost effeithiol.
- Mae nifer y lleoedd dros ben yn yr ardal yn ormodol (Ysgol Carreglefn 80%, Ysgol Llanfechell 32%).
- Rhagwelir y bydd niferoedd disgyblion yn disgyn hyd yn oed ymhellach, gyda niferoedd disgyblion Ysgol Carreglefn yn 5 neu lai bob blwyddyn o fis Medi 2024 ymlaen.
- Mae canran uchel o ddisgyblion yn mynychu o du allan i ddalgylch yr ysgol (Ysgol Carreglefn 36%, Ysgol Llanfechell 27%). Dylai unrhyw gynnig fynd i'r afael â hyn.
- Mae cost cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol o £317,350 (cyfwerth â £35,261 y disgybl) yn Ysgol Carreglefn a £532,950 (cyfwerth â £7,402 y disgybl) yn Ysgol Llanfechell.
- Fis Ionawr 2023 (CYBLD), dim ond 10% o ddisgyblion Ysgol Carreglefn sy'n siarad Cymraeg gartref, tra bod 48% o ddisgyblion Llanfechell yn siarad Cymraeg gartref.

Gellir casglu felly bod angen adolygu'r ddarpariaeth addysg yn yr ardal er mwyn darparu model cynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

O ganlyniad, bydd yr heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell, ynghyd â opsiynau amgen rhesymol oherwydd eu hagosrwydd (2.2 milltir – Google Maps), yn cael eu hystyried.

5. YR HERIAU ALLWEDDOL A WYNEBIR GAN YSGOL CARREGLEFN AC YSGOL LLANFEHELL

Amlinellir isod yr heriau allweddol a wynebair gan Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell a sut y gallai'r cynnig i “**Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a Chau Ysgol Carreglefn**” fynd i'r afael â nhw:

	Heriau allweddol	Sut y byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nhw
5.1.Niferoedd disgyblion	<p>Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell ganran sylweddol o leoedd dros ben (80% a 32% yn y drefn honno).</p> <p>Rhagwelir y bydd niferoedd disgyblion Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn gostwng dros y pum mlynedd nesaf.</p> <p>Ysgol Carreglefn – Capasiti heb gynnwys meithrin 46 /Rhagwelir 5 neu lai o fis Medi 2024 ymlaen.</p> <p>Ysgol Llanfechell - Capasiti heb gynnwys meithrin 106 /Rhagwelir 55 erbyn 2028. (Mae mwy o fanylion ar gael yn adran 5.8 y papur hwn isod).</p> <p>Ysgol Carreglefn - Gorffennaf 2023:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae llai na 47% (7/15) o ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Carreglefn yn mynychu Ysgol Carreglefn. • Roedd gan Ysgol Carreglefn 11 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 7 disgybl yn mynychu o'r dalgylch. • Roedd 50% o'r 4 nad oedd yn nalgylch Ysgol Carreglefn yn dod o ddalgylch Ysgol Llanfechell [2 ddisgybl]. <p>Ysgol Llanfechell - Gorffennaf 2023:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae llai na 78% o ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Llanfechell yn mynychu Ysgol Llanfechell. • Roedd gan Ysgol Llanfechell 86 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 63 o ddisgyblion yn mynychu o fewn y dalgylch. • Roedd 1 o'r 23 nad oedd yn nalgylch Ysgol Llanfechell yn dod o ddalgylch Ysgol Carreglefn. <p>Addysgir holl ddisgyblion Ysgol Carreglefn mewn un dosbarth, gyda disgyblion 4-11 oed yn cael eu dysgu gyda'i gilydd. Gall hyn fod yn heriol o ran bodloni anghenion disgyblion o wahanol oedrannau.</p> <p>Rhennir disgyblion Ysgol Llanfechell rhwng 4 dosbarth, gydag ystod oedran o ddim mwy na 2 flynedd ym mhob dosbarth.</p>	<p>Mae gan Ysgol Llanfechell ddigon o leoedd dros ben ar gyfer disgyblion o ddalgylch presennol Llanfechell a Charreglefn (gan gynnwys y lleoedd meithrin). Nid oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn yr ardal.</p> <p>Efallai hefyd y bydd llai o symud disgyblion ar draws dalgylchoedd.</p> <p>Bydd llai o amrywiaeth yn ystod oedran y disgyblion a addysgir yn yr un dosbarthiadau, gyda mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gydweithio â chyfoedion o'r un oedran.</p>
5.2.Lleoedd dros ben	<p>Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell ganran sylweddol o leoedd dros ben (80% a 32% yn y drefn honno).</p> <p>Rhagwelir y bydd niferoedd disgyblion Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn gostwng dros y pum mlynedd nesaf.</p> <p>Ysgol Carreglefn – Capasiti heb gynnwys meithrin 46 /Rhagwelir 5 neu lai o fis Medi 2024 ymlaen.</p>	<p>Mae nifer y lleoedd dros ben wedi'u cyfuno yn debygol o leihau.</p> <p>Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd gan Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell gyda'i gilydd 48% o leoedd dros ben erbyn Medi 2024. (Niferoedd disgyblion wedi'u cyfuno: 79, capasiti wedi'u cyfuno: 152).</p>

	Heriau allweddol	Sut y byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nhw
	Ysgol Llanfechell - Capasiti heb gynnwys meithrin 106 /Rhagwelir 55 erbyn 2028. (Mae mwy o fanylion ar gael yn adran 5.8 y papur hwn isod).	Os caiff y cynnig ei roi ar waith amcangyfrifir y bydd canran y lleoedd dros ben yn gostwng i 25% erbyn Medi 2024. (Nifer disgyblion – 79, capasiti – 106).
5.3.Cost fesul digybl	Amrywiad yn y gost fesul disgybl: <ul style="list-style-type: none"> Ysgol Carreglefn 2023/24 = £17,200 Ysgol Llanfechell 2023/24 = £5,524 <p>Cyfartaledd cynradd Ynys Môn ar gyfer 2023/24 yw £5,240.</p> <p>Ysgol Carreglefn sydd â'r gost uchaf fesul disgybl o holl Ysgolion Cynradd Cymru.</p> <p>Gellid dadlau bod ysgolion llai yn derbyn yr hyn sy'n gyfartal â chyllid ychwanegol i gynnal isafswm lefelau staffio a bod ysgolion mwy ar eu colled o ganlyniad.</p> <p>Mae angen lleihau cost addysg yn yr ardal.</p>	Gellid lleihau'r amrywiad yn y gost fesul disgybl ar draws yr ardal. Amcangyfrifir y byddai'r gost fesul disgybl yn Llanfechell tua £5,396 (ar sail costau 23/24) pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.
5.4.Adeiladau'r ysgolion	Mae gan Ysgol Carreglefn gost cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol o £317,350 (Rhagfyr 2023) a gradd cyflwr B (Boddhaol, yn perfformio yn ôl y bwriad ond yn dangos mân ddirywiad).	Byddai costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yn gostwng £317,350.
	Mae gan Ysgol Llanfechell gost cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol o £532,950 (Rhagfyr 2023) a gradd cyflwr B (Boddhaol, yn perfformio yn ôl y bwriad ond yn dangos mân ddirywiad).	Llai o adeiladau i'r awdurdod eu cynnal a'u cadw yn y blynyddoedd i ddod, a all gyfrannu at well rheolaeth strategol o'r ystâd ysgolion yn y dyfodol.
	Dim ond yn rhannol y mae'r ddwy ysgol yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.	Pe bai disgybl ag anabledd yn mynychu Ysgol Llanfechell, byddai'r gwaith sydd ei angen er mwyn i'r adeilad gydymffurfio â'i anghenion yn cael ei adolygu a byddai addasiadau'n cael eu gwneud yn unol â hynny. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei flaenoriaethu.
5.5. Ymrwymiad Addysgu Penodol y Pennaeth	Mae gan bennaeth Ysgol Llanfechell ymrwymiad addysgu penodol o 50%.	O ganlyniad i'r ffaith y bydd Ysgol Llanfechell yn debygol o dderbyn cyllid ychwanegol trwy'r fformiwla ariannu ysgolion (oherwydd cynnydd tebygol yn niferoedd disgyblion o drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell), efallai y bydd ymrwymiad addysgu penodol y pennaeth yn cael ei leihau, a allai ganiatáu mwy o amser i arwain ar addysgu a dysgu, sy'n cael yr effaith fwyaf ar safonau.
	Mae Ysgol Carreglefn yn rhannu pennaeth gydag ysgol arall ar hyn o bryd, oherwydd anawsterau recriwtio. Dim ond am 2 ddiwrnod yr wythnos y mae'r pennaeth yn Ysgol Carreglefn. Mae'r dirprwy yn arwain yr ysgol am y 3 diwrnod arall o'r wythnos. Mae gan y pennaeth ymrwymiad addysgu penodol am hanner diwrnod yr wythnos yn Ysgol Carreglefn, gan ganiatáu diwrnod a hanner yr wythnos yn unig fel amser digyswllt.	
5.6 Cyllid	Ysgol Carreglefn – Balansau wedi cynyddu o £21,425 o arian dros ben ar 31/03/22 i £22,123 o arian dros ben erbyn 31/03/23, sydd gyfystyr a 12% o gyllideb yr ysgol. Defnyddiwyd £5,420 (24%) o falans yr ysgol i fantoli cyllideb ysgol 2023/24.	Disgwylir i'r cynnig gynhyrchu arbediad blynyddol net o £126k drwy'r fformiwla ariannu ysgolion.
	Ysgol Llanfechell – Balansau wedi cynyddu o £46,129 o arian dros ben ar 31/03/22 i £49,458 o arian dros ben ar 31/03/23, sydd gyfystyr a 10%	Byddai'r cynnig yn arwain at ddisgyblion o Garreglefn yn mynychu ysgolion eraill. Gall hyn greu cyllid ychwanegol ar gyfer yr ysgolion y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo iddynt.

	Heriau allweddol	Sut y byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nhw
	<p>o gyllideb yr ysgol. Defnyddiwyd £3,500 (7%) o falansau'r ysgol i fantoli cyllideb ysgol 2023/24.</p> <p>Yn 2023/24 derbyniodd Ysgol Carreglefn £46,828 o gyllid ychwanegol (cyfwerth â 37% o gyllideb ychwanegol), oherwydd elfennau o fewn y fformiwla ariannu ysgolion sy'n gwarchod ysgolion llai. I gael rhagor o wybodaeth – gweler adran 4.5.</p> <p>(Gweler cyllidebau ysgolion adran 5.11 i gael rhagor o wybodaeth).</p> <p>Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn amlygu'r ffaith bod y Cyngor ar hyn o bryd yn wynebu ei sefyllfa ariannol fwyaf heriol ac ansicr, ac yn datgan y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd er mwyn gosod cyllideb gytbwys yn 2024/25 a 2025/26.</p>	<p>Mae'n bosibl y bydd mwy o gyllideb ar gael i'w dirprwyo rhwng ysgolion eraill, gan efallai y bydd un ysgol yn llai sy'n derbyn cyllid ychwanegol drwy warchodaeth ar gyfer ysgolion bach (i ariannu'r isafswm o athrawon, neu drwy'r rhwyd ddiogelwch – fel yr eglurir yn adran 4.5)</p> <p>Gellid dyrannu canran uwch o gyllideb yr ysgol tuag at addysgu, yn hytrach na chynnal a rhedeg adeiladau ysgol.</p>
5.7 Amrywiad ym maint dosbarthiadau	<p>Ym mis Medi 2023:</p> <p>Mae holl ddisgyblion Ysgol Carreglefn yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth, gan arwain at amrywiad oedran o 7 mlynedd, gyda disgyblion blwyddyn derbyn yn cael eu haddysgu yn yr un dosbarth â disgyblion blwyddyn 6. Gall hyn fod yn heriol o ran diwallu anghenion disgyblion o wahanol oedrannau.</p> <p>Rhennir disgyblion Ysgol Llanfechell yn 4 dosbarth, gydag amrywiad oedran o 2 flynedd fesul dosbarth.</p>	<p>Os gwiredir y cynnig, byddai llai o amrywiaeth yn yr ystod oedran a addysgir mewn dosbarthiadau yn Ysgol Llanfechell.</p> <p>Mwy o gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda disgyblion o'r un oedran.</p>

5.8 Niferoedd Disgyblion a Rhagamcanion Disgyblion

Nifer y disgyblion – Hanesyddol

Ysgol	Capasiti - heb gynnwys Meithrin	Nifer y Disgyblion Ionawr 2019	Nifer y Disgyblion Ionawr 2020	Nifer y Disgyblion Ionawr 2021	Nifer y Disgyblion Ionawr 2022	Nifer y Disgyblion Ionawr 2023	Nifer y Disgyblion Ionawr 2024
Carreglefn 3-11	46	23	15	12	10	10	9*
Llanfechell 3-11	106	66	62	66	74	77	72

*NODER – O'r 9 disgybl sy'n mynychu Ysgol Carreglefn, mae 4 ohonynt ym mlwyddyn 6.

Nifer y Disgyblion – Rhagamcanion Pum Mlynedd

Ysgol	Capasiti - heb gynnwys Meithrin	Nifer y Disgyblion Medi 2023	Rhagamcan Medi 2024	Rhagamcan Medi 2025	Rhagamcan Medi 2026	Rhagamcan Medi 2027	Rhagamcan Medi 2028
Carreglefn 3-11	46	9	5	4	4	5	4
Llanfechell 3-11	106	73	74	65	63	59	55

Mae rhagamcanion yn cadarnhau y disgwylir i Nifer y Disgyblion ar y cyd ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell ostwng. O ganlyniad, mae'r cynnig i gau Ysgol Carreglefn ac ymestyn dalgylch Ysgol Llanfechell yn rhesymol yn yr ystyr bod y disgyblion a gyfunir o Garreglefn a Llanfechell yn is na'r

capasiti presennol yn Ysgol Llanfechell. Gan fod Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn ysgolion cyfrwng Cymraeg heb unrhyw gymeriad crefyddol, gallai'r cynnig fodloni'r galw presennol a'r galw a ragwelir am ysgolion o'r un categori iaith a chymeriad crefyddol.

Mae'r tabl isod yn dangos y ddarpariaeth ddangosol ar gyfer datblygiadau tai yng Ngharreglefn a Llanfechell. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys datblygiadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd:

Ysgol	Dyraniad sy'n weddill ar gyfer datblygiadau tai yn y dalgylch (2018-2026) – gan gynnwys unedau gyda chaniatâd cynllunio	Nifer cyfatebol o blant*
Carreglefn	8	1
Llanfechell	12	2

*Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan bob tŷ o fewn yr ardal gynnyrch ehangach haen ganol [MSOA*1], ar gyfartaledd, 0.14 o blant oed ysgol gynradd. Mae lluosu nifer y datblygiadau tai â 0.14 yn rhoi amcangyfrif o nifer y plant ychwanegol y byddai angen eu haddysgu yn yr ysgol benodol honno.

*1 MSOA - ardaloedd fel y'u diffinnir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar gyfer adrodd ar wybodaeth cyfrifiad. Mae'r MSOA fel arfer yn cynnwys rhwng 2,000 a 6,000 o aelwydydd ac mae ganddynt boblogaeth o rhwng 5,000 a 15,000 o bobl. Mae rhagor o wybodaeth am yr MSOAs ar gael ar y ddolen ganlynol - [Census 2021 geographies - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk) ,

Pe bai'r holl ddarpariaeth tai a nodir uchod yn cael ei gwireddu, byddai digon o leoedd o hyd yn Ysgol Llanfechell ar gyfer disgyblion Carreglefn a Llanfechell,

Mae'n bwysig nodi bod rhagamcanion yn anodd gan fod nifer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgolion o ddalgylchoedd eraill. Ym mis Gorffennaf 2023:

- Roedd gan Ysgol Carreglefn 11 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 7 disgybl yn mynychu o'r dalgylch.
- Mae llai na 47% o'r disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Carreglefn yn mynychu Ysgol Carreglefn.
- Roedd gan Ysgol Llanfechell 86 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 63 o ddisgyblion yn mynychu o'r dalgylch.
- Mae llai na 78% o'r disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Llanfechell yn mynychu Ysgol Llanfechell.

5.9 Darpariaeth Feithrin a Chyn ysgol

Mae'r ddarpariaeth cyn ysgol ganlynol ar gael yn ardal Carreglefn a Llanfechell:

Mae'r ddwy ysgol wedi'u cofrestru ar gyfer plant 3-11 oed ac yn darparu addysg blynyddoedd cynnar i blant sy'n 3 oed cyn 1 Medi yn unrhyw flwyddyn.

Rhagamcan o'r Lleoedd Meithrin yn yr Ysgolion:

	Niferoedd meithrin cyfredol ar y gofrestr Medi 2023	Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2024	Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2025	Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2026	Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2027	Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2028
Carreglefn 3-11	0	0	0	1	0	0
Llanfechell 3-11	6	7	7	7	7	7

Mae'r tabl uchod yn dangos mai'r nifer o ddisgyblion meithrin a ragwelir yn Ysgol Carreglefn a Llanfechell ar y cyd yw 8 pan fydd ar ei uchaf. Y rhif derbyn meithrin ar gyfer Ysgol Llanfechell yw 13. Felly mae'n rhesymol tybio y byddai nifer digonol o leoedd meithrin yn Ysgol Llanfechell pe bai'r cynnig

yn cael ei weithredu. Byddai'r ddarpariaeth feithrin yn Ysgol Llanfechell yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, fel sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell. Nid oes galw sy'n hysbys o fewn yr ardal am fath penodol o ddarpariaeth, e.e. darpariaeth â chymeriad crefyddol.

Mae darpariaeth Feithrin (Cylch Meithrin) yn Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin ar safle'r ysgol, ond yn annibynnol yn ariannol ar Ysgol Llanfechell. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod ar gyfer darparu addysg blynnyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig o 9am tan 11.30am (Llun-lau). Mae'r Cylch Meithrin hefyd yn darparu gofal plant cofleidiol (dim darpariaeth addysg) o ddydd Llun i ddydd lau o 11.30am tan 3pm. Mae wedi'i gofrestru ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, lle mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu am hyd at 30 awr o ofal yr wythnos (gan gynnwys y 10 awr o ddarpariaeth addysg / 20 awr o ofal plant) i blant 3-4 oed. Arolygwyd y ddarpariaeth ddiwethaf gan Estyn yn Ionawr 2020, pan arfarnwyd bod Lles, Gofal a Datblygiad, Addysgu ac Asesu, ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn dda. Barnwyd bod yr Amgylchedd yn Ddigonol. Mae'r Cylch Meithrin ac Ysgol Llanfechell yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth cofleidiol, sy'n golygu y gall disgyblion 3-4 oed drosglwyddo rhwng meithrinfa'r ysgol a'r 'Cylch Meithrin' heb fod angen i rieni / gwarcheidwaid fod yn bresennol.

Nid oes darpariaeth cyn ysgol yng Ngharreglefn, ac eithrio dosbarth Meithrin yr ysgol, ar gyfer plant sydd wedi troi'n 3 oed cyn 1 Medi yn unrhyw flwyddyn.

Nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar unrhyw sefydliadau eraill.

5.10 Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Os cytunir ar y cynnig presennol, byddai'n arwain at newid yn amgylchedd dysgu disgyblion Carreglefn. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r newid fod yn fwy heriol i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Cymerir pob cam ymarferol i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ac i gynorthwyo disgyblion gydag unrhyw drosglwyddiad. Byddai'r Cyngor yn cael cyngor gan dimau penodol (y mae'r disgyblion yn ddarostyngedig iddynt) er mwyn adnabod a gweithredu strategaethau perthnasol i hwyluso'r trosglwyddiad. Gallai hyn gynnwys (er enghraifft),

- ymweliad ychwanegol ag Ysgol Llanfechell tra nad yw'r ysgol ar agor,
- disgyblion Carreglefn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd ag Ysgol Llanfechell, cyn y dyddiad trosglwyddo,
- adnodd gweledol gyda ffotograffau o bobl/leuoedd allweddol yn yr ysgol. Gellir anfon hwn yn uniongyrchol at blant ag ADY neu sy'n cael eu hystyried yn fregus,
- darparu adnoddau gweledol ynglŷn â rheolau a threfn y diwrnod megis lluniau o'r wisg ysgol, nifer y gwersi, amser cinio ac ati,
- trefnu i'r athro dosbarth ffonio, ymweld, neu ysgrifennu at y disgybl i siarad ag ef ac i roi gwybod iddo ei fod yn meddwl amdano cyn y trosglwyddo.
- Yr ysgol i ddarparu taflen holi ac ateb i rieni yn trafod cwestiynau ac atebion cyffredin.
- Yr ysgolion i geisio cael cymaint o wybodaeth â phosibl am y disgybl gan y rhieni, y disgybl, yr ysgol flaenorol neu unrhyw asiantaethau sy'n ymwneud â'r disgybl.

Pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn, byddai asesiad o anghenion yn cael ei gynnal i nodi'r lefel a'r math o gymorth sydd ei angen i hwyluso trosglwyddiad disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Byddai disgyblion ag ADY sy'n mynychu Ysgol Carreglefn ar hyn o bryd yn parhau i dderbyn y lefel o gymorth sydd ei angen i ddiwallu eu hanghenion addysgol unigol yn Ysgol Llanfechell.

Byddai'r Cyngor yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol i ddisgyblion ADY. Os oes gan rieni gyda disgyblion sydd wedi'u cofrestru ag ADY unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r gefnogaeth a gynigir, gellir trefnu cyfarfodydd unigol gyda Dr Einir Thomas (Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol).

E-bost: einirthomas@gwynedd.llyw.cymru, Ffôn 01286 679007.

5.11 Cyllidebau Ysgolion

Mae'r gwerthusiad ariannol isod yn manylu ar y sefyllfa bresennol a'r costau i'r ysgolion.

	Cyllideb Blwyddyn Lawn 2022/23	Gwariant Gwirioneddol 2022/23	2022/23 Arian dros ben / (Diffyg)	Balansau'r Ysgol ar 31/3/22	Balansau'r Ysgol ar 31/3/23
Ysgol Carreglefn	£161,910	£161,212	£698	£21,425	£22,123
Ysgol Llanfechell	£442,610	£439,281	£3,329	£46,129	£49,458

Er eglurder – nid yw'r gyllideb Blwyddyn Lawn uchod at ddiben y ddogfen hon yn cynnwys balans a gariwyd drosodd o'r flwyddyn flaenorol.

Ar hyn o bryd, mae gan y ddwy ysgol falansau cadarnhaol, fodd bynnag dylid nodi bod Balansau Ysgol Carreglefn mewn sefyllfa o ddiffyg ar ddiwedd Mawrth 2019 a Mawrth 2020.

Costau Rheolaidd

Y costau blynyddol rheolaidd ar gyfer 91 o ddisgyblion yn Ysgol Llanfechell fyddai £427,623 yn seiliedig ar y fformiwla ariannu gyfredol ar gyfer ysgolion sydd ar gael drwy ddyraniad cyllideb ysgolion blynyddol yr awdurdod (ac eithrio Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Chyllid Cyfnod Sylfaen na fyddai'n cael eu heffeithio). Y gost reolaidd ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn eu ffurf bresennol, ac yn seiliedig ar 91 o ddisgyblion gyda'i gilydd fyddai £554,013 (ac eithrio Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Chyllid Cyfnod Sylfaen na fyddent yn cael eu heffeithio). Gallai'r cynnig felly gynhyrchu arbediad net o £126,390 wedi'i ddyrannu i ysgolion drwy'r fformiwla ariannu ysgolion yn seiliedig ar 91 o ddisgyblion (Nifer y disgyblion ym mis Medi 2022 – a ddefnyddir i osod cyllideb ysgol 2023/24).

5.12 Datgarboneiddio

Ysgolion cynradd yw'r cynhyrchwyr carbon mwyaf o holl adeiladau'r Cyngor, gydag ysgolion uwchradd yr ail uchaf.

Mae'r tabl isod yn dangos y Tunelli o Garbon Deuocsid Cyfwerth ar gyfer adeiladau Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell.

	Ysgol Carreglefn	Ysgol Llanfechell
Tunelli o Garbon Deuocsid Cyfwerth (tCO ₂ e)	14	20

Pe bai'r cynnig yn cael ei wireddu, byddai'r swm net o tCO₂e a allyrrir gan y ddau adeilad ysgol yn gostwng o 34 i 20, sef gostyngiad o 41% yn swm y tCO₂e.

Mae amrywiad mawr mewn allyriadau carbon fesul disgybl, fel y gwelir isod:

	Ysgol Carreglefn	Ysgol Llanfechell	Cyfartaledd Ynys Môn (Cynradd)
kg o Garbon Deuocsid Cyfwerth (kgCO ₂ e)	1,167	233	217

Yr allyriadau carbon fesul disgybl yn Ysgol Carreglefn yw'r ail uchaf o holl ysgolion cynradd Ynys Môn.

Pe bai'r cynnig yn cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r allyriadau carbon fesul disgybl yn Ysgol Llanfechell yn 204kgCO₂e.

Mae'r Cyngor yn cydnabod fodd bynnag y gallai'r cynnig arwain at rywfaint o deithio ychwanegol i ddisgyblion Carreglefn. Rhagwelir y byddai hyn yn arwain at gynnydd mewn allyriadau carbon cyfwerth ag oddeutu 1.7tCO₂e

Pe bai'r cynnig yn cael ei wireddu, gallai arwain at ostyngiad o tua £770 yn erbyn y gyllideb Cyflenwadau a Gwasanaethau. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at arbediad carbon o tua 284 kgCO₂e.

Rhagwelir mai effaith net yr uchod fydd arbediad o tua 12.6tCO₂e y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu ôl troed un person drwy gydol eu hoes.

5.13 Crynodeb

Y rhesymau (a'r manteision) dros y cynnig i "Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn" yw:

- Mae gan Ysgol Carreglefn nifer sylweddol o leoedd dros ben (80%). Yn Ionawr 2024 dim ond 9 disgybl sy'n mynychu Ysgol Carreglefn, gyda 4 ohonynt ym mlwyddyn 6. Mae'r ysgol yn rhagweld y bydd nifer y disgyblion yn disgyn i 5 neu lai o fis Medi 2024 ymlaen. Mae Ysgol Llanfechell wedi ei lleoli 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn ac mae ganddi gapasiti digonol ar gyfer disgyblion Ysgol Carreglefn, tra'n lleihau nifer y lleoedd dros ben yn yr ardal. Gallai hyn wella effeithlonrwydd yn yr ardal, a sicrhau bod canran uwch o gyllid ysgolion yn cael ei ddyrannu tuag at addysgu.
- Addysgir holl ddisgyblion Ysgol Carreglefn mewn un dosbarth, gan arwain at amrywiad oedran o 7 mlynedd, gyda disgyblion blwyddyn derbyn yn cael eu haddysgu yn yr un dosbarth â disgyblion blwyddyn 6. Gall hyn fod yn heriol o ran diwallu anghenion disgyblion o wahanol oedrannau.
- Mae'r cynnig yn sicrhau arbediad effeithlonrwydd o £126k a fyddai'n cyfrannu at yr arbedion y bydd angen i'r awdurdod eu cyflawni yn y dyfodol agos. Gellid dyrannu canran uwch o gyllideb yr ysgol tuag at addysgu, yn hytrach na chynnal a rhedeg adeiladau ysgolion.
- Y gost fesul disgybl yn Ysgol Carreglefn yw'r uchaf o holl ysgolion cynradd Cymru, sef £17,200 y disgybl, sydd fwy na 3 gwaith yn uwch na chyfartaledd yr Awdurdod o £5,240 ar gyfer ysgolion cynradd. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r amrywiad mewn cyllid fesul disgybl rhwng ysgolion bach ac ysgolion mwy. Pe bai'r cynnig presennol yn cael ei wireddu, byddai'r gost fesul disgybl yn Llanfechell tua £5,396 (yn ôl costau 2023/24), a byddai'n gymharol agos i gost gyfartalog fesul disgybl Ynys Môn.
- Mae Ysgol Carreglefn wedi profi anawsterau wrth benodi pennaeth parhaol ers dros 2 flynedd. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhannu pennaeth gydag Ysgol Gynradd arall, a dim ond am 2 ddiwrnod yr wythnos y mae'r pennaeth ar safle'r ysgol, ac mae ganddi ymrwymiad addysgu penodol am hanner diwrnod fel rhan o hyn. Mae gan Bennaeth Ysgol Llanfechell hefyd ymrwymiad addysgu penodol o 50%. Gallai'r cynnig ganiatáu gostyngiad yn ymrwymiad addysgu penodol penafthiaid, a chaniatáu mwy o amser i fynd i'r afael â heriau strategol a rheolaethol.
- Gallai'r cynnig gynnal y safonau presennol yn Ysgol Llanfechell, a fyddai fan leiaf yn cyfateb i safonau Ysgol Carreglefn. Byddai llai o amrywiad yn yr ystodau oedran a addysgir yn y dosbarthiadau, gan ganiatáu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn weithio gyda disgyblion eraill o'r un oed, a chael mynediad at gwricwlwm ehangach a mwy cytbwys.
- Gellid gwella Lles, Gofal ac Iechyd oherwydd llai o faich ar athrawon yn gorfod ymgymryd â gwahanol gyfrifoldebau, o gymharu ag ysgolion bach iawn.
- Gallai fod mwy o gyfleoedd i ehangu a chyfoethogi'r cwricwlwm, oherwydd mwy o staff ac adnoddau.
- Gellid cynnal y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Yr allyriadau carbon fesul disgybl yn Ysgol Carreglefn yw'r ail uchaf o holl ysgolion cynradd Ynys Môn. Byddai'r cynnig yn cyfrannu at agenda datgarboneiddio'r Cyngor. Amcangyfrifir y byddai allyriadau carbon yn gostwng tua 12.6tCO₂e
- Byddai'r gost cynnal a chadw bresennol a'r gost ragamcannol ar gyfer y dyfodol (£317,350) yn cael ei lleihau. Byddai'r cynnig hefyd yn lleihau'r costau referniw cyffredinol ac yn arwain at arbedion ariannol.

Mae'r adran uchod yn dangos bod y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar y gyrrwyr allweddol a nodir yn adran 4. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i ategu gan ymrwymiad yr Awdurdod i:

- ddarparu cludiant i Ysgol Llanfechell ar gyfer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carreglefn yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion, gan nad yw'r ffordd rhwng Carreglefn a Llanfechell yn addas i ddysgwyr o'r oedran hwnnw gerdded i ac o'r ysgol.
- Gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn fel adnodd cymunedol pe bai angen.

Mae'r cynnig i "Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn" felly yn cael ei ystyried yn ateb sy'n cwrdd â'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ysgolion.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro perfformiad Ysgol Llanfechell, a gall ailymweld â'r ysgol yn y dyfodol, os bydd angen.

6. OPSIYNAU AMGEN RHESYMBOL I'R CYNNIG AR GYFER YSGOL CARREGLEFN AC YSGOL LLANFEHELL

Mae'r adran hon yn nodi'r opsiynau amgen rhesymol mewn ymgais i ddod o hyd i ateb sy'n mynd i'r afael â'r prif yrwyr ar gyfer ardaloedd Carreglefn a Llanfechell a nodir yn adran 4 uchod.

6.1 Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn. (Y Cynnig)		
Amcangyfrif o'r gost: Ni ragwelir unrhyw gostau cyfalaf		
Gyrrwr	Cyfleoedd	Heriau
1.Safonau	<ul style="list-style-type: none"> ▪Posibilrwydd o gynnal y safonau a welir yn Ysgol Llanfechell ar hyn o bryd. Gallai fod llai o amrywiaeth ym maint dosbarthiadau a nifer yr ystodau oedran a addysgir mewn dosbarthiadau. ▪Mwy o gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda disgyblion o'r un oedran. 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Llai o gyswllt un i un rhwng athrawon a disgyblion mewn ysgolion mwy.
2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth	<ul style="list-style-type: none"> ▪Efallai y bydd gan Bennaeth Ysgol Llanfechell lai o ymrwymiad dysgu penodol, gan arwain at fwy o amser i arwain a rheoli'r ysgol. ▪Mwy o sefydlogrwydd o fewn tîm Arwain yr ysgol. ▪Haws recriwtio staff a llywodraethwyr. 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Posibilrwydd colli staff a llywodraethwyr profiadol.
3.Adeiladau ac Adnoddau	<ul style="list-style-type: none"> ▪Gostyngiad o £317,350 yn y costau cynnal a chadw presennol a'r costau rhagamcannol ar gyfer y dyfodol. ▪Lleihau nifer yr adeiladau sydd angen i'r Cyngor eu cynnal a'u cadw, ac osgoi costau atgyweirio a chynnal a chadw yn y dyfodol. ▪Byddai'n mynd i'r afael yn rhannol â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol ar gyfer hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i'r tymor hir. 	
4.Nifer y Disgyblion / Lleoedd dros ben	<ul style="list-style-type: none"> ▪Cyflawni gofynion capasiti presennol ac yn y dyfodol. ▪Cael gwared ar lefydd dros ben yn yr ardal – Yn Ionawr 2024 dim ond 9 disgybl oedd yn mynychu Ysgol Carreglefn ▪Lleihau symud ar draws dalgylchoedd. 	
5.Ariannol	<ul style="list-style-type: none"> ▪Gellid mynd i'r afael â'r annhegwch ariannu, trwy leihau'r amrywiad yn y gost y pen. ▪Byddai'n arwain at ostyngiad mewn costau reffeniw o £126k drwy'r fformiwla ddirprwyedig i ysgolion. ▪Dim costau cyfalaf ychwanegol. ▪Gallai disgyblion ychwanegol yn Ysgol Llanfechell ddod â chyllid ychwanegol i'r ysgol. Mae hyn yn debygol o gynorthwyo'r ysgol i osod cyllideb gytbwys. ▪Ychydig iawn o gostau cludiant ychwanegol a ragwelir, gan fod bws yn gwasanaethu Ysgol Carreglefn yn barod, a dim ond 2.2 milltir yw'r pellter ychwanegol o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell. ▪Byddai'n lleihau'r gost cynnal a chadw bresennol a'r gost ragamcannol o £317,350. ▪Byddai'n lleihau'r gyllideb sy'n cael ei dyrannu i warchod ysgolion bach drwy'r fformiwla ariannu ysgolion ddirprwyedig. 	
6. Lles, Gofal ac lechyd	<ul style="list-style-type: none"> ▪Llai o faich ar athrawon – cyfrifoldebau gwahanol o gymharu ag ysgolion bach iawn. ▪Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr gydweithio o fewn yr ysgol. 	
7. Cwricwlwm i Gymru	<ul style="list-style-type: none"> ▪Cyfleoedd i gyfoethogi'r cwricwlwm, oherwydd mwy o staff a chyllid. ▪Mwy o gyfleoedd ar gyfer cyd-gynllunio ymhlith staff yr ysgol. 	

	<ul style="list-style-type: none"> Byddai cwricwlwm ehangach a mwy cytbwys ar gael i ddysgwyr o Garreglefn. 	
8.Yr Iaith Gymraeg	<ul style="list-style-type: none"> Byddai'n cynnal y ddarpariaeth bresennol yn yr ysgol. Mae gan ysgolion ran bwysig i'w chwarae wrth hyrwyddo'r Gymraeg o fewn cymunedau - byddai hyn yn parhau yn Ysgol Llanfechell. 	<ul style="list-style-type: none"> Gallai fod llai o gyswllt rhwng yr ysgol a'r gymuned leol yng Ngharreglefn.
9.Defnydd cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> Byddai'r awdurdod am weithio gyda'r gymuned i sicrhau y gallai adeilad ysgol Carreglefn barhau i gael ei ddefnyddio fel ased cymunedol. Trwy uno cymunedau Carreglefn a Llanfechell, gallai fod mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. 	
10. Datgarboneiddio	<ul style="list-style-type: none"> Byddai lleihau nifer yr adeiladau ysgol yn lleihau ôl troed carbon y Cyngor, gan roi arbediad carbon net o tua 12.6tCO₂e y flwyddyn. 	
11.Materion cyffredinol		<ul style="list-style-type: none"> Pellteroedd teithio hirach i rai disgyblion, fodd bynnag ni fyddai'r teithio ychwanegol yn sylweddol. Dim ond 2.2 milltir yw'r pellter rhwng Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell. Mae'n annhebygol y byddai disgyblion Carreglefn yn cerdded nac yn beicio i Ysgol Llanfechell. Nid yw disgyblion sy'n mynychu Ysgol Llanfechell ar hyn o bryd yn debygol o gael eu heffeithio.

6.2 Un ysgol aml-safle (2 safle – safle presennol Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell).

Mae ysgol aml-safle yn un sy'n gweithredu ar fwy nag un safle, ond o dan hunaniaeth ysgol unigol.

Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf.

Gyrrwr	Cyfleoedd	Heriau
1.Safonau	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Posibilrwydd o ddatblygu cysondeb methodoleg addysgu a dysgu trwy gydweithio rhwng staff. ▪ Cyfleoedd i rannu arbenigedd staff ac arfer da ar draws Cyfnodau Allweddol mewn gwahanol safleoedd. ▪ Mwy o gyfleoedd ar gyfer cyswllt un i un rhwng athrawon a disgyblion. 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae'n annhebygol y byddai unrhyw newid yn yr amrywiaeth ym maint dosbarthiadau neu yn nifer yr ystodau oedran a addysgir mewn dosbarthiadau yn y CS a CA2. ▪ Llai o gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda disgyblion o'r un oedran mewn ysgolion bach iawn.
2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddiaeth. ▪ Mae'n debygol y bydd gan y Pennaeth lai o ymrwymiad dysgu penodol. ▪ Gallai fod yn haws recriwtio athrawon a llywodraethwyr. 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Posibilrwydd o golli Llywodraethwyr profiadol. ▪ Gallai fod yn anodd arwain a rheoli ysgol yn effeithiol ar adegau pan nad yw'r Pennaeth yn bresennol ar y safle.
3.Adeiladau ac Adnoddau		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd adeiladau ysgolion cynradd a darparu amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli. ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol ar gyfer hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i'r tymor hir. ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r gost cynnal a chadw bresennol a'r gost ragamcannol ar gyfer y dyfodol.
4.Nifer y Disgyblion / Lleoedd dros ben		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â nifer y lleoedd dros ben yn yr ardal.
5.Ariannol	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Gellid mynd i'r afael ag amrywiad yn y gost fesul disgybl a thegwch dull gweithredu ar draws yr ardal. ▪ Amcangyfrifir arbedion refeniw o £94k y flwyddyn. Ni ragwelir costau cludiant ychwanegol. 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chost cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yr ysgolion unigol – anhwyfwr yn ariannol yn y dyfodol. ▪ Gallai fod yn anodd iawn i'r ysgol osod cyllideb gytbwys, gan y gallai'r gost addysgu ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ysgolion bach iawn fodoli o hyd ar y safleoedd llai, ond ni fyddai'r warchodaeth cyllid (lleiafswm nifer yr athrawon i'w hariannu) yn berthnasol, a byddai elfen lwmp sefydlog y fformiwla yn cael ei dyrannu unwaith yn unig (h.y. fesul ysgol nid fesul safle).
6. Lles, Gofal ac Iechyd		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Athrawon yn ysgwyddo gormod o faich – Gwahanol gyfrifoldebau mewn ysgolion bach iawn.
7. Cwricwlwm i Gymru	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Mwy o gyfleoedd ar gyfer cyd-gynllunio ymhlith staff yr ysgol. ▪ Cyfleoedd i gyfoethogi'r cwricwlwm, trwy rannu adnoddau ac arbenigedd. 	
8.Yr Iaith Gymraeg	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Byddai'n cynnal y ddarpariaeth bresennol yn yr ysgolion ac o fewn y cymunedau. 	
9.Defnydd cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Byddai'r ddarpariaeth ysgol yn parhau yn y ddwy gymuned. ▪ Byddai'r defnydd presennol o'r ysgol gan y gymuned yn parhau. ▪ Trwy uno ysgolion a chymunedau, gallai fod mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. 	

6.2 Un ysgol aml-safle (2 safle – safle presennol Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell).

Mae ysgol aml-safle yn un sy'n gweithredu ar fwy nag un safle, ond o dan hunaniaeth ysgol unigol.

Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf.

Gyrrwr	Cyfleoedd	Heriau
10. Datgarboneiddio	▪ Dim cynnydd mewn allyriadau carbon oherwydd pellteroedd teithio pellach i ac o'r ysgol.	▪ Ni fyddai unrhyw ostyngiad yn ôl troed carbon adeiladau'r ysgol
11. Materion cyffredinol	▪ Dim tarfu ar ddisgyblion.	▪ Ni fyddai ysgolion yn cadw eu hunaniaeth wreiddiol.

6.3 Ffedereiddio Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell

Mae ffedereiddio yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol a ddefnyddir gan yr ysgolion dan sylw i gydweithio mewn partneriaeth ffurfiol o dan un corff llywodraethu.

Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf.

Gyrrwr	Cyfleoedd	Heriau
1.Safonau	<ul style="list-style-type: none"> Mwy o gyfleoedd ar gyfer cyswllt un i un rhwng athrawon a disgyblion mewn ysgolion llai. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n annhebygol y byddai unrhyw newid yn yr amrywiaeth ym maint dosbarthiadau neu yn nifer yr ystodau oedran a addysgir mewn dosbarthiadau yn y CS a CA2. lai o gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda disgyblion o'r un oedran mewn ysgolion bach iawn.
2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth	<ul style="list-style-type: none"> Cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r baich Arweinyddiaeth. Posibilrwydd o gyfuno gweithgareddau disgyblion trwy gyfleoedd cydlynol sy'n cynnwys plant o oedran tebyg o wahanol ysgolion. Cyfleoedd i rannu arbenigedd staff, adnoddau ac arfer da ond byddai angen eu rheoli'n ofalus. Posibilrwydd o sicrhau cysondeb methodoleg addysgu a dysgu. Efallai y bydd gan y Pennaeth lai o ymrwymiad addysgu penodol, gan arwain at fwy o amser i arwain a rheoli'r ysgol. 	<ul style="list-style-type: none"> Posibilrwydd colli staff a llywodraethwyr profiadol.
3.Adeiladau ac Adnoddau		<ul style="list-style-type: none"> Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd adeiladau ysgolion cynradd a darparu amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli. Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol ar gyfer hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i'r tymor hir. Nid yw'n mynd i'r afael â'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol.
4.Nifer y Disgyblion / Lleoedd dros ben		<ul style="list-style-type: none"> Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i leihau lleoedd dros ben yn yr ysgolion, gyda'r ddwy (Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell) â nifer sylweddol o leoedd dros ben – Yn Ionawr 2024 dim ond 9 disgybl oedd yn mynychu Ysgol Carreglefn.
5.Ariannol	<ul style="list-style-type: none"> Mae pob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun. Dim cost cludiant ychwanegol. 	<ul style="list-style-type: none"> Costau staffio yn debygol o gynyddu tua £3k y flwyddyn. Nid yw'n mynd i'r afael â chost cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yr ysgolion unigol – anhyfyw yn ariannol yn y dyfodol. Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl a chydarddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o gyllid fesul disgybl.
6. Lles, Gofal ac Iechyd		<ul style="list-style-type: none"> Athrawon yn ysgwyddo gormod o faich – Gwahanol gyfrifoldebau mewn ysgolion bach iawn.
7. Cwricwlwm i Gymru	<ul style="list-style-type: none"> Cyfleoedd i gyfoethogi'r cwricwlwm, trwy rannu adnoddau ac arbenigedd. 	
8.Yr Iaith Gymraeg	<ul style="list-style-type: none"> Byddai'n cynnal y ddarpariaeth bresennol yn yr ysgolion ac o fewn y cymunedau. 	
9.Defnydd cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> Byddai'r ddarpariaeth ysgol yn parhau yn y ddwy gymuned. 	

6.3 Ffedereiddio Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell

Mae ffedereiddio yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol a ddefnyddir gan yr ysgolion dan sylw i gydweithio mewn partneriaeth ffurfiol o dan un corff llywodraethu.

Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf.

Gyrrwr	Cyfleoedd	Heriau
	<ul style="list-style-type: none">Byddai'r defnydd presennol o'r ysgol gan y gymuned yn parhau.Trwy ffederaleiddio'r ddwy ysgol, gallai fod mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn y ddau bentref.	
10. Datgarboneiddio	<ul style="list-style-type: none">Dim cynnydd mewn allyriadau carbon oherwydd pellteroedd teithio pellach i ac o'r ysgol.	<ul style="list-style-type: none">Ni fyddai unrhyw ostyngiad yn yr ôl troed carbon adeiladau'r ysgolion.
11. Materion cyffredinol	<ul style="list-style-type: none">Gallai darpariaeth addysg barhau ar safleoedd y ddwy ysgol.Amhariad lleiaf ar ddisgyblion, rhieni a staff gan y byddai'r ysgolion yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol.Un Corff Llywodraethol ac o bosibl un Pennaeth.	

6.4 Adolygu'r ddarpariaeth ysgol a gwasanaeth yn Ysgol Carreglefn, gan edrych ar enghreifftiau megis:

- ❖ **Clystyru, cydweithio rhwng Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfdechell** h.y. dod ag ysgolion at ei gilydd i wneud gwell defnydd o adnoddau, cronni arbenigedd a chaniatáu i ysgolion archwilio ffyrdd o wneud pethau'n fwy effeithiol ac effeithlon.
- ❖ **Defnyddio'r ysgolion fel hybiau cymunedol i gynnwys/cefnogi gwasanaethau cymunedol e.e. iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu i deuluoedd ac oedolion, addysg gymunedol, chwaraeon, hamdden, gweithgaredd cymdeithasol**
- ❖ **Cytleoli gwasanaethau lleol o fewn ysgolion**

Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf.

Gyrrwr	Cyfleoedd	Heriau
1.Safonau	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Mwy o gyfleoedd ar gyfer cyswllt un i un rhwng athrawon a disgyblion. ▪ Posibilrwydd o gyfuno gweithgareddau disgyblion trwy gyfleoedd cydlynol i blant o oedran tebyg o wahanol ysgolion. ▪ Mwy o gyfleoedd ar gyfer cyswllt un i un rhwng athrawon a disgyblion. 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae'n annhebygol y byddai unrhyw newid yn yr amrywiaeth ym maint dosbarthiadau neu yn nifer yr ystodau oedran a addysgir mewn dosbarthiadau. ▪ Llai o gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda disgyblion o'r un oedran mewn ysgolion bach iawn.
2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyfleoedd i rannu arbenigedd staff, adnoddau ac arfer da drwy'r continwwm ond byddai angen eu rheoli'n ofalus. 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Tebygol o gymryd amser i wreiddio clystyru / cydweithio cyn i glystyru ddod yn brif ffrwd. ▪ Dim newid mewn yng nghapasiti Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Gallai'r patrwm presennol o gydbwysu ymrwymiad addysgu penodol gyda'r angen i ganfod amser i arwain a rheoli'r ysgol barhau. ▪ Yn debygol o barhau i fod yn anodd recriwtio athrawon a llywodraethwyr mewn ysgolion bach. ▪ Llai o sefydlogrwydd o fewn Tîm Arwain yr Ysgol.
3.Adeiladau ac Adnoddau		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ystâd ysgolion. ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i wella ystâd adeiladau ysgolion cynradd a darparu amgylcheddau dysgu sy'n ysbrydoli. ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylcheddau dysgu allanol ar gyfer hyrwyddo dysgu annibynnol disgyblion ac felly i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn y tymor canolig i'r tymor hir. ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol yr ysgolion unigol – anhyfyw yn ariannol yn y dyfodol. ▪ Nid yw'n mynd i'r afael ag ansawdd yr ystâd adeiladau ysgolion.
4.Nifer y Disgyblion / Lleoedd dros ben	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Gallai fynd i'r afael â nifer y lleoedd dros ben yn yr ardal. 	
5.Ariannol	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae pob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun. ▪ Dim angen buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor. ▪ Gwell defnydd o adnoddau ar draws yr ysgolion. ▪ Posibilrwydd o wrthbwysu costau ysgol gyda'r incwm o ddefnydd cymunedol. 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol yr ysgolion unigol sy'n anhyfyw yn ariannol yn y dyfodol oherwydd cost uchel barhaus yr ystâd adeiladu ysgolion. ▪ Nid yw'n lleihau costau reffeniw cyffredinol addysg yn yr ardal - dim arbedion reffeniw.
6. Lles, Gofal ac Iechyd	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Gallai fod cyfleoedd i wella Lles, Iechyd a Gofal trwy gydweithio â'r partneriaid a fyddai'n meddiannu safle'r ysgol. 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Athrawon yn ysgwyddo gormod o faich – Gwahanol gyfrifoldebau mewn ysgolion bach iawn.
7. Cwricwlwm i Gymru		<ul style="list-style-type: none"> ▪ Gallai fod llai o gyfleoedd i gyfoethogi'r cwricwlwm mewn ysgolion bach, oherwydd llai o adnoddau a chyllid. ▪ Cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cyd-gynllunio rhwng athrawon mewn ysgolion bach iawn.

6.4 Adolygu'r ddarpariaeth ysgol a gwasanaeth yn Ysgol Carreglefn, gan edrych ar enghreifftiau megis:

- ❖ **Clystyru, cydweithio rhwng Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfdechell** h.y. dod ag ysgolion at ei gilydd i wneud gwell defnydd o adnoddau, cronni arbenigedd a chaniatáu i ysgolion archwilio ffyrdd o wneud pethau'n fwy effeithiol ac effeithlon.
- ❖ **Defnyddio'r ysgolion fel hybiau cymunedol i gynnwys/cefnogi gwasanaethau cymunedol e.e. iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu i deuluoedd ac oedolion, addysg gymunedol, chwaraeon, hamdden, gweithgaredd cymdeithasol**
- ❖ **Cytleoli gwasanaethau lleol o fewn ysgolion**

Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf.

Gyrrwr	Cyfleoedd	Heriau
8.Yr Iaith Gymraeg	Byddai'n cynnal y ddarpariaeth bresennol yn yr ysgolion ac o fewn y cymunedau.	
9.Defnydd cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> ▪Byddai'r ddarpariaeth ysgol yn parhau yn y ddwy gymuned. ▪Byddai'r defnydd presennol o'r ysgol gan y gymuned yn parhau. ▪Gallai fod mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ar draws y ddau bentref o ganlyniad i'r trefniant clystyru / cydweithio. ▪Gallai fod cyfleoedd i gynyddu defnydd cymunedol o'r adeilad trwy gydweithio â'r gwasanaethau a fyddai'n meddiannu safle'r ysgol. 	
10. Datgarboneiddio	<ul style="list-style-type: none"> ▪Dim cynnydd mewn allyriadau carbon oherwydd pellteroedd teithio pellach i ac o'r ysgol. 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ni fyddai unrhyw ostyngiad yn yr ôl troed carbon adeiladau'r ysgolion.
11.Materion cyffredinol	<ul style="list-style-type: none"> ▪Byddai ddarpariaeth addysg yn parhau ar bob safle ysgol. ▪Amhariad lleiaf ar ddisgyblion, rhieni a staff gan y byddai'r ysgolion yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol. ▪Pob ysgol yn parhau i fod yn annibynnol. 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae cytundebau clystyru / cydweithio ffurfiol yn araf i ddatblygu yng Nghymru. ▪ Posibilrwydd o faterion diogelu plant ychwanegol, gyda gwasanaethau eraill yn rhannu safle'r ysgol. ▪ Anodd denu gwasanaethau addas oherwydd bod y Cyngor yn tynnu gwasanaethau'n ôl i'r Pencadlys yn Llangefni i gynorthwyo'r agenda effeithlonrwydd.

Opsiynau eraill a ystyriwyd, ond na chawsant eu hystyried fel rhai rhesymol

Yn ogystal â'r uchod, ystyriwyd yr opsiynau canlynol hefyd, ond ni chawsant eu hystyried yn rhesymol am y rhesymau a grynoir isod.

Cyf	Disgrifiad	Prif Resymau dros Wrthod
6.5	Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Llanfechell i Ysgol Carreglefn a chau Ysgol Llanfechell	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Nid oes digon o le yn Ysgol Carreglefn i dderbyn disgyblion o Ysgol Llanfechell. Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i ehangu'r ysgol, a byddai'n dibynnu os oes tir cyfagos ar gael. ▪ Byddai'n arwain at gostau cludiant uwch i gludo disgyblion o Lanfechell i Ysgol Carreglefn. ▪ Byddai'n arwain at fwy o draffig ar hyd ffordd un lôn, lle mae mynediad i'r ysgol yn cael ei ystyried yn wael.
6.6	Cadw'r Status Quo - Gadael Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell fel y maent	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae'n annhebygol y byddai unrhyw newid yn yr amrywiaeth ym maint dosbarthiadau na nifer yr ystodau oedran a addysgir yn y CS a CA2. ▪ Llai o gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda disgyblion o'r un oedran mewn ysgolion bach iawn. ▪ Yn debygol o barhau i fod yn anodd mynd i'r afael â heriau Arweinyddiaeth a Rheolaeth. ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i leihau lleoedd dros ben. ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i leihau amrywiad mewn cost fesul disgybl a sicrhau bod cyllideb ddirprwyedig yr ysgol yn cael ei defnyddio'n effeithlon a theg. ▪ Ni fyddai'n cyfrannu at yr agenda o weithio tuag at ddod yn Sero Net.
6.7	Un ysgol aml-safle (2 safle – safle presennol Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell). Pob safle ar gyfer ystod oedran penodol, er enghraifft; Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Carreglefn, a CA2 yn Ysgol Llanfechell.	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Yn logistaidd, gallai fod yn broblemus i Rieni / Gwarcheidwaid godi a gollwng brodyr a chworydd o ddau safle ar wahân, fel arall byddai'n arwain at gostau cludiant ychwanegol. ▪ Gall disgyblion gymryd cam yn ôl wrth bontio rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 – yn debyg i'r camau yn ôl a brofir pan fydd disgyblion yn trosglwyddo o flwyddyn 6 i flwyddyn 7. ▪ Efallai na fydd athrawon mor gyfarwydd â disgyblion a'u lefelau datblygiad pan fyddant yn trosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2. ▪ Ni fyddai'n cyfrannu at yr agenda o weithio tuag at ddod yn Sero Net.
6.8	Mynd i'r afael â chostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yn y ddwy ysgol	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae'n annhebygol y byddai unrhyw newid yn yr amrywiaeth ym maint dosbarthiadau na nifer yr ystodau oedran a addysgir yn y CS a CA2. ▪ Llai o gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda disgyblion o'r un oedran mewn ysgolion bach iawn. ▪ Yn debygol o barhau i fod yn anodd mynd i'r afael â heriau Arweinyddiaeth a Rheolaeth. ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i leihau lleoedd dros ben. ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i leihau amrywiad mewn cost fesul disgybl a sicrhau bod cyllideb ddirprwyedig yr ysgol yn cael ei defnyddio'n effeithlon a theg.
6.9	Lleihau ôl troed / arwynebedd adeilad ysgol Ysgol Carreglefn	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dim newid ym maint dosbarthiadau na nifer yr ystodau oedran a addysgir yn y CS a CA2. ▪ Llai o gyfleoedd i weithio ar y cyd gyda disgyblion o'r un oedran mewn ysgolion bach iawn. ▪ Yn debygol o barhau i fod yn anodd mynd i'r afael â heriau Arweinyddiaeth a Rheolaeth. ▪ Mae'r gostyngiad yn y gost fesul disgybl yn debygol o fod yn fach iawn. Rhagwelir y bydd y gost fesul disgybl yn Ysgol Carreglefn yn debygol o barhau i fod ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Nid yw'n sicrhau'n ddigonol bod cyllideb ddirprwyedig yr ysgol yn cael ei defnyddio'n effeithlon a theg.
6.10	Ysgol Ardal Newydd ar gyfer Disgyblion Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Er y byddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â llawer o'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell mewn perthynas ag adeiladau ysgol, byddai Cost Cyfalaf

Cyf	Disgrifiad	Prif Resymau dros Wrthod
		sylweddol yn gysylltiedig â hynny. Ni fyddai'n gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor. <ul style="list-style-type: none"> ▪ Byddai'r cyngor yn ystyried ysgol newydd o'r maint hwn (tua 80-90 o ddisgyblion) yn rhy fach.

Fel yr amlygwyd uchod, mae'r Awdurdod wedi ystyried nifer o opsiynau amgen rhesymol, a **daw i'r casgliad mai'r cynnig i "Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn"** yw'r cynnig sy'n cynnig yr ateb gorau o ran mynd i'r afael â'r gyrwyr allweddol (a nodir yn adran 4) ar gyfer yr ardal. **Pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn, rhagwelir y byddai Ysgol Carreglefn yn cau ym mis Awst 2024, a'r disgyblion yn cael eu trosglwyddo i Ysgol Llanfechell o Medi 2024.** Byddai dalgylch Ysgol Llanfechell yn cael ei ymestyn i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Carreglefn.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn parhau i adolygu perfformiad Ysgol Llanfechell, a gall ailymweld â'r ysgol yn y dyfodol, os bydd angen.

7. Y RHAGDYBIAETH YN ERBYN CAU YSGOL GARREGLEFN

Gan fod y cynnig uchod yn cynnwys y posibilrwydd o gau Ysgol Carreglefn, sydd ar y rhestr o ysgolion gwledig [Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018)] caiff pob opsiwn amgen rhesymol a ystyriwyd yn yr adran ei asesu yn y tabl yn 7.2 mewn perthynas â'r effaith debygol ar:

- Ansawdd a Safonau Addysg
- y gymuned, a
- threfniadau teithio ar gyfer disgyblion.

Mae asesiad effaith cymunedol wedi ei baratoi (gweler Atodiad 2) i archwilio effaith tymor hir cyffredinol cau'r ysgol wledig ar y bobl a'r gymuned. Cafwyd manylion y gweithgareddau cymunedol sydd ar gael yn lleol yng Ngharreglefn a Llanfechell o holiadur a gwblhawyd gan yr ysgolion. Mae hon yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddarw wrth i ni symud ymlaen trwy'r broses o wneud penderfyniad.

Mae Adran 7.1 yn nodi sut y gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion â'r ddwy ysgol ac unrhyw gyfleusterau y mae'n eu cynnig (e.e. sut y gellid helpu disgyblion, yn enwedig disgyblion llai breintiedig, i gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol).

7.1 Ymgysylltiad rhieni a disgyblion ag Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell

Byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau y byddai teuluoedd, rhieni a disgyblion yn cael y budd mwyaf o ymgysylltu a defnyddio'r cyfleusterau yn Llanfechell.

Gallai'r ymgysylltu fod yn amlochrog a gallai gynnwys rhai o'r canlynol:

Gweithgareddau allgyrsiol	Clybiau (Llanfechell) – Urdd, Coginio, Athletau, Clybiau Ffilm a chlybiau Codio Cyfrifiadurol. Clybiau (Carreglefn) – Clwb aml-weithgaredd.
Darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol	Llanfechell: Gofal plant boreol a Chlwb Brecwast, Cylch Meithrin. Carreglefn: Gofal plant boreol a Chlwb Brecwast.
Defnydd o gyfleusterau'r ysgol	Defnydd o dir yr ysgol ar gyfer gweithgareddau amrywiol yn cynnwys: Llanfechell: Whist, Clwb Pensiynwyr, Pwyllgor Y Gymuned, Ffair Mechell, Merched y Wawr, Cyfeillion Mechell, Mon Actif, Clwb Y Popis, Clwb Yoga, Ti a Fi. Carreglefn: Whist, Clwb y Cen, Cyngor Cymuned, Pwyllgor Cymuned, Noson Garolau Cymunedol, Pwyllgor Maes Coffa, Gwasanaeth Cofio, Clwb Clytwaith, Arddangosfa Creffau Clwb Clytwaith.

* Cafwyd manylion y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion o holiaduron a gwblhawyd gan y Penaethiaid.

Os gwireddir y cynnig, byddai disgwyl i Ysgol Llanfechell gynnal y ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â chlybiau. Yng nghyd-destun gweithgareddau allgyrsiol anogir pob disgybl, beth bynnag fo'i gefndir, i gymryd rhan gyda'r disgwyliad ar yr ysgol i wneud trefniadau addas i alluogi disgyblion llai breintiedig i gymryd rhan. Gallai'r trefniadau hyn gynnwys, ond ni fyddent yn gyfyngedig i, glybiau a gynhelir yn ystod yr awr ginio, trefniadau gyda rhieni ar gyfer casglu a chlydiant a darparu cludiant ar ôl ysgol.

Mae Ysgol Llanfechell yn darparu darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol ar hyn o bryd. Mae darpariaeth Feithrin (Cylch Meithrin) yn Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin ar safle'r ysgol, ond yn annibynnol yn ariannol ar Ysgol Llanfechell. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig.

Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth cyn ysgol yng Ngharreglefn, ac eithrio dosbarth meithrin yr ysgol, ar gyfer plant sy'n 3 oed cyn 1 Medi yn unrhyw flwyddyn.

Byddai'r cyfleusterau yn Ysgol Llanfechell yn parhau i fod ar gael at ddefnydd y gymuned. Byddai'r Cyngor y dymuno gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol yng Ngharreglefn i rhoi cyfle i sicrhau

hyfywedd tymor hir adeilad yr ysgol fel y gellir cynnal y ddarpariaeth gymunedol pe bai angen. Gallai unrhyw weithgareddau lle byddai'r niferoedd dan sylw yn fwy na chapasiti Ysgol Carreglefn gael eu cynnal yn Ysgol Llanfechell.

7.2 Os nodwyd bod yr opsiwn amgen rhesymol yn fuddiol yna nodir ei fod yn gadarnhaol. Nodir bod opsiwn amgen rhesymol a allai fod yn niweidiol yn negyddol. Caiff opsiwn amgen rhesymol nad yw'n cael effaith sylweddol ei nodi fel niwtral.

Opsionau amgen rhesymol ar gyfer Ysgol Carreglefn [adran 6]	Effaith ar Ansawdd a Safonau	Effaith ar y Gymuned	Effaith ar drefniadau teithio gwahanol
Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell, a chau Ysgol Carreglefn (6.1 – Y Cynnig)	Cadarnhaol Posibilrwydd o gynnal safonau. Mae'n lleihau'r amrywiad ym maint dosbarthiadau, a nifer yr ystodau oedran sy'n cael eu haddysgu gyda'i gilydd. Byddai mwy o gyfleoedd i blant o'r un oedran gydweithio. Mae safonau Ysgol Llanfechell o leiaf yn cyfateb i rai Ysgol Carreglefn.	Cadarnhaol Byddai'r Cyngor eisiau gweithio gyda'r gymuned i rhoi cyfle i sicrhau parhad adeilad ysgol Carreglefn er budd y gymuned leol pe bai angen. Efallai y bydd disgyblion o Garreglefn yn cael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.	Negyddol Amser teithio ychwanegol i rai disgyblion. Byddai disgyblion o Ysgol Carreglefn yn annhebygol o gerdded neu feicio i'r ysgol. Ni fyddai'r amser teithio ychwanegol yn sylweddol. Dim ond 2.2 milltir yw'r pellter rhwng Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell. Mae llai na 47% o ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Carreglefn yn mynychu Ysgol Carreglefn.
Un ysgol aml-safle (2 safle – safle presennol Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell) (6.2)	Niwtral Gallai fod cyfleoedd i rannu arbenigedd staff ac arfer da. Mae'n annhebygol y byddai unrhyw newid yn yr amrywiaeth ym maint dosbarthiadau nac yn nifer yr ystodau oedran a addysgir yn y CS a CA2. Gall fod yn anodd datblygu methodoleg addysgu gyson ar 2 safle. Gallai fod cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cydweithio rhwng disgyblion o'r un oedran.	Cadarnhaol Posibilrwydd cyfuno gweithgareddau ar gyfer disgyblion trwy gyfleoedd cydgyssylltiedig ar gyfer plant oed tebyg o wahanol ysgolion. Byddai'r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol yn parhau ym mhob ardal.	Niwtral Byddai trefniadau teithio disgyblion aros fel y maent.
Ffedereiddio Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell (6.3)	Niwtral Gallai fod cyfleoedd i rannu arbenigedd staff ac arfer da. Mae'n annhebygol y byddai unrhyw newid yn yr amrywiaeth ym maint dosbarthiadau nac yn nifer yr ystodau oedran a addysgir yn y CS a CA2. Gall fod yn anoddach datblygu methodoleg addysgu gyson ar 2 safle. Gallai fod cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cydweithio rhwng disgyblion o'r un oedran.	Cadarnhaol Posibilrwydd cyfuno gweithgareddau ar gyfer disgyblion trwy gyfleoedd cydgyssylltiedig ar gyfer plant oed tebyg o wahanol ysgolion. Byddai'r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol yn parhau ym mhob ardal.	Niwtral Byddai trefniadau teithio disgyblion aros fel y maent.
Clystyru, cydweithio,	Niwtral	Cadarnhaol	Niwtral

Opsionau amgen rhesymol ar gyfer Ysgol Carreglefn [adran 6]	Effaith ar Ansawdd a Safonau	Effaith ar y Gymuned	Effaith ar drefniadau teithio gwahanol
defnyddio ysgolion fel hybiau cymunedol neu gydeoli gwasanaethau o fewn Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell (6.4)	<p>Posibilrwydd cyfuno gweithgareddau ar gyfer disgyblion trwy gyfleoedd cydgyssylltiedig ar gyfer plant oed tebyg o wahanol ysgolion.</p> <p>Gallai fod cyfleoedd i rannu arbenigedd staff ac arfer da.</p> <p>Byddai capasiti arweinyddiaeth a rheolaeth yn aros yr un fath.</p> <p>Mae'n annhebygol y byddai unrhyw newid yn yr amrywiaeth ym maint dosbarthiadau nac yn nifer yr ystodau oedran a addysgir yn y CS a CA2.</p> <p>Gallai fod cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cydweithio rhwng disgyblion o'r un oedran.</p>	<p>Posibilrwydd cyfuno gweithgareddau ar gyfer disgyblion trwy gyfleoedd cydgyssylltiedig ar gyfer plant oed tebyg o wahanol ysgolion.</p> <p>Byddai'r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol yn parhau ym mhob ardal.</p>	Byddai trefniadau teithio disgyblion aros fel y maent.

Mae'r tabl uchod yn dangos bod rhai effeithiau cadarnhaol a negyddol yn gysylltiedig â'r opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd. Mae'r dadansoddiad yn dangos bod y cynnig i drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell, cau Ysgol Carreglefn, ac ymestyn dalgylch Ysgol Llanfechell yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar safonau, agweddau cymunedol a threfniadau teithio disgyblion. Tra bod y tabl uchod yn dangos y bydd y bwriad yn cael effaith negyddol ar drefniadau teithio, ni ragwelir y bydd yr effaith negyddol yma yn arwyddocaol. Lleolir Ysgol Llanfechell 2.2 milltir yn unig o Ysgol Carreglefn, ac ar hyn o bryd dim ond 47% o ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Carreglefn sy'n mynychu'r ysgol.

Ategir y dadansoddiad hwn gan ymrwymiad yr Awdurdod i:

- weithio gyda chymuned Carreglefn i sicrhau hyfywedd tymor hir adeilad presennol yr ysgol fel adnodd cymunedol, a;
- darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion, gan nad yw'r ffordd rhwng Carreglefn a Llanfechell yn addas i ddysgwyr o'r oedran hwnnw gerdded i ac o'r ysgol.

8. EFFAITH ARIANNOL OS GWEITHREDIR Y CYNNIG

Rhagwelir y gallai swm y cyllid a ddirprwyir i ysgolion drwy fformiwla ariannu ysgolion yr awdurdod leihau tua £126,390 y flwyddyn ar ôl gweithredu'r cynnig.

Gallai'r arbediad hwn gyfrannu at y diffyg tebygol yn y gyllideb y mae'n debygol y bydd angen i'r awdurdod fynd i'r afael ag ef yn y dyfodol agos. Gallai'r cynnig hefyd leihau'r costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yn y dyfodol o £317,350.

Disgwylir y bydd y gost ychwanegol i gludo disgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant ysgol yr Awdurdod yn fach iawn, gan fod bws eisoes yn gwasanaethu Ysgol Carreglefn, a dim ond 2.2 milltir yw'r pellter ychwanegol o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell.

Nid oes unrhyw gostau cyfalaf yn gysylltiedig â'r prosiect hwn.

Efallai y bydd rhai costau trosiannol tymor byr y bydd angen eu hariannu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- costau diswyddo posibl;
- gwarchodaeth cyflog posibl i staff;
- cost bosibl sy'n gysylltiedig ag eiddo hyd nes y caiff yr adeilad ei drosglwyddo o berchnogaeth yr awdurdod.

Mae'n anodd amcangyfrif y costau trosiannol, gan eu bod yn ddibynnol iawn ar y staff dan sylw. Gallai'r holl gostau trosiannol godi ym mlwyddyn 1, neu gallent gael eu hysgwyddo dros gyfnod o 3 blynedd.

Mae'r gost drosiannol fesul blwyddyn ariannol wedi'i hamcangyfrif yn y tabl isod:

Blwyddyn Ariannol	Uchafswm y Gost Drosiannol (Amcangyfrif)
2024/25	£35,000
2025/26	£4,000
2026/27	£4,000
2027/28	£4,000

Byddai angen i'r costau refeniw hyn gael eu hariannu gan yr Awdurdod ac felly mae angen eu cynnwys yn y cylch gosod cyllideb o 2024/25.

Wedi ystyried yr holl oblygiadau cost uchod, byddai'r cynnig, o'i wireddu, yn lleihau costau refeniw o tua £580k dros gyfnod o 5 mlynedd, yn ogystal â lleihau costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol o £317,350 (cyn ystyried unrhyw chwyddiant neu ddirywiad pellach yn safon adeilad yr ysgol).

Gallai'r cynnig fynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul disgybl fel y dangosir isod. Mae'r tablau isod yn dangos y gost gyfredol fesul disgybl, a'r gost amcangyfrifedig fesul disgybl pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu:

Ysgol	Carreglefn	Llanfechell	Cyfartaledd Ynys Môn (Cynradd)
Cost Gyfredol fesul Disgybl (2023/24)	£17,200	£5,524	£5,240

Ysgol	Llanfechell	Cyfartaledd Ynys Môn (Cynradd)	Amrywiad
Cost Ragamcannol fesul Disgybl os caiff y cynnig ei weithredu (yn seiliedig ar gyllidebau ysgol 2023/24)	£5,396	£5,215	£181 (3% yn uwch na chyfartaledd Ynys Môn ar gyfer ysgolion cynradd)

9. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ofalus o'r opsiynau amgen rhesymol ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell (gweler adran 6) a'u heffaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, y gymuned a threfniadau teithio'r disgyblion (adran 7), y cynnig a ffafrir gan yr Awdurdod yw:

“Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn”.

Mae'r Cyngor o'r farn mai'r cynnig hwn yw'r ateb gorau posibl sy'n mynd i'r afael â'r gyrrwyr allweddol ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell.

Mae ganddo'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar **safonau** yn yr ystyr

- y byddai'r ymarfer yn Ysgol Llanfechell yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion Carreglefn;
 - y byddai'n gweithio tuag at sicrhau na fyddai'r ystod oedran mewn dosbarthiadau yn fwy na dwy flynedd;
- y gallai leihau ymrwymiad addysgu penodol y pennaeth.

Mae ganddo'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar y **gymuned** ar y cyfan gan ei fod yn cynnig y posibilrwydd o barhad adeilad ysgol Carreglefn fel ased cymunedol. Yn ogystal, byddai'r cyfleusterau yn Llanfechell ar gael i'w defnyddio pe bai nifer y bobl sy'n mynychu gweithgaredd yng Ngharreglefn yn debygol o fod yn fwy na chynhwysedd adeilad yr ysgol bresennol. Efallai y byddai disgyblion o Garreglefn hefyd yn cael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn Llanfechell.

Mae'n debygol o gael effaith negyddol fach ar **drefniadau teithio disgyblion** yn yr ystyr y gallai fod angen i ddisgyblion o Garreglefn deithio ymhellach i'w hysgol ddalgylch. Mae'r Awdurdod yn cynnig darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cymwys o ddalgylch presennol Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion, gan fod y ffordd rhwng Carreglefn a Llanfechell yn anaddas i ddysgwyr o'r oedran hwnnw gerdded i ac o'r ysgol.

Mae'r cynnig yn cyd fynd ag amcanion ac egwyddorion y Cyngor sy'n anelu at:

- Darparu'r safonau addysg gorau i bobl ifanc.
- Cynyddu capasiti ar gyfer datblygu arweinyddiaeth effeithiol yn ein hysgolion ac i gynllunio olyniaeth.
- Sicrhau adeiladau ac amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel ac addas i'r diben.
- Darparu addysg sy'n cyfateb i ofynion poblogaeth yr ynys. Lleihau lleoedd dros ben er mwyn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau
- Sicrhau y gall ysgolion weithredu'n effeithiol o fewn y gyllideb sydd ar gael. Anelu at leihau'r ystod gwariant fesul disgybl, gan sicrhau mwy o gyfle cyfartal ar draws ysgolion.
- Gwella mynediad er mwyn sicrhau lles, gofal ac iechyd yn ein hysgolion
- Sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau a'r gallu i yrru Cwricwlwm i Gymru yn ei flaen yn llwyddiannus.
- Cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i'n holl ddysgwyr.
- Ehangu'r defnydd o adeiladau a chyfleusterau ysgolion gan rieni, y gymuned a thrigolion hŷn.
- Sicrhau bod ein hysgolion yn gynaliadwy ac yn cyfrannu at agenda Sero Net y Cyngor.

Yn ogystal, ac er mwyn gwireddu'r cynnig, byddai'r Cyngor yn ymateb i faterion penodol sydd wedi codi trwy'r asesiadau effaith a gynhaliwyd, trwy:

- ddarparu gwasanaeth bws i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant ysgol yr Awdurdod;
- gweithio gyda'r gymuned yng Ngharreglefn gyda'r bwriad o rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn pe bai angen.



Cynnig i:

“Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn”

ASESIAD EFFAITH

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Dyddiad dechrau'r asesiad	18 Ionawr 2024
Y swyddog sy'n gyfrifol am yr asesiad	Marc B Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Dyddiad yr adolygiad	Mae hon yn ddogfen waith a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd unrhyw effeithiau ychwanegol sy'n deillio o'r cyfnod gwrthwynebu yn cael eu hadlewyrchu mewn fersiwn ddiwygiedig a gyhoeddir fel rhan o'r Adroddiad gwrthwynebu maes o law.

Mae copïau caled o'r adroddiad hwn ar gael ar gais drwy anfon e-bost at ysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru

1.	CYFLWYNIAD	3
2.	ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB	4
2.1	Cefndir – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.....	5
2.2	Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.....	7
2.3	Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998	8
2.4	Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – gweler adran 8.....	8
2.5	Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori	8
2.6	Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru.....	10
2.7	Canlyniad yr asesiad.....	16
2.8	Cynllun Gweithredu	18
3.	ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG	19
3.1	Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg.....	20
3.2	Yr effaith ar ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg	21
3.3	Yr effaith ar gymunedau Cymraeg	22
3.4	Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisiau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg.....	23
3.5	Yr effeithiau sydd wedi eu nodi a'u hasesu.....	25
3.6	Ymgynghori.....	27
3.7	Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus	27
4	ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED	28
5	CASGLIAD	39
6	<i>Gwybodaeth bellach - Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol</i>	40
7	<i>Gwybodaeth bellach – Hawliau Dynol</i>	42
8	<i>Gwybodaeth bellach - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</i>	43

ATODIAD 1

1. CYFLWYNIAD

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (011/2018) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, y Gymraeg a'r gymuned wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth ysgolion.

Y cynnig dan sylw yw:

“Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn”

Gwahoddwyd y Penaethiaid a'r Cynghorau Cymuned i gwblhau holiadur i asesu'r defnydd presennol a'r defnydd cymunedol o'r ysgolion a darparu manylion am gyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu ehangach.

Roedd y data a'r dystiolaeth a gasglwyd at ddibenion yr asesiadau yn seiliedig ar y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2023*, yr niferoedd ar y gofrestr ar 16 Ionawr 2024 (dyddiad CYBLD ar gyfer 2024) ac ystadegau a dderbyniwyd gan Benaethiaid ym mis Medi 2023.

*Mae ystadegau megis nifer siaradwyr Cymraeg ac ati wedi ei cael o Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2023, gan bod data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2024 heb ei gyhoeddi eto.

Mae'r ddogfen yn cynnwys:

Adran 2 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Adran 3 – Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Adran 4 – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Adran 5 – Casgliad

Mae'r asesiad effaith wedi ystyried ymrwymiad y Cyngor i'r canlynol:

- Darparu cludiant i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion, gan nad yw'r ffordd rhwng Carreglefn a Llanfechell yn addas i ddysgwyr o'r oedran hwnnw gerdded i ac o'r ysgol.
- Gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn pe bai angen.

Mae hon yn ddogfen waith a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd cyfle i randdeiliaid gyfrannu at yr asesiadau effaith.

Hanes adolygu:		
Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o newidiadau
0.1	18 Ionawr 2024	Drafft cyntaf

ATODIAD 1

2. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gynnal i fodloni gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (011/2018).

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Gyffredinol ar gyrrff cyhoeddus wrth gyflawni eu swyddogaethau i roi sylw dyledus i'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â sicrhau tegwch ac mae'n diogelu'r naw nodwedd ganlynol (a elwir hefyd yn 'grwpiau gwarchoddedig'):

- Oedran
- Anabledd
- Rhyw
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred.
- Cyfeiriadedd rhywiol

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau uchod i helpu cyrrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Mae dyletswyddau penodol yn cynnwys gofyniad i asesu effaith ei bolisiau a'i arferion ar grwpiau a warchodir gan y Ddeddf. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r awdurdod ystyried tystiolaeth berthnasol i ddeall effaith debygol neu wirioneddol ei bolisiau a'i arferion ar grwpiau gwarchoddedig a rhoi 'sylw dyledus' (h.y., rhoi pwysau priodol) i ganlyniadau asesiadau o'r fath.

Bydd ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth lunio'r achosion busnes, yn ystod y broses o ddatblygu'r prosiect ac, os cânt eu gweithredu, bydd yr effaith wirioneddol yn cael ei monitro. Bydd y ddogfen asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei diweddarau'n rheolaidd i sicrhau bod pawb yn cael ystyriaeth deg.

2.1 Cefndir – Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb	
Beth sy’n cael ei asesu?	Y cynnig sy’n cael ei asesu yw “Trosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn”
Ydy’r cynnig hwn yn un newydd neu’n un sy’n bodoli eisoes?	Mae hwn yn gynnig newydd.
Beth yw nodau a phwrpas y cynnig hwn?	<p>Pwrpas y cynnig hwn yw gwella effeithlonrwydd ysgolion a sicrhau cyllid teg.</p> <p>Mae Ysgol Carreglefn wedi ei blaenoriaethu gan fod ganddi 80% o leoedd dros ben (Ionawr 2024), a chost fesul disgybl o £17,200 sef yr uchaf o holl ysgolion cynradd Cymru ar gyfer 2023/24. Yn Ionawr 2024, dim ond 9 disgybl oedd yn Ysgol Carreglefn, ac mae 4 o’r rhain ym mlwyddyn 6.</p> <p>Byddai disgwyl i’r cynnig, o’i wireddu, ddod â’r buddion a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gellid dileu lleoedd dros ben yn Ysgol Carreglefn, a lleihau lleoedd dros ben yn Ysgol Llanfechell. • Gallai’r amrywiad mewn cost fesul disgybl ar draws holl ysgolion Ynys Môn leihau’n sylweddol. • Gallai’r gost fesul disgybl yn Ysgol Llanfechell leihau, ac amcangyfrifir ei fod yn agos iawn at gyfartaledd Ynys Môn ar gyfer ysgolion cynradd. • Amcangyfrifir y bydd y cynnig yn cyflawni arbediad refeniw o £126k y flwyddyn • Byddai disgwyl i allyriadau carbon ostwng 13tCO₂e • Gellid dyrannu mwy o’r Gyllideb Ysgolion Ddirprwyedig ar addysgu, gyda llai o adnoddau’n cael eu dyrannu tuag at gynnal a rhedeg adeiladau • Gellid gostwng costau Cynnal a Chadw Presennol a Rhagamcannol o £317,350. Gallai fod llai o adeiladau i’r awdurdod eu cynnal a’u cadw yn y blynyddoedd i ddod, a allai gyfrannu at well rheolaeth strategol o’r ystâd ysgolion yn y dyfodol. • Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn drochi yn yr Iaith Gymraeg gyda disgyblion eraill sy’n siarad Cymraeg yn Ysgol Llanfechell. • Byddai cwricwlwm ehangach a mwy cytbwys ar gael i ddysgwyr o Garreglefn

ATODIAD 1

2.1 Cefndir – Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?	Marc B. Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc	
Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr aseiad yma?	Arwyn Hughes, Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol)	
Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr aseiad hwn?	Aaron Evans – Uwch Reolwr – Sector Uwchradd Alun Roberts - Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol) Emrys Bebb - Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol) Carol Sorahan – Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol)	
Oes yna gyswllt rhwng y cynnig hwn a meysydd gwaith eraill?	Oes - Mae'r cynnig hwn yn gyson ag amcanion y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg a fabwysiadwyd gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ar 18 Gorffennaf 2023. Fodd bynnag, asesir pob cynnig yn ôl ei rinweddau ei hun.	
Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Fel rheol, mae unrhyw gynnis sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grwp a warchodir.	Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu	✓
	Hyrwyddo cyfle cyfartal	✓
	Meithrin cysylltiadau da	✓
	Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol	✓
Ydy'r cynnig yn benderfyniad strategol? Os hynny, mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol (Beth yw'r Ddyletswydd? – ceir eglurhad yn Adran 6)	Yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion mae Ysgol Carreglefn yn cael ei nodi fel ysgol wledig. Mae'n bosibl felly y gallai'r cynnig gael mwy o effaith ar unigolion oherwydd amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd. Bydd y Cyngor yn ceisio lliniaru'r risg yma trwy gydweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn fel adnodd cymunedol os bydd angen.	

ATODIAD 1

2.1 Cefndir – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

<p>Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?</p> <p>Os yw'r penderfyniad yn un strategol, sicrhewch eich bod yn ystyried yn benodol a fyddai'r cynnig yn effeithio mwy ar bobl sy'n byw mewn amgylchiadau economaidd-gymdeithasol llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas</p>	<p>Ar gyfer Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell, byddai'r canlynol yn cael eu heffeithio: Staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni disgyblion yr ysgolion, aelodau o'r gymuned sy'n defnyddio'r ysgolion.</p> <p>Mae Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell ill dau yn cael eu nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel ysgolion gwledig. Mae'n bosibl felly y gallai'r cynnig gael mwy o effaith ar unigolion oherwydd amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd.</p> <p>Bydd y Cyngor yn ceisio lliniaru'r risg yma drwy gydweithio gyda'r gymuned yng Ngharreglefn gyda golwg ar sicrhau dyfodol tymor hir i adeilad ysgol Carreglefn.</p>
---	--

2.2 Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

<p>A yw'r cynnig hwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?</p>	<p>Ydy – asesir hyn ar wahân yn rhan Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg o'r ddogfen hon</p>
<p>Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?</p>	<p>Mae Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, gyda'r ddwy yng nghategori 3 o ran categori iaith (lle mae'r Gymraeg yn brif iaith yr ysgol, lle mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf, a bydd pob disgybl yn cael ei gefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg tu fewn a thu allan i'r dosbarth). Felly ni fyddai unrhyw newid yn y categori iaith.</p> <p>Ym mis Ionawr 2023 (CYBLD), dim ond 10% o ddisgyblion Ysgol Carreglefn sy'n siarad Cymraeg gartref, tra bod 48% o ddisgyblion Llanfechell yn siarad Cymraeg gartref. Gallai'r cynnig felly gyflwyno mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn drochi yn yr iaith Gymraeg gyda disgyblion eraill sy'n siarad Cymraeg yn Ysgol Llanfechell.</p>

ATODIAD 1

A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?	Bydd – mae hyn yn cael ei asesu ar wahân yn yr adran ar yr Asesiad Effaith ar Iaith yn y ddogfen hon	
A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?	Byddai gwireddu'r cynnig yn gwarchod ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn Ysgol Llanfechell ac yn ardal Carreglefn a Llanfechell.	
2.3 Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998		
Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion hyn?	Nid oes unrhyw faterion Hawliau Dynol wedi'u nodi. (Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn adran 7).	
2.4 Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – gweler adran 8		
Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?	Cymru lewyrchus	Ydy
	Cymru gydnerth	Ydy
	Cymru iachach	Ydy
	Cymru sy'n fwy cyfartal	Ydy
	Cymru o gymunedau cydlynus	Ydy
	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Ydy
	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Ydy
2.5 Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori		
Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig yma?	Cyflwynir papur cynnig i Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn i geisio penderfyniad i gyhoeddi Rhybydd Statudol ar y cynnig hwn, yn unol â'r broses a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. O ddyddiad cyhoeddi'r Rhybydd Statudol, bydd gan rhanddeiliaid 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynnig (cyfeirir at y cyfnod hwn fel cyfnod gwrthwynebu). Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ynghyd ag ymateb Y Cyngor iddynt, cyn i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu i unai cymeradwyo, gwrthod neu addasu'r cynnig.	
Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei ddefnyddio fel rhan o'ch asesiad? Os ydych, rhwch fanylion:	Mae'r wybodaeth ganlynol am yr ysgolion wedi'i chynnwys: Cydbwysedd rhyw, data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ethnigrwydd, a iaith Anfonwyd holiaduron at Benaethiaid Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell ac mae'r wybodaeth a ddarparwyd ganddynt yn gynwysedig yn yr asesiad hwn.	
Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?	Ni nodwyd unrhyw fylchau ar hyn o bryd.	

ATODIAD 1

A yw'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus sy'n ymwneud â phobl a warchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?	Ydy	Nac ydy
Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu	√	
Hyrwyddo cyfle cyfartal	√	
Meithrin cysylltiadau da	√	
Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol	√	

2.6 Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma. *Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewiswch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Niwtral**

Y grŵp / a warchodir	*Yr effaith debygol	Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)	Camau i liniaru effaith negyddol
Oed	Cadarnhaol	<p>Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu addysg amser llawn i blant a phobl ifanc 4-16 oed. Mae Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell ar hyn o bryd yn derbyn disgyblion o 3 oed ymlaen. Os gwireddir y cynnig bydd Ysgol Llanfechell yn parhau i dderbyn disgyblion o 3 oed ymlaen. Mae yna hefyd Gylch Meithrin ar dir Ysgol Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin yn endid ar wahân (ac yn annibynnol yn ariannol) i'r ysgol, sy'n darparu addysg blynnyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig. Nid oes darpariaeth o'r fath yng Ngharreglefn.</p> <p>Er bod y Cylch Meithrin yn annibynnol ar Ysgol Llanfechell, mae'r ddau gorff yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth 'cofleidiol', sy'n golygu y gall disgyblion 3-4 oed drosglwyddo rhwng meithrinfa'r ysgol a'r 'Cylch Meithrin' heb fod angen rhieni / gwarcheidwaid. i fod yn bresennol. Gallai'r cynnig olygu bod mwy o ddisgyblion yn ymuno â'r Cylch Meithrin o ddwy a hanner oed ymlaen.</p>	Byddai disgyblion a fyddai'n trosglwyddo o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell yn cymryd rhan mewn gweithgareddau uno, a fyddai'n cael eu trefnu ar y cyd. Byddai hyn yn rhoi cyfleoedd i'r plant ddod yn gyfarwydd â'i gilydd cyn y newid.
Anabledd	Niwtral	<p>Os gwireddir y cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae adeiladau Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Ni fydd unrhyw newid i 	Bydd yr Awdurdod yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion. Bydd anghenion unigol yn cael eu hasesu ar adeg trosglwyddo i unrhyw ysgol.

ATODIAD 1

Y grŵp / a warchodir	*Yr effaith debygol	Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)	Camau i liniaru effaith negyddol															
		adeiladau Ysgol Llanfechell o dan y cynnig hwn. Byddai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i dderbyn cymorth ychwanegol i ymateb i'w hanghenion addysgol unigol. Mewn ysgol fwy, efallai y bydd staff sy'n arbenigo mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'n bosibl y byddai cynnydd yn nifer y staff yn arwain at ystod ehangach o arbenigedd i allu ymdrin â sbectwm ehangach o ADY.	Bydd yr Awdurdod hefyd yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol ar gyfer anghenion aelodau staff. Pe bai disgybl ag anabledd yn mynychu Ysgol Llanfechell, byddai'r gwaith sydd ei angen er mwyn i'r adeilad gydymffurfio â'i anghenion yn cael ei adolygu a byddai addasiadau'n cael eu gwneud yn unol â hynny. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei flaenoriaethu.															
Rhyw	Niwtral	Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad rhyw presennol a'r rhaniad os caiff y cynnig ei wireddu. Rhaniad rhyw presennol (Ionawr 2023): <table border="1"> <thead> <tr> <th>Rhyw</th> <th>Ysgol Carreglefn</th> <th>Ysgol Llanfechell</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Gwryw</td> <td>50%</td> <td>58%</td> </tr> <tr> <td>Benyw</td> <td>50%</td> <td>42%</td> </tr> </tbody> </table> Rhaniad rhyw os caiff y cynnig ei wireddu: <table border="1"> <thead> <tr> <th>Rhyw</th> <th>Ysgol Llanfechell</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Gwryw</td> <td>57%</td> </tr> <tr> <td>Benyw</td> <td>43%</td> </tr> </tbody> </table> Byddai'r rhaniad rhyw a ragwelir o dan y cynnig yn gymharol gyfartal, ac ni fyddai'n destun pryder.	Rhyw	Ysgol Carreglefn	Ysgol Llanfechell	Gwryw	50%	58%	Benyw	50%	42%	Rhyw	Ysgol Llanfechell	Gwryw	57%	Benyw	43%	Caiff perfformiad pob disgybl ei asesu a'i fonitro, i gynnwys grwpiau penodol fel gwryw a benyw, prydau ysgol am ddim, disgyblion ADY, lleiafrifoedd ethnig, Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), plant mewn gofal a'r rhai rwy galluog a thalentog. Mae perfformiad addysgol bechgyn a merched yn cael ei fonitro'n gyson i sicrhau nad oes gwahaniaethau mawr rhwng gwrywod a benywod a'r gwahanol grwpiau cysylltiedig.
Rhyw	Ysgol Carreglefn	Ysgol Llanfechell																
Gwryw	50%	58%																
Benyw	50%	42%																
Rhyw	Ysgol Llanfechell																	
Gwryw	57%																	
Benyw	43%																	
Ailbennu Rhywedd	Niwtral	Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2023 yn cadw data ar yr agwedd hon. Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn digwydd.	Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif.															
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Niwtral	Ddim yn berthnasol i ddisgyblion yr ysgol.	Mae staff benywaidd sy'n beichiogi yn gymwys am gyfnod mamolaeth yn unol â Chynllun Absenoldeb Mamolaeth Cyngor Sir Ynys Môn. Mae staff gwrywaidd yn gymwys ar gyfer absenoldeb tadolaeth yn unol â'r Polisi															

ATODIAD 1

Y grŵp / a warchodir	*Yr effaith debygol	Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)	Camau i liniaru effaith negyddol				
			Absenoldeb Tadolaeth, neu gall rhieni ofyn am absenoldeb tadolaeth a rennir. Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd neu gymryd gwyliau yn digwydd gyda staff yr ysgol.				
Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd	Niwtral	<p>Data CYBLD Ionawr 2023:</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Ysgol Carreglefn</th> <th>Ysgol Llanfechell</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Gwyn Prydeinig 100%*</td> <td>Gwyn Prydeinig 96%*</td> </tr> </tbody> </table> <p><i>*Nid yw pob disgybl wedi ateb y cwestiwn hwn fel rhan o'r CYBLD. Mae'r ganran uchod yn seiliedig ar ymatebion yr 83% o ddisgyblion a ymatebodd o Ysgol Carreglefn, a'r 97% o ddisgyblion a ymatebodd o Ysgol Llanfechell.</i></p>	Ysgol Carreglefn	Ysgol Llanfechell	Gwyn Prydeinig 100%*	Gwyn Prydeinig 96%*	Os bydd disgyblion o gefndiroedd ethnig eraill yn mynychu'r ysgolion, ni fyddant yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig. Os bydd aelodau staff o gefndiroedd ethnig eraill, ni fyddant yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig.
Ysgol Carreglefn	Ysgol Llanfechell						
Gwyn Prydeinig 100%*	Gwyn Prydeinig 96%*						
Crefydd neu Gred	Niwtral	Nid yw CYBLD Ionawr 2023 yn cadw data ar yr agwedd hon.	Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred yn digwydd. Dewis rhieni yw rhannu gwybodaeth am grefydd neu gred eu plentyn gyda'r ysgol. Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif.				
Cyfeiriadedd Rhywiol	Niwtral	Nid yw CYBLD Ionawr 2023 yn cadw data ar yr agwedd hon	Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn digwydd. Dewis rhieni yw rhannu gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol eu plentyn gyda'r ysgol. Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif.				
Priodas neu bartneriaeth sifil	Niwtral	Ddim yn berthnasol i ddisgyblion yr ysgol.	Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail priodas/neu bartneriaeth sifil yn digwydd gyda staff yr ysgol. Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif.				

ATODIAD 1

Y grŵp / a warchodir	*Yr effaith debygol	Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)	Camau i liniaru effaith negyddol
Yr iaith Gymraeg	Niwtral	<p>Mae CYBLD – Ionawr 2023 yn dangos mai dim ond 10% o ddisgyblion Ysgol Carreglefn sy'n siarad Cymraeg gartref, tra bod 48% o ddisgyblion Ysgol Llanfechell yn siarad Cymraeg gartref. Gallai'r cynnig felly gyflwyno mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn gael eu trochi yn yr iaith Gymraeg gyda disgyblion eraill sy'n siarad Cymraeg yn Ysgol Llanfechell.</p> <p>Fel rhan o'r ymgynghoriad ar Foderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg mynegodd rhai bryderon y gallai cau ysgolion bach/gwledig gael effaith negyddol ar y Gymraeg ac ar gymunedau, gyda rhai yn gweld yr ysgol fel canolbwynt i helpu i drochi mewnfudwyr yn yr iaith Gymraeg.</p>	<p>Byddai gan Ysgol Llanfechell rôl i helpu i drochi mewnfudwyr Carreglefn yn yr iaith Gymraeg. Byddai disgyblion a rhieni Carreglefn yn cael ei annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn Ysgol Llanfechell.</p> <p>Mae Ysgol Llanfechell yn ysgol cyfrwng Cymraeg categori 3 (fel y mae Ysgol Carreglefn), lle mae'r Gymraeg yn brif iaith yr ysgol, lle mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf, a bydd pob disgybl yn cael ei gefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Byddai'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.</p> <p>Byddai'r Cyngor hefyd yn dymuno gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn. Gallai hyn olygu bod adeilad yr ysgol yn parhau i fod ar gael fel canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol y gellir eu cyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>
Hawliau Dynol	Niwtral	Nid yw CYBLD Ionawr 2023 yn cadw data ar yr agwedd hon	Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail hawliau dynol yn digwydd gyda staff neu ddisgyblion yr ysgol. Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif.
<p>Arall - Economaidd-gymdeithasol</p> <p>Ysgolion Bach a Gwledig</p> <p>Ystyriwyd ffactorau economaidd-</p>	Niwtral	<p>Enwir Ysgol Carreglefn fel ysgol wledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).</p> <p>Mae yna nifer o ysgolion bach a gwledig o fewn Ynys Môn sy'n perfformio'n dda, ond dylid nodi bod heriau penodol yn gysylltiedig â rhedeg ysgolion bach gwledig.</p>	<p>Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gan ysgolion gwledig rôl allweddol i'w chwarae wrth gyfrannu at y gymuned, y defnydd o'r iaith Gymraeg a ffordd o fyw.</p> <p>Wrth ystyried ei opsiynau ar gyfer trefniadaeth ysgolion, bydd yr Awdurdod yn ystyried y cydbwysedd rhwng anghenion addysgol ac</p>

ATODIAD 1

Y grŵp / a warchodir	*Yr effaith debygol	Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)	Camau i liniaru effaith negyddol
<p>gymdeithasol a gwledig yn yr 'Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned' isod.</p>		<p>Roedd adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg yn 2019 o'r enw, "Rhedeg ysgolion gwledig bach yn effeithiol" yn cynnwys heriau megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • "Anweddolrwydd yn niferoedd disgyblion. Mae gostyngiad yn niferoedd disgyblion yn achosi cwmp canrannol sylweddol yng nghyllideb yr ysgol" • "Y brif her oedd cynnal dosbarthiadau oedran cymysg.... Teimlai rhai nad oedd hyfforddiant athrawon wedi'i gynllunio ar gyfer y mathau hyn o ddsbarthiadau a bod arweiniad cyfyngedig ar gael" • "Nododd llawer o ysgolion y gall fod yn heriol cynnig cwricwlwm eang a chytbwys" • "Amlygodd ysgolion ac ymddiriedolaethau eu bod yn wynebu heriau recriwtio" 	<p>anghenion tymor hir ein cymunedau, trwy gyfrwng cydweithio.</p> <p>Mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i weithio gyda chymunedau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai godi pe bai ysgol yn cau.</p> <p>Mae'r awdurdod yn cynnig lliniaru'r effeithiau hyn drwy ddarparu cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys yn unol â pholisi cludiant ysgol yr awdurdod.</p>
<p>Arall - Economaidd-gymdeithasol. Cyfranogiad plant llai breintiedig mewn gweithgareddau ar ôl ysgol.</p>	<p>Niwtral</p>	<p>Potensial i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion fanteisio ar weithgareddau ar ôl ysgol yn Ysgol Llanfechell.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod bydd disgyblion o Carreglefn yn teithio'n bellach i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol.</p>	<p>Bydd disgwyl i Ysgol Llanfechell wneud darpariaeth addas a fydd o leiaf yn cyfateb i'r ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â chlybiau. Yng nghyd-destun <u>gweithgareddau allgyrsiol</u>, anogir pob disgybl, beth bynnag fo'u cefndir, i gyfranogi gyda'r disgwyliad ar yr ysgol i wneud trefniadau addas i alluogi disgyblion llai breintiedig i gymryd rhan. Byddai'r trefniadau hyn yn cynnwys, ond ni fyddent yn gyfyngedig i, glybiau a gynhelir yn ystod yr awr ginio, trefniadau gyda rhieni ar gyfer casglu a darparu cludiant ar ôl ysgol. Gallai disgyblion Carreglefn</p>

ATODIAD 1

Y grŵp / a warchodir	*Yr effaith debygol	Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)	Camau i liniaru effaith negyddol
			<p>gael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.</p> <p>Byddai'r Cyngor hefyd eisiau weithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn. Gallai hyn olygu bod adeilad yr ysgol yn parhau i fod ar gael fel canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol.</p>
<p>Mae cysylltiadau clir rhwng materion cydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol. Gall camwahaniaethu achosi anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol. Os daw unrhyw faterion o'r fath yn amlwg wrth asesu materion sydd ddim yn rai strategol, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt a'u cofnodi o dan y grŵp gwarchodedig perthnasol, neu o dan 'unrhyw fater perthnasol arall' uchod.</p>			

Tudalen 227

Cwblhewch y rhan yma os yw'r cynnig yn fater strategol			
Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol	*Yr effaith debygol	Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)	Camau i liniaru effaith negyddol
A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?	Wedi'i gynnwys uchod	Gweler uchod	

Canlyniad yr asesiad:

Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; **nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol.** Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.

<p>2.7 Canlyniad yr asesiad</p>	
<p>Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol</p>	<p>Yn gyffredinol, ac ar ôl cymryd camau lliniaru i wrthbwysu unrhyw effeithiau negyddol, disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Gan fod Ysgol Carreglefn yn ysgol wledig, gellid gweld bod y cynnig yn cael effaith negyddol ar y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, o ran teithio i Ysgol Llanfechell ac o ran cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Fodd bynnag, mae'r effeithiau hyn wedi'u lliniaru trwy'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • darparu cludiant i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor ar gyfer ysgolion, gan fod y ffordd rhwng Carreglefn a Llanfechell yn anaddas i ddysgwyr o'r oedran hwnnw gerdded yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. • gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn pe bai angen. • bydd disgwyl i Ysgol Llanfechell wneud darpariaeth addas a fydd o leiaf yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â chlybiau. Yng nghyd-destun <u>gweithgareddau allgyrsiol</u> anogir pob disgybl, beth bynnag fo'u cefndir, i gyfranogi gyda'r disgwyl i ar yr ysgol i wneud trefniadau addas i alluogi disgyblion llai breintiedig i gymryd rhan. Byddai'r trefniadau hyn yn cynnwys, ond ni fyddent yn gyfyngedig i, glybiau a gynhelir yn ystod yr awr ginio, trefniadau gyda rhieni ar gyfer casglu a darparu cludiant ar ôl ysgol.
<p>Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed, neu a fwriedir, i wneud y mwyaf o hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, os yn berthnasol, i sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd.</p>	<p>Byddai disgwyl i'r cynnig, o'i wireddu, arwain at y manteision canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn drochi yn yr iaith Gymraeg gyda disgyblion eraill sy'n siarad Cymraeg yn Ysgol Llanfechell. - Byddai cwricwlwm ehangach a mwy cytbwys ar gael i ddysgwyr Carreglefn - Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. - Lleihad mewn allyriadau carbon o tua 13tCO₂e y flwyddyn. - Sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy cymesur a chyfartal.

ATODIAD 1

2.7 Canlyniad yr asesiad

<p>A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?</p>	<p>Na</p>
<p>A oes angen edrych ar beth y gellid eu gwneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan gwbl, o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?</p> <p>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd parhau gyda'r cynnig ar yr adeg yma).</p>	<p>Nag oes</p>
<p>Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?</p>	<p>Cymerir camau lliniaru i wrthbwysu unrhyw effeithiau negyddol posibl a ragwelwyd – fel y nodir uchod.</p>
<p>A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?</p>	<p>Bydd – Bydd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gyhoeddi Rhybydd Statudol ar y cynnig.</p> <p>Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu symud ymlaen, bydd swyddogion yn dilyn proses statudol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.</p>
<p>Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?</p>	<p>Mae trefniadau llywodraethu yn cynnwys gweithdrefnau sydd yn cyfrannu at, herio a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, a monitro cynnydd a rheoli risgiau .</p> <p>Mae'r Asesiad Effaith hwn yn ddogfen fyw, a fydd yn parhau i gael ei diweddarw wrth i'r cynnig fynd rhagddo.</p>

Casgliad - Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; **nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol**. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae effaith bosibl y cynnig ar yr iaith Gymraeg yn cael ei hasesu ar wahân yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

2.8 Cynllun Gweithredu

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

Cyf	Gweithrediadau arfaethedig	Swyddog arweiniol	Amserlen
1	Pwyllgor Gwaith y Cyngor i benderfynu a ddylid awdurdodi swyddogion i gyhoeddi Rhybydd Statudol ar y cynnig	Marc B Hughes	I'w gadarnhau.

ATODIAD 1

3. ASESIAID O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant. Mae'r un disgwyliad yn berthnasol o ran y Gymraeg ym mhob un o'r ysgolion, sy'n rhoi cyfle i bob disgybl yn y Sir ennill y sgiliau priodol i fod yn hyderus ddwyieithog.

Gan fod y cynnig hwn yn edrych ar sut y byddai gweithredu polisïau, strategaethau neu ganllawiau allweddol y Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; a sut y byddai'r cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n cael effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; **cynhelir asesiad effaith mwy cynhwysfawr ar y Gymraeg yma.**

3.1 Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg	
<p>A yw'r cynnig arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?</p> <ul style="list-style-type: none"> • A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith? • A fydd unrhyw ddatblygiad TG newydd yn cydymffurfio â'r polisi? 	<p>Ydy, effaith gadarnhaol - gweler isod.</p> <p>Bydd – bydd pob gohebiaeth a chyfathrebiad yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg.</p> <p>Bydd – bydd unrhyw ddatblygiadau TG newydd yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg.</p>
<p>A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad?</p> <ul style="list-style-type: none"> • A fydd unrhyw arwyddion yn cydymffurfio â'r polisi iaith? • A fydd unrhyw gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio? • A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio? • A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? 	<p>Bydd – bydd pob arwydd yn cydymffurfio â'r polisi iaith.</p> <p>Bydd – bydd cyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio.</p> <p>Bydd – bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio.</p> <p>Bydd – bydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio.</p>
<p>A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar weithrediad y polisi iaith?</p> <ul style="list-style-type: none"> • A fydd y cynnig yn creu swyddi newydd? • A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y polisi iaith? • A fydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg? • A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith? • A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â'r Gymraeg? • Sut caiff perfformiad ei fonitro a'i fesur? 	<p>Bydd unrhyw swyddi addysgu newydd yn cael eu creu yn unol â'r strwythur staffio a ddatblygwyd gan gorff llywodraethu Ysgol Llanfechell. Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar strwythurau staffio presennol Ysgol Llanfechell. Byddai holl staff Ysgol Carreglefn 'mewn perygl' o gael eu diswyddo a byddai'r Polisi Ailstrwythuro a Diswyddo ar gyfer ysgolion a'r Polisi Adleoli ar gyfer ysgolion yn cael eu gweithredu.</p> <p>Bydd – bydd unrhyw staff newydd a gaiff eu recriwtio yn siaradwyr Cymraeg yn unol â'r polisi iaith a byddant yn parhau i weithredu'r polisi.</p> <p>Bydd – bydd staff newydd yn cael eu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Bydd – bydd trefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith.</p> <p>Bydd – canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg ar ddiwedd cyfnodau allweddol a chanran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.</p> <p>Yn ôl data a gasglwyd gan y Gwasanaeth Dysgu megis canran y disgyblion sy'n cyrraedd</p>

ATODIAD 1

3.1 Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg	
	y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Cesglir data arall megis canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref fel rhan o'r Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhelir ym mis Ionawr bob blwyddyn.

3.2 Yr effaith ar ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg	
<ul style="list-style-type: none"> • A fydd y cynnig hwn yn cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr?? • A fydd modd i ddefnyddwyr ddewis unrhyw elfen o'r gwasanaeth yn Gymraeg? 	<p>Mae Ysgol Llanfechell yn ysgol Categori 3 Cyfrwng Cymraeg (o ran Categori iaith), h.y., ysgol lle mae'r Gymraeg yn brif iaith cyfathrebu o fewn yr ysgol. Mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf, a bydd pob disgybl yn cael ei gefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Ar gyfer trochi, bydd pob disgybl yn cael ei addysgu'n llawn trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar adegau i sicrhau dealltwriaeth.</p>
<p>Oes perygl i'r cynnig gam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg?</p> <ul style="list-style-type: none"> • A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi'u hystyried yn y cynnig? • A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a'r hyn a dderbynnir yn Saesneg? • A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth? 	<p>Na fydd – Bydd y ddwy ysgol yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg yr Awdurdod.</p> <p>Ydyn – anghenion disgyblion Cymraeg eu hiaith yw un o'r prif yrwyr ar gyfer y cynnig hwn.</p> <p>Ydyn – bydd yr un safon o wasanaeth yn cael ei ddarparu i bob disgybl.</p> <p>Nac ydyn – ni fydd trefniadau o ran y Gymraeg yn arwain at oedi yn y gwasanaeth.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • A fydd y cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol? • A yw'n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg? • A yw'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o'r Gymraeg e.e. busnesau? 	<p>Ni ragwelir unrhyw newid arwyddocaol.</p> <p>Bydd arwyddion yn Ysgol Llanfechell yn parhau i gydymffurfio â'r polisi iaith. Bydd Ysgol Llanfechell yn parhau i hybu ac annog y defnydd o'r Gymraeg a gallai ddefnyddio deunyddiau Cymraeg.</p> <p>Bydd arwyddion dwyieithog yn parhau i gael eu gweld gan lawer yn yr ardal leol.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • A fydd y gwasanaeth Cymraeg ynghlwm â'r cynnig yn hygyrch? • A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i'w gael yn Gymraeg a Saesneg? 	<p>Bydd – gweler uchod</p>

ATODIAD 1

3.2 Yr effaith ar ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg	
<ul style="list-style-type: none"> • A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd? 	

3.3 Yr effaith ar gymunedau Cymraeg	
<ul style="list-style-type: none"> • A yw'r cynnig yma'n cynnig camau fydd yn debygol o ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau? • A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i ddelio gyda heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau? 	<p>Dim ond 1 disgybl o Ysgol Carreglefn sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae mwy o siaradwyr Cymraeg yn Ysgol Llanfechell, felly byddai disgyblion Ysgol Carreglefn yn cael mwy o gyfleoedd i drochi yn y Gymraeg yn Ysgol Llanfechell.</p> <p>Mae gan Ysgol Llanfechell (sydd ond 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn) le i dderbyn disgyblion o Ysgol Carreglefn, ac unrhyw ddisgyblion ychwanegol o ddatblygiadau tai yn yr ardal.</p> <p>Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg, cododd rhai ymatebwyr bryderon y gallai'r posibilrwydd o gau ysgolion cymunedol gael effaith negyddol ar bobl ifanc yn aros yn eu cymunedau lleol, ac ar y Gymraeg o fewn cymunedau.</p> <p>Disgwylir i'r effaith o'r cynnig hwn yn fach iawn. Ar hyn o bryd dim ond 9 disgybl sydd yn mynychu Ysgol Carreglefn, ac mae 4 o'r rhain ym mlwyddyn 6 (ac felly yn trosglwyddo i ysgol Uwchradd erbyn gwireddu'r cynnig – os yw'r cynnig fel y mae yn cael ei dderbyn).</p> <p>Cydnabyddir y bydd y cynnig yn arwain at gau un o'r ychydig amwynderau cyhoeddus sy'n gwasanaethu'r gymuned leol. Bydd y Cyngor yn ceisio lliniaru unrhyw effeithiau negyddol trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ ddarparu cludiant i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor. ▪ gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn pe bai angen <p>Nag ydy – Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith sylweddol ar yr economi leol. Rhaid cydnabod fodd bynnag bod y cynnig yn golygu llai o gyfleoedd cyflogaeth o fewn ardal Carreglefn.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg? 	

ATODIAD 1

3.3 Yr effaith ar gymunedau Cymraeg	
<ul style="list-style-type: none"> A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant? 	<p>Mae darpariaeth Feithrin (Cylch Meithrin) yn Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin ar safle'r ysgol, ond yn annibynnol yn ariannol ar Ysgol Llanfechell. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod i ddarparu addysg blyneddodd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg am 10 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig.</p>
<ul style="list-style-type: none"> A yw'r cynnig yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg? A yw'r cynnig yn cyfrannu at weithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg? A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol? A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? E.e. darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon. A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith – e.e. gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ac ati? 	<p>Ydy – gweler isod.</p> <p>Ydy – os gwireddir y cynnig, bydd amryw o weithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llanfechell.</p> <p>Ydy – bydd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau allgyrsiol, yn ogystal ag yn y clybiau gofal plant a brecwast cyn ysgol.</p> <p>Yn rhannol – Ni fydd gwasanaethau newydd o reidrwydd ar gael o ganlyniad uniongyrchol i'r cynnig. Fodd bynnag, gallai'r cynnig arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion yn Ysgol Llanfechell, a allai arwain at weithgareddau allgyrsiol newydd, oherwydd cynnydd yn y galw.</p> <p>Ydy – os gwireddir y cynnig, byddai gweithgareddau'r Urdd yn parhau yn Ysgol Llanfechell.</p>

3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg	
<p>Polisïau iaith mudiadau partner neu gyrrff cyhoeddus cyfagos:</p> <ul style="list-style-type: none"> A yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig? 	<p>Nac ydy – Nid yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod yn hysbysu llawer o randdeiliaid a sefydliadau allanol (megis, ond heb fod yn gyfyngedig i: rhieni, staff, cyrff llywodraethu, Llywodraeth Cymru, Estyn, GwE, cynghorau cymuned a thref ac ati) os ac pan bydd Rhybydd Statudol yn cael ei gyhoeddi. O ddyddiad cyhoeddi'r Rhybydd Statudol, bydd gan rhanddeiliaid 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynnig (cyfeirir at y cyfnod hwn fel cyfnod gwrthwynebu). Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ynghyd</p>

ATODIAD 1

3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg	
<ul style="list-style-type: none"> • Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad? • Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith? • A yw'r cynnig yn cyfrannu at y cynlluniau hyn? 	<p>ag ymateb Y Cyngor iddynt, cyn i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu i unai cymeradwyo, gwrthod neu addasu'r cynnig</p> <p>Nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar unrhyw sefydliad arall.</p> <p>Nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar unrhyw sefydliad arall.</p> <p>Nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar unrhyw sefydliad arall.</p>
<p>Strategaethau iaith Gymraeg perthnasol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • A fydd y cynnig yn cyfrannu tuag at Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ym mis Medi 2016? • Sut mae'r cynnig yn cyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? 	<p>Mae'r cynnig yn cyfrannu at yr adrannau canlynol o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Ynys Môn 2022 - 2032 yn y ffyrdd a ganlyn:</p> <p>Deilliant 1: Mwy o blant meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.</p> <p>Bydd y Cylch Meithrin, sydd wedi ei leoli ar dir Ysgol Llanfechell, yn darparu sylfaen gadarn yn y Gymraeg i'r plant cyn iddynt drosglwyddo i Ysgol Llanfechell. Bydd hyn yn cyfrannu at gyflawni Deilliant 1 a 2 uchod.</p> <p>Bydd mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn drochi yn y Gymraeg yn Ysgol Llanfechell, gan fod mwy o siaradwyr Cymraeg yn Ysgol Llanfechell. Efallai hefyd y bydd mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llanfechell – oherwydd y cynnydd yn niferoedd y disgyblion.</p> <p>Mae Ysgol Llanfechell yn ysgol categori 3 cyfrwng Cymraeg. Bydd yr ysgolion yn anelu at ddatblygu'r Gymraeg, a nifer y siaradwyr Cymraeg. Bydd nifer y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref yn cael ei werthuso'n flynyddol trwy ddata a gafwyd o CYBLD. Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn adrodd yn chwarterol i'r</p>

ATODIAD 1

3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg	
	Fforwm Iaith Sirol ar y defnydd o'r Gymraeg yn ysgolion yr Awdurdod a chaiff Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdod ei fonitro'n chwarterol gan y Fforwm Iaith Sirol.

3.5 Yr effeithiau sydd wedi eu nodi a'u hasesu	
Pa effeithiau ydych chi wedi'u nodi (h.y., crynodeb o'r atebion i'r cwestiynau uchod), ynghyd â thebygolrwydd a difrifoldeb/arwyddocâd tebygol yr effaith? Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r deilliannau o ran y Gymraeg? Rhowch fanylion am fesurau lliniaru/opsiynau eraill er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol a chynyddu'r deilliannau cadarnhaol:	
Yr effeithiau cadarnhaol:	<p>Y prif effeithiau cadarnhaol a ragwelir o ganlyniad i'r cynnig yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Carreglefn drochi yn y Gymraeg yn Ysgol Llanfechell, gan fod mwy o siaradwyr Cymraeg yn Ysgol Llanfechell. • Efallai hefyd y bydd mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llanfechell – oherwydd y cynnydd yn niferoedd y disgyblion. • Gall mwy o blant ifanc Carreglefn dderbyn Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg o oedran iau, gan fod Cylch Meithrin cyfrwng Cymraeg ar dir Ysgol Llanfechell sy'n dderbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin ac Ysgol Llanfechell yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth cofleidiol, sy'n golygu y gall disgyblion 3-4 oed drosglwyddo rhwng meithrinfa'r ysgol a'r 'Cylch Meithrin' heb fod angen i rieni / gwarcheidwaid fod yn bresennol.
Yr effeithiau negyddol:	<p>Dim ond 1 disgybl o Ysgol Carreglefn sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae mwy o siaradwyr Cymraeg yn Ysgol Llanfechell, felly byddai disgyblion Ysgol Carreglefn yn cael mwy o gyfleoedd i drochi yn y Gymraeg yn Ysgol Llanfechell.</p> <p>Mae gan Ysgol Llanfechell (sydd ond 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn) le i dderbyn disgyblion o Ysgol Carreglefn, ac unrhyw ddisgyblion ychwanegol o ddatblygiadau tai yn yr ardal</p>

ATODIAD 1

3.5 Yr effeithiau sydd wedi eu nodi a'u hasesu	
	<p>Cododd rhai ymatebwyr i'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg bryderon y gallai'r posibilrwydd o gau ysgolion cymunedol gael effaith negyddol ar bobl ifanc yn aros yn eu cymunedau lleol, ac ar y Gymraeg o fewn cymunedau.</p> <p>Disgwylir i'r effaith hon (o'r cynnig hwn) fod yn fach iawn. Ar hyn o bryd dim ond 9 disgybl sydd yn mynychu Ysgol Carreglefn, ac mae 4 o'r rhain ym mlwyddyn 6 (ac felly yn trosglwyddo i ysgol Uwchradd erbyn gwireddu'r cynnig – os yw'r cynnig fel y mae yn cael ei dderbyn).</p> <p>Bydd y Cyngor yn ceisio lliniaru unrhyw effeithiau negyddol trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ ddarparu cludiant i ddisgyblion cymwys o Garreglefn i Ysgol Llanfechell yn unol â pholisi cludiant y Cyngor. ▪ gweithio gyda chymuned Carreglefn gyda golwg ar rhoi cyfle i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn pe bai angen.
Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, defnyddio mwy ar y Gymraeg yn y gwaith?	<p>Bydd Ysgol Llanfechell yn parhau i hybu'r Gymraeg.</p> <p>Mae Ysgol Llanfechell yn ysgol Categori 3 Cyfrwng Cymraeg (o ran Categori iaith), h.y., ysgol lle mae'r Gymraeg yn brif iaith cyfathrebu o fewn yr ysgol. Mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf, a bydd pob disgybl yn cael ei gefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Ar gyfer trochi, bydd pob disgybl yn cael ei addysgu'n llawn trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar adegau i sicrhau dealltwriaeth.</p>
Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd i gefnogi'ch asesiad:	<ul style="list-style-type: none"> ▪ CYBLD 2023 – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion ▪ Niferoedd ar y gofrestr 16 Ionawr 2024 (dyddiad CYBLD ar gyfer 2024) ▪ Ystadegau Medi 2023 a dderbyniwyd gan penaethiaid ▪ Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Ynys Môn ▪ Ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg.

ATODIAD 1

3.6 Ymgynghori

I'w ddiweddarau os bydd y Pwyllgor Gwaith yn awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol

<p>Yn ystod yr ymgynghoriad, pa gwestiynau ydych chi'n dymuno eu gofyn am yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg?</p>	<p>Gan bod llai na 10 disgybl cofrestredig pan gynhelir y cyfrifiad yn mis Ionawr, mae deddf 2013 yn caniatáu awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefn symlach ar gyfer cynnig megis yr un yma, sydd yn golygu na fydd y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad statudol. Fodd bynnag os ac pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi Rhybydd Statudol ar gyfer y cynnig, bydd gan rhanddeiliaid 28 diwrnod i wrthwynebu i'r cynnig (cyfeirir at y cyfnod hwn fel cyfnod gwrthwynebu), ac gall unrhyw sylwadau / gwrthwynebiadau gael ei anfon i sylw'r Cyngor.</p>
<p>Gyda phwy ydych chi'n ymgynghori? Sut mae grwpiau buddiant o ran y Gymraeg yn debygol o ymateb?</p>	<p>Gweler uchod</p>
<p>Yn dilyn yr ymgynghoriad, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud er mwyn rhoi sylw i'r materion ieithyddol a godwyd?</p>	<p>Wedi i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ynghyd ag ymateb Y Cyngor iddynt, cyn i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu i unai cymeradwyo, gwrthod neu addasu'r cynnig</p>

3.7 Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus

<p>Crynowch eich cynigion terfynol, gan restru'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg, a sut byddwch chi'n hyrwyddo/lliniaru'r rhain. Cofnodwch eich cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.</p> <p>Bydd angen cyfeirio at y crynodeb hwn yn y templed asesiad effaith ar gydraddoldeb</p>	<p>Amherthnasol ar hyn o bryd.</p>
<p>Sut byddwch chi'n monitro'r effeithiau parhaus tra bydd y polisi ar waith?</p>	<p>Defnyddir y cynllun gweithredu ar ddiwedd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i nodi unrhyw gamau a gynllunnir ar ôl cwblhau'r asesiad.</p>

ATODIAD 1

4 ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith bosib y cynnig i “**Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn**” ar y gymuned leol.

Mae'r tablau isod yn dangos nifer y disgyblion yn Ysgol Carreglefn, ac Ysgol Llanfechell ar hyn o bryd, a thros y 4 cyfrifiad ysgol blynyddol blaenorol ac yna'r nifer a ragwelir ar gyfer y 5 mlynedd nesaf ynghyd â rhagamcanion disgyblion os aiff y cynnig yn ei flaen:

Niferoedd disgyblion yn y gorffennol

Ysgol	Capasiti – heb gynnwys Meithrin	Niferoedd Disgyblion Ionawr 2020	Niferoedd Disgyblion Ionawr 2021	Niferoedd Disgyblion Ionawr 2022	Niferoedd Disgyblion Ionawr 2023	Niferoedd Disgyblion Ionawr 2024	% Lleoedd dros ben Ionawr 2024
Carreglefn 3-11	46	15	12	10	10	9*	80%
Llanfechell 3-11	106	62	66	74	77	72	32%

*NODER – O'r 9 disgybl sy'n mynychu Ysgol Carreglefn, mae 4 o'r rhain ym mlwyddyn 6.

Yn Ionawr 2024, roedd 9 disgybl ar y gofrestr yn Ysgol Carreglefn, gyda 8 yn bresennol ar ddyddiad CYBLD

Yn Ionawr 2024, roedd 72 disgybl ar y gofrestr yn Ysgol Llanfechell (heb gynnwys Meithrin), gyda 65 yn bresennol ar ddyddiad CYBLD.

Rhagamcanion 5 mlynedd 2024-2028

Ysgol	Capasiti – heb gynnwys Meithrin	Niferoedd Disgyblion Medi 2023	Rhagamcan Medi 2024	Rhagamcan Medi 2025	Rhagamcan Medi 2026	Rhagamcan Medi 2027	Rhagamcan Medi 2028
Carreglefn 3-11	46	9	5	4	4	5	4
Llanfechell 3-11	106	73	74	65	61	57	53

Rhagamcanion Disgyblion os aiff y cynnig yn ei flaen

Mae rhagamcanion yn cadarnhau y byddai niferoedd disgyblion wedi'u cyfuno yn disgyn i 57 erbyn 2028. O ganlyniad, mae'r cynnig i “**Drosglwyddo disgyblion o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell a chau Ysgol Carreglefn**” yn rhesymol. Mae'r capasiti y mae Ysgol Llanfechell yn ei ddarparu yn ddigonol ar gyfer datblygiadau tai arfaethedig yn yr ardal fel y gwelir yn y tabl isod:

Ysgol	Dyraniad sy'n weddill ar gyfer datblygiadau tai yn y dalgylch (2018-2026) – gan gynnwys unedau gyda chaniatâd cynllunio	Nifer cyfatebol o blant*
Carreglefn	8	1
Llanfechell	12	2

*Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan bob tŷ o fewn yr ardal gynnyrch ehangach haen ganol [MSOA*1], ar gyfartaledd, 0.14 o blant oed ysgol gynradd. Mae lluosu nifer y datblygiadau tai â 0.14 yn rhoi amcangyfrif o nifer y plant ychwanegol y byddai angen eu haddysgu yn yr ysgol benodol honno.

*1 MSOA - ardaloedd fel y'u diffinnir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar gyfer adrodd ar wybodaeth cyfrifiad. Mae'r MSOA fel arfer yn cynnwys rhwng 2,000 a 6,000 o aelwydydd ac mae ganddynt boblogaeth o rhwng 5,000

ATODIAD 1

a 15,000 o bobl. Mae rhagor o wybodaeth am yr MSOAs ar gael ar y ddolen ganlynol - [Census 2021 geographies](#) - [Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](#),

Mae'r tablau uchod yn dangos pe bai'r holl ddarpariaeth tai a nodir uchod yn cael ei gwireddu, byddai digon o leoedd o hyd yn Ysgol Llanfechell ar gyfer disgyblion Carreglefn a Llanfechell.

	Rhagamcan o'r nifer ar y gofrestr Medi 2024	Rhagamcan o'r nifer ar y gofrestr Medi 2025	Rhagamcan o'r nifer ar y gofrestr Medi 2026	Rhagamcan o'r nifer ar y gofrestr Medi 2027	Rhagamcan o'r nifer ar y gofrestr Medi 2028
Llanfechell	77	72	70	67	62

Gall rhieni ddewis anfon eu plentyn/plant i ba bynnag ysgol y dymunant.

Mae'n bwysig nodi bod rhagamcanion yn anodd gan fod nifer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgolion o ddalgyloedd eraill. Ym mis Gorffennaf 2023:

- Roedd gan Ysgol Carreglefn 11 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 7 disgybl yn mynychu o'r dalgyloch.
- Roedd gan Ysgol Llanfechell 86 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 63 o ddisgyblion yn mynychu o'r dalgyloch.

Darpariaeth cyn ysgol

Mae'r ddarpariaeth cyn ysgol ganlynol ar gael yn ardal Carreglefn, a Llanfechell:

Mae'r ddwy ysgol wedi'u cofrestru ar gyfer plant 3-11 oed ac yn darparu addysg blynyddoedd cynnar i blant sydd wedi tri'n 3 oed cyn 1 Medi mewn unrhyw flwyddyn.

Rhagamcan o'r Lleoedd Meithrin:

	Niferoedd meithrin cyfredol ar y gofrestr Ionawr 2024	Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2024	Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2025	Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2026	Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2027	Rhagamcan niferoedd meithrin ar y gofrestr Medi 2028
Carreglefn 3-11	0	0	0	1	0	0
Llanfechell 3-11	6	7	7	7	7	7

Mae'r tabl uchod yn dangos mai'r nifer o ddisgyblion meithrin a ragwelir yn Ysgol Carreglefn a Llanfechell ar y cyd yw 8 pan fydd ar ei uchaf. Y rhif derbyn meithrin ar gyfer Ysgol Llanfechell yw 13. Felly mae'n rhesymol tybio y byddai nifer digonol o leoedd meithrin yn Ysgol Llanfechell pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu. Byddai'r ddarpariaeth feithrin yn Ysgol Llanfechell yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, fel sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell. Nid oes galw sy'n hysbys o fewn yr ardal am fath penodol o ddarpariaeth, e.e. darpariaeth â chymeriad crefyddol.

Mae darpariaeth Feithrin (Cylch Meithrin) yn Llanfechell sy'n derbyn disgyblion o ddwy a hanner oed. Mae'r Cylch Meithrin ar safle'r ysgol, ond yn annibynnol yn ariannol ar Ysgol Llanfechell. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod ar gyfer darparu addysg blynyddoedd cynnar am 10 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig. Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith andwyol ar y Cylch Meithrin, a gallai gael effaith gadarnhaol ar y darparwr (h.y. cynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu). Arolygwyd y ddarpariaeth ddiwethaf gan Estyn ym mis Ionawr 2020, pan arfarnwyd bod Lles, Gofal a Datblygiad, Addysgu ac Asesu, ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn dda. Barnwyd bod yr Amgylchedd yn Ddigonol. Mae'r Cylch Meithrin ac Ysgol Llanfechell yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth cofleidiol, sy'n golygu y gall disgyblion 3-4 oed drosglwyddo rhwng meithrinfa'r ysgol a'r 'Cylch Meithrin' heb fod angen i rieni / gwarcheidwaid fod yn bresennol.

Nid oes darpariaeth cyn ysgol yng Ngharreglefn, ac eithrio dosbarth Meithrin yr ysgol, ar gyfer plant sydd wedi troi'n 3 oed cyn 1 Medi yn unrhyw flwyddyn.

Nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar unrhyw sefydliadau eraill.

ATODIAD 1

Gwybodaeth am yr ysgolion

Ysgol Carreglefn (Carreglefn, Ynys Môn LL68 0PH)

Adeiladwyd Ysgol Carreglefn tua 1899. Mae ganddi 3 ystafell ddosbarth, Neuadd Fwyta 64m², ac ystafell athrawon. Y tu allan mae ardal chwarae fechan a chae chwarae bychan y tu cefn i'r ysgol. Cyfanswm arwynebedd mewnol yr ysgol yw tua164 m².

Yn Ionawr 2024: roedd gan Ysgol Carreglefn 9 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 5 disgybl yn mynychu o fewn y dalgylch (56%).

Mae'r ystodau oedran blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysgu ym mhob ystafell ddosbarth fel a ganlyn:

Ystafelloedd Dosbarth Ysgol Carreglefn	Ystod oedran a addysgir fesul ystafell ddosbarth
1	
	Meithrin – Blwyddyn 6

Ysgol Llanfechell (Llanfechell, Ynys Môn LL68 0SA)

Adeiladwyd Ysgol Llanfechell tua 1980. Mae ganddi 4 ystafell ddosbarth, Neuadd Fwyta 86m², swyddfa ar gyfer y pennaeth ac ystafell athrawon. Mae gan yr ysgol hefyd nifer o ystafelloedd at ddefnydd y gymuned megis ystafell bwyllgora, ystafell clwb ieuencid, ystafell gymunedol ac ati. Yn allanol mae ardaloedd chwarae caled a glaswelltog gyda chae pêl-droed wrth ochr yr ysgol. Cyfanswm arwynebedd mewnol yr ysgol (gan gynnwys ardaloedd defnydd Cymunedol) yw tua565m².

Ym Medi 2023: roedd gan Ysgol Llanfechell 73 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 59 o ddisgyblion yn mynychu o fewn y dalgylch. (81%).

Mae'r ystodau oedran blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysgu ym mhob ystafell ddosbarth fel a ganlyn:

Ystafelloedd Dosbarth Ysgol Llanfechell	Ystod oedran a addysgir fesul ystafell ddosbarth
4	
	Meithrin a Derbyn
	Blwyddyn 1 – 2
	Blwyddyn 3 – 4
	Blwyddyn 5 – 6

Cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion

Cafwyd manylion am gyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion o holiaduron a gwblhawyd gan Benaethiaid Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell. Darparodd Cyngor Cymuned Mechell hefyd fanylion am weithgareddau lleol a gynhelir.

Gweithgareddau allgyrsiol ar gael i ddisgyblion Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell:

Ysgol Carreglefn Gweithgaredd	Yn ystod y tymor neu'r gwyliau?	Amllder
Clwb aml-weithgaredd	Tymor	Bob wythnos yn ystod y tymor ysgol

ATODIAD 1

Ysgol Llanfechell Gweithgaredd	Yn ystod y tymor neu'r gwyliau?	Amllder
Urdd	Tymor	Misol – Yn ystod tymor yr hydref a'r gwanwyn
Clwb Ceginio	Tymor	20 gwaith y flwyddyn
Clwb Athletau	Tymor	Tymor yr haf
Codio Cyfrifiadurol	Tymor	Tymor y gwanwyn - Wythnosol
Clwb Ffilm	Tymor	Misol

Cyfleusterau ysgol yn Ysgol Carreglefn a Llanfechell a ddefnyddir gan grwpiau lleol:

Ysgol Carreglefn Y Defnyddiwr a'r Cyfleuster	Yn ystod y tymor neu'r gwyliau?	Amllder
Chwist	Yn ystod y tymor a'r gwyliau	Dwywaith y mis
Cyngor Cymuned	Yn ystod y tymor a'r gwyliau	Chwe gwaith y flwyddyn
Pwyllgor Cymuned	Yn ystod y tymor a'r gwyliau	Tair gwaith y flwyddyn
Pwyllgor Maes Coffa	Yn ystod y tymor a'r gwyliau	Tair gwaith y flwyddyn
Gwasanaeth Cofio	Yn ystod y tymor a'r gwyliau	Blynyddol
Clwb Y Cen	Yn ystod y tymor a'r gwyliau	Misol
Clwb Clytwaith	Yn ystod y tymor a'r gwyliau	Misol
Arddangosfa Crefft Clwb Clytwaith	Yn ystod y tymor a'r gwyliau	Dwywaith y flwyddyn

Ysgol Llanfechell Y Defnyddiwr a'r Cyfleuster	Yn ystod y tymor neu'r gwyliau?	Amllder
Chwist	Yn ystod y tymor a'r gwyliau	Dwywaith y mis
Clwb Pensiynwyr	Yn ystod y tymor a'r gwyliau	Misol
Cylch Meithrin	Tymor	Pedwar diwrnod yr wythnos
Pwyllgor Cymuned		6 gwaith y flwyddyn
Ffair Mechell		Blynyddol

ATODIAD 1

Ysgol Llanfechell	Yn ystod y tymor neu'r gwyliau?	Amllder
Y Defnyddiwr a'r Cyfleuster Sefydliad y Merched	Yn ystod y tymor a'r gwyliau	11 gwaith y flwyddyn
Ffrindiau Mechell	Yn ystod y tymor a'r gwyliau	6 gwaith y flwyddyn
Môn Actif	Gwyliau	3 gwaith y flwyddyn
Clwb Pabi	Yn ystod y tymor a'r gwyliau	Misol
Clwb Yoga	Gwyliau	8 gwaith y flwyddyn
Ti a Fi	Tymor	Misol

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Penaethiaid, mae cyfleusterau Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn cael eu defnyddio gan nifer o grwpiau o'r gymuned leol.

Gweithgareddau cymunedol sydd ar gael ger Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell:

Cafwyd y wybodaeth ganlynol gan Gyngor Cymuned Mechell yn 2019, ychydig cyn i'r pandemig Covid 19 ddechrau. Gan fod yr asesiad effaith yn ddogfen fyw, bydd cyfle i ddiweddarau'r wybodaeth hon fel rhan o'r broses o wneud penderfyniad.

Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Carreglefn	Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Cyfrwng Cymraeg
Dywed Cyngor Cymuned Mechell mai adeilad yr ysgol yw'r unig le i gyfarfod.	

Enw'r Cyfleuster / Busnes ger Ysgol Llanfechell	Dwyieithog / Cyfrwng Saesneg neu Cyfrwng Cymraeg
Dywed Cyngor Cymuned Mechell mai adeilad yr ysgol yw'r unig le sydd ar gael i gynnal cyfarfodydd. Tueddir i ymgymryd â gweithgareddau cymunedol o Adeilad yr Ysgol.	

ATODIAD 1

Gofal plant a gofal cyn ysgol ar gael yn Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell:

Ysgol Carreglefn	Iaith	Yn annibynnol o'r ysgol	Lleoliad y ddarpariaeth	Amllder
Clwb Gofal Plant Cyn Ysgol	Dwyieithog	Na	Neuadd yr ysgol	Llun - Gwener
Clwb Brechwast	Dwyieithog	Na	Neuadd yr ysgol	Llun - Gwener

Ysgol Llanfechell	Iaith	Yn annibynnol o'r ysgol	Lleoliad y ddarpariaeth	Amllder
Clwb Gofal Plant Cyn Ysgol	Dwyieithog	Na	Neuadd yr ysgol	Llun - Gwener
Clwb Brechwast	Dwyieithog	Na	Neuadd yr ysgol	Llun - Gwener

Gweithgareddau cymunedol ar gael yn lleol:

Cafwyd yr wybodaeth ganlynol gan Gyngor Cymuned Mechell yn 2019, ychydig cyn i bandemig Covid 19 ddechrau. Gan fod yr asesiad effaith yn ddogfen fyw, bydd cyfle i ddiweddar'u'r wybodaeth hon fel rhan o'r broses o wneud penderfyniad.

Carreglefn	Amllder	Lleoliad
Sefydliad y Merched	Misol	Neuadd Gymuned Carreglefn
Clwb Y Cen	Misol	Neuadd Gymuned Carreglefn
Clwb Gwau	Wythnosol	Neuadd Gymuned Carreglefn
Dosbarth Clytwaith	Misol	Neuadd Gymuned Carreglefn
Chwist	Misol	Neuadd Gymuned Carreglefn
Bingo	Misol	Neuadd Gymuned Carreglefn
Capel Bethlehem	Misol	Neuadd Gymuned Carreglefn
Ysgol Sul	Wythnosol	Neuadd Gymuned Carreglefn
Clwb Cinio	Pythefnosol	Neuadd Gymuned Carreglefn
Cyngor Plwyf	Misol	Neuadd Gymuned Carreglefn
Yr Urdd	Misol	Neuadd Gymuned Carreglefn
Pwyllgor Cymuned	Bob yn ail fis	Neuadd Gymuned Carreglefn
Pwyllgor Cae Chwarae	Bob yn ail fis	Neuadd Gymuned Carreglefn
Ti a Fi	Wythnosol	Neuadd Gymuned Carreglefn
Nosweithiau Cymunedol	Misol	Neuadd Gymuned Carreglefn
Etholiadau	Achlysurol	Y Ganolfan Gymunedol

Dywed Cyngor Cymuned Mechell mai'r ysgol yw'r unig leoliad addas i gyfarfod. Mae Neuadd Gymuned Carreglefn yn rhan o adeilad yr ysgol.

ATODIAD 1

Llanfechell	Amllder	Lleoliad
Clwb Yr Urdd	Wythnosol	Y Ganolfan Gymunedol
Chwist	Pythefnosol	Y Ganolfan Gymunedol
Partion Plant	Achlysurol	Y Ganolfan Gymunedol
Ffrindiau Mechell – codi arian	Achlysurol	Y Ganolfan Gymunedol
Clwb Lego	Gwyliau Ysgol	Y Ganolfan Gymunedol
Ysgol Llanfechell – codi arian	Achlysurol	Y Ganolfan Gymunedol
Ffair Mechell	Blynyddol	Y Ganolfan Gymunedol
Sefydliad y Merched	Misol	Y Ganolfan Gymunedol
Clwb Pensiynwyr	Misol	Y Ganolfan Gymunedol
Clwb Hanes	Bob 3 Mis	Y Ganolfan Gymunedol
Rheolwyr Canolfannau	Bob Tymor	Y Ganolfan Gymunedol
Arddangosfeydd / cyfarfodydd	Achlysurol	Y Ganolfan Gymunedol
Etholiadau	Achlysurol	Y Ganolfan Gymunedol

Dywed Cyngor Cymuned Mechell mai'r ysgol yw'r unig leoliad addas i gyfarfod. Mae'r Ganolfan Gymunedol yn rhan o adeilad yr ysgol.

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, rhagwelir y byddai rhieni a disgyblion Ysgol Llanfechell yn cefnogi ac yn ymgysylltu â disgyblion a rhieni Ysgol Carreglefn. Byddai pob disgybl yn cael ei annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol fel y rhai a grybwyllwyd uchod, yn Ysgol Llanfechell. Yng nghyd-destun gweithgareddau allgyrsiol anogir pob disgybl, beth bynnag fo'u cefndir, i gymryd rhan gyda'r disgwyliad ar Ysgol Llanfechell i wneud trefniadau addas i alluogi disgyblion llai breintiedig i gymryd rhan. Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, glybiau a gynhelir yn ystod yr awr ginio, trefniadau gyda rhieni ar gyfer dewis a darparu cludiant ar ôl ysgol.

Os gwireddir y cynnig, byddai Ysgol Llanfechell yn parhau i fod yn Ysgol Gymunedol. Os gwireddir y cynnig, byddai disgwyl i weithgareddau a chyfleusterau Ysgol Llanfechell gael eu cynnal neu eu gwella.

Pellter ac amser teithio

Mae Ysgol Llanfechell tua 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn (Ffynhonnell – Google Maps).

Pe bai'r cynnig yn cael ei awdurdodi, byddai'n golygu pellteroedd teithio hirach i rai disgyblion o Garreglefn. Ar sail y disgyblion ar gofrestr Ysgol Carreglefn (Gorffennaf 2023), byddai 18% (2 ddisgybl) yn teithio llai i Ysgol Llanfechell tra byddai 82% (9 disgybl) yn gorfod teithio ymhellach. Dylid nodi fodd bynnag fod 6 o'r 11 disgybl ym mlynnyddoedd 5 neu 6 ar y pryd. Ni fyddai'r disgyblion hyn yn cael eu heffeithio gan y cynnig, gan y byddant yn / wedi trosglwyddo i Addysg Uwchradd cyn y dyddiad yr awgrymir gweithredu'r cynnig. Os na chynhwysir y 6 disgybl hyn, mae 2 (40%) o'r 5 disgybl sy'n weddill yn byw yn agosach i Ysgol Llanfechell, tra bod 3 disgybl (60%) yn byw yn agosach i Ysgol Carreglefn. Gan nad yw'r llwybr o Garreglefn i Lanfechell yn addas i ddisgyblion oed cynradd gerdded / seiclo i'r ysgol ac oddi yno, byddai'r Awdurdod yn darparu cludiant i ddisgyblion cymwys yn unol â'r polisi cludiant ysgol, sy'n golygu y byddent yn annhebygol o gerdded neu feicio i'r ysgol. Mae'r amser teithio o Ysgol Carreglefn ar fws i Ysgol Llanfechell tua 7 munud heb ystyried unrhyw stopio i godi disgyblion.

Fis Gorffennaf 2023: roedd gan Ysgol Carreglefn 11 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 7 disgybl yn mynychu o fewn y dalgylch (64%).

- Daw 50% o'r disgyblion nad ydynt yn nalgylch Ysgol Carreglefn o ddalgylch Ysgol Llanfechell [2 ddisgybl].
- Mae llai na 47% (7/15) o ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Carreglefn yn mynychu Ysgol Carreglefn.

ATODIAD 1

Fis Gorffennaf 2023: roedd gan Ysgol Llanfechell 86 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 63 o ddisgyblion yn mynychu o fewn y dalgylch (73%).

- Daw 4% o'r disgyblion nad ydynt yn nalgylch Ysgol Llanfechell o ddalgylch Ysgol Carreglefn [1 disgybl].
- Mae tua 78% o'r disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Llanfechell yn mynychu Ysgol Llanfechell.

Ni fydd y cynnig yn effeithio ar batrymau teithio disgyblion sy'n mynychu Ysgol Llanfechell ar hyn o bryd. Mae'n annhebygol y byddai disgyblion Carreglefn yn gallu cerdded neu feicio i Ysgol Llanfechell gan nad yw'r llwybr yn addas i ddisgyblion oed cynradd i gerdded / seiclo i'r ysgol nac yn ôl.

Eisoed mae bws sy'n gwasanaethu Ysgol Carreglefn. Ar wahân i'r pellter ychwanegol o 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn i Ysgol Llanfechell, mae'n annhebygol iawn y byddai'r cynnig yn cael effaith ar gludiant cyhoeddus. Mae'r bwriad yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar draffig yn ardal Carreglefn, gan fod nifer y cerbydau sy'n teithio ar y ffyrdd cul sy'n gwasanaethu Ysgol Carreglefn yn debygol o leihau.

Disgwylir i ganran y traffig cynyddol drwy Lanfechell fod yn fach iawn.

Dywed Llywodraeth Cymru na ddylai disgyblion oed cynradd orfod teithio mwy na 45 munud bob ffordd i'r ysgol. Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cynradd o dan 16 oed sy'n byw **2 filltir** neu fwy o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch. Mae'r un polisi hefyd yn datgan, "na fydd cludiant yn cael ei ddarparu i ddisgyblion meithrin rhan amser."

ATODIAD 1

Aseiad o'r Effaith ar y Gymuned

Er mwyn penderfynu ar effaith bosibl y cynnig ar y gymuned, mae'r cynnig yn erbyn y meini prawf yn y tabl isod wedi'i nodi fel cadarnhaol os bernir ei fod yn fuddiol, negyddol os bernir ei fod yn niweidiol a Dim effaith os bernir nad yw'r cynnig yn cael effaith arwyddocaol.

Maen Prawf	Arsylwadau	Effaith Cadarnhaol / Negyddol / Niwtral	Mesurau Lliniaru
Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol	<p>Ym mis Gorffennaf 2023: roedd gan Ysgol Carreglefn 11 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 7 disgybl yn mynychu o fewn y dalgylch (64%).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Daw 50% nad ydynt yn nalgylch Ysgol Carreglefn o ddalgylch Ysgol Llanfechell [2 Ddisgybl]. <p>Ym mis Gorffennaf 2023: roedd gan Ysgol Llanfechell 86 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 63 o ddisgyblion yn mynychu o fewn y dalgylch (73%).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Daw 4% nad ydynt yn nalgylch Ysgol Llanfechell o ddalgylch Ysgol Carreglefn [1 Disgybl]. 	Cadarnhaol	<p>Os caiff y cynnig ei gymeradwyo bydd dalgylchoedd Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell yn cael eu cyfuno.</p> <p>Ar hyn o bryd mae 28% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carreglefn, neu Ysgol Llanfechell o'r tu allan i ddalgylch yr ysgol y maent yn ei mynychu.</p> <p>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, a chan gymryd y bydd disgyblion o Ysgol Carreglefn yn trosglwyddo i Ysgol Llanfechell, yn seiliedig ar ffigurau Gorffennaf 2023 byddai canran y disgyblion a fyddai'n mynychu ysgol y tu allan i'w dalgylch yn disgyn i 25%.</p>
Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned gan	Mae pob ysgol yn darparu gweithgareddau a gwasanaethau allgyrsiol, fodd bynnag mae mwy o weithgareddau allgyrsiol yn Ysgol Llanfechell nag yn Ysgol Carreglefn.	Cadarnhaol	Trwy gydweithio gyda'r gymuned, gellid sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn. Pe byddai hyn yn digwydd, byddai gweithgareddau a

ATODIAD 1

Maen Prawf	Arsylwadau	Effaith Cadarnhaol / Negyddol / Niwtral	Mesurau Lliniaru
gynnwys gweithgareddau allgyrsiol	Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth hon yn parhau yn Ysgol Llanfechell. Rhagwelir y byddai defnydd cymunedol o Ysgol Llanfechell. Byddai'r awdurdod eisiau weithio gyda'r gymuned yng Ngharreglefn i sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn, fel y gellir parhau i'w ddefnyddio fel adeilad cymunedol.		gwasanaethau a ddarperir o adeilad yr ysgol yn parhau. Byddai disgyblion sy'n mynychu Ysgol Carreglefn ar hyn o bryd yn cael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn Ysgol Llanfechell. Byddai disgwyl i nifer y gweithgareddau yn Ysgol Llanfechell barhau os nad cynyddu.
Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol a gweithgareddau a gynhelir ar dir yr ysgol	Gan fod y ddwy ysgol yn ysgolion cymunedol, mae'r gymuned yn gwneud defnydd sylweddol o'r adeiladau a thir yr ysgol.	Niwtral	Trwy gydweithio gyda'r gymuned, gellid sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn. Pe byddai hyn yn digwydd, byddai gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir o adeilad yr ysgol yn parhau.
Effeithiau eraill - Trafnidiaeth	Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd cludiant o ddalgylch presennol Carreglefn i Ysgol Llanfechell yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cymwys yn unol â'r polisi cludiant ysgol. Mae'r bwriad yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar draffig yn ardal Carreglefn, gan fod nifer y cerbydau sy'n teithio ar y ffyrdd cul sy'n gwasanaethu Ysgol Carreglefn yn debygol o leihau. Disgwylir i ganran y traffig cynyddol drwy Lanfechell fod yn fach iawn.	Niwtral	Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd cludiant o ddalgylch presennol Carreglefn i Ysgol Llanfechell yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cymwys yn unol â'r polisi cludiant ysgol.

ATODIAD 1

Maen Prawf	Arsylwadau	Effaith Cadarnhaol / Negyddol / Niwtral	Mesurau Lliniaru
	<p>Pe bai'r cynnig yn cael ei awdurdodi, byddai'n golygu pellteroedd teithio hirach i rai disgyblion o Garreglefn. Ar sail y disgyblion ar gofrestr Ysgol Carreglefn (Gorffennaf 2023), byddai 18% (2 ddisgybl) yn teithio llai i Ysgol Llanfechell tra byddai 82% (9 disgybl) yn gorfod teithio ymhellach. Dylid nodi fodd bynnag fod 6 o'r 11 disgybl ym mlynnyddoedd 5 neu 6 ar y pryd. Ni fyddai'r disgyblion hyn yn cael eu heffeithio gan y cynnig, gan y byddant yn / wedi trosglwyddo i Addysg Uwchradd cyn y dyddiad yr awgrymir gweithredu'r cynnig. Os na chynhwysir y 6 disgybl hyn, mae 2 (40%) o'r 5 disgybl sy'n weddill yn byw yn agosach i Ysgol Llanfechell, tra bod 3 disgybl (60%) yn byw yn agosach i Ysgol Carreglefn.</p>		
Effeithiau eraill ar y Gymuned	<p>Gallai cau Ysgol Carreglefn gael effaith fechan ar atyniad yr ardal leol ar gyfer darpar brynwyr tai, yn enwedig y rhai sydd â neu'n bwriadu cael plant. Fodd bynnag byddai digon o le yn Ysgol Llanfechell i dderbyn disgyblion o Garreglefn. Dim ond 2.2 milltir o Ysgol Carreglefn yw Ysgol Llanfechell. Gallai hefyd wneud yr ardal yn fwy deniadol i brynwyr tai sy'n chwilio am gymdogaeth dawelach. Cydnabyddir y gallai fod newid yn nemograffeg yr ardal dros amser.</p>	Niwtral	<p>Trwy gydweithio gyda'r gymuned, gellid sicrhau dyfodol tymor hir adeilad ysgol Carreglefn. Pe bai hyn yn digwydd, fe allai liniaru effaith posib cau Ysgol Carreglefn.</p>

5 CASGLIAD

Aseswyd y cynnig i ddechrau o ran ei effaith bosibl ar y canlynol:

- Cydraddoldeb
- Yr iaith Gymraeg
- Y Gymuned

Mae effaith y cynnig ar bob rhan wedi'i hasesu i ddechrau fel a ganlyn:

Effaith gyfunol ar:	Effaith Debygol ar y cam cynnig:
Cydraddoldeb	Nid oes unrhyw botensial hysbys ar gyfer gwahaniaethu nac effaith andwyol ar hyn o bryd.
Iaith	Ymddengys nad yw'r cynnig ar hyn o bryd yn cael effaith andwyol gyffredinol ar yr iaith Gymraeg.
Y Gymuned	Ychydig neu ddim effaith canfyddedig ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gall rhai agweddau fod yn gadarnhaol e.e. disgyblion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn Ysgol Llanfechell.

Mae hon yn ddogfen waith a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd unrhyw effeithiau ychwanegol sy'n deillio yn cael eu hadlewyrchu mewn fersiwn ddiwygiedig a gyhoeddir fel rhan o'r Adroddiad Gwrthwynebu.

6 **Gwybodaeth bellach - Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol**

(Dyddiad cychwyn y ddyletswydd: 31 Mawrth 2021)

Beth yw'r Ddyletswydd?

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Pwy sydd yn debygol o brofi anfanteision economaidd-gymdeithasol?

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn 'cymunedau buddiant' a hefyd mewn 'cymunedau lle', gan arwain at fwy o anghydraddoldeb o ran canlyniadau, ac mae croestoriad o'r ddau yn gallu dwysau hynny:

Cymunedau buddiant – grwpiau sydd â phrofiad cyffredin, ee bod yn ddigartref; neu bobl sydd â'r un hunaniaeth, ee unig rieni, gofalwyr. Hefyd pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion garchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Cymunedau lleoedd – pobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd oherwydd lle maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser yno.

Croestoriad – yn ei hanfod, mae croestoriadedd yn ymwneud â deall sut y mae nodweddion fel rhyw, hil neu ddsbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at brofiad ac anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol. Ni ellir, ac ni ddylid deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

Pa bryd fydd y Ddyletswydd yn berthnasol?

Wrth wneud **penderfyniadau strategol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai enghreifftiau o benderfyniadau strategol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Cyfeiriad a bwriad strategol
- Strategaethau a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
- Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)

ATODIAD 1

- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus
- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau ynghylch caffael a chomisiynu
- Datblygu polisiau strategol.

7 Gwybodaeth bellach – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, waeth beth yw eu cenedligrwydd na'u dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - oll wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, cyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)

- Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
- Erthygl 3: Gwahardd artaith
- Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
- Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
- Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
- Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
- Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
- Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
- Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
- Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
- Erthygl 12: Yr hawl i briodi
- Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
- Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
- Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
- Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
- Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

ATODIAD 1

8 Gwybodaeth bellach - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

Cymru lewyrchus:

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

Cymru gydnerth:

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

Cymru iachach:

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

Cymru sy'n fwy cyfartal:

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Cymru o gymunedau cydlynus:

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Y Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	20 Chwefror 2024
Pwnc / Testun:	Cynllun Strategol Digidol Cyngor Sir Ynys Môn
Deilydd(ion) Portffolio:	Y Cyngorydd Carwyn E. Jones
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid
Awdur yr Adroddiad: Tel: E-bost:	Mathew Henshaw, Rheolwr Tîm TG MathewHenshaw@ynysmon.llyw.cymru Emrys Bebb, Rheolwr Rhaglen emrysbebb@ynysmon.llyw.cymru Rhian Jones, Cydlynnydd Busnes Trawsnewid RhianJones2@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Pob Aelod etholedig

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Mae'r adroddiad yn cyflwyno Cynllun Strategol Digidol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2024-2029. Mae'r Cynllun yn rhoi cyfeiriad clir ac yn nodi gweledigaeth ar gyfer TG yn seiliedig ar ein hegwyddorion cyffredinol a meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau TGCh.

Roedd y Strategaeth flaenorol, elwid yn 'Ynys Ddigidol' angen fersiwn diweddarach a chyfredol yn ei le gan fod Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028 rwan wedi ei fabwysiadu. Yn fwriadus, bu oedi i greu y cynllun TG i sicrhau aluniad gyda Cynllun y Cyngor.

Cynllun Strategol sydd yn gosod cyfeiriad corfforaethol, gyda cynlluniau gwasanaethau yn 'eistedd' o dan y brif strategaeth hon lle bo angen. Datblygir is-strategaethau ar gyfer ffrydiau gwaith neu rhaglenni sylweddol er enghraifft "Strategaeth Ddigidol Ysgolion 2022-2024". Mae'r Strategaeth Ddigidol hon yn cyd-fynd a dilyn cyfeiriad strategaethau eraill y Cyngor.

Bydd cynllun gweithredol blynyddol yn cael ei greu i sicrhau gweithrediad, monitro ac lle bo angen i adolygu y Cynllun Strategol ei hun.

Argymhellir:

- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth Ddigidol ddrafft.**
- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi yr egwyddor o gynllun gweithredol blynyddol**

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Ddim yn berthnasol.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Er mwyn cymeradwyo'r Cynllun Strategol Digidol

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ni fydd y penderfyniad yn effeithio ar y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer 2023/24.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):


1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Nod y Cynllun Strategol Digidol yw cyfarch disgwyliadau TG corfforaethol o ran cefnogi a bod o gymorth i'r Cyngor gyflawni gofynion a disgwyliadau fel rhan o arlwy i gael mynediad i wasanaethau.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	Mae cyllidebau TG i gefnogi Cynllun Strategol TG yn gorfforaethol mewn lle.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhwch wybod gyda phwy.	Rydym wedi cysylltu â thrafod gydag eraill am eu cynlluniau strategol TG nhw ee CLILC, cynghorau eraill ar draws Gymru sydd yn rhan o grŵp SOCITM Cymru. Mae Prif Swyddog Digidol Cymru wedi rhoi mewnbwn a chyngor.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Ymgysylltwyd gyda'r: <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoedd o Awst 17– Medi 8 2023 i • Uwch swyddogion y Cyngor • Tîm Reoli Corfforaethol • Rheolwyr Busnes Gwnaethpwyd hyn drwy anfon y ddogfen atynt am sylwadau ac yna eu hymgorffori yn y Cynllun Strategol Digidol.
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Sicrhau bod cynllun ar waith i wella hygyrchedd ein systemau digidol ar gyfer grwpiau sydd o bosib angen defnyddio offer megis darllenwyr sgrin neu gyferbyniad uchel i ddefnyddio systemau digidol.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Bydd yn sicrhau bod pob grŵp yn cael yr un mynediad a phrofiad.
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae sicrhau dwyieithrwydd systemau newydd yn rhan o gynllun gweithredu'r adain TG ac yn rhan o'r broses asesu addasrwydd meddalwedd cyn caffael a lansio. Mae'r cynllun yn ymrwymiad pellach i'r cyfrifoldeb yma.

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Mae eu sylwadau wedi eu hymgorffori yn y ddogfen
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Mae'r Swyddog 151 Cyllid yn aelod o'r TA ac mae unrhyw sylwadau a wnaeth wedi eu hystyried ynghyd â sylwadau aelodau'r TA
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA ac mae unrhyw sylwadau a wnaeth wedi eu hystyried ynghyd â sylwadau aelodau'r TA
4	Adnoddau Dynol (AD)	Mae'r Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid wedi ystyried y Cynllun Strategol Digidol ac mae ei sylwadau wedi eu hymgorffori yn y Cynllun Strategol Digidol.
5	Eiddo	Ddim yn berthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	Mae eu sylwadau wedi eu hymgorffori yn y ddogfen
7	Caffael	Ddim yn berthnasol
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	Yn berthnasol i holl Aelodau Etholedig y Cyngor

F - Atodiadau:

Atodiad A: Y Cynllun Strategol Digidol ddrafft

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):



Ynys Môn

THE ISLE OF

Anglesey

Cynllun Strategol Digidol Corfforaethol 2024-2029

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Saesneg /

This document is also available in English.



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Rhagair



Y Cyngorydd Carwyn
E. Jones

Arloeswr
Aelod Portffolio Corfforaethol
a Phrofiad y Cwsmer

Ychydig
261



Carys Edwards
Pennaeth Proffesiwn AD a
Thrawsnewid

Mae'r gair digidol a'r byd digidol yn rhan o bob agwedd ar fywyd a gwaith erbyn hyn ac mae'n allweddol i ffyniant a llwyddiant pob un ohonom. Dyma pam fod Cynllun Strategol Digidol Cyngor Sir Ynys Môn mor allweddol i siwrne'r Cyngor wrth gyflawni disgwyliadau ein trigolion.

Mae'r Cynllun yn nodi ein huchelgais a'n gweledigaeth i symud, gwella, moderneiddio a symleiddio ein prosesau drwy gymorth technoleg ond heb anghofio nad oes gan pawb yr un mynediad i'r byd digidol. Mae'r weledigaeth hon yn adlewyrchu ein hegwyddorion cyffredinol a'n meysydd blaenoriaeth allweddol. A hynny er mwyn gwella mynediad at wasanaethau.

Yn dilyn gwaith ymgysylltu diweddar â thrigolion, gwyddwn fod materion digidol yn bwysig i'n cymunedau ond fel rhan o arlwy cynhwysol. Fel Cyngor mae ein huchelgais ddigidol yn hanfodol o ran cyflawni'r amcanion strategol sydd wedi'u nodi yng Nghynllun y Cyngor (2023-2028) a chefnogi cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae arloesi digidol yn allweddol o ran cefnogi ac annog cyfleoedd economaidd ac adeiladu cymdeithas ddigidol fwy llewyrchus yn ogystal ag adnabod cyfleoedd i gyfrannu at ein targedau newid hinsawdd.

Prif nod y Cynllun Strategol yw sicrhau bod trigolion a phawb sy'n ymweld ag Ynys Môn yn gallu cael mynediad at wasanaethau o ansawdd uchel trwy amrywiaeth o sianeli digidol a thraddodiadol. Cynwysoldeb a hygyrchedd yw llinyn aur y Cynllun Strategol. Mae sicrhau bod gwasanaethau wedi'u dylunio gan ystyried anghenion defnyddwyr yn allweddol ac yn rhan o'r agenda ddigidol ehangach yng Nghymru.

Cynllun y Cyngor 2023-2028

Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:

'Creu Ynys Môn fydd yn iach a
llewyrchus lle gall bobl ffynnu.'

Tudalen 263



[Cynllun y Cyngor 2023-2028](#)

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol a fydd yn bwynt canolog i benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar bob lefel; bydd yn darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; llunio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Yn ei hanfod mae a wnelo'r cynllun â'n dymuniad i weithio gyda thrigolion Ynys Môn, cymunedau a phartneriaid a sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwasanaethau gorau posib, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r meysydd allweddol y dylai'r Cyngor fod yn canolbwyntio arnynt.

Ein chwe amcan strategol



Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.



Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir.



Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.



Tai

Sicrhau fod gan pawb yr hawl i alw rhywle yn gartref.



Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.



Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael a newid gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Y Gwerthoedd yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn feiliedig ar werthoedd craidd y defydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau. Wrth wireddu'r Strategaeth Ddigidol hon, byddwn yn dilyn y gwerthoedd hyn.



[Cynllun y Cyngor 2023-2028](#)

Gwerthoedd



Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.



Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.



Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.




Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Ynys.

Y Cylch Strategol

Cyflawni'r weledigaeth sydd, ynghyd â'n hegwyddorion cyffredinol a meysydd blaenoriaeth allweddol, yn gosod mandad clir ac uchelgeisiol.

Rydym am sicrhau bod technoleg digidol yn rhan annatod o waith y Cyngor ac yn gwella profiad ein cwsmeriaid fel dull o gael mynediad at wasanaethau.



Ar gyfer pwy mae'r Cynllun Strategol?

2,200 o staff o ran cyflawni dyletswyddau

69,000 o drigolion o ran cefnogi mynediad at wasanaethau

Dros filiwn o ymwelwyr â'r Ynys



Gyrwyr mewnol

Tynged yr gyrwyr mewnol sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar gyflawni'r Cynllun Strategol Digidol yw gwasanaethau, cydweithwyr, rheolwyr, technoleg gwybodaeth ar lefel gorfforaethol ac o fewn gwasanaethau.

- **Polisiâu a chynlluniau a strategaethau megis**
 - Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion
 - Tuag at Sero Net
 - Strategaeth Gyfalaf a Rheoli'r Trysorlys
 - Strategaethau a Chynlluniau - [Dolen](#)

Gyrwyr allanol

Y gyrwyr allanol sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar gyflawni'r Cynllun Strategol Digidol yw **deddfau, strategaethau ein partneriaid allanol ar lefel genedlaethol, ranbarthol ac ehangach. Y deddfau perthnasol yw:**

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**
- **Deddfau Rheoli Gwybodaeth**
- **Deddf Cydraddoldeb 2010**
- **Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysïadau Symudol) 2018.**

Tirwedd Ddigidol Cymru

Cynllun Strategol Digidol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2024-29 yw'r dehongliad lleol o'r Cynlluniau Strategol cenedlaethol hyn. Mae'n taro cydbwysedd rhwng gweledigaeth ein harweinwyr digidol cenedlaethol a blaenoriaethau a heriau penodol Ynys Môn ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Tudalen 267

Llywodraeth
Cymru

Cymdeithas
Llywodraeth Leol
Cymru

GIG Cymru

Canolfan
Gwasanaethau
Cyhoeddus
Digidol



GIG
CYMRU
NHS
WALES



Canolfan Gwasanaethau
Cyhoeddus Digidol
Centre for Digital
Public Services

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn rhan o dirwedd ddigidol ehangach Cymru a mae'n ystyried gweledigaethau a Chynlluniau Strategol y cyrff sy'n cydweithio i wella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer y bobl sy'n byw, gweithio ac yn ymweld â Chymru


Bydd yr ecosystem a'r arweinyddiaeth ddigidol hon yn dwyn ffrwyth wrth i'r awdurdod ymgysylltu fwyfwy â phob un o'r pedwar corff uchod, gan sicrhau bod ein cynlluniau a'r uchelgais sydd gennym ni'n lleol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni a gwireddu ein nodau cyffredin.

Cyngor Sir Ynys Môn

Tudalen 268



Defnydd o systemau digidol i gyfathrebu gydag asiantaethau



Prosesau digidol

78

o brosesau digidol wedi'u cyhoeddi ar lwyfannau digidol CSYM

Defnydd digidol

62,174

O geisiadau/archebion digidol yn ystod 22-23


Gwefan CSYM

342,051

wedi ymweld â'r wefan



Defnydd o systemau digidol i archebu nwyddau a gwasanaethau



Meysydd Blaenoriaeth Allweddol

- Maes blaenoriaeth Allweddol 1 - Cwsmer Digidol



- Maes blaenoriaeth Allweddol 2 - Gwasanaeth Digidol



- Maes blaenoriaeth Allweddol 3 - Lle Digidol



- Maes blaenoriaeth Allweddol 4 - Cydweithio



Maes Blaenoriaeth Allweddol 1 - Cwsmer Digidol

Pam bod hyn yn bwysig?

Er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion a ddefnyddir wrth ddylunio a darparu gwasanaethau digidol wedi'u gwreiddio'n gadarn. Fe all hyn wella profiadau a darparu rhyngwynebau well.

Rydym yn ymrwymo i ddylunio gwasanaethau digidol sydd yn hawdd i'w deall a'u defnyddio ac sy'n hygyrch i bawb.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod y cyhoedd gallu cysylltu â'r Cyngor drwy gyfryngau digidol gymaint â posibl a chynnig profiad o'r safon uchaf i gwsmeriaid.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Bydd gwasanaethau'r Cyngor yn gwneud mwy o ddefnydd o'r system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM)
- Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o fanteision a photensial y SgwrsFot
- Byddwn yn gwella cysylltedd ein sianeli digidol gyda'r cyhoedd
- Byddwn yn gwella hygyrchedd trwy creu gweithdrefnau i sicrhau hygyrchedd cynnwys digidol.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Bydd y CRM yn dod yn rhan o fusnes pob gwasanaeth
- Byddwn yn ymestyn y gwasanaeth SgwrsFot fel bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud ohono
- Ymchwilio i anghenion ein defnyddwyr trwy cyfweiliadau, archwiliadau ac arolygon.
- Cyhoeddi cynnwys newydd sydd yn hygyrch ac ail ymweld a ddogfennau a rhyngwynebau hanesyddol i'w wella
- Byddwn yn cynllunio gwasanaethau yn unol â'r egwyddorion yn y Cynllun Strategol hwn.

Maes Blaenoriaeth Allweddol 2 - Gwasanaeth Digidol

Pam bod hyn yn bwysig?

Mae darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr gwasanaeth yr awdurdod yn dasg sy'n dod yn fwy a mwy digidol gan fod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o ryngweithiadau digidol.

Mae datblygu hyder digidol yn bwysig.

Gellir cyflawni hyn drwy:

- wneud yn siŵr bod ein gweithlu yn meddu ar y sgiliau digidol angenrheidiol a'u bod yn ddefnyddwyr hyderus
- darparu offer digidol addas a dibynadwy
- gwneud yn siŵr bod ein systemau'n wydn ac yn hawdd i'w defnyddio

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- **Moderneiddio meddalwedd**
- **Symud i'r cwmwl**
- **Creu Map Data**
- **Cefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau digidol trwy gynnig hyfforddiant**
- **Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) o fewn y Cyngor**
- **Rydym yn ymrwymo i wneud yn siŵr y byddwn yn cadw ein prosesau gwasanaeth a'r bobl sy'n defnyddio ein systemau mewnol mewn cof pan fyddwn yn caffael systemau newydd a'u rhoi ar waith. Trwy weithredu yn y modd hwn gallwn ryddhau amser i'r staff.**

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- **Moderneiddio meddalwedd** drwy ddefnyddio technolegau newydd a awtomeiddio.
- **Creu Map Data** Cytuno ar ffordd y gallwn dod yn gyngor sy'n cael ei yrru gan ddata safonol.
- **Symud i'r cwmwl** yn hytrach na defnyddio gweinyddion
- **Hyfforddiant i staff** Buddsoddi yn yr offer cywir ar gyfer y gweithlu digidol a dileu tasgau ailadroddus
- **Creu ecosystem dechnolegol sy'n gyfeillgar ac yn helpu staff i lwyddo ac sy'n cyfrannu at recriwtio a chadw staff.**
- **Ddeallusrwydd Artiffisial (AI)** Cyflwyno technolegau awtomeiddio a fydd yn ychwanegu gwerth.

Maes Blaenoriaeth Allweddol 3 - Lle Digidol

Pam bod hyn yn bwysig?

Er mwyn gwneud Ynys Môn yn lle gwell i weithio, byw, a dysgu ac ymweld ag ef.

Creu gweledigaeth sydd yn plethu gydag uchelgais Cymru ddigidol gan gydweithio â'n partneriaid i gyfrannu at brosiectau a rhaglenni digidol sydd wedi, ac a fydd yn parhau, i effeithio ar ein cymuned ac a fydd o fudd iddi.

Cefnogi arloesedd digidol gan greu rhagolygon newydd i fusnesau a'r potensial i ddenu buddsoddiad a thalent yn y dyfodol.

Bydd yr arloesodd hwn yn ysgogi gwelliant yn y seilwaith digidol lleol sy'n hanfodol i gyflawni'r Cynllun Strategol hwn.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Byddwn yn gweithio gyda phrosiectau a rhaglenni ffurfiol trwy fforymau a grwpiau.

Byddwn yn cefnogi datblygiadau digidol eraill sy'n ymwneud â chysylltedd digidol

Byddwn yn cefnogi ysgolion i gyflawni disgwyliadau ein Strategaeth Ddigidol ar gyfer ysgolion.

Byddwn yn cryfhau ein trefniadau seiber ddiogelwch i fagu seibrgadernid.

Byddwn yn cael ein harchwilio gan gyrff allanol er mwyn gwella'r gwasanaeth a'r ddarpariaeth.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

Cydweithio

Cymryd rhan mewn cynlluniau a chynigion arloesol gan weithio'n agos gyda Menter Môn a'r ecosystem ddigidol yn M-Sparc a Phrifysgol Bangor a Phrif Swyddog Digidol C.L.I.L.C.

Seiberddiogelwch

Mabwysiadu mesurau i reoli bygythiadau a diogelu gwybodaeth yn ogystal â sicrhau bod prosesau adfer ar waith.

Archwiliadau

Cael ein harchwilio gan gyrff fel Swyddfa Archwilio Cymru.

Hunan arfarniad digidol

Ystyried hunan asesiad perthnasol sy'n ychwanegu gwerth i'r Cynllun Strategol ac i'n hamcanion digidol.

Maes Blaenoriaeth Allweddol 4: Cydweithio

Pam bod hyn yn bwysig?

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn uchelgeisiol a bydd yn sicrhau newid sylweddol i ddefnyddwyr gwasanaeth a gweithlu'r Cyngor.

Mae potensial aruthrol i dechnoleg ddigidol drawsnewid y ffordd yr ydym yn gweithio a darparu gwasanaethau ond, er mwyn gwireddu'r potensial hwn, mae angen inni ymgorffori'r blaenoriaethau a'r egwyddorion yn y Cynllun Strategol hwn ar draws y Cyngor a gyda'n partneriaid allanol.

Mae hyn yn cynnwys datblygu ein gwasanaethau ar-lein a sgiliau digidol ein gweithlu ymhellach, datblygu mynediad at dechnoleg a defnyddio technoleg i gydweithio â'n partneriaid.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Cyfathrebu a rhannu ein gweledigaeth

Adnabod cyfleoedd i gydweithio'n ddigidol gyda'n partneriaid

Parhau i sicrhau ein bod yn darparu lefel uchel o wasanaeth i'n defnyddwyr

Mireinio'r sianeli digidol presennol a chyflwyno'r sianeli digidol newydd sydd wedi'u dylunio o safbwynt ein dinasyddion

Sicrhau fod gwerthoedd y Cyngor yn rhan o'r siwrne ddigidol

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

Mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol i gefnogi'r gwaith.


Adnabod cyfleoedd i gydweithio a dysgu gan eraill

Datblygu ffyrdd newydd o weithio sy'n sicrhau bod ein gweithlu'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol i gefnogi'r datblygiadau digidol

Ymgynghori ac ymgysylltu yn unol â threfniadau'r Cyngor ar adegau amserol ac i bwrpas

Llywodraethiant: Monitro a Gwerthuso

Tudalen 274



I sicrhau bod y Cynllun Strategol hwn yn cael ei wireddu, byddwn yn sefydlu trefniadau llywodraethiant cadarn. Bydd y trefniadau yn sicrhau eglurder, atebolrwydd, cydlyniant a strwythur i fonitro cynnydd yn effeithiol.

Bydd Cynllun Gweithredu Blynyddol mewn lle a chaiff cynnydd ei adolygu pob chwarter a bydd adroddiadau'n cael eu cynhyrchu i roi crynodeb o'r gweithgareddau, canlyniadau/effaith ac i amlygu llwyddiannau a materion.

Byddwn yn cwblhau adroddiad cynnydd blynyddol a fydd yn cynnwys adolygiad o'r Cynllun Strategol a byddwn yn cynnal ymarferion sganio'r gorwel er mwyn sicrhau bod y datblygiadau yn berthnasol i egwyddorion y strategaeth hon a bydd y gwaith hwn yn cael ei amlinellu yn y cynllun gwireddu blynyddol er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cadw golwg ar y datblygiadau.

Cefnogaeth i wireddu

Pam bod hyn yn bwysig?

Mae llwyddiant prosiectau digidol yn ddibynnol ar nifer o ffactorau ac mae prosesau a gweithdrefnau cadarn a chlr yn cynorthwyo'r Cyngor i lwyddo.

Bydd ymdrech gydweithredol ar draws sefydliad cyfan yn allweddol i llwyddiant y strategaeth a byddwn yn galw ar swyddogion o bob gwasanaeth i ddarparu arbenigedd a chael eu mewnbwn.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Byddwn yn blaenoriaethu prosiectau digidol trwy ddatblygu fframwaith asesu fydd yn cynnwys ffactorau sy'n bwysig i'r Cyngor a rhanddeiliaid.

Byddwn yn sicrhau bod prosiectau a chynlluniau digidol yn nodi'n glir pa broblemau sydd angen eu datrys a chynnwys meini prawf llwyddiant fel y gellir asesu'r canlyniadau.

Byddwn yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol a dynol sydd eu hangen i wireddu prosiectau yn cael eu hasesu a'u hystyried yn llawn cyn cychwyn.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

Codi ymwybyddiaeth o flaenoriaethau'r Cyngor trwy ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Cydnabod demograffeg ein staff a'n cymunedau a chynllunio yn unol â hynny.

Gwerthuso darpar brosiectau

Dysgu gwersi o brosiectau hanesyddol a cheisio symleiddio a moderneiddio pob tro y bydd newid.

Dylunio gwasanaethau ar gyfer ein defnyddwyr yn gyntaf.

Adnoddau

Pam bod hyn yn bwysig?

Er mwyn bod yn agored a gonest gyda'n rhanddeiliaid ynglŷn â'r hyn y gallwn ei gyflawni

Mae adnoddau staffio ac adnoddau triannol yn allweddol o ran cyflawni.

Er mwyn sicrhau gwerth am arian a chydymffurfio â threfniadau llwyodraethiant a gweledigaeth y Cyngor.

Mae TG a pharhad busnes yn allweddol gan fod TG mor greiddiol i bob agwedd ar waith y Cyngor o ran cyflawni a gweithredu.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Blaenoriaethu prosiectau yn seiliedig ar ganllawiau clir a phenodol a fydd yn cefnogi hanfodion Cynllun y Cyngor

Cydymffurfio â deddfwriaeth ac archwiliadau

Rheoli disgwyliadau allanol cynyddol o fewn fframwaith y Cynllun Strategol

Cyflawni gyda'r adnoddau sydd gennym ni (adnoddau dynol ac offer, meddalwedd a chaledwedd) ac sydd ar gael

Rheoli risgiau

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

Blaenoriaethu cadarn ar sail canllawiau clir

Gweithredu ar argymhellion rhesymol sy'n deillio o archwiliadau

Dilyn y gwerthoedd yng Nghynllun y Cyngor

Adolygu risgiau

Monitro ac adlewyrchu yn rheolaidd

Y Risgiau o ran cyflawni'r Cynllun Strategol Digidol

Pwysau ar y Gyllideb Refeniw



Craffu ar trwyddedau a cheisio adnabod lleffydd l lleihau gwarant refeniw.

Arwyddo cytundebau sydd yn rhewi cyfradd llog a defnyddio fframweithiau a cyfleoedd i caffael ar y cyd l lleihau costau.

Ystyried effaith unrhyw newid l deddfwriaeth wrth blaenoriaethu a trefnu gwaith digidol.

Costau a Cyfraddau Llog Uwch



Newidiadau Deddfwriaethol



Er mwyn lwyddo i cyflawni amcanion y strategaeth hon mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth clir or heriau a risgiau yn holl pwysig. Trwy cynllunio a gweithredu yn parhaus i lliniaru risgiau fedrwn lleihau eu effeithiau.

Gorfod ymateb i ddiwyddiadau na ellir eu rhagweld



Diffyg arian grant allanol



Capasti Mewnol i Gyflawni'r Cynllun



Adolygu ac ymarfer cynlluniau parhad busnes a bod yn barod l ail edrych ar flaenoriaethau a cynlluniau.

Adnabod dulliau amgen l cyllido cynlluniau digidol.

Adnabd cyfleoedd l gweithio mewn partneriaeth a ail defnyddio gwaith trwy fforymau genedlaethol

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Y Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	20 Chwefror, 2024
Pwnc / Testun:	Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid 2024-29
Aelod(au) Portffolio:	Cyng Gary Pritchard
Rheolwr Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Ned Michael
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	Lisa Dundee, Swyddog Strategaeth Tai ac Eiliw Llŷr, Rheolwr Polisi Tai, Comisiynu a Strategaeth 01248752137 LisaDundee@ynysmon.llyw.cymru EiliwLlŷr@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amh

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

A1 gymeradwyo Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid 2024-29

1. Cefndir

Datblygwyd y Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid i sicrhau bod y Gwasanaethau Tai yn gweithio mewn partneriaeth â thenantiaid i ddatblygu a darparu gwasanaethau tai o'r radd flaenaf i bobl Ynys Môn.

Mae gofyniad cyfreithiol ar landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru i gefnogi a datblygu Cyfranogiad Tenantiaid. Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid 2024-29 yw olynnydd Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol 2018-2023. Mae Deddf Tai Cymru (2014) yn amlinellu bod yn rhaid i bob landlord cymdeithasol yng Nghymru gael strategaeth cyfranogiad tenantiaid gyda'r nod hirdymor o sicrhau gwelliannau parhaus mewn perfformiad landlordiaid o ran cefnogi a galluogi tenantiaid i gymryd rhan.

Mae cyfranogiad tenantiaid ystyrllon yn golygu rhannu gwybodaeth, syniadau a phenderfyniadau gyda thenantiaid a gweithio mewn partneriaeth i gytuno:

- Sut y dylid rheoli eu cartrefi a'u hamgylchedd lleol.
- Pa wasanaethau a gwelliannau sydd eu hangen?
- Beth ddylai ein blaenoriaethau ni fod.
- Sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni'r rhain i gyd.

Mae Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid 2024-29 wedi cael ei ddatblygu gan staff y Gwasanaethau Tai a thenantiaid Tai drwy weithdai a chyfarfodydd a gynhaliwyd gyda TPAS Cymru TPAS Cymru [swyddog TPAS Cymru \(Gwasanaeth Cynghori Cyfranogiad Tenantiaid\)](#).

2. Llwyddiant y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid blaenorol

O ganlyniad i'r heriau yn sgil y pandemig Covid-19, roedd rhai agweddau ar y strategaeth ddiwethaf a oedd yn anoddach i'w cyflawni oherwydd y cyfyngiadau ar ymgysylltu wyneb yn wyneb. Serch hynny, mae sawl llwyddiant wedi dod i'r amlwg o'r strategaeth flaenorol ynghyd â llwyddiannau newydd, o ganlyniad i ymateb adweithiol y timau i ddiwallu anghenion tenantiaid yn ystod y pandemig.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Hwb Rhithiol Ynys Môn** – Bu Tîm Cyfranogiad a Chynhwysiant Ariannol Gwasanaethau Tai Gwynedd a Môn, Medrwn Môn a Gwasanaethau Tai Môn yn gweithio mewn partneriaeth â sawl canolfan a sefydliad cymunedol ledled Ynys Môn i dreialu prosiect Hwb Rhithiol Môn. Cefnogodd y prosiect bobl yn eu cymunedau i gadw mewn cysylltiad â'u cymunedau, eu teuluoedd a'u ffrindiau'n ddigidol a gwella eu sgiliau digidol. Cynhaliwyd y cwrs am 12 wythnos ac roedd yn ymdrin â phynciau fel diogelwch ar-lein, siopa ar-lein a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Enillodd y tîm wobwr TPAS Cymru am y prosiect llwyddiannus hwn.
- **Cymorthfeydd Heddlu a Sioeau Teithiol Tai Môn** – Rhoddwyd cyfle i denantiaid gwrdd â'u Swyddogion Tai a Heddlu lleol, yn ogystal ag asiantaethau eraill a oedd ar gael i ddarparu cymorth neu arweiniad ariannol, yn ogystal â thrafod unrhyw bryderon, materion, syniadau neu ateb unrhyw gwestiynau.
- **Panel Atgyweirio - Prosiect Lleithder ac Anwedd** - Un o'r darnau diweddaraf o waith i gael ei gyflawni gan y panel atgyweirio oedd dogfen addysgiadol ar fynd i'r afael â lleithder ac anwedd yn y cartref.
- **Mannau Cynnes/Hybiau** – Yn sgil y cynnydd parhaus mewn costau ynni a chan bod nifer yn poeni am wresogi eu cartref, sefydlodd y tîm Cyfranogiad Tenantiaid bedwar man cynnes yn ein hybiau cymunedol ledled yr ynys lle darparwyd prydau poeth yn rhad ac am ddim mewn lle cynnes. Cynhaliwyd y sesiynau unwaith yr wythnos am gyfnod o 16 wythnos. Helpodd hyn i fynd i'r afael â'r cynnydd a welwyd mewn achosion o ynysu cymdeithasol a welwyd yn dilyn y pandemig Covid-19, oherwydd bod llai o ddefnydd yn cael ei wneud o'r lolfeydd cymunedol. Llwyddodd preswylwyr i ailadeiladu'r hyder yr oedent wedi'i gollu yn ystod y cyfnodau clo ac ail-ymgysylltu ag aelodau'r gymuned mewn lleoliad cyfarwydd a chynnes.

3. Trosolwg o'r Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid

Bydd y Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid yn gweithio tuag at gyflawni'r meysydd blaenoriaeth allweddol canlynol:

1. Ymgysylltu a Hysbysu - Sicrhau ein bod ni'n ymgysylltu'n effeithiol â thenantiaid a rhannu gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â'r Gwasanaethau Tai

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

2. Recriwtio, Cadw a Dylanwadu - Grymuso ein tenantiaid i lunio ein gwasanaethau a dylanwadu arnynt.
3. Esblygu ac Arloesi - Gwella ein gwasanaethau yn barhaus i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid.
4. Sgiliau Hyfforddi a Datblygu - Sicrhau bod gan denantiaid y sgiliau a'r hyder i gymryd rhan mewn cyfleoedd cyfranogiad tenantiaid.

4. Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023

Mae safonau SATC 2023 yn paratoi'r ffordd ar gyfer yr hyn a ddisgwylir er mwyn bodloni safonau tai cyffredin ym maes diogelwch, inswleiddio a chyflwr eiddo. Mae'r safonau hefyd yn canolbwyntio'n drwm ar Sero Net ac mae ymateb TPAS Cymru i SATC yn amlygu bod ymgysylltu â thenantiaid yn allweddol i gyflawni Sero Net ac yn nodi sut y gall Cymru sicrhau allyriadau carbon sero net erbyn y flwyddyn 2050, trwy roi lle blaenllaw i ymgysylltu â thenantiaid. Mae'r ymateb hefyd yn tynnu sylw at yr angen i ymgysylltu â thenantiaid cyn ac ar ôl i waith gael ei wneud yng nghartref y tenant. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen i landlordiaid fod yn dryloyw ynghylch sut y gallai'r newidiadau edrych a darparu cefnogaeth yn ystod y cyfnod pontio a thu hwnt. Mae'r Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid yn amlinellu sut y bydd y Gwasanaethau Tai yn gweithio'n agos gyda thenantiaid ac yn eu diweddau'n barhaus.

5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid yn nodi sut y byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'n tenantiaid i sicrhau ein bod ni'n cynnal safon ein tai i gwrdd â'r heriau a ddaw yn sgil tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Nid oes unrhyw opsiynau eraill i'w hystyried. Byddai peidio â chael Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid cyfredol yn golygu na allem fesur yr effaith y mae tenantiaid yn ei gael ar wella gwasanaethau tai. Mae gofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Tai Cymru (2014) i gael cynllun.

C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'n ymwneud â Chynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) ac mae'n ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Tai Cymru (2014)

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae'r Cynllun Strategol yn nodi sut yr aethom ati i gyflawni'r nod hirdymor o gyflawni gwelliannau parhaus ym mherfformiad y Gwasanaeth Tai ac wrth ymgysylltu â thenantiaid.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Wrth ystyried Gwerth am Arian; mae'r pwyslais ar annog gwelliannau mewn gwasanaethau er mwyn sicrhau'r adenillion cymdeithasol ac effaith gymdeithasol fwyaf posib ar gyfer ein tenantiaid a'n cymunedau.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:	Defnyddiwyd gweithdai a dogfennau ymgynghori TPAS Cymru i ysgrifennu'r cynllun strategol hwn.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut:-	Mae tenantiaid wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Gweler yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n nodi y bydd yn cael effaith gadarnhaol.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantaes economaidd-gymdeithasol.	Gweler asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n ystyried y rhai a allai fod yn agored i niwed
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Cefnogi'r argymhelliad
2	Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)	Cefnogi'r argymhelliad
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Cefnogi'r argymhelliad
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amh
5	Eiddo	Amh
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amh
7	Caffael	Amh
8	Sgriwtini	Yn ystod y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16.1.24 argymhellwyd bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gymeradwyo.
9	Aelodau Lleol	

F - Atodiadau:

Atodiad 1 Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid 2024-29.

FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda):

Cynllun Busnes 30 mlynedd Cyfrif Refeniw Tai 2023-2053

Ynys Môn

THE ISLE OF

Anglesey



Cynllun Strategol Gwasanaethau Tai ar Gyfranogiad Tenantiaid 2024 - 2029



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Gymraeg

This document is also available in Welsh

www.ynysmon.llyw.cymru

Rhagair



Pennaeth
Gwasanaeth Tai

Ned Michael



Deilydd
Portffolio
Tai

**Cyng. Gary
Pritchard**

Mae Cynllun Strategol y Gwasanaethau Tai ar Gyfranogiad Tenantiaid yn nodi'r hyn yr ydym ni'n gobeithio'i gyflawni drwy weithio mewn partneriaeth â'n Tenantiaid, gwasanaethau mewnol y Cyngor a phartneriaid allanol dros y pum mlynedd nesaf, gan sicrhau ein bod ni'n rhoi'n Tenantiaid wrth wraidd popeth a wnawn. Yn ein Harolwg STAR diwethaf (2021) dywedodd 81% o Denantiaid ei bod hi'n hawdd delio â ni a dywedodd 73% ein bod ni wedi gwranddo ar eu sylwadau a gweithredu arnynt.

Pwrpas y Cynllun Strategol yw sicrhau ein bod ni'n adeiladu ar yr ymatebion i'n harolwg STAR diwethaf er mwyn sicrhau bod llais y Tenant yn dylanwadu ar ein gwaith, yn enwedig wrth gyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru II. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i gynnwys Tenantiaid wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'u cartrefi.

Mae'r Cynllun Strategol yn rhan o fframwaith o strategaethau sy'n tanategu Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai a Chynllun y Cyngor 2023-2028, sy'n nodi sut y byddwn yn cyflawni ein hymrwymiaidau dros y blynyddoedd nesaf.

Cyd-destun Strategol:

Mae'r Cynllun hwn yn ymateb i nifer o Bolisiau Cenedlaethol megis:

- [Deddf Tai Cymru \(2014\)](#), sy'n gosod rhwymedigaeth statudol ar Landlordiaid Cymdeithasol yng Nghymru i fabwysiaidau Cynllun Strategol ar Gyfranogiad Tenantiaid
- Cyfrannu tuag at [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) drwy'r gwaith yr ydym ni'n ei gyflawni yn ein cymunedau
- Safon Ansawdd Tai Cymru II 2023 a'r gofyniad i gynnwys Tenantiaid

Llais i Bawb

Rydym yn awyddus i annog cymaint o Denantiaid â phosib i gymryd rhan, ac felly mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ganolog i'n gwaith. Rydym yn cydnabod bod nifer o grwpiau yn aml iawn yn cael eu tangynrychioli pan fyddwn yn ymgysylltu â chymunedau. Mae'r rhain yn cynnwys:

Cwsmeriaid sydd wedi'u hallgau'n ddigidol **Pobl ag anghenion hygrychedd**

Pobl LHDTC+ **Sipsiwn/Teithwyr** **Pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth digartrefedd**

Pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal **Unigolion â chyfrifoldebau gofalu**

Tenantiaid y sector rhentu preifat **Pobl ifanc** **Pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol**

Byddwn yn dal i gynnig dulliau ymgysylltu wyneb yn wyneb, ac yn cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau mewn lleoliadau sy'n hygyrch i bawb gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn pob math o wahanol fformatau.

Byddwn yn sicrhau ein bod ni'n defnyddio data a gwybodaeth i lunio a theilwra gwasanaethau i gwrdd ag anghenion unigolion a chymunedau yn y dyfodol.

Bydd ein cyfleoedd Cyfranogiad Tenantiaid ar gael yn ddwyieithog er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn unol â Chynllun y Cyngor.



Annog Gwelliannau

Tudalen 287



Rydym wedi gwranddo arnoch chi ond nid da lle gellir gwell!

- Rydym wedi edrych ar ein strategaeth flaenorol a'r hyn a gyflawnom yn ystod cyfnod anodd y pandemig. Er ein bod wedi gorfod addasu ein ffordd o weithio a heb gael llawer o gyfle i ymgysylltu â phobl wyneb yn wyneb, llwyddom i ymgysylltu â Thenantiaid ac ailgyfeirio ein harbenigedd a'n gwybodaeth i fynd i'r afael ag anghenion Tenantiaid yn ystod cyfnod anodd hwn. Rydym yn gobeithio newid cyfeiriad a rhoi mwy o sylw i Gyfranogiad Tenantiaid cadarn yn hytrach na gwaith datblygu cymunedol traddodiadol.
- Drwy dderbyn adborth rheolaidd fel rhan o'r ymarfer **'Dywedoch chi, Gwnaethom Ni'** a **'Dywedoch chi, ond doedden ni ddim yn gallu oherwydd...'** rydym wedi adolygu ein gweithgareddau i wneud yn siŵr eu bod yn sicrhau gwerth am arian ac yn ceisio gwella gwasanaethau drwy fonitro ein gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid.

Cynllun y Cyngor 2023-2028

Gweledigaeth Cynllun y Cyngor
yw:

Tudalen 288
Creu Ynys Môn sy'n iach a
llewyrchus lle gall pobl
ffynnu.'

- Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; llunio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.
- Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.



Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.



Gofal Cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir.



Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.



Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.



Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.



[Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru)

Ein Gwerthoedd

- Mae gwerthoedd craidd y sefydliad yn sylfaen i Gynllun y Cyngor 2023-28, ac maent yn cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain ein gweledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.
- Mae'n gwaith yn seiliedig ar y gwerthoedd sydd wedi'u nodi yn Siarter Cwsmeriaid Môn.

Tudalen 289



Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.



Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.



Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.



Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys


Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Cyngor a'r Ynys.



Y Cylch Strategol

- Mae'r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.
- Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac mae'n cyfrannu at gyflawni ein hamcanion a'r weledigaeth strategol.

Tudalen 290




Prif feysydd blaenoriaeth

Mae cyflawni'r flaenoriaeth strategol hon, ynghyd â'r prif feysydd blaenoriaeth, yn gosod mandad clir ac uchelgeisiol.

Rydym am wneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud y pethau canlynol:

Gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai bresennol a gwella cartrefi a chymunedau (Thema 2 yn [Strategaeth Dai'r Cyngor 2022-27](#))

Cefnogi pobl i fyw'n annibynnol (Thema 4 yn [Strategaeth Dai'r Cyngor 2022-27](#))



Ymgysylltu a Hysbysu – Sicrhau ein bod ni'n ymgysylltu'n effeithiol a rhannu gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â'r Gwasanaethau Tai



Pam bod hyn yn bwysig?

Rydym eisiau gwella ein gwasanaethau, ein cartrefi a'n hystadau trwy weithio gyda'n Tenantiaid, felly mae'n bwysig bod ein Tenantiaid yn ymwybodol o'r hyn yr ydym ni'n ei wneud.

Er mwyn sicrhau bod cyfathrebu rhwng staff y Gwasanaethau Tai a Thenantiaid yn broses dwy ffordd. Yn ôl ein harolwg STAR diwethaf roedd 83% o'n Tenantiaid yn ymddiried yng Nghyngor Ynys Môn.

Er mwyn sicrhau bod Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) cam 2 yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus trwy sicrhau rhagoriaeth wrth ymgysylltu â Thenantiaid a'u cael i gymryd rhan. Yn ôl ein harolwg STAR diwethaf roedd 77% o'n Tenantiaid yn fodlon â'r gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Byddwn yn ymgysylltu â Thenantiaid a rhannu gwybodaeth â hwy, gan gydnabod y bydd yn well gan rai dderbyn gwybodaeth ar bapur a thros y ffôn yn ogystal â thros blatfformau digidol.

Byddwn yn darparu dewis o ddulliau ymgysylltu.

Byddwn yn defnyddio dulliau ymgysylltu addas a phriodol i gyfathrebu â Thenantiaid a byddwn yn datblygu dulliau hyblyg fel y gallant ddewis cymryd rhan cyn lleied neu cyn amled ag y maent yn ei ddymuno.

Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu Cyfranogiad Tenantiaid ac yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â Thenantiaid.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

Byddwn yn defnyddio ac yn monitro'r dulliau canlynol i fesur cynnydd yn unol â'r cynllun gweithredu:

Dogfennau ysgrifenedig megis ein newyddlen ar gyfer Tenantiaid, adroddiadau diweddarau ar y cynllun gweithredu a chyfathrebiadau ar-lein.

Digidaleiddio – datblygu ein porth hunan-wasanaeth a systemau tecstio a darparu sesiynau a gweithdai ar-lein.

Cyfarfodydd, grwpiau a digwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer Tenantiaid.

Recriwtio, Cadw a Dylanwadu – Cynyddu Cyfranogiad Tenantiaid a grymuso Tenantiaid i lunio ein gwasanaethau a dylanwadu arnynt

Pam bod hyn yn bwysig?

Er mwyn recriwtio Tenantiaid i'w grymuso i lunio ein gwasanaethau a dylanwadu arnynt.

Er mwyn cadw diddordeb Tenantiaid drwy ystyried yr amser sydd ganddynt i gymryd rhan.

Er mwyn mynd ati ar y cyd i ddatrys problemau a heriau all effeithio ar wasanaethau a gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu yn y dyfodol.

Er mwyn cwrdd ag anghenion cwsmeriaid a hyrwyddo ymdeimlad o gymuned. Yn ôl ein harolwg STAR diwethaf roedd 85% o'r ymatebwyr yn fodlon â'u cymdogaeth fel lle i fyw.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gan Denantiaid y gallu a'r hyder i gymryd rhan.

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod modd i Denantiaid gymryd rhan mewn amryw o wahanol ffyrdd.

Byddwn yn cefnogi Tenantiaid i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth fel y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau a gwella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu.



Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

Byddwn yn recriwtio aelodau newydd drwy:

- Rwydweithio
- Ymgysylltu ar-lein
- Ymgysylltu â'r gymuned
- Cofrestru o ddrws i ddrws
- Ein partneriaid

Byddwn yn cefnogi Tenantiaid i ddylanwadu ar benderfyniadau a'r gwasanaethau a ddarperir:

- Uwchsgilio Tenantiaid
- Helpu i gynyddu hyder Tenantiaid i ddylanwadu ar wasanaethau a phenderfyniadau
- Darparu cyfleoedd i Denantiaid gymryd rhan ar lefel weithredol a strategol

Byddwn yn monitro effaith hyn oll drwy:

- Gadw llygaid ar nifer y Tenantiaid sy'n cymryd rhan yn cynnwys nifer y Tenantiaid newydd a grwpiau lleiafrifol.
- Cynyddu nifer y Tenantiaid sy'n ymgysylltu ar-lein.
- Cymharu arolygon amser real a STAR.

Esblygu ac Arloesi – Gwella ein gwasanaethau yn barhaus i gwrdd ac anghenion ein cwsmeriaid

Pam bod hyn yn bwysig?

Er mwyn parhau i wella gwasanaethau a grymuso Tenantiaid a nodi meysydd allweddol i'w gwella a'u datblygu.

Del bod gwerthoedd ac egwyddorion Cyfranogiad Tenantiaid yn dod yn rhan annatod o ddiwylliant ein gwasanaethau a'n cymunedau.

Er mwyn bod yn rhagweithiol wrth ddatblygu ein gwasanaethau, gan ddefnyddio arfer da gan eraill.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Cadarnhau ein gwerthoedd.

Addasu er mwyn cwrdd ag anghenion ein Tenantiaid a'n cwsmeriaid.

Darparu gwasanaethau sy'n perfformio'n dda ac sy'n sicrhau gwerth am arian.

Cyflawni ein Siarter Gwasanaeth Cwsmer Corfforaethol.

Derbyn cefnogaeth gan TPAS Cymru i sicrhau bod Staff y Gwasanaethau Tai a Thenantiaid yn cael eu harwain drwy ddulliau arloesol o fewn y sector tai.

Rhannu arfer da.

Annog Tenantiaid i gymryd rhan mewn gwahanol grwpiau/paneli wyneb yn wyneb. Rhoi cyfle i denantiaid drafod materion a chyfrannu ar lefel strategol.

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

Drwy ein:

- Grŵp Atgyweirio a Chynnal a Chadw
- Grŵp Ffocws Gwasanaethau Tai
- Grŵp Cymunedol Llais y Tenant
- Panel Cyhoeddi
- Panel Monitro
- Grŵp Archwilio
- Grŵp Digidol
- Panel Amgylcheddol
- Grŵp Ffocws SATC (WHQS)

Byddwn hefyd yn gweithio tuag at sicrhau bod Cyfranogiad Tenantiaid yn dod yn rhan annatod o'r gwasanaethau tai drwy:

- Gael pob maes o fewn y gwasanaethau tai i ymrwymo i fynychu'r grwpiau gorchwyl a gorffen a'r paneli priodol.
- Darparu hyfforddiant mewnol i staff ac Aelodau Etholedig ar Gyfranogiad Tenantiaid
- Bwletinau chwarterol i staff

Hyfforddi a Datblygu Sgiliau – Sicrhau bod Tenantiaid yn meddu ar y sgiliau a'r hyder i gymryd rhan mewn cyfleoedd Cyfranogiad Tenantiaid

Pam bod hyn yn bwysig?

Er mwyn rhoi cyfle i Denantiaid ddatblygu eu sgiliau, eu sylfaen wybodaeth a'u hunan hyder fel y gallant ddylanwadu ar ein gwasanaethau a'u gwella.

Er mwyn helpu i liniaru materion megis ymysgirwydd cymdeithasol drwy gynnig lle digel i Denantiaid dderbyn cefnogaeth, gwneud ffrindiau newydd a rhannu diddordebau cyffredin.

Er mwyn rhyngweithio mwy gyda Thenantiaid, cynhyrchu mwy o syniadau a dod o hyd i fwy o atebion i heriau.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Byddwn yn cefnogi ac annog Tenantiaid i ddatblygu eu sgiliau a'u gwytodaeth trwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi, a'u galluogi i wella eu sgiliau a'u sylfaen wybodaeth drwy gyfleoedd Cyfranogiad Tenantiaid a thrwy chymryd rhan mewn unrhyw ffordd.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod hyfforddiant ar gael ar sgiliau digidol, cydraddoldeb, amrywiaeth a Diogelu Data/GDPR
- Darparu hyfforddiant a chefnogaeth i Denantiaid newydd sy'n dymuno cymryd rhan
- Cefnogi Tenantiaid i ddeall eu rôl fel rhan o'r broses graffu er mwyn gwella Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn yng nghyd-destun tai cymdeithasol
- Cyflwyno Cynrychiolwyr Tenantiaid i TPAS Cymru

Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

Byddwn yn trefnu a gwneud yn siŵr bod y cyfleoedd hyfforddi canlynol ar gael:

- Hyfforddiant TPAS
- Materion Cydraddoldeb
- Hyfforddiant Craffu Sylfaenol
- Hyfforddiant Môn CF
- Hyfforddiant Sgiliau Digidol Coleg Menai
- Hyfforddiant Cymru Gydweithredol
- Hyfforddiant a chysiau ar-lein E-Cymru (yn cynnwys hyfforddiant iaith Gymraeg)
- Hyfforddiant Archwilio
- Hyfforddiant Hylendid Bwyd



Llywodraethiant: Monitro a Gwerthuso

Tudalen 296



TICY TENANT
TENANT APPROVED

Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn adolygu a datblygu ein dulliau yn barhaus gyda'n Tenantiaid er mwyn sicrhau bod y gynrychiolaeth yn effeithlon ac yn unol â'n gweledigaeth ac yn ein helpu i gyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi yn ein Cynllun Strategol ar Gyfranogiad Tenantiaid.

Byddwn yn datblygu Cynllun Gweithredu 12 mis ar y cyd a fydd yn cael ei fonitro'n chwarterol gan y Grŵp Monitro Cyfranogiad Tenantiaid.

Bydd adroddiad cynnydd blynyddol yn cael ei baratoi ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli Tai.

Byddwn hefyd yn monitro aelodaeth y grŵp er mwyn sicrhau bod staff a Thenantiaid yn cael eu cynrychioli'n gyfartal fel y gallwn weithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus er mwyn gwella gwasanaethau yn unol ag anghenion ein Tenantiaid.



Ein Llwyddiannau

2018 - 2023

Logo newydd Tai Môn wedi cael ei greu



Lansio ein Llwyfan Cyfryngau Cymdeithasol

Sesiynau Iechyd a Lles



Tudalen 297



Grŵp digidol Tenantiaid

Cylchlythyr Tai Môn



Adolygiad Safonau Gosod



Projectau Pontio Cenedlaethau



Projectau Gwella Amgylcheddol a Chymuned



TIC Y TENANT
TENANT APPROVED

Logo a gymeradwywyd gan denantiaid

Hwb Rhithwir Ynys Môn



Gwobrau TPAS

Fforwm atal digartrefedd



Mannau Cynnes

29 o Aelodau Gweithredol Cyfranogiad Tenantiaid



Sesiynau te, teisen a thechnoleg



Sioe Deithiol Tai Môn



Gair gan ein Panel Cyfranogiad Tenantiaid

❖ “Dwi’n hoffi bod yna gytundeb i newid – mae’n golygu bod yna ymrwymiad i’r dyfodol yn hytrach na’r gorffennol”.

❖ “Dwi’n teimlo bod egni newydd yn cael ei fuddsoddi yn y Cynllun ar gyfer y dyfodol.”

Tudalen 298

❖ “Fel cynrychiolydd Tenantiaid mae fy nghyfraniad yn gallu helpu i sicrhau bod tenantiaid yn ganolog i gynlluniau’r Gwasanaethau Tai er mwyn gwella’r gwasanaethau y maent yn eu darparu i ni”.

❖ “Fel aelod o’r Panel Cyfranogiad Tenantiaid mae fy syniadau a’r sylwadau yn gallu cael dylanwad positif ar y Gwasanaethau Tai er lles pob Tenant”.

❖ “Fel aelod o’r Panel Cyfranogiad Tenantiaid rydw i’n gwybod bod fy nghyfraniad yn gwneud gwahaniaeth positif i Wasanaethau Tai ar Ynys Môn er lles Tenantiaid fel fi”.

❖ “Mae wedi bod yn hynod ddiddorol a defnyddiol bob yn rhan o’r cyfarfodydd Tenantiaid. Rydw wedi mwynhau cael cyfle i rannu fy syniadau a’r pryderon a all helpu eraill. Rydw i hefyd wedi mwynhau dod i nabod staff y Cyngor. Heb os, roedd y trî Nadolig yn hyfryd a chawsom hwyl yng nghwmni ein gilydd”.

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Y Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	20 Chwefror, 2024
Pwnc / Testun:	Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-29
Aelod(au) Portffolio:	Cyng Gary Pritchard
Rheolwr Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Ned Michael
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	Elliw Llŷr, Rheolwr Polisi Tai, Comisiynu a Strategaeth 01248752137 ElliwLlyr@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amh

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

A1 gymeradwyo Cynllun Rheoli Asedau 2024-29

1. Cefndir

Datblygwyd y Cynllun Strategol Rheoli Asedau i adlewyrchu newidiadau allweddol o fewn polisiau cenedlaethol mewn perthynas a dad garboneiddio a gwella tai cymdeithasol i gwrdd a Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023 (SATC 2023).

Fel rhan o baratoi ar gyfer gwireddu'r safonau newydd mae arolwg cyflwr stoc wedi ei gynnal ar ein holl stoc tai a bydd llwybrau ynni wedi eu targedu yn cael eu paratoi ar gyfer pob un o'n eiddo.

Hyd yma, does dim costau ar gael ar gyfer gwireddu'r safonau newydd ond byddwn yn cynnwys y costau pan byddent ar gael o fewn ein Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai er mwyn sicrhau bod ffynonellau ariannu digonol mewn lle ar gyfer ariannu'r strategaeth hwn er mwyn ein galluogi i gwrdd a SATC 2023 erbyn 2034.

Drwy gydol cyfnod y cynllun hwn byddwn yn ymrwymedig i wella boddhad ein tenantiaid mewn perthynas a gwaith trwsio a cynnal a chadw.

2. Llwyddiant y Strategaeth Rheoli Asedau Blaenorol

Roedd y Strategaeth Rheoli Asedau blaenorol yn cynnwys Rhaglenni Buddsoddi penodol mewn gwahanol ffrydiau gwaith. Mae'r llwyddiannau dros gyfnod y cynllun blaenorol yn cynnwys:

- **Ardaloedd Cymunedol Fflatiau:** Mae gwaith sylweddol i uwchraddio nifer uchel o ddrysau tân wedi'i gwblhau. Yn ogystal, erbyn diwedd 2023/24 byddwn wedi cwblhau gwaith Adrannau Tân a gosod systemau atal tân yn ein 4 bloc tŵr canolig. Cefnogwyd y gwaith pwysig hwn gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

- **Contractau Cynnal a Chadw Cynlluniedig Allanol Tŷ Cyfan:**

Llwyddwyd i gyflawni nifer o contractau a denwyd arian allanol drwy Raglen Ôl-ffitio Optimeiddieddio Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, dros oes y strategaeth flaenorol roedd gwaith cynlluniedig wedi canolbwyntio ar eiddo oddi ar y grid gyda graddfeydd perfformiad ynni is. Esblygodd contractau i gynnwys gosod mesurau ynni adnewyddadwy fel Solar PV, Storio Batri a Systemau Ynni Deallus.

- **Rhaglen Newid Boeleri:** Er yr effeithiwyd yn andwyol gan Covid ar ein rhaglen ailosod boeler, yn unol â chylchoedd bywyd 15 mlynedd, maent ar y trywydd iawn i fod yn gyfredol ddiwedd mis Mawrth 2024.

3. Trosolwg o'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau

Bydd y Cynllun Strategol Rheoli Asedau yn gweithio i'r prif amcanion canlynol, sef:

1. **Data Asedau a Darparu'r Gwasanaeth** - Rydym yn deall ein tai a'n Tenantiaid drwy wneud penderfyniadau gwybodus
2. **Adolygiad o Asedau**- Blaenoriaethu meysydd hynny lle mae angen buddsoddiad
3. **Cartrefi Diogel** - Sicrhau bod ein Tenantiaid yn ddiogel yn ein tai
4. **Cartrefi Cynaliadwy** -Yn wyneb costau ynni cynyddol, costau byw a heriau datgarboneiddio
5. **Cartrefi o safon dda** ac yn parhau i fod drwy gynlluniau buddsoddi cynlluniedig

4. Safon Ansawdd Tai Cymru 2023

Fel y dywedodd CIH 'Ers dechrau'r 2000au mae ansawdd tai cymdeithasol a fforddiadwy yng Nghymru wedi bod ar daith drawsnewidiol. Cyflwynwyd creu'r SATC yn 2002 gyda dyddiad cau cychwynnol o 2012 ond cafodd cynnydd ei rwystro i ddechrau gan amrywiadau o ran sut y dehonglwyd y safon a diffyg data monitro. Gwelwyd y dyddiad cau yn newid i 2020, a chydag effaith y pandemig symudodd hyn wedyn i 2021. Erbyn hyn roedd 99 y cant o dai cymdeithasol yng Nghymru yn cyrraedd y safon'.

Mae gwedd newydd SATC yn cynnwys wyth elfen wahanol mae'n rhaid i gartrefi, sef:

- Bod mewn cyflwr da
- Bod yn saff ac yn ddiogel
- Bod yn fforddiadwy i'w wresogi a chael cyn lleied o effaith amgylcheddol
- Cegin gyfoes ac ardal cyfleustodau
- Cael ystafell ymolchi gyfoes
- Bod yn gyfforddus a hyrwyddo lles
- Gardd addas Cael gofod awyr agored deniadol

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

5. Cynhesrwydd fforddiadwy

Un o brif agweddau'r safon newydd yw'r mesurau i hyrwyddo cynhesrwydd fforddiadwy. Bydd angen cyflawni o leiaf EPC A ar gartrefi presennol fel bod cartrefi yn economaidd i'w rhedeg mewn tywydd arferol. Bydd angen i hyn hefyd gyflawni Sgôr Effaith Amgylcheddol (EIR) o 92, yn unol â lleihau allyriadau carbon o gartrefi. Er hynny, mae'r safonau diweddar ond yn cynnwys dyddiad cydymffurfio o 31 Mawrth 2030 i gwrdd ag EPC C gyda'r dyddiad cydymffurfio ar gyfer cyrraedd EPC A i'w osod gan y llwybrau ynni wedi'u targedu.

Mae'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau yn nodi ein dull o sicrhau ein bod yn cynnal safon ein tai ac yn cwrdd â'r heriau i leihau allyriadau carbon. Mae'r Cynllun yn nodi'r hyn sy'n bwysig, beth a sut rydym yn mynd i gyflawni hyn.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Nid oes unrhyw opsiynau eraill i'w hystyried. Ystyrir bod mabwysiadu Cynllun Strategol Rheoli Asedau yn arfer da ac yn ddogfen bwysig i gefnogi'r Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 30 mlynedd a derbyn Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru.

C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'n ymwneud â Chynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (HRA).

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae'r Cynllun Strategol yn nodi sut rydym am gyflawni SATC 2023.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Bydd sicrhau bod stoc y Cyngor o safon dda yn helpu i gadw Tenantiaid yn ddiogel ac mewn cartrefi addas.


Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol):		
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhwch wybod gyda phwy:	Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dogfennau allweddol ar gyfer y cyfeiriad y Cynllun hwn.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut:-	Mae Tenantiaid wedi bod derbyn cyflwyniad.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Gweler yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n nodi y bydd yn cael effaith gadarnhaol.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Gweler asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n ystyried y rhai a allai fod yn agored i niwed.
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Cefnogi'r argymhelliad
2	Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)	Cefnogi'r argymhelliad
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Cefnogi'r argymhelliad
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amh
5	Eiddo	Amh
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amh
7	Caffael	Amh
8	Sgriwtini	Yn ystod y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16.1.24 argymhellwyd bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gymeradwyo.
9	Aelodau Lleol	

F - Atodiadau:
Atodiad 1 Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-29.

FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda):

Cynllun Busnes 30-mlynedd Cyfrif Refeniw Tai 2023-2053



Ynys Môn

THE ISLE OF

Anglesey

Cynllun Strategol Rheoli Asedau Tai

2024-2029

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Gymraeg /

This document is also available in Welsh.



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.anglesey.gov.wales

Rhagair



Pennaeth
Gwasanaeth
Tai

Ned Michael



Deilydd
Portffolio
Tai

**Cyng. Gary
Pritchard**

- Mae'r Cynllun Strategol hwn yn egluro sut fyddwn yn rheoli, cynnal a chadw a buddsoddi yn ein tai ac mae'n berthnasol ar gyfer rheoli asedau holl stoc tai rhent y Cyfrif Refeniw Tai mae Cyngor Sir Ynys Môn yn berchen arnynt.
- Mae'r Gwasanaethau Tai yn rheoli 3,979 o dai gyda'r incwm rent yn bwydo i mewn i'r Cyfrif Refeniw Tai, a'r perfformiad ffisegol ac ariannol yn sylfaen ar gyfer hyfywedd y Cyfrif hwnnw.
- Pwrpas y Cynllun Strategol Rheoli Asedau hwn yw sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas â buddsoddi mewn eiddo unigol yn seiliedig ar ddeall eu perfformiad ar sail gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, sy'n helpu i gefnogi amcanion corfforaethol ehangach.

Pam bod angen Cynllun Strategol Rheoli Asedau Tai arnom?

Mae'r Cynllun hwn yn ffurfio rhan o'r ystod o ddatrysiadau tai fydd yn helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor 2023-28, gan ganolbwyntio ar fuddsoddi yn ein cartrefi a'n cymunedau.

Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'n rhaid i'n cartrefi fodloni targedau datgarboneiddio, Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023 a chynnig cartrefi diogel ac addas ar gyfer ein Tenantiaid. Bydd y Cynllun hwn yn darparu fframwaith a bydd Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai a Chynllun Corfforaethol y Cyngor yn cael eu cyflawni o fewn y fframwaith hwnnw.

Cyd-destun Strategol

Mae'r Cynllun yn ymateb i nifer o Bolisiau Cenedlaethol megis:

- Deddf yr Amgylchedd Cymru, 2016 a Chynllun Ffyniant i Bawb
- Deddf Rhentu Tai Cymru, 2016
- Safonau Ansawdd Tai Cymru 2012 a 2023
- Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012
- Gorchymyn Diwygio Rheoliad (Diogelwch Tân) 2005
- Addewid Llywodraeth Cymru i fod yn net sero erbyn 2050

Ar gyfer pwy mae'r Cynllun Strategol?

Tudalen 307

Bydd y Cynllun o ddiddordeb i amrywiaeth eang o bobl, gan gynnwys:

- Ein Tenantiaid sydd á ddiddordeb yn ansawdd, diogelwch a fforddiadwyedd eu cartrefi
- Rheiny sydd mewn angen tai yn ein hardal (yn denantiaid presennol, neu ddim)
- Drigolion sy'n byw'n lleol o fewn y cymunedau
- Contractwyr a busnesau lleol a all elwa o'r rhaglen fuddsoddi sylweddol
- Aelodau Lleol

Mae gan Lywodraeth Cymru ddisgwyliadau ar gyfer

- Sicrhau bod tai fforddiadwy'n cael eu darparu a sicrhau bod y stoc bresennol yn bodloni safonau rheoleiddio ac yn cydymffurfio, sy'n hanfodol ar gyfer derbyn grant Lwfans Atgyweiriadau Sylweddol gan Lywodraeth Cymru.



Ein Cartrefi



- Mae'r rhan fwyaf o'n cartrefi yn gartrefi traddodiadol sy'n cynnwys tai sengl, tai pêr, tai teras, byngalos a fflatiau.
- Mae 54% o'n stoc yn dai, mae 18% yn fyngalos, mae 16% yn fflatiau a 12% yn llety gwarchod.
- Ar gyfartaledd, mae rhwng 18,000 a 24,000 o dasgau atgyweirio ymatebol a chylchol yn cael eu cwblhau bob blwyddyn.
- Y gost gyffredinol ar gyfer atgyweirio yn ystod 2022-23 oedd £110.15.
- Cwblhawyd 123 asesiad risg tân mewn ardaloedd cymunedol yn flynyddol.
- Cwblhawyd 2,885 o apwyntiadau gwasanaeth nwy yn ystod 2022-23.
- Roedd 81 cartref yn rhan o'n gwaith cynnal a chadw tai traddodiadol cyfan yn ystod 2022-23.

- Codwyd y rhan fwyaf o'n tai rhwng 1945- 1974 sy'n golygu eu bod wedi'u hadeiladu'n draddodiadol.
- Mae llai na 3% o'n tai wedi'u hadeiladu gan ddefnyddio dulliau nad ydynt yn draddodiadol.
- Mae 67% o'r stoc tai wedi'i gysylltu â'r prif rwydwaith nwy, mae 20% yn cael eu gwasanaethu gan wres trydanol, mae 7% yn defnyddio olew a 6% yn defnyddio LPG swmp.
- Sgôr Tystysgrif Perfformiad Egni (TPE) cyffredinol presennol ar draws ein stoc: 70 neu Fand C.
- Roedd 77% o'n Tenantiaid yn fodlon hefo gwaith trwsio a cynnal a chadw yn ein Arolwg Star (2021) diwethaf.

Cynllun y Cyngor 2023-2028

Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:

Tudalen 309

Creu Ynys Môn sy'n iach a
llewyrchus lle gall pobl
ffynnu.'

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitor perfformiad a chynnydd.

Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.



Yr iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.



Gofal cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn.



Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.



Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.



Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.



[Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 \(llyw.cymru\)](#)

Gwerthoedd

Mae gwerthoedd craidd y sefydliad yn sylfaen i Gynllun y Cyngor 2023-28, ac maent yn cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain gweledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

Tudalen 310



Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill waeth beth yw ein gwahaniaethau.



Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.



Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.



Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder wrth weithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol i'r Cyngor a'r Ynys.




Cylch Strategol

Mae'r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r weledigaeth strategol.

Tudalen 311




Prif feysydd blaenoriaeth

Mae darparu blaenoriaeth strategol, ynghyd â meysydd blaenoriaeth allweddol, yn gosod mandad clir ac uchelgeisiol.

Rydym eisiau sicrhau ein bod:

Yn gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai presennol ac yn gwella cartrefi a chymunedau (Thema 2 [Strategaeth Dai 2022-27](#) y Cyngor)

- Yn cyfrannu at yr economi leol (Thema 6 [Strategaeth Dai 2022-27](#) y Cyngor)



Data Asedau a Darparu'r Gwasanaeth – Rydym yn deall ein tai a'n Tenantiaid drwy wneud penderfyniadau gwybodus:

Pam bod hyn yn bwysig?

Mae data cyflwr stoc yn allweddol o ran sicrhau bod ein costau buddsoddi yn rymus ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio yn y dyfodol. Mae'r data cyflwr hefyd yn cael ei ddefnyddio i baratoi rhaglenni wedi'u trefnu ar gyfer gwaith er mwyn cynnal a chadw a gwella cyflwr y stoc, ymestyn bywyd yr asedau a'u cyfraniadau parhaus i'r Cyfrif Refeniw Tai a chyflawni SATC 2023.

Mae cael gwybodaeth am ein stoc yn allweddol er mwyn deall safon bresennol ein heiddo er mwyn gallu cyflawni gofynion buddsoddi y cynllun busnes 30 mlynedd.

Sicrhau llwyddiant gwedd SATC 2023 drwy ymgysylltu a chyfranogiad gwyach gyda ein Tenantiaid.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Cwblhawyd arolwg ar gyflwr y stoc yn 2022/23 gyda 87% o'r stoc yn cael ei arolygu, ac yn seiliedig ar y wybodaeth hon byddwn yn buddsoddi mewn elfennau allweddol megis ceginau, ystafelloedd ymolchi, ffenestri a gwelliannau effeithlonrwydd ynni.

Bydd y costau sydd ynghlwm â bodloni SATC 2023 yn cael eu cyfrifo erbyn 31 Mawrth 2025. Unwaith y bydd costau'n cael eu sefydlu, byddwn yn cynnal dadansoddiad manwl i sicrhau bod ein Cynllun Busnes 30 Mlynedd yn parhau'n hyfyw. Erbyn 31 Mawrth 2027, byddwn yn paratoi Llwybrau Ynni wedi'u Targedu ar gyfer bob un o'n heiddo.

Sicrhau, lle bynnag y bo'n ymarferol, bod pob cartref yn bodloni Gweithdrefn Asesu Safonol (GAS)75 TPE "C" erbyn 31 Mawrth 2030. Bodloni SATC 2023 erbyn 31 Mawrth 2034.

Sut ydyn ni am wneud hyn?

Gweithredu'r System Rheoli Asedau MRI yn llawn er mwyn sicrhau bod yr holl ddata'n cael ei gasglu, gan gynnwys elfennau effeithlonrwydd ynni drwy ein Cyfarfodydd Adolygu Prosiect Asedau.

Sefydlu Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf ar gyfer elfennau allweddol fydd yn hysbysu Cynllun Cyflawni Rheolaeth Asedau erbyn 31 Mawrth 2025.

Sicrhau bod ein Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid yn cynnwys prosesau ymgynghori i denantiaid i'w cynnwys yn ystod cyfnod y rhaglen.

Adolygiad o Asedau – Blaenoriaethu meysydd hynny lle mae angen buddsoddiad

Pam bod hyn yn bwysig?

Mae nifer o flaenoriaethau sy'n gwrthdaro sydd angen ymdrin â nhw wrth i ni fynd i'r afael â'r her sydd wedi'i gosod yn SATC 2023, megis datblygu eiddo newydd yn erbyn y buddsoddiad sydd ei angen mewn cartrefi presennol.

Mae gwella effeithlonrwydd ynni yn allweddol ar gyfer cynnig cartrefi fforddiadwy a bod yn sero net.

Mae gwneud y defnydd gorau o'n hasedau yn allweddol er mwyn cyflawni effeithlonrwydd a byddwn yn ystyried buddsoddi a chyfleoedd ar gyfer dymchwel ac ail-ddatblygu wrth ystyried blaenoriaethau buddsoddi.

Un o'r heriau hynny yw'r cynnydd mewn costau deunyddiau ac adeiladu ynghyd â'r drefn gosod rhent presennol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Sicrhau bod yr adnoddau a'r sgiliau digonol gennym i ddarparu'r Cynllun Strategol hwn.

Gwella Perfformiad Effeithlonrwydd Ynni ein cartrefi yn unol ag argymhelliad Llwybrau Ynni wedi eu Targedu (LIYT) ar gyfer bob cartref.

Adnewyddu unrhyw gydrannau allweddol megis bwyleri a cheginau yn unol â'u cylch bywyd disgwylidig.

Ymgymryd a gwerthusiad opsiynau ar gyfer safleoedd ac asedau na all fod yn hyfyw i'w cadw yn y tymor canolig a hir.

Bod ein stoc o fodurdai'n cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn cynhyrchu mwy o incwm a gwneud y defnydd gorau o dir.



Sut ydyn ni am wneud hyn?

Adolygu'r strwythur staffio presennol er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau er mwyn darparu'r rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Sefydlu fframwaith ar gyfer gosod mesuryddion ynni adnewyddadwy megis Paneli Solar Ffotogoltaig a Storbwr Batri

Sefydlu rhaglen 5 mlynedd i adnewyddu ceginau, fydd yn rhedeg rhwng 2024-29 gan gynnwys sefydlu rhaglen adnewyddu cydrannau allweddol eraill.

Ystyried cyfleoedd ar gyfer ail-ddatblygu asedau yn dilyn y gwaith o werthuso opsiynau ar gyfer safleoedd ac asedau a pharhau i ddymchwel modurdai mewn ardaloedd lle mae buddsoddiad yn anhyfyw.

Uchafu cyfleoedd i sicrhau cyllid ychwanegol megis y Rhaglen Ôl-osod Optimeiddio gan LIC i ariannu mesurau gwella.

Bydd ein rhaglenni buddsoddi yn cael eu dylanwadu gan ffactorau allanol fel y farchnad lafur, argaeledd contractwyr a chostau materol.

Cartrefi Diogel- Sicrhau bod ein Tenantiaid yn ddiogel yn ein tai

Pam bod hyn yn bwysig?

Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Deddf Rhentu Tai Cymru 2016.

Bydd hyn yn cynnwys materion a System Mesur Iechyd & Diogelwch Tai (SMIDT) gasglwyd yn ystod yr Arolwg Cyflwr Stoc diweddar, yn ogystal â hysbysiadau gan denantiaid mewn perthynas ag atgyweiriadau a gofynion.

15/09/2015



Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Iechyd a Diogelwch

Sicrhau bod ein hymateb i bryderon Iechyd a Diogelwch yn cael eu harchwilio a'u hadfer yn brydlon.

Gwasanaethu Nwy a Thanwydd Solet

Dan Reoliad Nwy 1998, mae'n rhaid cwblhau gwiriad diogelwch blynyddol ar gyfer pob offer nwy, pibwaith a gosodiadau cysylltiedig yn ogystal â phrofi ffliwiau tanwyddau solet yn flynyddol.

Diogelwch Tân

Mae Asesiadau Risg yn cael eu cwblhau'n flynyddol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac i brofi ein hoffer diogelwch tân.

Diogelwch Trydan

Cwblhau archwiliadau diogelwch trydan bob 5 mlynedd ac ar newid tenantiaeth.

Sut ydyn ni am wneud hyn?

Ymateb i wybodaeth a ddarperir o fewn yr Arolwg Cyflwr Stoc diweddar, yn ogystal â hysbysiadau gan denantiaid mewn perthynas ag atgyweirio a gofynion Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016.

Byddwn yn ceisio cyflawni rhaglen gwasanaethu nwy flynyddol ym mhob cartref drwy ddefnyddio Peirianwyr Plymio a Gwresogi sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol.

Adolygu ein Hasesiadau Risg Tân yn rheolaidd ac adrodd ar broblemau cydymffurfiaeth.

Gweithio gyda'n Tenantiaid drwy ein Tîm Cyfranogiad Tenantiaid i sicrhau bod ein cyfathrebiadau'n cael eu rhannu yn brydlon.

Cartrefi Diogel- Sicrhau bod ein Tenantiaid yn ddiogel yn ein tai

Pam bod hyn yn bwysig?

Sicrhau bod cydymffurfiaeth gyda lechyd, Diogelwch a Rheoliadau yn flaenoriaeth.

Tudalen 316

Sicrhau bod gennym brofiad a gwybodaeth ymhlith staff ein Tîm Cynnal a Chadw.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Rheoli Asbestos

Mae Rheoliadau Rheoli Asbestos 2021 yn gosod ein dyletswyddau er mwyn cydymffurfio gyda'n cofrestr asbestos.

Legionella

Rydym yn glynu wrth y Cod Ymarfer Cymeradwyedig L8 ac yn profi systemau dŵr cymunol yn rheolaidd.

Damp a Llwydni

Mae Tenantiaid yn cael eu hannog i adrodd unrhyw bryderon mewn perthynas â damp a/neu lwydni, ac mae polisi ar waith i ddelio â'r materion hyn.



Sut ydyn ni am wneud hyn?

Mae ein cofrestr asbestos yn cael ei chynnal a'i diweddarau fel y bo'n briodol gan y Tîm Cylchol a Chydymffurfiaeth.

Cydymffurfiaeth Legionella yn cael ei fonitro gan y Tîm Cylchol a Chydymffurfiaeth.

Delio'n brydlon gydag adroddiadau sy'n ymwneud â Damp a Llwydni yn unol â'n Polisi.

Sefydlu strwythur cadarn i wireddu holl ofynion Deddfwriaethol Cydymffurfiaeth ac lechyd a Diogelwch. Darparu cyfleoedd Hyfforddi er mwyn annog pobl leol i ymuno â'r tîm Tai fel cyfle gyrfaol.

Cartrefi Cynaliadwy – Yn wyneb costau ynni cynyddol, costau byw a heriau datgarboneiddio

Pam bod hyn yn bwysig?

Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo i fod yn sero net erbyn 2030.

Mae gwresogi fforddiadwy yn un o'r prif agweddau ar y safon SATC 2023, ac mae'n rhaid i gartrefi presennol gyflawni statws A, lle bynnag y bo'n briodol, ar ddistysgrif TPE.

Mae LIC wedi cyflwyno gofyniad ar gyfer **Cynllun Gwresogi Fforddiadwy a Datgarboneiddio** fydd yn ymgorffori Asesiadau Stoc Cyfan a LITY cyn pen 3 mlynedd o lansio'r safonau.

Bydd y Cynllun yn nodi sut fydd Awdurdodau Lleol yn cyflawni targedau Cyfradd Effeithlonrwydd Amgylcheddol (CEA) o 92 (sy'n cyfartalu i sgôr "A" TPE) a Sgôr Effaith Ynni (SEY) o 92 i'r holl stoc tai erbyn 2034.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Bod a Llwybr Ynni wedi'i Dargedu erbyn 31 Mawrth 2027 ar gyfer bob eiddo.

Sicrhau bod ein cartrefi'n cyrraedd sgôr C ar yr TPE (Cyfradd o 75) erbyn 31 Mawrth 2030.

Bydd angen paratoi LIYT ar gyfer pob cartref, fydd yn nodi beth sydd angen ei wneud i'r eiddo hwnnw allu cyrraedd y targedau gofynnol lle bo'n bosibl.

Bydd yn rhaid i'r TEP gynnwys gwybodaeth ar amser y gwelliannau.

Sut ydyn ni am wneud hyn?

Datblygu LITY drwy ddefnyddio methodoleg TPE a GAS i gefnogi Asesiadau Stoc Cyfan.

Rhoi cynllun 5 mlynedd ar waith er mwyn cyflawni cyfradd ynni o C75 erbyn 2029.

Bydd y Cynllun yn cynnwys Asesiad Stoc Cyfan ar bob eiddo fydd yn amlinellu'r cyfraddau CEY ac SEY presennol ar gyfer bob cartref.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allanol fel Coleg Menai i sicrhau ein bod yn gallu gosod a chynnal mesurau ynni adnewyddadwy fel pwmp gwres ffynhonnell aer.



Cartrefi o safon dda ac yn parhau i fod drwy cynlluniau buddsoddi cynlluniedig

Pam bod hyn yn bwysig?

Fel bod ein Tenantiaid yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi. Roedd 90% o'n Tenantiaid yn fodlon hefo diogelwch eu cartrefi (Arolwg Star 2021).

Bydd tai o safon da angen llai o waith atgyweirio ymatebol gyda costau cynnal a chadw is.

Mae tai o ansawdd wael yn anodd i'w gosod ac mae tai gwag yn golygu nad oes rhent yn cael ei gasglu.

Mae sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi i fyw mor annibynnol â phosibl yn y gymuned yn nod strategol yng Nghynllun y Cyngor.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Deall beth yw barn ein Tenantiaid am ein gwasanaeth.

Sicrhau bod ein hatgyweiriadau ymatebol yn cyflawni tasgau'n gywir a phrydlon.

Sicrhau bod ein cyfnodau foid mor fyr â phosibl.

Sicrhau ein bod yn defnyddio technolegau cynorthwyol ac addasiadau cartref i hwyluso byw'n annibynnol.

Addasu / darparu cartrefi hygyrch i sicrhau bod ein Tenantiaid yn gallu byw'n annibynnol.

Sut ydyn ni am wneud hyn?

Ymgymryd ag arolygon STAR bob dwy flynedd er mwyn mesur boddhad Tenantiaid a sicrhau ein bod yn cynnig Gwasanaeth Atgyweirio a Chynnal a Chadw sy'n bodloni disgwyliadau Tenantiaid.

Mae *Acuserve Diagnostics* yn darparu gwybodaeth amser go iawn a chostau sy'n monitro perfformiad a chostau.

Cwblhau adolygiad ar berfformiad ein prosesau tai gwag.

Lle bo'n bosibl, byddwn yn cynnig eiddo llai i denantiaid sydd eisiau symud i gartref llau / haws ei reoli.

Cynnig gwasanaeth Galw Gofal i'r rheiny sydd angen cymorth / sicrwydd i fyw'n annibynnol.


Gwneud y defnydd gorau o'n cyllid er mwyn addasu eiddo gyda chyfleusterau ac addasiadau gyda'n partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Llywodraethu: Monitro a Gwerthuso



Er mwyn sicrhau bod y cynllun strategol yn cael ei wireddu byddwn yn sefydlu trefniadau llywodraethu llym i oruchwylio'r Cynllun ac adrodd ar fecanweithiau, megis:-

Tudalen 319



Bydd y trefniadau'n sicrhau eglurdeb, atebolrwydd, cydlyniaeth a strwythur er mwyn monitro cynnydd yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys monitro dangosyddion perfformiad a chynllun gweithredu bob chwarter.

Bydd angen rhoi Polisi Cydymffurfiaeth ar waith erbyn Mawrth 2025 gyda phrif benawdau, fel y nodwyd gan LIC, a'i adolygu'n flynyddol.

Bydd cynnydd yn cynnwys gwybodaeth ar gamau, canlyniadau ac effaith gan dynnu sylw at lwyddiannau a materion.

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	20fed Chwefror 2024
Pwnc:	Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Bioamrywiaeth
Aelod(au) Portffolio:	Cyng. Nicola Roberts Deilydd Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd
Pennaeth / Cyfarwyddwr Gwasanaeth:	Christian Branch, Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	Christian Branch Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ChristianBranch@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith dderbyn yr adroddiad a chefnogi'r argymhellion.

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ehangach ar Awdurdodau Cyhoeddus (dyletswydd Adran 6). Fel rhan o ofynion y ddyletswydd, rhaid i Awdurdodau Cyhoeddus gyhoeddi adroddiad pob tair blynedd o 2019 ymlaen mewn perthynas â'r amcanion a nodir yn eu Cynlluniau Bioamrywiaeth.

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi cynnydd y Cyngor Sir mewn perthynas â chwrdd ag amcanion y Cynllun Bioamrywiaeth dros y flwyddyn diwethaf. Mae'r adroddiad yn cynnig argymhellion ar sut i fodloni unrhyw amcanion neu gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni.

B –Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod ac/neu fynd am yr opsiwn hwn?

Amherthnasol.

C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae mabwysiadu Cynllun Bioamrywiaeth yn ofyniad statudol, fel y nodir yn adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Pob tair blynedd, o 2019 ymlaen, rhaid i bob Awdurdod Cyhoeddus adrodd ar eu cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion yn eu Cynlluniau unigol.

Ch - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae cynnwys yr adroddiad blynyddol yn cyd-fynd â'r amcanion sydd wedi'u nodi yng Nghynllun y Cyngor (2023-28). Yn benodol, Newid Hinsawdd ac ymrwymiad y Cyngor 'i ymateb i'r argyfwng, a mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030'. Un ffrwd gwaith sydd wedi ei adnabod o dan yr amcan dan sylw yw 'rheoli ein tiroedd yn effeithlon i gefnogi adferiad natur a bioamrywiaeth'.

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Bioamrywiaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

O safbwynt lles, fe all annog ein trigolion i ddefnyddio eu hamgylchedd naturiol a sicrhau manteision lles. Cydnabyddir yn gyffredinol bod treulio amser bob wythnos yn ymgolli ym myd natur yn gallu gwneud lles i iechyd meddwl a chorfforol pobl.

Mae bioamrywiaeth a'n tirwedd unigryw yn darparu sylfaen gadarn i economi'r Ynys. Er enghraifft, o safbwynt twristiaeth, bioamrywiaeth a thirwedd Ynys Môn yw un o'r prif nodweddion sy'n denu ymwelwyr i'r Ynys.

Trwy gyflawni'r camau gweithredu a amlinellir yn y cynllun gweithredu gellir atgyfnerthu bioamrywiaeth a bydd hyn, yn ei dro, yn gwella'r amodau a all gyfrannu at wella lles pobl Ynys Môn, sicrhau bod adnoddau bywyd yn dal i gael eu cyflenwi yn ogystal â darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynnal economi'r Ynys.

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Bydd y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn defnyddio ei adnoddau presennol i gydlynu a llywodraethu gweithgareddau a bydd pob Gwasanaeth o fewn y Cyngor Sir yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r ddyletswydd hon. Yn unol ag adran 6 (1) o Ddeddf 2016 mae gan y Cyngor gyfrifoldeb corfforaethol dros sicrhau ei fod yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

Dd – Aseu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Bydd yn sicrhau bod cynnal a gwella bioamrywiaeth yn dod yn rhan annatod o benderfyniadau'r Cyngor, a thrwy hynny bydd yn sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn elwa o amgylchedd naturiol amrywiol yr Ynys yn ogystal â sicrhau manteision
---	---	---

Dd – Aseu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
		economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?	Gellir cyflawni arbedion drwy newid y modd y caiff asedau'r Cyngor eu rheoli a'u cynnal.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy	Cydweithio mewnol ac ar draws gwasanaethau i ddatblygu'r adroddiad, a chydweithio ar yr argymhellion.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:-	Amherthnasol
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Amherthnasol
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Amherthnasol
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Amherthnasol

E –Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (Gorfodol)	
2	Cyllid / Adran 151 (Gorfodol)	
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (Gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	

F - Atodiadau:

Ff - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

ynysmon.llyw.cymru
anglesey.gov.wales

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6



Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2023

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg.
This document is also available in English.



Cyngor Sir Ynys Môn



cyngormon



cyngormon



cyngormon

Cynnwys

<u>Adran</u>	<u>Teitl</u>	<u>Tud(au)</u>
1	Cyflwyniad a Chyd-destun	3
2	Uchafbwyntiau, Prif Ganlyniadau a Materion	5
3	Astudiaethau Achos	14
4	Adroddiad Gweithredu	15
5	Adolygu Dyletswydd Adran 6	15
6	Argymhellion am Gamau ar gyfer y Dyfodol	17

<u>Atodiad</u>	<u>Teitl</u>	<u>Tud(au)</u>
1	Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2022 – Astudiaethau Achos	19
2	Adolygu'r Cynllun Gweithredu	42

1.0 Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Gofynion statudol

1.1.1 Pwrpas yr adroddiad dan sylw yw nodi beth mae Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) wedi'i wneud i gydymffurfio gyda dyletswydd Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), yn ystod y cyfnod rhwng 2022 a 2023. Paratowyd yr adroddiad gan y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, ac mae'n cynnwys mewnbwn Gwasanaethau eraill y Cyngor. Dyma gyflwyno ail Adroddiad Blynyddol gan y Cyngor.

1.1.2 Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Cyhoeddus i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth' i'r graddau sy'n cyd-fynd ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Rhaid i Awdurdod Cyhoeddus gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r gofyniad hwn, cyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019.

1.1.3 Mae Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi, adolygu a diwygio rhestrau o organebau byw a mathau o gynefinoedd yng Nghymru sydd, yn eu barn nhw, o'r pwysigrwydd mwyaf er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru. Gelwir hon yn rhestr Adran 7.

1.2 Disgrifiad o Awdurdod Cyhoeddus mewn perthynas â bioamrywiaeth

1.2.1 Mae'r Cyngor yn dod o fewn y diffiniad o Awdurdod Cyhoeddus, ac o ran adrodd ar gamau sy'n gysylltiedig â'i Gynllun Bioamrywiaeth, mae ganddo fwy o faich. Mabwysiadwyd y Cynllun ar ôl ei adrodd i Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar 25 Ionawr 2021. Gellir gweld y cynllun drwy ddilyn y ddolen isod:

[Cynllun-Bioamrywiaeth.pdf \(llyw.cymru\)](#)

1.3 Graddfa Ofodol a Lle

1.3.1 Mae Ynys Môn yn ynys sy'n cwmpasu ardal o tua 700km² ac sy'n cynnwys trefi a phentrefi bychain gan fwyaf. Mae poblogaeth yr ynys ychydig yn is na 69,000 o bobl.

1.3.2 Mae gan yr ynys forlin o tua 225km gyda'r rhan fwyaf ohoni wedi'i dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Yn ogystal â hyn, mae'r ynys a'r môr o'i chwmpas yn destun nifer o ddynodiadau ecolegol rhyngwladol a chenedlaethol, ac mae'n enwog am ei chynefinoedd a'i rhywogaethau. Mae'r ddaear arbennig a geir yno yn cael ei chydabod drwy ei dynodi fel Geoparc Byd-eang UNESCO ac, fel Ynys, mae ein bioamrywiaeth yn wahanol i ardaloedd eraill yn y DU, mewn ambell ffordd.

1.3.3 Mae tirlun Ynys Môn, ei hadnoddau naturiol a'i hasedau, yn ogystal â chynnal cymunedau lleol cryf, yn sylfaen i fioamrywiaeth cyfoethog ac amrywiol.

1.4 Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus

- 1.4.1 Mae'r Cyngor yn aelod statudol o Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn. Sefydlwyd Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal gan gryfhau cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r BGC yn:
- a) Asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal; a
 - b) Gosod amcanion penodol i wneud y mwyaf o gyfraniad y byrddau gwasanaeth cyhoeddus i'r nodau llesiant.
- 1.4.2 Cyhoeddodd y BGC Gynllun Llesiant Lleol yn 2023 ac un o'r negeseuon allweddol a nodwyd ynddo oedd yr angen i warchod a gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol, tra'n cynyddu ac annog mynediad cyfartal i'n hamgylchedd naturiol.
- 1.4.3 Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y broses Datganiad Ardal sy'n cael ei arwain gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ac mae wedi cyfrannu at baratoir Datganiad ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r datganiadau ardal yn arwain polisi a phrosiectau sy'n canolbwyntio ar yr heriau, risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Cafodd Datganiad Ardal Gogledd Orllewin ei gymeradwyo'n swyddogol ar 1 Ebrill 2020 a gellir ei weld trwy ddilyn y ddolen isod:

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Datganiad Ardal Gogledd-orllewin Cymru \(naturalresources.wales\)](https://naturalresources.wales)

1.5 Sut mae gwella bioamrywiaeth yn cyfrannu at swyddogaethau ac amcanion strategol CSYM

- 1.5.1 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Cynllun y Cyngor am y cyfnod 2023-28. Mae'r Cynllun yn nodi chwe amcan strategol. Un o'r rhain yw Newid Hinsawdd ac ymrwymiad y Cyngor 'i ymateb i'r argyfwng, a mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030'. Un ffrwd gwaith sydd wedi ei adnabod o dan yr amcan dan sylw yw 'rheoli ein tiroedd yn effeithlon i gefnogi adferiad natur, bioamrywiaeth a chloi carbon ble'n bosib'. Gellir gweld y Cynllun presennol drwy' ddilyn y ddolen ganlynol:

[Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru)

1.6 Prif bolisiau, amcanion, dangosyddion perfformiad a threfniadau monitro

1.6.1 Mae sawl dogfen gorfforaethol a Gwasanaeth-benodol gan y Cyngor sy'n gosod sylfaen polisi cadarn ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae darpariaeth fonitro yn rhan o'r dogfennau hyn. Yn eu plith mae:

- a) Cynllun y Cyngor 2023-28
- b) Tuag at Gynllun Sero Net 2022-25
- c) Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-28
- d) Cynlluniau Darparu Gwasanaeth Unigol
- e) Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

1.7 Trefniadau llywodraethu o ran gweithredu dyletswydd adran 6

1.7.1 Mae gan Bennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd reolaeth gorfforaethol a chyfrifoldeb gweithredol cyffredinol mewn perthynas â gweithredu dyletswydd Adran 6. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn adrodd i Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor arno. O safbwynt gwleidyddol, yr Aelod Portffolio dros Gynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd sy'n gyfrifol am hyrwyddo bioamrywiaeth o ystyried natur y rôl a'r rhyngweithio rhyngddo â'r portffolio amgylcheddol ehangach. Yn ychwanegol, mae'r Cynllun Gweithredu sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Bioamrywiaeth yn gosod camau penodol ar gyfer Gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor.

1.7.2 Trwy fabwysiadu'r Cynllun Bioamrywiaeth, gwnaeth Pwyllgor Gwaith y Cyngor hynny ar y sail y byddai adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i roi gwybodaeth am y cynnydd i fodloni'r amcanion y cytunwyd arnynt ar gyfer y Cynllun.

1.7.3 Mae'r Cyngor yn cynnig ffurfio grŵp gyda swyddogion o bob gwasanaeth yn ystod 2024 er mwyn monitro, adolygu ac addasu'r camau a osodwyd yn y Cynllun Gweithredu, a sicrhau bod y camau hyn yn parhau'n gyfredol a pherthnasol. Defnyddir y data monitro i lywio gofynion adrodd i'r dyfodol.

2.0 Uchafbwyntiau, Prif Ganlyniadau a Materion

2.1 Camau bioamrywiaeth allweddol

2.1.1 Mae sail polisi'r Cyngor wedi ei gryfhau trwy Gynllun y Cyngor, gan sicrhau fod materion bioamrywiaeth yn derbyn y sylw perthnasol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cymeradwywyd Cynlluniau'r AHNE a Chyrchfan. Unwaith eto mae'r rhain yn cryfhau'r sail polisi, ac yn rhoi sylfaen amlycach ar gyfer materion bioamrywiaeth.

2.1.2 Yn wleidyddol, mae'r Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd yn gyfrifol am hyrwyddo bioamrywiaeth. Byddwn yn trefnu cyfarfodydd chwarterol rheolaidd rhwng yr aelod portffolio a'r uwch swyddog perthnasol er mwyn rhoi diweddariad ar ddatblygiadau pwysig, yn enwedig mewn perthynas â phrosiectau bioamrywiaeth.

2.1.3 Mae Partneriaeth Natur Leol (PNL) Ynys Môn yn sefydliad allweddol i sicrhau bod camau bioamrywiaeth yn dod i sylw'r gymuned ehangach. Mae amrywiaeth yr aelodau'n fodd o sicrhau bod gwybodaeth ynghylch bioamrywiaeth yn cael ei

rhannu'n eang. Anogir aelodau i feithrin syniadau ar gyfer prosiectau cyfoethogi y gellir eu hystyried ar gyfer cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Mae'r Cyngor yn goruchwyllo dyfarniad arian grant i bartneriaid o'r gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Ers ei gyflwyno, mae'r gronfa wedi dosbarthu gwerth £1m mewn arian grant i nifer o brosiectau, fel y nodwyd yn y tabl isod. Darperir astudiaethau achos yn Atodiad 1.

Blwyddyn Ariannol	Prosiectau partner	Prosiectau'r Cyngor	Prosiectau Cronfa Her	Cyfanswm
2020-21	£40,785	£37,465	Amherthnasol	£78,250
2021-22	£47,179	£24,900	£167,000	£239,079
2022-23	£101,070	£32,050	Amherthnasol	£133,120
2023-24	£167,510	£190,000	£198,177	£555,687
	£356,544	£284,415	£365,177	£1,006,136

Tabl 1: Dyfarniadau grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2020-2

- 2.1.4 Yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid presennol, mae Swyddog Bywyd Gwylt yr Awdurdod Lleol yn annog aelodau newydd i ymuno â'r PNL drwy rwydweithio. Mae trafodaethau cadarnhaol wedi'u cynnal gyda CADW a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a bu i gyflwyniad a ddarparwyd ar gyfer cangen Môn o Un Llais Cymru, sef y prif sefydliad ar gyfer cynghorau tref a chymuned yng Nghymru, annog ddiddordeb mewn ymaelodi â PNL Ynys Môn.
- 2.1.5 Mae gwaith sylweddol a ariannwyd gan Gronfa Her PNL, wedi digwydd gyda phrosiect allweddol Clegir Mawr. Mae'n cynnig ffordd o asesu adferiad y cyn safle ysbwriel hwn yn gynefin bywyd gwylt. Yn ychwanegol at hyn, gellir ei ddefnyddio fel ased addysgiadol a all gynnig lleoliad cynefin mosaig fel bo myfyrwyr yn dod i ddeall cyd-ddibyniaeth rhywogaethau ar fathau penodol o gynefinoedd, a bod yn ganolfan astudio werthfawr ar gyfer ymchwil.
- 2.1.6 Ni ellir tanseilio'r pwysigrwydd o allu defnyddio cofnodion ecolegol. Oherwydd hyn, mae'r Cyngor Sir wedi cwblhau sawl cytundeb lefel gwasanaeth (CLG) gwahanol gyda Cofnod, y Ganolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol (LERC) ar gyfer gogledd Cymru. Drwy gael mynediad at y data hwn, gellir llywio gwaith neu brosiectau penodol lle amheuir bod rhywogaethau sydd wedi'u diogelu yn bresennol a/neu mae lliniaru yn hanfodol.

2.2 Canlyniadau cadarnhaol ar gyfer iechyd, cydlyniant cymunedol a buddion economaidd.

- 2.2.1 Yn dilyn cyfnod pandemig Covid-19 a'r amser yn dilyn hynny bu gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr i safleoedd y Cyngor. Gallwn gadarnhau fod niferoedd blynyddol yn cynyddu'n ôl erbyn hyn. Mae cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn cefnogi'r ddamcaniaeth fod treulio amser ym myd natur o fudd i lesiant meddyliol ac iechyd corfforol.

2.2.2 Profwyd bod darparu rhandiroedd ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor hefyd yn fuddiol i lesiant a chydlyniant cymdeithasol yn ogystal â bod yn hafan ar gyfer bywyd gwyllt, gan ddarparu cynefin gwerthfawr i beillwyr yn arbennig. Ar hyn o bryd mae gan yr Ynys 9 safle rhandiroedd, gyda 3 ohonynt ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor Sir neu ar brydles, gyda rhai eraill yn cael eu darparu ar safleoedd Cynghorau Tref/Cymuned. Mae'r Cyngor yn ystyried datblygu safle rhandiroedd newydd pellach.

2.2.3 Mae Cynllun y Cyngor (2023-28-22) yn cydnabod gwerth amgylchedd naturiol yr Ynys, pwysigrwydd diogelu'r ased hwn a'i gyfraniad presennol a phosibl ar greu Ynys Môn fydd sy'n iach a llewyrchus, lle gall bobl ffynnu.

2.2.4 Er nad yw wedi'i anelu'n uniongyrchol at wella bioamrywiaeth, mae prosiect sy'n argymhell rhagnodi gwyrdd yn cael ei redeg gan Wasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor gan ddefnyddio cyllid Cronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) i drefnu gweithgareddau coetir i bobl na fyddai'n cael mynediad atynt fel arall. Nod y prosiect: yw

- gwella iechyd a llesiant pobl drwy ragnodi cymdeithasol i weithgareddau rheolaidd mewn coetiroedd, sy'n cynnwys gweithgarwch corfforol, maeth a sgiliau coetir;
- hybu dealltwriaeth o'r AHNE a diddordeb ynddi; Tîm Cefn Gwlad/AHNE.


Cynhelir y prosiect gan Grŵp Coetir Cymunedol Llyn Parc Mawr, un o'r partneriaid PNL.



Prosiect Aforn Wygyr ymhle bu cydweithio rhwng ffermwyr lleol a'r Cyngor i leihau nitradau a rhyddheir i ddŵr afonydd

2.3 Arbedion cost ac arbedion effeithlonrwydd

2.3.1 Gall adolygu arferion gweithio ac ysgogi newid arwain at welliannau o ran bioamrywiaeth, yn ogystal ag arbed costau hefyd. Gweler enghraifft o newid o'r fath sy'n arbed costau o fewn y rhaglen radical rheoli ymylon. Mae lleihau cysondeb torri gwellt yn arbed costau ac mae hefyd yn hybu bioamrywiaeth drwy gynyddu nifer yr ardaloedd cynefin. Mae gan wasanaethau'r Cyngor, sydd â chyfrifoldebau dros dir, ddi-ddordeb pellach mewn ardaloedd o weirgloddiau blodau gwyllt a chreu cynefinoedd er mwyn sefydlu gweirgloddiau blodau gwyllt mewn ardaloedd glaswellt a fyddai'n cael eu torri'n rheolaidd fel arall, heb unrhyw effaith fuddiol ar fioamrywiaeth.



Gosod blodau gwyllt o ffynonellau lleol ym Mharc Gwledig Morglawdd Caergybi



Gwaith paratoi ar gyfer blodau gwyllt ar 13 o gylchfannau Ynys Môn

2.3.2 Ar gyfartaledd, amcangyfrifir bod y newidiadau mewn trefniadau torri gwellt wedi arbed oddeutu £7,000 i'r Cyngor bob blwyddyn rhwng 2010 a 2022. Mae'r cynnydd sylweddol diweddar mewn tanwydd yn golygu nad yw'r arbedion cystal ag y gallent fod, ond maent yn dal i gael eu cyflawni. Mae'r tabl isod yn dangos graddfa'r rhaglen Rheoli Cadwraeth a Thorri.

Adroddiad ar Ardaloedd Rheoli Torri Cadwraeth 2019-20				
Rhif CMA	Lleoliad	Amrywiaeth rhywogaethau	Rheolaeth	Hyd yr ymyl a reolwyd
1	Tal Poncau, Dwyran	Cofnodwyd 63 rhywogaeth planhigion: 88 tegeirian coch y gwanwyn eleni.	Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr Hydref	200m
2	Lon Cwirt, Dwyran	64 rhywogaeth gan gynnwys briallu, fioledau a 148 tegeirian coch y gwanwyn.	Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr Hydref	100m
3	Lon Bacsia, Llangefn	52 rhywogaeth gan gynnwys troed y golomen, tegeirian coch y gwanwyn a tegeirian cyffredin.	Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr Hydref Toriad cadwraeth yn y gaeaf.	100m
4	Tyddyn Philip, Brynteg	105 rhywogaeth gan gynnwys brawdlys gwaedlyd, cor-rosynau a chlafrllys y maes .	Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr Hydref. Toriad cadwraeth. Rheolaeth rhedyn.	100m
5	Frigan, Brynteg	92 rhywogaeth gan gynnwys brawdlys gwaedlyd, cor-rosynau a gludlys codrwrth	Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr Hydref. Toriad cadwraeth.	100m
6	A5025, Pentraeth	63 rhywogaeth gan gynnwys tegeirian gyffredin, tegeirian llydanwyrdd wedi ail-y addeddangos	Torri ymylon yn yr haf, yn cael ei dorri a'i felio neu'n cael ei gribinio ym mis Medi	
7	Tyddyn Waen, Talwrn	115 rhywogaeth gan gynnwys tegeirian coch y gwanwyn a tegeirian cyffredin a briallu.	Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr Hydref. Ffermwr yn torri ymylon a gwrychoedd ym mis Medi	600m
8	Bryn Gors, Talwrn	98 rhywogaeth gan gynnwys tegeirian cyffredin, amrhydlwyd cyffredin, llysiâu'r milwr coch.	Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr hydref.	100m
9	Tan y Bryn, Brynsiencyn	56 rhywogaeth gan gynnwys tegeirian coch y gwanwyn, briallu a chlust yr ewig.	Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr hydref + toriad cadwraeth.	100m
10	Pant y Bugail, Marianglas	54 rhywogaeth gan gynnwys tegeirian coch y gwanwyn a chaineirianau.	Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr hydref.	500m
11	Ty Mwdwal, Dwyran	Amserlen ar gyfer ffosydd gyda llyffaint, madfall ddŵr a llygod dŵr.	Yn cael eu torri yn yr haf a'r Hydref. Torri gwrychoedd yn yr Hydref.	
12	A5025 Benllech Cross	66 rhywogaeth gan gynnwys briallu, tegeirian cyffredin a marjoram.	Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr hydref. Toriadau cadwraeth, tynnu chwyn.	150m
13	Ty'n Pistyll, Llanddona	Safle gyda rhywogaeth prin – Gorfanhadlen Fawr – parasitig ar Eithin.	Dim toriad yn yr haf, 2 ystodau yn yr hydref a thoriadau cadwraeth.	20m

14	Cyffordd Rhos Llanestyn, Llanddona	Dim rhestr fanwl o blanhigion ar gael ond amrywiaeth dda o flodau carreg galch	Dim toriad yn yr ha fond angen ei dorri'n glir yn yr Hydref.	
15	Ffordd Osgoi, Cemaes	111 rhywogaeth wedi cael eu cofnodi gan gynnwys sawl tegeirian arall	Llethr ddim yn cael ei dorri yn yr haf. Yn cael ei dorri'n glir i frig y llethr. Chwyn yn cael eu cribinio a'u tynnu	100m
16	Stone Science, Talwrn	74 rhywogaeth wedi'u cofnodi gan gynnwys briallu Mair, llysiau'r llwynog a mantell Fair.	Dim toriad yn yr haf.	
17	Comin, Marianglas	Amrywiaeth dda o blanhigion glaswelltir carreg galch gan gynnwys tegeirian coch y gwanwyn, cor-rosynau a chlychlys llydanddail.	Mae sawl plot wedi'i farcio â cherrig gwyn. Cânt eu torri yn yr Hydref yn unig gan adael i'r planhigion flodeuo.	
18	Tywyn Aberffraw, Aberffraw	Amrywiaeth dda o blanhigion glaswelltir twyni, gan gynnwys sawl rhywogaeth o degeirian.	Dim toriad yn yr haf. Dau ystodau rheolaidd yn yr Hydref.	
19	Bwrdd Arthur, Llanddona	Amrywiaeth dda o blanhigion carreg galch gyda chlafrllys y maes, dant y pysgod a darnau helaeth o gor-rosynau cyffredin.	Dim toriad yn yr haf. 2 ystodiad yn yr Hydref a thoriad cadwraeth i reoli miaren	400m
20	Safle bach ar lôn gul i'r gogledd o Talwrn	Wedi'i sefydlu i ddiogelu'r unig safle ger ffordd ar gyfer tegeirian y broga	Ddim yn cael ei dorri yn yr haf. Gosod amddiffynwyr ymylon i ddiogelu rhag difrod gan gerbydau amaethyddol.	
21	Ffordd Maelog, Rhosneigr	59 rhywogaeth wedi'u cofnodi gan gynnwys tegeirian pyramid, mandon lās yr yd, briwydd felen, rhwyddlwyn-y-maes-gwyrdd a gwenithwellt caled	Dim toriad yn yr haf, ond bydd angen torri canol y gweirglodd ym mis Medi.	

Tabl 2: Ardaloedd Rheoli Cadwraeth 2019-20

2.3.3. Gellir cyflawni arbedion ac arbedion effeithlonrwydd drwy reoli neu gael gwared ar rywogaethau ymledol. Yn achos Jac y Neidiwr, mae fwyaf amlwg ger glannau afonydd, ac wrth gael gwared ohono, caniateir llystyfiant brodorol i dyfu ar lannau afonydd a darperir sicrwydd yn y pridd. Byddai Jac y Neidiwr wedi gallu ansefydlogi glannau am ei fod yn marw dros y gaeaf ac yn amlygu'r ddaear moel. Gall llifogydd a chasgliad o waddod amlygu ymhellach i lawr yr afon gan arwain at gostau rheolaeth i'r Cyngor .

2.3.4 Gall defnyddio gwirfoddolwyr i wneud gwaith megis clirio rhywogaethau ymledol a chasglu ysbwriel ddarparu buddion i fioamrywiaeth a hynny drwy gynnal cynefinoedd, yn ogystal ag arbed costau. Defnyddir llafur gwirfoddolwyr yn eang o fewn swyddogaeth AHNE a Chefn Gwlad y Cyngor er mwyn cwblhau prosiectau o'r fath. Yn ychwanegol at hyn, bydd gwaith cyffelyb gydag ysgolion yn cael yr un buddion o ran bioamrywiaeth ac arbedion/arbedion

effeithlonrwydd ar yr un pryd â chynnig buddion addysgiadol lle mae gweithgareddau o'r fath yn mynd i'r afael ag anghenion cwricwlaidd.

2.4 Prif ffactorau sy'n hwyluso camau gweithredu bioamrywiaeth

2.4.1 Mae ailgynnull Fforwm Bywyd Gwyllt Ynys Môn fel Partneriaeth Bioamrywiaeth Lleol (PNL) Ynys Môn wedi bod yn gam arwyddocaol i hwyluso camau bioamrywiaeth llwyddiannus yn y gymuned. Mae PNL Ynys Môn yn gorff sy'n cynnwys nifer o gyrff gwahanol sy'n cynrychioli sbectrwam amrywiol o ddiddordebau. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys:

- a) Llunio partneriaethau traws-sector;
- b) Adeiladu capasiti;
- c) Gweithgareddau lleol sy'n diwallu anghenion lluosog gan gyflawni blaenoriaethau NRAP;
- d) Adeiladu'r sylfaen dystiolaeth;
- e) Eirioli a dylanwadu;
- f) Olyniaeth.

2.4.2 Derbyniwyd cyllid refeniw yn 2023-24 i gyflogi cynorthwydd i gefnogi'r Cydlynnydd LNP, er mwyn adeiladu capasiti a chanolbwyntio'n well ar ddatblygu a gweithredu prosiectau bioamrywiaeth.

2.4.3 Fel y soniwyd eisoes, mae cael mynediad at ddata ecolegol cyfredol yn allweddol ar gyfer gweithredu yn y maes bioamrywiaeth, sef bwriad y CLA gyda LERC Cofnod.

2.4.4 Mae cydweithio â sefydliadau eraill yn gallu darparu prosiectau mwy gyda buddion bioamrywiaeth gwell. Mae prosiect *Wild Landfill* yn fenter gydweithredol rhwng y Cyngor, Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n ceisio sicrhau'r amodau gorau posibl ar gyfer bioamrywiaeth mewn safleoedd tirlenwi sydd wedi'u capio, ac mae wedi arwain at waith sylweddol yn safleoedd Penhesgyn a Chlegir Mawr (gan gynnwys plannu 24,000 o goed). Mae gan y safleoedd sydd wedi'u gwella y gallu i fod yn adnoddau addysgiadol ar gyfer ysgolion a cholegau lleol.

2.5 Rwystrau rhag gweithredu

Deall gofynion Adran 6

2.5.1 Mae'r angen i ddeall y cyfrifoldebau sydd wedi'u gosod gan Adran 6 yn hanfodol os yw'r Ddyletswydd am ei chyflawni'n gywir. Rydym dal o'r farn y byddai sefydlu grŵp o swyddogion traws-wasanaeth yn ffordd effeithiol o wneud hyn. Mae hyn yn flaenoriaeth sydd angen ei chwblhau yn y Cynllun Gweithredu. Bu diffyg capasiti o fewn y Cyngor yn ystod y flwyddyn diwethaf i yrru'r gwaith yn ei flaen. Mae ymrwymo i sefydlu grŵp traws-Wasanaeth bellach yn flaenoriaeth er mwyn adnabod rôl a chyfrifoldebau, ac amserlenni pendant ar gyfer y gwaith.

- 2.5.2 Mae hyfforddiant ar faterion bioamrywiaeth yn hanfodol er mwyn meithrin dealltwriaeth mewn perthynas â dyletswydd Adran 6. Mewn perthynas â hyn, mae trefniadau i gynnal digwyddiad hyfforddi mewnol ar gyfer swyddogion/aelodau etholedig perthnasol yn allweddol er mwyn addysgu a chodi ymwybyddiaeth am faterion bioamrywiaeth.

Mynediad at ddata ecolegol

- 2.5.3 Gall diffyg mynediad at ddata, neu ddim mynediad o gwbl, gael effaith andwyol ar lwyddiant prosiect. Oherwydd hyn, roedd cwblhau'r broses CLA gyda Cofnod yn gam allweddol bwysig.

Newid Hinsawdd

- 2.5.4 Yn gryno, mae UNESCO yn disgrifio'r berthynas rhwng newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth fel a ganlyn:

Climate change is a major driver of biodiversity erosion, and loss of biodiversity also accelerates climate change processes, as the capacity of degraded ecosystems to assimilate and store CO₂ tends to decrease. Humanity therefore has a global responsibility to address these two challenges and the interactions between them.

<https://www.unesco.org/en/climate-change/biodiversity>

- 2.5.5. Bu i'r Cyngor ddatgan argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020 ac ymrwymodd y Cyngor i fod yn sefydliad Carbon Niwtral erbyn 2030. Mae'r Cynllun Bioamrywiaeth yn cydnabod y cysylltiadau amlwg rhwng newid hinsawdd a bioamrywiaeth wrth osod yr amcan canlynol:

Cysylltu manteision bioamrywiaeth â Strategaeth Newid Hinsawdd, agenda datgarboneiddio a rhaglenni lleihau gwastraff/ailgylchu

- 2.5.6 Mae Cynllun Sero Net y Cyngor yn ail-gyfleu'r gydnabyddiaeth hon wrth restru defnydd tir a bioamrywiaeth ymhlith ei brosiectau ac ymyriadau i helpu i gyrraedd targedau Sero Net erbyn 2030. Oherwydd hyn, mae'r Cynllun yn ymrwymo i wella amrywiaeth bioamrywiaeth ar dir y Cyngor, gwella niferoedd coed ar dir y Cyngor a datblygu seilwaith werdd newydd.

Colli cynefin a diraddio

- 2.5.7 Mae colli a diraddio cynefinoedd yn deillio o arferion sy'n anghydnaws â natur cynefinoedd megis defnyddiau diwydiannol neu ddatblygiadau eraill. Mae'r prosiectau a grybwyllwyd yn flaenorol yng Nghlegir Mawr a Phenhesgyn yn enghraifft o brosiect sy'n ceisio mynd i'r afael â gwaith adfer cynefinoedd ac atal diraddio.

Llygredd

- 2.5.8 Gall llygredd fod ar sawl ffurf a gall pob un effeithio'n negyddol ar fyd natur. Mae Partneriaeth Awyr Dywyll wedi cyhoeddi "Goleuo Da", canllaw goleuo da ar gyfer busnesau a chymunedau i atal tarfu ar fywyd gwylt, yr effaith ar iechyd pobl

ac i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd. O ran effaith goleuadau amhriodol ar fywyd gwylt, mae'r ddogfen yn nodi:

Mae planhigion ac anifeiliaid yn dibynnu ar gylch dyddiol y Ddaear o olau a thywyllwch i reoli ymddygiadau sy'n cynnal bywyd fel atgenhedlu, maeth, cwsg ac amddiffyn rhag ysglyfaethwyr. Mae tystiolaeth yn dangos bod golau artiffisial yn y nos yn cael effeithiau negyddol a marwol ar lawer o greaduriaid gan gynnwys amffibiaid, adar, mamaliaid, pryfed a phlanhigion. Mae dros 60% o fywyd gwylt yn y DU yn dibynnu ar dywyllwch i oroesi.

Goleuo Da (Partneriaeth Awyr Dywyll 2022)

2.5.9 O ran lleihau llygredd aer ac effaith allyriadau cerbydau yn benodol, mae'r Cyngor wedi ehangu ei fflyd o gerbydau trydan. Mae gan Gwasanaeth Cefn Gwlad yr Awdurdod dri cherbyd trydan, ac fe gafodd dau ohonynt (car a fan) eu hariannu drwy grant a roddwyd gan Lywodraeth Cymru. Cerbyd cyfleustodau yw'r llall a ariannwyd drwy grant gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r cerbydau hyn yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan staff y Gwasanaeth.

Rhywogaethau Ymledol

2.5.10 Rhywogaethau ymledol yw rhai o'r prif bethau sy'n bygwth bywyd gwylt brodorol. Gall effaith rhywogaethau ymledol ar ein heconomi a'n hecosystemau naturiol fod yn gostus iawn gyda llawer o'n gweithgareddau masnachol, amaethyddol a hamdden yn dibynnu ar ecosystemau brodorol iach. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn sawl prosiect (gweler Atodiad 1) sy'n ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon.

2.5.11 Mae'r swyddogaeth AHNE a Chefn Gwlad ynghlwm â sawl prosiect sy'n ceisio rheoli neu gael gwared ar rywogaethau ymledol. Yn eu plith mae:

- Mae Partneriaeth Jac y Neidiwr Ynys Môn wedi datblygu rhaglen waith sy'n targedu'r rhywogaeth wrth ei wraidd o fewn ardaloedd dalgylch ar yr Ynys, gyda chymorth gwirfoddolwyr, contractwyr a pherchnogion tir / tirseiddianwyr.
- Mae prosiect Afonydd Menai yn cynnwys gwarchod a chodi ymwybyddiaeth o ddwy rywogaeth blaenoriaeth Adran 7, sef llygod pengrwn y dŵr a dyfrgwn, yn bennaf drwy weithio i reoli'r Minc Americanaidd anffrodorol sy'n ymledu.
- Pwrpas Prosiect Achub Ein Gwiwerod yw gwarchod gwiwerod coch rhag bygythiad gwiwerod llwyd.

2.5.12 Mae'r system dylunio yn ffordd o reoli rhywogaethau ymledol mewn cyd-destun datblygiad tir. Gellir defnyddio amodau cynllunio yn y cyd-destun hwn i atal rhywogaethau ymledol rhag sefydlu neu ymledu wrth wneud gwaith datblygu. Gall amodau o'r fath ofyn am Asesiad Risg Bioddiogelwch a chynlluniau monitro tymor hir er mwyn rheoli unrhyw ddigwyddiad posibl.

Peryglu Bioddiogelwch

- 2.5.13 Mae bioddiogelwch yn cyfeirio at fesurau sy'n ceisio atal organebau niweidiol (e.e. firysau, bacteria, ac ati) rhag sefydlu a/neu ledaenu i anifeiliaid a phlanhigion er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo clefyd heintus. Mae dau enghraifft yn berthnasol i fioddiogelwch ar yr Ynys ar hyn bryd, sef clefyd coed ynn (ADB) a Ffliw Adar. Mae'r clefydau'n peri risgiau sylweddol i iechyd a diogelwch pobl ac anifeiliaid a'r dirwedd. Mae ADB yn benodol yn peri bygythiad sylweddol i gynefin ac i'r rhywogaethau niferus o fflora a ffawna y gwyddom sy'n dibynnu ar goed ynn.
- 2.5.14 I ddechrau, roedd y Cyngor yn cyflogi Cydlynnydd ADB i fynd i'r afael ag effeithiau'r clefyd, ond mae'r swydd wedi'i ehangu i Reolwr Prosiect ADB, gyda chyfrifoldebau dros sicrhau y gall y sir wella o effeithiau'r clefyd.
- 2.5.15 Gall Ffliw Adar ledaenu i'r boblogaeth adar gwyllt a gwelwyd hyn mewn rhannau eraill o'r DU a'r effaith ddinistriol a gafodd. Pwysleisiodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru bod y fath achos yn cadarnhau'r angen i bawb sy'n cadw dofednod ac adar caeth eraill gadw at y lefelau uchaf o fioddiogelwch er mwyn atal y clefyd rhag lledaenu.

Adnoddau Staff

- 2.5.16 Profodd y Cyngor heriau wrth recriwtio ecolegydd cymwys addas ar ôl i'r Ymgynghorydd Ecolegol adael ei swydd ym mis Medi 2022 ac mae'n adlewyrchu heriau recriwtio sy'n gyffredin ar draws y rhanbarth a thu hwnt. Fel y cyfeirir isod mae'r angen i adnabod a chytuno ar adnoddau i arwain ar y Cynllun Biomrywiaeth o fewn y Cyngor, a chytuno ar drefniadau llywodraethu a rheoli mewnol.

3.0 Astudiaethau Achos

- 3.1 Mae'r Cyngor wedi cynnal nifer o brosiectau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a gwella cynefinoedd dros y cyfnod 2019-23, ac mae rhai ohonynt wedi cael eu crybwyll yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Mae prosiectau o'r fath wedi cael eu hariannu'n bennaf, boed hynny'n rhannol neu'n gyfan gwbl, drwy grantiau a gafwyd o wahanol ffynonellau megis Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (Gwyrddio'r Ystâd Gyhoeddus), y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF) a grantiau'r Gronfa Adferiad Gwyrdd.
- 3.2 Mae prosiectau wedi amrywio o ran maint ac effaith gyda'r canlyniad disgwylidig ar gyfer bioamrywiaeth yn gymesur â maint y prosiect. Mae Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar brosiectau penodol a gynhaliwyd ac mae'r astudiaethau achos hyn yn cynnig cipolwg ar natur amrywiol y gwaith a wnaed i wella bioamrywiaeth dros wahanol safleoedd a gyda disgwyliadau â ffocws o ran cyflawni canlyniadau penodol.
- 3.3 Yn ogystal â chynnal prosiectau gan y Cyngor yn unig, mae'r Cyngor hefyd wedi cyfrannu at ddull aml-asiantaeth o fynd i'r afael â rhai prosiectau sy'n gysylltiedig

â bioamrywiaeth. Bydd yr astudiaethau achos yn Atodiad 1 yn rhoi blas o'r amrywiaeth o brosiectau a gynhaliwyd a'r canlyniadau disgwylidig mewn perthynas â gwella bioamrywiaeth.

4.0 Adroddiad Gweithredu

- 4.1 Nodwyd chwe amcan sy'n ymwneud â'r Cynllun Gweithredu Adferiad Natur yn y Cynllun Gweithredu o fewn y Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol ac mae diwedd y cyfnod adrodd yn amser priodol i asesu i ba raddau y cyflawnwyd nhw. Bydd y cynnydd a nodir yn sail ar gyfer adolygu'r Cynllun, yn gyfle i ddiweddarau amcanion presennol a gosod amcanion newydd a chysoni'r amcanion hynny i gynlluniau eraill a fabwysiadwyd gan y Cyngor, yn bennaf Cynllun y Cyngor, y Cynllun Tuag at Sero Net a chynlluniau gwasanaeth unigol.
- 4.2 Neilltuodd y Cynllun Bioamrywiaeth sawl cam ar gyfer pob un o'r chwe amcan a rhestrodd y rhain ar ffurf tabl gyda phob cam gweithredu wedi'i neilltuo i swyddog arweiniol a/neu Wasanaeth penodol. Roedd mesurau perfformiad a chanlyniadau disgwylidig hefyd ynghlwm wrth bob cam gweithredu. Yn hytrach nag adolygu pob cam gweithredu o fewn corff yr adroddiad, nodir yn Atodiad 2 o'r adroddiad y cynnydd a wnaed i gyflawni'r camau gweithredu a gweithio tuag at gyflawni'r amcanion cyffredinol. Pan nad yw disgwyliadau'n cael eu bodloni, gwneir argymhellion ynghylch sut y dylid ymdrin â'r rhain.
- 4.3 Yn gyffredinol, gall yr adroddiad hwn ddod i'r casgliad bod llawer o'r camau a restrir yn y Cynllun Gweithredu wedi cael eu cyflawni'n llawn neu'n rhannol gan gyfrannu tuag at gyflawni'r amcanion. Fodd bynnag, mae rhai camau allweddol yn parhau i gael sylw, ac mae'r rhain yn ffurfio rhan o'r argymhellion sydd i ddilyn.

5.0 (Casgliadau) Adolygu Dyletswydd Adran 6

- 5.1 Mae'r ddyletswydd Adran 6 yn gosod gofyniad penodol ar Awdurdodau Cyhoeddus i gynnal neu wella bioamrywiaeth i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Wrth wneud hynny, rhaid i Awdurdodau Cyhoeddus hefyd geisio 'hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'. Drwy fabwysiadu Cynllun Bioamrywiaeth mae'r Cyngor wedi cydnabod camau perthnasol a fydd yn cyfrannu tuag at gyflawni'r ddyletswydd.
- 5.2 Yn gyffredinol, ystyrir bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn hyn o beth i gynnal a gwella bioamrywiaeth drwy:
- a) Baratoi a mabwysiadu Cynllun Bioamrywiaeth sy'n gosod camau clir sy'n cynnig sail ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth;
 - b) Alinio'r Cynllun gyda chynlluniau/polisiâu eraill y Cyngor gan osgoi meysydd gwrthdaro posibl o ran bodloni amcanion a osodwyd e.e. Cynllun Sero Net;
 - c) Adnabod ffyrdd o newid arferion gweithio a fydd yn elwa bioamrywiaeth yn ogystal ag arwain at arbedion costau/effeithlonrwydd ar gyfer yr Awdurdod;

- d) Sefydlu cysylltiadau gweithio cryf gyda phartneriaid allanol a cheisio'r ffrydiau ariannu priodol (yn bennaf drwy'r PNL, ond hefyd drwy gydweithio ag asiantaethau eraill) er mwyn cyflwyno prosiectau a mentrau sy'n canolbwyntio ar gynnal neu wella bioamrywiaeth;
- e) Rheoli safleoedd natur lleol er mwyn datblygu bioamrywiaeth;
- f) Mynd i'r afael â rhywogaethau ymledol sy'n effeithio'n negyddol ar ein rhywogaethau brodorol;
- g) Adfer a/neu greu cynefin newydd fel ffordd o wella'r amrywiaeth o rywogaethau sy'n gallu byw mewn ardaloedd o'r fath;
- h) Lle bo'n bosibl, mynd i'r afael â bygythiadau i fioamrywiaeth leol;
- i) Gweithio gyda sefydliadau addysgiadol a diwylliannol i annog diddordeb mewn bioamrywiaeth a chodi ymwybyddiaeth o gael amgylchedd sydd â mwy o fioamrywiaeth;
- j) Annog gwirfoddoli o fewn mentrau sy'n seiliedig ar natur; a
- k) Sicrhau bod cynigion datblygu yn cynnig gwelliannau o ran bioamrywiaeth.

- 5.3 Dylid amcanu i ddatblygu ar y cryfderau hyn, gan sicrhau bod Dyletswydd Adran 6 yn cael ei chyflawni'n effeithiol gan y Cyngor .
- 5.4 Mae'r Cyngor wedi profi ei fod yn bartner cryf o ran cyflwyno amrywiaeth eang o brosiectau'n ymwneud â bioamrywiaeth. Mae hyn yn gosod meincnod ar gyfer cynnal perfformiad yn ogystal â chanolbwyntio ar yr amcan o gynnig buddion i fioamrywiaeth a mynd i'r afael ag effeithiau'r argyfwng natur a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 30 Mehefin 2021.
- 5.5 Mae diwedd y cyfnod adrodd cyntaf ar gyfer y Cynllun Bioamrywiaeth yn rhoi cyfle i adolygu cynnwys y Cynllun ac ystyried a yw'r camau a osodwyd ar y dechrau i fodloni'r chwe amcan NRAP yn dal yn berthnasol, a ellir cael gwared ar rai wrth eu cwblhau neu a oes angen newid camau er mwyn bodloni heriau sy'n newid, neu heriau newydd.

6.0 Argymhellion ar gyfer y dyfodol

- 6.1 Er bod y Cyngor o'r farn ei fod yn cyfrannu at ddyletswydd adran 6 yn eithaf, mae'n cydnabod fod sawl cam pellach a nodwyd yn y Cynllun Bioamrywiaeth angen eu bodloni. Mae'r rhain wedi'u nodi isod, a byddant yn cael eu hystyried yn flaenoriaethau y dylid ymdrin â nhw yn ystod y cyfnod yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylid nodi fod yr argymhellion isod yn gyson efo'r rhai a nodwyd yn ystod y cyfnod adrodd ddiwethaf.

Argymhelliad 1: Cryfhau capasiti, dealltwriaeth a pherchnogaeth o faterion Bioamrywiaeth

Cryfhau capasiti i ddelio â materion sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth o fewn y Cyngor, yn ogystal ag adnabod cyfleoedd i gydweithio (yn fewnol ac allanol) i sicrhau y gallwn ymgymryd â rhaglenni newydd a rhai presennol. Mae'r argymhelliad yma'n cefnogi Argymhelliad 3 sydd eisiau sicrhau gwell dealltwriaeth a pherchnogaeth ar draws Gwasanaethau'r Cyngor.

Rheswm: Angen sicrhau capasiti digonol er mwyn delio â materion yn ymwneud â bioamrywiaeth o fewn y gwasanaethau wrth ymgymryd â phrosiectau a mentrau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a fydd yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu dangos cynnydd wrth fynd i'r afael â'r ddyletswydd bioamrywiaeth, codi ymwybyddiaeth o'i gyfrifoldebau mewn perthynas â gwella bioamrywiaeth, a'i fuddion o safbwynt ymateb i newid hinsawdd a'r agenda sero net.

Argymhelliad 2: Strwythur Monitro Bioamrywiaeth ac Adrodd

Sefydlu strwythur adrodd ffurfiol o fewn pob Gwasanaeth ynghylch y camau i gynnal neu wella bioamrywiaeth, sy'n cyd-fynd efo Cynlluniau Darparu pob Gwasanaeth a'r aliniad efo Cynllun y Cyngor. Cynnig fod mesur ar Fioamrywiaeth yn cael ei gynnwys fel un o fesurau perfformiad yn y Sgorfwrdd Corfforaethol newydd.

Rheswm: Gall diffyg data sylfaenol, sy'n ein galluogi i fesur llwyddiant camau penodol, effeithio ar asesu cyfraniad y camau hynny tuag at wella bioamrywiaeth. Dylid cyflwyno'r data a gasglwyd i ffurfio'r adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Gwaith.

Argymhelliad 3: Sefydlu Grŵp Traws-wasanaeth i arwain ar faterion Bioamrywiaeth

Ffurio grŵp o swyddogion traws-wasanaeth i sicrhau bod y gwaith o gynnal neu wella bioamrywiaeth yn parhau'n ystyriaeth wrth ffurfio'r rhaglenni gwaith a'r gweithgareddau. Codi ymwybyddiaeth o'r Ddyletswydd ar lefel Penaethiaid Gwasanaeth a gofyn i bob Gwasanaeth ymrwymo ac adnabod swyddogion priodol i gyfrannu at gyfarfodydd grŵp rheolaidd. Ni fu cynnydd ar yr argymhelliad dan sylw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd materion capasiti, a chan fod Cynllun y Cyngor newydd bellach wedi ei fabwysiadu byddwn yn rhoi ystyriaeth i ba grwpiau presennol gall y grŵp dan sylw adrodd iddo/ alinio gydag, i osgoi dyblygu gwaith.

Rheswm: Bydd neilltuo adnoddau i arwain a chyfrannu at y gwaith yn hanfodol ar gyfer parhau i gyflawni Dyletswydd adran 6 yn effeithiol. Mae'n bwysig gweithio'n agos ar draws y Gwasanaethau i'r perwyl hwn.

Argymhelliad 4: Hyfforddiant

Cynnig hyfforddiant priodol ar faterion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth i reolwyr, swyddogion ac aelodau etholedig perthnasol. Cyfuno efo rhaglenni hyfforddiant perthnasol fel Newid Hinsawdd ble fod hynny'n bosibl.

Rheswm: Mae'n rhaid ymdrin â'r diffyg dealltwriaeth o Ddyletswydd Adran 6 er mwyn sicrhau bod gofynion y ddyletswydd yn cael eu rhoi ar waith ym mhob maes perthnasol.

Argymhelliad 5: Archwilio Bioamrywiaeth ac Adolygu Dogfennau Polisi

Gwneud archwiliad bioamrywiaeth o adeiladau a thirddaliadaeth y Cyngor, ac asesu cynlluniau corfforaethol/gwasanaeth a dogfennau polisi perthnasol i sefydlu graddfa'r ystyriaeth ar gyfer yr ymdriniaeth â bioamrywiaeth mewn perthynas â darparu elfennau gweithredol o'r Gwasanaeth. Bydd angen sicrhau'r aliniad rhwng y gwaith dan sylw â Cynlluniau AHNE a Chyrfan, Y Cynllun Datblygu newydd a Cynllun Tuag at Sero Net.

Rheswm: Deall yr amrywiaeth o fioamrywiaeth sydd o ddiddordeb sy'n bresennol ar ystâd y Cyngor, a darparu sylfaen data ar gyfer asesu effeithiolrwydd y camau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Bioamrywiaeth. Sicrhau bod dogfennau polisi perthnasol yn cynnwys cyfeiriad at y Ddyletswydd mewn perthynas â chynnal neu wella bioamrywiaeth.

Argymhelliad 6: Cydweithio

Ceisio cyfleoedd i gydweithio ag asiantaethau eraill er mwyn cyflwyno prosiectau mwy a all gynnig buddion eang i fioamrywiaeth.

Rheswm: Cyflwyno gwelliannau bioamrywiaeth ar raddfa fwy

Adroddiad Dyletswydd ar Fioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau

2023

Astudiaethau Achos

Astudiaeth Achos: Plannu a thirlunio	
Teitl y Prosiect:	Pencadlys Glas – gwella bioamrywiaeth ar dir swyddfa'r Cyngor
Cyfnod y Prosiect:	Haf/Hydref
Arweinydd y Prosiect /Gweithgaredd:	Cyngor Sir Ynys Môn
Ffynhonnell Gyllido:	Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LILLaN) - Glasu'r Stad Gyhoeddus
Dyranid Grant:	£25,000
<p>Pwrpas y prosiect oedd cyflwyno mesurau i wella bioamrywiaeth ar dir o amgylch prif Swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn a'r llyfrgell yn Llangefni.</p> <p>Er bod nifer sylweddol o goed yn yr ardal hon lle cynhelir amrywiaeth o rywogaethau, yn blanhigion a chreaduriaid, braidd yn dameidiog oeddynt a'r teimlad oedd y gellid gwella'r sefyllfa i greu cynefin gwell, cyfoethocach ar gyfer bioamrywiaeth. Ystyriwyd bod troi ardaloedd o'r glaswelltir yn ddolydd blodau gwyllt yn arbennig o bwysig i gynnal pryfed peillio. Gallai rhywogaethau nodedig a ystyriwyd ac a welwyd ar y safle elwa yn sgil gwaith gwella'r cynefin; yn eu plith glas y dorlan, y wiwer goch a'r dyfrgi.</p> <p>PRIF AMCANION</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwella ardaloedd o gynefin trwy gynyddu nifer y coed, gwella gwrychoedd sydd eisoes yno a phlannu rhai newydd i leihau'r mannau tameidiog. • Plannu rhywogaethau brodorol sydd fwyaf buddiol i fywyd gwyllt. Bydd hyn yn sicrhau bwyd a lloches trwy gydol y flwyddyn. • Sicrhau bod y gwaith yn ddymunol i'r llygad ac yn hawdd cael ato. Dengys tystiolaeth y gall amgylchedd ffyniannus, llawn bywyd gwyllt fod o fudd i iechyd corfforol a meddyliol pobl <p>Ardal 1 Plannu pedair coeden (1.75 - 2 fetr) sy'n tyfu'n gymharol fach (megis coed bedw, crafal neu grabas) ar y llethr serth y tu ôl i brif adeilad swyddfa'r cyngor i gydymffurfio â choed sy'n cael eu plannu ar gloddiau glaswelltrog, serth eraill yn y cyffiniau. Bydd rhes o gwyrwail coch (40 o blanhigion) hefyd yn cael eu plannu i greu gwrych newydd i gyd-fynd â gwrychoedd sydd eisoes yn yr ardal.</p> <p>Ardal 2 Plannu 50m² o dywyrch blodau gwyllt ar dir moel a phlannu chwe choeden (1.75 -2 metr).</p> <p>Ardal 3 Plannu tua thair (1.75 - 2 fetr) coeden sy'n tyfu'n gymharol fach, megis coed bedw, crafal neu grabas ar y glaswellt ar hyd ochr y ffordd, gan sicrhau na fydd y coed, wrth gael eu plannu, yn atal traffig sy'n defnyddio meysydd parcio'r cyngor rhag gweld. Mae'n bosib, hefyd, blannu tair coeden arall ar yr ymyl laswelltrog gyfagos.</p>	

Ardal 4

Llenwi bylchau yn y gwrychoedd cwyrwial coch sydd eisoes yno drwy blannu tua 20 o blanhigion (60cm). Plannu rhagor o wrychoedd cwyrwial coch neu wrychoedd tebyg (30 o blanhigion) ar ddwy ochr y ffens, lle mae'r generadur.

Ardal 5

Llenwi bylchau yn y gwrychoedd ffawydd trwy blannu tua 20 o blanhigion (60cm). Plannu deg coeden (1.75 – 2 fetr) ar y boncen laswelltog o flaen gwrych ffawydd ac ar yr ymyl laswelltog y tu ôl i wrych ffawydd. Plannu llecynnau o flodau gwyllt (30m²) ar fannau glaswelltog ger mynedfa swyddfeydd y cyngor.

Ardal 6

Plannu 220m² o dywyrch blodau gwyllt rhwng y gwrychoedd ger prif adeilad swyddfa'r Cyngor.

Ardal 7

Plannu 50m² o dywyrch blodau gwyllt ger y bont yn y maes parcio.

Ardal 8

Plannu 800m² o dywyrch blodau gwyllt a phlannu 30 o goed (1.75-2 metr) o rywogaethau brodorol cymysg ar y glaswellt rhwng y llyfrgell a swyddfeydd y cyngor. Bydd yn rhaid gwasgaru'r coed yn eang er mwyn cynnal arddull "parcdir" agored. Plannu 30 metr o goed cyll (40 planhigion) i greu gwrych yn erbyn ffens y llyfrgell.

Ardal 9

Plannu 120m² o dywyrch blodau gwyllt o amgylch mynedfa'r llyfrgell ac ar laswellt uchel i lawr ochr yr adeilad ger y ffordd.

Manylion cynhyrchion / rhywogaethau i'w defnyddio yn y prosiect.

TYWYRCH BLODAU GWYLLT – TIRLUN CYMYSGEDD O 34

- Mae tywyrch yn cynnwys 34 o flodau gwyllt a gweiriau brodorol y DU, o leiaf 75% yn flodau gwyllt.
- Yn addas ar gyfer amrywiaeth o fathau pridd.
- Pob cais tirlunio o 30m² i 10,000m².
- Yn gallu goddef cysgod a sychder.
- Dim angen llawer o waith cynnal a chadw – un i ddau doriad y flwyddyn.

Ymhlith y rhywogaeth fwyaf toreithiog yn y cymysgedd mae:

Enw Cyffredin	Enw Gwyddonol
Peradyl yr Hydref	<i>Scorzoneroides autumnalis</i>
Cribau San Ffraid	<i>Stachys officinalis</i>
Pysen y Ceirw	<i>Lotus corniculatus</i>
Llyisiau'r Poer	<i>Silene vulgaris</i>
Melynydd	<i>Hypochaeris radicata</i>
Cramenog	<i>Centaurea nigra</i>
Suran	<i>Rumex acetosa</i>
Ffacbysen faethol	<i>Vicia sativa ssp. segetalis</i>
Llin y Llyfant	<i>Linaria vulgaris</i>

COED MAWR A DYFIR MEWN POTIAU (175-200CM)

- Yr holl rywogaethau brodorol
- Bydd y maint mwy yn cael effaith uniongyrchol ar y safle

Ymhlith y rhywogaethau i'w hystyried (os ydynt ar gael) mae:

Enw Cyffredin	Enw Gwyddonol
Derwen ddigoes	<i>Quercus petrea</i>
Gwernen	<i>Alnus glutinosa</i>
Celynnen	<i>Ilex aquifolium</i>
Bedwen Arian	<i>Betula pendula</i>
Criafolen	<i>Sorbus acuparia</i>
Criafolen wen	<i>Sorbus aria</i>
Surianen ddu	<i>Prunus avium</i>
Pisgwydden deilen fach	<i>Tilia cordata</i>
Ywen	<i>Taxus baccata</i>
Pinwydden	<i>Pinus sylvestris</i>
Masarnen Fach	<i>Acer campestre</i>

COED LLAI A DYFIR MEWN CELLOEDD (60CM)

- Yr holl rywogaethau brodorol
- Bydd y rhai llai yn cael eu defnyddio i gau i mewn yn bennaf

Ymhlith y rhywogaethau i'w hystyried (os ydynt ar gael) mae:

Enw Cyffredin	Enw Gwyddonol
Collen	<i>Corylus avellana</i>
Cwyrwialen goch	<i>Cornus alba</i>
Ffawydden	<i>Fagus sylvatica</i>

Canlyniadau a gwaith rheoli yn y dyfodol

Rhoddwyd y cynllun ar waith ym mis Medi 2019. Methodd un goeden a bydd yn rhaid cael un arall yn ei lle er nad yw ei lleoliad yn cael effaith ar brif ran y cynllun, sef o amgylch prif faes parcio'r swyddfa. Mae'r planhigion a ddefnyddiwyd i gau'r bylchau yn y gwrych cwyrwial coch i gyd wedi cymryd a byddant yn cyflawni eu pwrpas yn weddol brydlon.

Eginodd y dolydd blodau gwyllt yn llwyddiannus ac maent wedi esgor ar olygfeydd trawiadol o flodau gwyllt dros y ddau haf diwethaf, gan sicrhau golygfa ddeniadol i'r rhai sy'n dod i mewn i safle'r cyngor. Y bwriad yw cynyddu'r arwynebedd lle plennir blodau gwyllt ar dir ger y Llyfrgell Gyhoeddus. Mae'r ardal hon yn cynnwys tir ar lethr serth ac arno laswellt wedi'i dorri. Bydd llwybrau, lle bydd y gwair wedi'i dorri, ar hyd y llecynnau o flodau gwyllt ac yn ei wneud yn amgylchedd dymunol i'r cyhoedd ac aelodau'r staff gerdded drwyddo. Y bwriad, hefyd, yw gosod meinciau/byrddau picnic yn yr ardal hon fel bod modd i aelodau'r staff gymryd eu hegwyl mewn amgylchedd dymunol, yn enwedig yn ystod y gwanwyn a'r haf.

Astudiaeth Achos: Rheoli Ymylon	
Teitl y Prosiect:	Polisi Torri Ymylon Ffyrdd
Cyfnod y Prosiect:	Parhaus
Arweinydd y Prosiect /Gweithgaredd:	Cyngor Sir Ynys Môn (Gwasanaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff)
Ffynhonnell Gyllido:	Cyllideb y gwasanaeth
Dyranid Grant:	Amherthnasol
<p>Mae polisi torri gwair presennol y Cyngor yn nodi bod ymylon ffyrdd Dosbarth I a II yn cael eu torri deirgwaith yn ystod y tymor tra bod ymylon ffyrdd Dosbarth III a ffyrdd di-ddosbarth yn cael eu torri ddwywaith. Mae nifer y toriadau ar ffyrdd gwledig wedi gostwng ers 2010 o ganlyniad i gyfyngiadau cyllidebol ond, hefyd, gyda golwg ar annog blodau gwyllt i dyfu a sefydlu cynefin hanfodol i fywyd gwyllt ar rwydwaith ffyrdd yr Ynys.</p> <p>Caiff ymylon ffyrdd eu torri'n bennaf er mwyn diogelu defnyddwyr y ffyrdd. Heb waith rheoli a chynnal a chadw gofalus, byddai ymylon yn gordyfu a mieri a phrysglwyni'n cymryd drosodd a byddai eu gwerth bioamrywiaeth yn lleihau o'r herwydd. Mae rheoli ymylon ffyrdd gwledig yn rheolaidd yn helpu i gynyddu amrywiaeth rhywogaethau ac yn atal rhywogaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, megis gweiriau, rhag "mygu" blodau gwyllt.</p> <p>Mae ymylon ffyrdd Dosbarth III a IV yn cael eu torri ddwywaith y flwyddyn gyda'r toriad cyntaf, fel arfer, yn dechrau ar ddechrau'r haf gyda'r ail doriad yn cael ei wneud yn gynnar yn yr hydref. Yn ystod y ddau gylch, dim ond llain 1m sy'n cael ei dorri ar bob ffordd o'r fath, yn enwedig ar briffyrdd lle ceir cyfoeth o rywogaethau.</p> <p>Nid oes llawer o werth cynefin i'r metr cyntaf yn ôl o ymyl y ffordd gerbydau o ystyried pa mor agos ydynt at y ffyrdd y mae cerbydau'n teithio arnynt. Mae'r trydydd cylch yn doriad llawn ac yn digwydd ar ddiwedd cylch bywyd y blodau a phan fyddant wedi gosod eu had. O'r herwydd, mae golygfeydd trawiadol o flodau gwyllt i'w gweld ar y rwydwaith priffyrdd ac mae'r rhain yn ffynhonnell gyfoethog o baill a neithdar i bryfed peillio drwy gydol misoedd y gwanwyn a'r haf.</p> <p>Nid yn unig y mae'r rhaglen dau doriad yn ffrwyno twf glaswellt ac yn ailgyflenwi banc hadau'r blodau gwyllt, mae, hefyd, yn gwella diogelwch defnyddwyr ffyrdd, yn lleihau'r baich rheoli dros amser ac yn arbed arian.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (yr Ymddiriedolaeth) mewn perthynas â'r gwaith hwn ac wedi llunio cynllun penodol sy'n gwarchod bywyd gwyllt mewn ardaloedd penodol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn llwyr gefnogi polisi presennol y Cyngor o dorri glaswellt ymylon priffyrdd. Yn ogystal, mae'r awdurdod wedi bod yn cydweithio â'r Ymddiriedolaeth ers nifer o flynyddoedd i reoli 20 o lecynnau unigol o ymyl ffyrdd, yn benodol ar gyfer bywyd gwyllt. Mae'r safleoedd dan sylw wedi eu marcio ar y briffordd gyda thriongl gwyn ac, ar rai ymylon, mae'r glaswellt sy'n cael ei dorri'n cael ei symud o'r safle yn ystod y gaeaf er mwyn atal blodau gwyllt rhag gwasgaru yn y tymor dilynol.</p> <p>Amcangyfrifir bod gweithredu'r polisi wedi sicrhau arbedion o tua £7,000 y flwyddyn.</p>	
Canlyniadau a gwaith rheoli yn y dyfodol	Yn sgil gweithredu'r polisi hwn gwelwyd yn sicr gynnydd mewn blodau gwyllt ar ymylon priffyrdd ac mae hyn wedi bod yn allweddol yn nhwf cynefinoedd bywyd gwyllt, yn enwedig i beillwyr. Mae'n bolisi sydd wedi llwyddo i gyflawni ei ganlyniadau arfaethedig, nid yn

	unig o ran cyflawni arbedion cost/effeithlonrwydd ond, hefyd, o ran gwella'r amodau i fioamrywiaeth ffynnu.
--	---

Astudiaeth Achos: Creu/Adfer Cynefin	
Teitl y Prosiect:	Adfer Cynefin Clegir Mawr
Cyfnod y Prosiect:	Haf 2021 gyda gwaith rheoli ac ôl-ofal parhaus
Arweinydd y Prosiect /Gweithgaredd:	Cydweithrediad y Cyngor (Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Chynllunio) a Chyfoeth Naturiol Cymru
Ffynhonnell Gyllido:	Cronfa Her Prosiect y Tirlun a Natur (Clegir Mawr)
Dyranid Grant:	£167,000 yn ogystal â £32,050 ychwanegol ar gyfer gwaith gwella
